# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 12/03/2014

Cynnwys Contents


[Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Questions to the Minister for Natural Resources and Food]

[Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio
Questions to the Minister for Housing and Regeneration]

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Gwasanaethau Bws
Welsh Conservatives Debate: Bus Services]

[Dadl Plaid Cymru: Yr Iaith Gymraeg
Plaid Cymru Debate: The Welsh Language]

[Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Trafnidiaeth Gyhoeddus
Welsh Liberal Democrats Debate: Public Transport]

[Cyfnod Pleidleisio
Voting Time]

[Dadl Fer: Adeiladwch Hi ac Mi Ddôn Nhw?
Short Debate: Build It and They Will Come?]


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

### Y Llywydd / The Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd

## Questions to the Minister for Natural Resources and Food

### Rhaglenni Effeithlonrwydd Ynni

### Energy Efficiency Programmes

13:30

### Leighton Andrews

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. Faint o swyddi sydd wedi cael eu creu gan raglenni effeithlonrwydd ynni Llywodraeth Cymru fel Arbed? OAQ(4)0126(NRF)*

*1. How many jobs have been created by Welsh Government energy efficiency programmes such as Arbed? OAQ(4)0126(NRF)*

13:30

### Alun Davies

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

The Welsh Government's energy efficiency programme, which includes Arbed, has created over 400 jobs since 2012.

Mae rhaglen effeithlonrwydd ynni Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys Arbed, wedi creu dros 400 o swyddi ers 2012.

13:30

### Leighton Andrews

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I think that that is very good news. It shows that that scheme, over the years since it was introduced, has been of major importance to the economy of south Wales, including the Valleys. I have seen the impact of it in my own constituency. We also have initiatives such as the British Gas Green Skills Centre in your own constituency, in Tredegar. Will you consider looking at the possibility, with your colleague, the Deputy Minister for Skills and Technology, of holding a summit on green business skills in Wales?

Weinidog, credaf fod hynny'n newyddion da iawn. Mae'n dangos bod y cynllun hwnnw, dros y blynyddoedd ers ei gyflwyno, wedi bod o bwys mawr i economi de Cymru, gan gynnwys y Cymoedd. Gwelais ei heffaith yn fy etholaeth fy hun. Mae gennym fentrau hefyd fel Canolfan Sgiliau Gwyrdd Nwy Prydain yn eich etholaeth chithau, yn Nhredegar. A wnewch chi ystyried ymchwilio i'r posibilrwydd, gyda'ch cyd-Weinidog, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, o gynnal uwchgynhadledd ar sgiliau busnes gwyrdd yng Nghymru?

13:31 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

I very much welcome the suggestion made by my very good friend, the Member for the Rhondda. As the Minister for regeneration, of course, he in many ways pioneered this work, in terms of his low-carbon ideas and concepts for the Heads of the Valleys region. May I say this? I would certainly be very happy to take forward that suggestion; it is something that this Government is committed to. We have already made a number of statements on how we see green growth powering the economy in the future, and, certainly, a summit on green skills would contribute towards that.

Croesawaf yn fawr yr awgrym a wnaed gan fy nghyfaill da iawn, yr Aelod dros y Rhondda. Fel y Gweinidog adfywio, wrth gwrs, ef mewn sawl ffordd a ddechreuodd y gwaith hwn, o ran ei syniadau carbon isel a'i gysyniadau ar gyfer rhanbarth Blaenau'r Cymoedd. A gaf fi ddweud hyn? Byddwn yn sicr yn fwy na pharod i fwrw ymlaen â'r awgrym hwnnw; mae'n rhywbeth y mae'r Llywodraeth hon yn ymrwymedig iddo. Rydym eisoes wedi gwneud nifer o ddatganiadau ynghylch ein gobeithion mai twf gwyrdd fydd yn llywio'r economi yn y dyfodol, ac, yn sicr, byddai uwchgynhadledd ar sgiliau gwyrdd yn cyfrannu at hynny.

Senedd.tv Fideo Video

13:32 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

I understand that, to deliver energy efficiency, and to help tackle fuel poverty, the Arbed 2 scheme is currently working in areas identified by the Welsh Government in Conwy, Denbighshire, Flintshire and Gwynedd. What support has the Welsh Government given to local companies to acquire the accreditation levels needed to deliver energy efficiency, such as the micro-generation accreditation scheme, the Green Deal, and eco accreditation schemes?

Er mwyn cyflawni effeithlonrwydd ynni, ac er mwyn helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, deallaf fod cynllun Arbed 2 wrthi'n gweithio ar hyn o bryd yn yr ardaloedd a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yng Nghonwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Gwynedd. Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi i gwmnïau lleol i gyrraedd y lefelau achredu sydd eu hangen i gyflawni effeithlonrwydd ynni, megis y cynllun achredu micro-gynhyrchu, y Fargen Werdd a chynlluniau eco-achredu?

Senedd.tv Fideo Video

13:32 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

I think that one of the great successes of the energy efficiency schemes—and the Member does make some very good points, because we do need now to look afresh at these schemes and at how we are going to develop them into the future and that is work that I have already embarked upon. However, the Member does make a very good point. I think that one of the great successes of these programmes is that they are being delivered by local businesses and local companies and are creating local work and ensuring that the profits that are made stay in the local community, so that we maximise the benefit not only to the people who see a benefit in terms of energy efficiency, but to communities as a whole. I very much endorse the approach proposed by the Member.

Credaf mai un o lwyddiannau mawr y cynlluniau effeithlonrwydd ynni—a gwna'r Aelod rai pwyntiau da iawn, oherwydd mae angen inni yn awr edrych o'r newydd ar y cynlluniau hyn ac ar sut y dylid eu datblygu yn y dyfodol ac mae hynny'n waith yr wyf wedi cychwyn arno eisoes. Fodd bynnag, gwna'r Aelod bwynt da iawn. Credaf mai un o lwyddiannau mawr y rhaglenni hyn yw eu bod yn cael eu cyflwyno gan fusnesau lleol a chwmnïau lleol a'u bod yn creu gwaith lleol ac yn sicrhau bod yr elw a wneir yn aros yn y gymuned leol, er mwyn inni sicrhau'r budd gorau posibl, nid yn unig i'r bobl sy'n cael budd mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni, ond i gymunedau cyfan. Rwy'n gadarn o blaid y dull a gynigir gan yr Aelod.

Senedd.tv Fideo Video

13:33 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call Plaid Cymru spokesperson, Llyr Gruffydd.

Galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Llyr Gruffydd.

Senedd.tv Fideo Video

13:33 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Wrth gwrs, rydym i gyd yn croesawu'r ffaith bod rhaglen Arbed, a gychwynnodd o dan Lywodraeth Cymru'n Un, yn creu swyddi, ond hefyd yn gwneud cyfraniad positif tuag at newid hinsawdd a hefyd at daclo tlodi tanwydd, sef y triple bottom line hwn o'r economaidd, yr amgylcheddol a'r cymdeithasol. Felly, yn amlwg, bydden ni'n awyddus i weld Llywodraeth Cymru'n troi pob carreg er mwyn tyfu'r rhaglen a sicrhau bod mwy a mwy o gartrefi yn cael y budd hwnnw. A gaf ofyn felly, pa gynlluniau sydd gennych o bosibl i ddefnyddio pwerau benthyg yn y dyfodol ar gyfer efallai uwchraddio rhaglenni fel Arbed?

Of course, we all welcome the fact that the Arbed programme, established under the One Wales Government, is creating jobs, but also making a positive contribution to the fight against climate change and also to tackling fuel poverty, that is, this triple bottom line of the economic, the social, and the environmental. Therefore, obviously, we would be eager to see the Welsh Government turn over every stone in order to develop the programme and ensure that more and more homes benefit from it. May I ask you, therefore, what plans you have to perhaps use borrowing powers in future for upgrading programmes such as Arbed?

Senedd.tv Fideo Video

13:33 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n cytuno eto â'r pwyntiau y mae'r Aelod wedi eu gwneud. Pan ydym yn ystyried gwerth Arbed, rwy'n cytuno ei bod yn help i ni gyrraedd sawl amcan ar yr un pryd, ac mae'r llwyddiant wedi bod oherwydd ei fod wedi gwneud hynny'n llwyddiannus yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni yn awr ystyried ble rydym ni, beth yw llwyddiannau Arbed, sut ydym eisiau adnewyddu Arbed ar gyfer y dyfodol, beth yw'r berthynas rhwng Arbed a Nyth, a sut yr ydym yn sicrhau, pan ydym yn cael rhaglenni Ewropeaidd newydd, ein bod yn plygu'r rhain mewn i'r rhaglenni newydd, a sichrau ein bod yn dysgu gwersi ac yn symud ymlaen. Felly, rwy'n mynd i ddechrau'r gwaith hwn, ac mae'r gwaith hwn wedi dechrau'n barod.

I agree once again with the points that the Member has made. When we consider the value of Arbed, I agree that it helps us to achieve a number of objectives at the same time, and it has been a success because it has succeeded in doing so over the past few years. However, now we have to consider where we are now, what the successes of Arbed are, how we wish to renew it for the future, what the relationship is between Arbed and Nest, and how we ensure, when we get new European programmes, that we integrate these into the new programmes, and ensure that we learn lessons and move forward. So, I will be starting on this work, and this work has already begun.

13:34 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am hynny. Wrth gwrs, fel rhan o unrhyw bolisi ynni, y man cychwyn, am a wn i, yw lleihau'r defnydd o ynni sy'n cael ei wneud yn y lle cyntaf, wrth i ni edrych at efallai ddiwallu ein hanghenion ni. Nawr, mae un elfen efallai, pan mae'n dod i raglen fel Arbed, lle rydym yn gwneud y gwaith hwnnw mewn cartrefi, ond wedyn nid yw wastad yn arwain at lai o ddefnydd ynni, oherwydd bod pobl yn byw mewn cartrefi cynhesach ond nid ydynt o reidrwydd yn troi'r thermostat i lawr. A gaf ofyn, felly, pa asesiadau y mae'r Llywodraeth wedi eu gwneud o wir 'impact' y rhaglen yn yr ystyr hwnnw, a pha ystyriaeth rydych chi wedi ei roi hefyd i osod pethau fel thermostatau penodol sydd yn torri allan ar dymheredd arbennig fel rhan o'r rhaglen?

Thank you for that. Of course, as part of any energy policy, the starting point is to reduce usage in the first place, as we look towards perhaps meeting our own needs. Now, there is one element, when it comes to a programme such as Arbed, where we are doing that work in homes, but it does not always lead to reduced energy usage, because people are living in homes that are warmer, but do not necessarily turn the thermostat down. May I ask you, therefore, what assessment the Government has undertaken of the real impact of the programme in that regard, and what consideration have you given to perhaps installing such things as thermostats that will cut out at a particular temperature as part of that programme?

13:35 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fe wnes i gyhoeddi asesiadau cyn y Nadolig fel ymateb i gwestiwn a ofynnodd eich ffrind, yr Aelod dros Dde-Ddwyrain Cymru, Jocelyn Davies. Os ydych eisiau ychwanegiad at hynny, byddwn yn hapus iawn i ysgrifennu atoch. Fodd bynnag, mae'r pwynt am ddefnydd technoleg newydd yn un hynod o bwysig. Pan ddown i adnewyddu'r prosiectau a'r rhaglenni hyn, byddaf yn pwysleisio sut y cawn rhaglenni newydd sy'n sicrhau ein bod yn macsimeiddio potensial y dechnoleg sydd ar gael i ni—technoleg sy'n cysylltu pobl a thechnoleg sy'n rheoli defnydd tanwydd yn y tŷ. Felly, bydd y prosiectau a'r rhaglenni newydd yn rhai cwbl newydd.

I published the assessments before Christmas in response to a question that your colleague, the Member for South East Wales, Jocelyn Davies, asked. If you wish me to add to that, I would be very happy to write to you. However, the point about the use of new technology is extremely important. When we come to renew these projects and programmes, I will emphasise how we should secure new schemes that ensure that we maximise the potential of the technology available to us—technology that connects people and technology that controls the use of fuel in the house. So, there will be brand-new projects and programmes.

## Prosiectau Ynni Adnewyddadwy

## Renewable Energy Projects

13:36 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i annog prosiectau ynni adnewyddadwy newydd? OAQ(4)0122(NRF)*

*2. What plans does the Minister have to encourage new renewable energy projects? OAQ(4)0122(NRF)*

13:36 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

'Energy Wales: A Low Carbon Transition' sets out what we are doing to encourage renewable energy projects. We are working in partnership with business and removing barriers to investment. Further details will be outlined in the energy Wales delivery plan, which is to be published later this week.

Mae 'Ynni Cymru: Newid Carbon Isel' yn nodi'r hyn yr ydym yn ei wneud i annog prosiectau ynni adnewyddadwy. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â busnes ac yn cael gwared ar ffactorau sy'n atal buddsoddiad. Amlinellir manylion pellach yng nghynllun cyflawni Ynni Cymru, a gyhoeddir yn ddiweddarach yr wythnos hon.

13:36 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for his response. As part of Cardiff Council's aim and vision to be one planet Cardiff, there is a plan to start the first hydropower scheme in Cardiff, based at Radyr weir in Llandaff North ward. Will he congratulate Cardiff Council on its foresight in taking this forward and what can he do to increase the number of projects like this developed by local authorities?

Diolch i'r Gweinidog am ei ymateb. Fel rhan o nod a gweledigaeth Cyngor Caerdydd i fod yn Gaerdydd un blaned, bwriedir dechrau'r cynllun ynni dŵr cyntaf yng Nghaerdydd, yng nghored Radur yn ward Ystum Taf. A wnaiff longyfarch Cyngor Caerdydd ar ei ragwelediad i roi'r cynllun hwn ar waith a beth y gall ei wneud i gynyddu nifer y prosiectau tebyg a gaiff eu datblygu gan awdurdodau lleol?

13:37 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will join the Member for Cardiff North in welcoming the commitment from Cardiff Council. I think it has been tremendous and one of the great successes of the new authority and new administration in Cardiff has been the energy and creativity with which it has addressed the whole issue of energy both in terms of generation and efficiency and in terms of addressing issues around fuel poverty. I very much welcome the work that is going on in Radyr weir to bring this hydropower scheme to fruition. I hope that local authorities across Wales will work closely with Natural Resources Wales and will follow the example of Cardiff Council in developing and proactively searching for opportunities to ensure that local and community generation becomes a part of the life of people across Wales.

Hoffwn ymuno â'r Aelod dros Ogledd Caerdydd i groesawu ymrwymiad Cyngor Caerdydd. Credaf ei fod yn esiampl eithriadol ac un o lwyddiannau pennaf yr awdurdod newydd a'r weinyddiaeth newydd yng Nghaerdydd fu'r egni a'r creadigrwydd a ddaeth i'r amlwg wrth iddo ymdrin ag ynni yn gyffredinol o ran cynhyrchu ac effeithiolonrwydd ac o ran ymdrin â thlodi tanwydd. Croesawaf y gwaith sy'n mynd rhagddo yng nghored Radur i roi'r cynllun pŵer dŵr hwn ar waith yn fawr. Gobeithio y bydd awdurdodau lleol ledled Cymru yn gweithio'n agos â Cyfoeth Naturiol Cymru ac y byddant yn dilyn esiampl Cyngor Caerdydd wrth ddatblygu a bwrw ati i chwilio am gyfleoedd i sicrhau y daw dulliau cynhyrchu lleol a chymunedol yn rhan o fywyd pobl ledled Cymru.

13:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the opposition spokesperson, Russell George.

Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Russell George.

13:37 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Minister, one of the barriers to the growth of community energy projects is the acquisition of appropriate funding to implement those projects. May I ask what the Government is doing to explore new funding models beyond public finance so that communities can access more sources of finance?

Diolch, Lywydd. Weinidog, un o'r ffactorau sy'n atal twf prosiectau ynni cymunedol yw'r gallu i gael gafael ar gyllid priodol i roi'r prosiectau hynny ar waith. A gaf ofyn beth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i ystyried modelau cyllido newydd yn ychwanegol at gyllid cyhoeddus er mwyn sicrhau y gall cymunedau fanteisio ar fwy o ffynonellau cyllid?

13:38 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member does address a significant problem that is faced by communities, individuals and businesses across Wales. One of the issues that I have already said I want to address as part of the rural development plan is how we ensure that distributed generation and local community generation becomes the norm and not the exception. A part of that, of course, will be ensuring that there is private investment. That cannot be delivered entirely and completely by public bodies and public authorities. I will be making further announcements on how I intend to make this a reality later in the year.

Mae'r Aelod yn cyfeirio at broblem sylweddol a wynebir gan gymunedau, unigolion a busnesau ledled Cymru. Un o'r materion y dywedais eisoes fy mod yn awyddus i ymdrin ag ef fel rhan o'r cynllun datblygu gwledig yw sut y gallwn sicrhau y daw dulliau cynhyrchu gwasgaredig a chynhyrchu cymunedol lleol yn norm yn hytrach nag eithriad. Rhan o hynny, wrth gwrs, fydd sicrhau y ceir buddsoddiad preifat. Ni all cyrff cyhoeddus ac awdurdodau cyhoeddus gyflawni hynny'n llwyr ar eu pen eu hunain. Byddaf yn gwneud cyhoeddiadau pellach ynghylch sut rwy'n bwriadu gwireddu hyn yn ddiweddarach eleni.

13:38 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your answer, Minister. The Department of Energy and Climate Change published its community energy strategy in January and it was clear that the Welsh Government had input into that. So, may I ask whether the Welsh Government intends to develop its own community energy strategy, or will it be drawing on best practice schemes and initiatives from that strategy?

Diolch am eich ateb, Weinidog. Cyhoeddodd yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd ei strategaeth ynni cymunedol ym mis Ionawr ac roedd yn amlwg bod Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu at y broses. Felly, a gaf ofyn pa un a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu ei strategaeth ynni cymunedol ei hun, neu a fydd yn defnyddio'r cynlluniau a'r mentrau arfer gorau a fydd yn deillio o'r strategaeth honno?

13:39 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Well, we developed our own community strategy four years ago—it is called 'Ynni'r Fro' and I think it is fair to say that the UK Government drew on our strategy rather than the other way around.

Wel, gwnaethom ddatblygu ein strategaeth gymunedol ein hunain bedair blynedd yn ôl—enw'r strategaeth yw 'Ynni'r Fro' a chredaf ei bod yn deg dweud mai Llywodraeth y DU a ddefnyddiodd ein strategaeth ni yn hytrach nag i'r gwrthwyneb.

Senedd.tv Fideo Video

13:39 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Mae Plaid Cymru wedi gosod targed o gynhyrchu'r hyn sy'n cyfateb i 100% o'r trydan rydym yn ei ddefnyddio yng Nghymru o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2035. A allwn edrych ymlaen i Lywodraeth Cymru yn gosod targed cyffelyb yn y dyfodol?

Plaid Cymru has set a target of producing what amounts to 100% of the electricity that we use in Wales from renewable sources by 2035. Can we look forward to the Welsh Government setting a similar target in future?

Senedd.tv Fideo Video

13:39 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Unwaith y bydd gyda ni'r math o bŵer a fydd yn ein galluogi i ddelifro nhw, rwy'n siŵr mai dyna yr union math o gyfeiriad y byddem eisiau mynd iddo. Fodd bynnag, rydych yn gwybod ac rwyf i'n gwybod ac mae pawb yng Nghymru yn gwybod ei bod yn gwbl ddi-bwynt gosod targed os nad ydych yn gallu delifro arno fe.

Once we have the kind of the power that will enable us to deliver that, I am sure that that is exactly the direction we would wish to take. However, you know and we know and everybody in Wales knows that it is completely ridiculous to set a target if you cannot deliver on it.

Senedd.tv Fideo Video

## Y Cynllun Datblygu Gwledig

## The Rural Development Plan

13:39 **Russell George** Bywgraffiad Biography

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Gynllun Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0130(NRF)*

*3. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's Rural Development Plan? OAQ(4)0130(NRF)*

Senedd.tv Fideo Video

13:39 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

On 17 February, I launched my consultation on final proposals for the Wales rural development programme 2014-20, which will be the biggest and most ambitious RDP in our history. This is part of my plans for reform and builds on earlier feedback from stakeholders. I will be in a position to make a further statement after the consultation closes.

Ar 17 Chwefror, lansiais fy ymgynghoriad ar gynigion terfynol ar gyfer rhaglen datblygu gwledig Cymru 2014-20, sef y Cynllun Datblygu Gwledig mwyaf a mwyaf uchelgeisiol yn ein hanes. Mae hyn yn rhan o'm cynlluniau diwygio ac mae'n seiliedig ar adborth cynharach gan randdeiliaid. Byddaf mewn sefyllfa i wneud datganiad pellach ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

Senedd.tv Fideo Video

13:40 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Thank you for your answer, Minister. Given the focus on long-term business resilience in the RDP, there are concerns in the agricultural sector that your RDP plans are full of strategic statements and light on the detailed information that businesses require to make key, long-term business decisions. You say that much of the transfer of funds from pillar 1 to pillar 2 will find its way back into farmers' pockets. In that case, why is that, in England, 82% of pillar 2 funding been earmarked for agri-environment schemes, but, in Wales, only 60%?

Diolch am eich ateb, Weinidog. O ystyried y ffocws ar wydnwch busnes hirdymor yn y Cynllun Datblygu Gwledig, mae'r sector amaethyddol yn pryderu bod eich cynlluniau mewn perthynas â'r Cynllun Datblygu Gwledig yn llawn datganiadau strategol ac nad ydynt yn cynnwys digon o'r wybodaeth fanwl sydd ei hangen ar fusnesau i wneud penderfyniadau busnes allweddol hirdymor. Dywedwch y bydd y rhan fwyaf o'r arian a gaiff ei drosglwyddo o golofn 1 i golofn 2 yn dychwelyd i bocedi ffermwyr. Os felly, pam bod 82% o arian colofn 2 yn Lloegr wedi'i glustnodi ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylcheddol, ond, yng Nghymru, dim ond 60%?

Senedd.tv Fideo Video

13:40 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

The 60% figure is a floor and not a ceiling. We had this debate two years ago when I announced it. What I am anxious to do is to have a balanced RDP, one which delivers on our environmental responsibilities—and Glastir does that—and that delivers on our responsibilities to invest in the agricultural industry. There are no proposals at all to do that in England. It is silent on investment in agriculture in England. Farmers in England will have no support from the UK Government over the next few years. It should also balance our responsibilities to ensure the vibrancy of rural communities, and the new RDP will deliver on all of those.

Isafswm yw'r ffigur o 60%, nid uchafswm. Cawsom y ddadl hon ddwy flynedd yn ôl adeg y cyhoeddiad. Rwy'n awyddus i gael Cynllun Datblygu Gwledig cytbwys, un sy'n cyflawni ein cyfrifoldebau amgylcheddol—ac mae Glastir yn gwneud hynny—ac sy'n cyflawni ein cyfrifoldebau o ran buddsoddi yn y diwydiant amaethyddol. Nid oes unrhyw gynigion o gwbl i wneud hynny yn Lloegr. Nid oes sôn am fuddsoddi mewn amaethyddiaeth yn Lloegr. Ni chaiff ffermwyr yn Lloegr unrhyw gymorth gan Lywodraeth y DU yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Dylai hefyd ystyried ein cyfrifoldebau o ran sicrhau bywiogrwydd cymunedau gwledig, a bydd y Cynllun Datblygu Gwledig newydd yn cyflawni mewn perthynas â phob un o'r rheini.

Senedd.tv Fideo Video

13:41 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Minister, you will be aware of the steps being taken in legislation in England to attempt to undermine the hunting ban. Will you be approaching your Westminster counterparts to ensure that, if the UK Government goes in this direction, it will not seek to impose amendments to legislation on the people of Wales that the people of Wales clearly do not want to see?

Weinidog, byddwch yn ymwybodol o'r camau sy'n cael eu cymryd mewn deddfwriaeth yn Lloegr i geisio tanseilio'r gwaharddiad ar hela. A fyddwch yn cysylltu â'ch cymheiriaid yn San Steffan i sicrhau, os bydd Llywodraeth y DU yn mynd i'r cyfeiriad hwn, na fydd yn ceisio gorfodi diwygiadau i ddeddfwriaeth ar bobl Cymru nad yw pobl Cymru yn amlwg yn awyddus i'w gweld?

Senedd.tv Fideo Video

13:41 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

This is currently not a devolved subject. I have to say to my very good friend that, in the nearly three years that I have been in this post with responsibility for agriculture, nobody has come to me and asked me to change the law on hunting. Nobody has indicated to me anywhere at any time that they want to see the law changed. I think that on this matter the people of Wales and the people of England speak with one voice and do not want the law on hunting changed.

Nid yw hwn yn bwnc datganoledig ar hyn o bryd. Rhaid imi ddweud wrth fy annwyl ffrind, yn ystod y cyfnod o bron i dair blynedd y bûm yn y swydd hon â chyfrifoldeb dros amaethyddiaeth, nad oes unrhyw un wedi dod ataf ac wedi gofyn imi newid y gyfraith ar hela. Nid oes unrhyw un wedi dweud wrthyf yn unrhyw le ar unrhyw adeg eu bod am weld y gyfraith yn cael ei newid. Credaf fod pobl Cymru a phobl Lloegr o'r un farn ar y mater hwn ac nad ydynt am i'r gyfraith ar hela gael ei newid.

Senedd.tv Fideo Video

13:42 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Rwyf wedi sôn yn y gorffennol am ddiffyg buddsoddiad, fel rwyf yn ei weld, mewn eiddo ar gyfer diwydiannau bwyd yn fy etholaeth i a rhannau eraill o Gymru. Pa fath o strategaeth y byddech chi yn licio ei gweld o dan y cynllun datblygu gwledig er mwyn sicrhau bod cwmnïau bach sy'n llwyddo fel cwmnïau bach ar hyn o bryd yn cael pob cyfle i dyfu fel busnesau?

I have mentioned in the past the lack of investment, as I see it, in property for food industries in my constituency and in other parts of Wales. What sort of strategy would you like to see put in place under the rural development programme in order to ensure that small, successful companies that are currently succeeding as small companies have every opportunity to grow as businesses?

Senedd.tv Fideo Video

13:42 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Rydym wedi buddsoddi mewn sawl busnes, rhai ohonynt yn eich etholaeth, ac wedi cydweithio â busnesau yn eich etholaeth sydd wedi derbyn ac wedi elwa o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru i'w helpu i dyfu o fod yn fusnes fferm i fod yn fusnes sydd wedi tyfu oddi ar y fferm ac wedi bod yn llwyddiannus oherwydd hynny. Rwyf wedi cyhoeddi'r cynllun gweithredu ar gyfer y diwydiant bwyd ac rwy'n cymryd y byddwch yn ymateb i hynny cyn i'r ymgynghoriad gau ganol mis nesaf. Hefyd, mae gennych gyfle ar hyn o bryd i gyfrannu at y RDP a sut y mae'r RDP yn gallu ymateb i hynny. Fodd bynnag, byddwch yn gwybod fod proses y 'marketing grant' wedi bod yn hynod lwyddiannus ac yn diogelu swyddi yn y diwydiant bwyd ar draws Cymru.

We have invested in a number of businesses, some in your constituency, and have collaborated with businesses in your constituency that have received and have benefitted from investment from Welsh Government to help them grow from farm business to businesses that have grown away from the farm and have been successful because of that. I have published the action plan for the food industry and I assume that you will be responding to that before the consultation closes in the middle of next month. You also have an opportunity to contribute to the RDP and how the RDP can respond to that. However, you will know that the marketing grant process has been extremely successful and has safeguarded jobs in the food industry across Wales.

Senedd.tv Fideo Video

13:43 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, mae'r cynllun yn cynnwys newidiadau i'r cynllun rhostiroedd. Ar hyn o bryd, mae'r ardaloedd yn seiliedig ar fap 1992, er bod hynny ar fin newid. Bydd yr ardaloedd newydd yn cael eu diffinio ar fap eleni. A allwch ddweud erbyn pryd y bydd yn rhaid i ffermwyr apelio os byddant yn anfodlon ar y diffiniadau ar y map newydd?

Minister, the RDP does include changes to the moorland scheme. Those areas are currently based on the 1992 map, although that is about to change. The new areas will be defined on this year's map. Can you tell us by when farmers will need to lodge an appeal if they are not content with the definitions on the new map?

13:44 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

O ran y taliadau piler 1 ar gyfer rhostiroedd, bydd pob un ffermwr yn derbyn llythyr gan y Llywodraeth ar ddechrau'r haf yn esbonio sut yn union y bydd eu tiroedd hwy wedi cael eu dosbarthu o ran y gwahanol gategorïau o diriogaethau. Bydd y llythyr hwnnw a'r wybodaeth ar y pryd yn esbonio sut yn union y gall pob un ffermwr apelio yn erbyn unrhyw fath o benderfyniad sydd wedi cael ei wneud.

For the pillar 1 payments for the moorlands, every farmer will receive a letter from the Government at the beginning of the summer explaining how exactly their land has been defined as regards the various designations. That letter and the information contained therein will explain exactly how each farmer can appeal against any kind of decision taken.

13:44 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

Minister, as you will be aware, the last chance to transfer single farm payment entitlements is 2 April 2014, but some people who are trying to take land back in hand and who have experienced delays through no fault of their own could be left in limbo. Do you have any plans to establish a scheme such as a contract clause that could allow for entitlements to be taken back after that date, or would you consider extending the entitlement window, as they have done in England, to October this year?

Weinidog, fel y byddwch yn ymwybodol, y cyfle olaf i drosglwyddo hawliau taliad fferm sengl yw 2 Ebrill 2014, ond gallai rhai pobl sy'n ceisio adennill tir ac sydd wedi profi oedi heb fod unrhyw fai arnynt hwy eu hunain gael eu gadael yn nhir neb. A oes gennych unrhyw gynlluniau i roi cynllun megis cymal contract ar waith a allai ganiatáu i hawliau gael eu hadhawlio ar ôl y dyddiad hwnnw, neu a fyddech yn ystyried ymestyn y ffenestr hawliau, fel y gwnaed yn Lloegr, hyd at fis Hydref eleni?

13:45 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I and the leader of the Welsh Liberal Democrats may disagree on a large number of issues around pillar 1 and other matters, but one thing that we would both agree on absolutely is that the whole entitlement system is both bizarre and Byzantine. It is not something that I particularly think works extremely well. Can I say this? Where there are individual issues such as those, I presume, the Member is referring to, then I would ask all Members to write to me on those matters and I will take up those individual matters.

Efallai fy mod i ac arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn anghytuno ar nifer fawr o faterion yn ymwneud â cholofn 1 a materion eraill, ond un peth y byddem ein dau yn cytuno arno'n llwyr yw bod y system hawliau gyfan yn rhyfedd ac yn Bysantaidd. Nid yw'n rhywbeth sy'n gweithio'n dda iawn, yn fy marn i. A allaf ddweud hyn? Lle ceir materion unigol fel y rhai y mae'r Aelod, tybiaf, yn cyfeirio atynt, yna gofynnwn i bob Aelod ysgrifennu ataf mewn perthynas â'r materion hynny ac ystyriaf y materion unigol hynny.

## Dileu TB Gwartheg

## Bovine TB Eradication

13:45 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Fframwaith Strategol ar gyfer Dileu TB Gwartheg o ran bywyd gwyllt? OAQ(4)0124(NRF)*

*4. Will the Minister give an update on the progress of the Strategic Framework for Bovine TB Eradication in respect of wildlife? OAQ(4)0124(NRF)*

13:45 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I remain committed to dealing with all sources of infection. Preparations are under way for the third year of the badger vaccine in the intensive action area and applications to the badger vaccination grant are now being considered.

Rwy'n parhau'n ymrwymedig i ymdrin â holl ffynonellau'r haint. Mae paratoadau ar y gweill ar gyfer trydedd flwyddyn y rhaglen brechu moch daear yn yr ardal triniaeth ddwys ac mae ceisiadau ar gyfer y grant brechu moch daear bellach yn cael eu hystyried.

13:46 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the UK Government set its own criteria to judge the success of its cull. It has failed on the humane test, with 18% of badgers taking longer than five minutes to die; it has failed on effectiveness, with kill targets being missed and the cost of each kill being up to £4,000 as opposed to £700 to vaccinate. Would the Minister agree with me that the UK Government should abandon its kill policy and instead follow the lead of the Welsh Government and introduce a robust vaccination programme?

Weinidog, gosododd Llywodraeth y DU ei meini prawf ei hun er mwyn barnu llwyddiant ei rhaglen difa. Methodd o ran y prawf lladd heb boen, gydag 18% o foch daear yn cymryd mwy na phum munud i farw; methodd o ran effeithiolrwydd, gan fethu â chyrraedd targedau lladd a phob achos o ladd yn costio hyd at £4,000 o gymharu â £700 ar gyfer brechu. A fyddai'r Gweinidog yn cytuno â mi y dylai Llywodraeth y DU roi'r gorau i'w pholisi lladd ac yn hytrach ddilyn arweiniad Llywodraeth Cymru a chyflwyno rhaglen frechu gadarn?

13:46 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that there are a number of aspects of policy where the UK Government would do very well to look across the border. I can say this: I was able to make a statement—[Interruption.]

Credaf fod nifer o agweddau ar bolisi lle y byddai o fudd i Lywodraeth y DU edrych dros y ffin. Gallaf ddweud hyn: roeddwn mewn sefyllfa lle y gallwn wneud datganiad—[Torri ar draws.]

13:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order.

Trefn.

13:46 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I was able to make a statement last week that demonstrated that the policy approach being taken by this Government has led to dramatic reductions in the incidence of bovine TB among herds affected and animals slaughtered. In fact, on every measure available to us, this Government is delivering reductions in bovine TB at twice the rate of the Government in England. I would invite Owen Paterson to come here to learn how it is done.

Roeddwn mewn sefyllfa lle y gallwn wneud datganiad yr wythnos diwethaf a ddangosodd fod y dull polisi a weithredwyd gan y Llywodraeth hon wedi arwain at ostyngiadau sylweddol yn nifer yr achosion o TB mewn gwartheg ymhlith buchesi yr effeithiwyd arnynt ac yn nifer yr anifeiliaid a laddwyd. Yn wir, ar bob mesur sydd ar gael inni, mae'r Llywodraeth hon yn cyflawni gostyngiadau o ran TB mewn gwartheg ddwywaith mor gyflym â'r Llywodraeth yn Lloegr. Hoffwn wahodd Owen Paterson i ddod yma i ddysgu sut i'w gwneud hi.

13:47 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, it is quite clear that the evidence from your chief vet is that this has got nothing to do with the vaccination programme. She said:

Weinidog, mae'n eithaf amlwg bod tystiolaeth eich prif filfeddyg yn dangos nad oes gan hyn unrhyw gysylltiad â'r rhaglen frechu. Dywedodd:

'Looking at the figures within the intensive action area, and comparing the TB incidence and the number of reactors slaughtered to the broader picture across Wales, you will see that it is broadly the same. So, in no way are we able to attribute any of the effect of the reduction in incidence that we have reported in the past few days to the vaccination programme.'

O ystyried y ffigurau o fewn yr ardal gweithredu dwys, a chymharu'r achosion o TB a nifer yr anifeiliaid a adweithiodd i'r prawf a laddwyd â'r darlun ehangach ledled Cymru, fe welwch ei fod yn gymharol debyg. Felly, ni allwn briodoli effaith y gostyngiad yn nifer yr achosion a nodwyd gennym yn ystod y diwrnodau diwethaf mewn unrhyw ffordd i'r rhaglen frechu.

Minister, do you agree with the scientific evidence from your chief vet or not? [Interruption.]

Weinidog, a gytunwch â'r dystiolaeth wyddonol gan eich prif filfeddyg neu beidio? [Torri ar draws.]

13:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. Did the Minister hear the question, because I did not?

Trefn. A glywodd y Gweinidog y cwestiwn, oherwydd ni chlywais i?

13:47 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I heard it, but I did not think that it was a particularly good one. I can say this: a partial quotation is never a particularly good way of establishing your case.

Fe'i clywais, ond nid oeddwn o'r farn ei fod yn gwestiwn da iawn. Gallaf ddweud hyn: nid yw dyfyniad rhannol byth yn ffordd dda iawn o gyflwyno eich achos.

13:48 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to—

Hoffwn—

13:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You have asked your question.

Rydych wedi gofyn eich cwestiwn.

13:48 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I say that the point I made was very clear and, I think, very comprehensive? The suite of policies being supported and delivered by this Government has been responsible for the reductions in incidence of bovine TB at twice the rate being seen on the other side of the border. The whole range of policies being delivered by this Government is leading to that reduction, and if anybody in England wants to come here to see how it is done, I would very much be happy to take them up on that.

A gaf ddweud bod y pwynt a wneuthum yn glir iawn ac yn gynhwysfawr iawn, credaf? Y gyfres o bolisïau a gefnogir ac a weithredir gan y Llywodraeth hon a fu'n gyfrifol am y gostyngiadau yn nifer yr achosion o TB mewn gwartheg sy'n digwydd ddwywaith mor gyflym â'r gyfradd a welir dros y ffin. Yr ystod cyfan o bolisïau sydd ar waith gan y Llywodraeth hon sy'n arwain at y gostyngiad hwnnw, ac os hoffai unrhyw un o Loegr ddod yma i weld sut y gwneir hynny, byddai croeso mawr iddynt wneud hynny.

13:48 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wrth gwrs, mae'r Gweinidog wedi bod drwy brofiad y ffordd i Ddamascus ar y pwnc hwn—neu, mewn gwirionedd, mae wedi bod drwy brofiad o'r ffordd o Ddamascus ar y pwnc hwn. Y ffaith amdani, Weinidog, yw ei fod yn iawn i chi gyfeirio at Loegr, ond os byddech yn cyfeirio at dystiolaeth sylweddol o'r hyn sydd wedi bod yn digwydd yn Iwerddon o ganlyniad i'r cynllun difa yn Iwerddon, byddech yn gweld bod gostyngiad o 29% yn yr achosion o ddiciâu. A ydych yn derbyn bod y cynllun difa yn Iwerddon wedi cyfrannu yn sylweddol at hynny? A wnewch chi dderbyn hefyd bod cyflogau ac incwm ffermwyr wedi mynd i lawr 44%, yn ôl ffigurau'r flwyddyn ddiwethaf, a bod y sefyllfa o ran y diciâu wedi cyfrannu yn sylweddol at hynny?

Of course, the Minister has experienced a conversion on the road to Damascus on this subject—or, in fact, he has experienced a conversion on the road from Damascus on this issue. The fact is, Minister, is that it is fine for you to refer to England, but if you were to look at significant evidence of what has been happening in Ireland as a result of the cull programme in Ireland, you would see that there has been a reduction of 29% in cases of TB. Do you accept that the cull programme in Ireland has contributed substantially to that? Will you accept also that the wages and incomes of farmers have reduced 44%, according to last year's figures, and that the situation in terms of TB has made a significant contribution to that decline?

13:49 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'n rhaid bod yn garcus pan ydych yn sôn am ffigurau incwm ar gyfer un flwyddyn. Petai chi'n edrych ar y ffigurau ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf, byddech yn gweld bod y sefyllfa wedi ei thrawsnewid, ac mae'r ffigurau hynny wedi eu cyhoeddi'r wythnos diwethaf. Byddwn yn eich cynghori chi i edrych arnynt. Hoffwn ddweud hyn: un o'r problemau yr ydym wedi ei gael wrth ddelio gyda diciâu yw'r obsesiwn hwn gyda difa—yr obsesiwn sydd gennych chi gyda difa. Mae'n rhaid symud ymlaen a chael polisi holistig sy'n ymateb i beth sy'n digwydd mewn bywyd gwyllt—rwyf wedi dweud hynny'n gyson ers i mi gael fy ethol—ond rhaid gwneud y pethau eraill hefyd. Dywedaf hyn wrthych: pan adawodd Plaid Cymru 'office' yn y fan hon, roedd lefelau'r diciâu yn cynyddu—[Torri ar draws.]

We must be cautious when looking at income figures for one year. If you were to look at the figures for last year, you would see that the situation has been transformed, and those figures have been published last week. I would advise you to look at those. I would like to say this: one of the problems that we have had when dealing with TB is this obsession with culling—the obsession that you have with culling. We have to move forward to get a holistic policy that responds to what is happening with wildlife—I have said this consistently since being elected here—but we must also do the other things. I say this to you: when Plaid Cymru left office here, levels of TB were increasing—[Interruption.]

13:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. This is not a conversation.

Trefn. Nid sgwrs yw hon.

13:50 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yn ystod y Llywodraeth hon, mae lefelau'r diciâu yn lleihau, a dyna'r gwir.

During this Government, the levels of TB have gone down, and that is the truth.

## Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbenning

## Sites of Special Scientific Interest

13:50 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddiogelu safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig? OAQ(4)0129(NRF)*

*5. What is the Welsh Government doing to protect sites of special scientific interest? OAQ(4)0129(NRF)*

13:50 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Our area-based approach to natural resource management recognises that protected sites are key to halting the decline in biodiversity and achieving more resilient ecosystems. This approach, underpinned by the environment Bill and initiatives such as the nature fund, will deliver multiple benefits for these sites and the wider environment.

Mae ein dull yn seiliedig ar ardaloedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn cydnabod bod safleoedd wedi'u diogelu yn allweddol er mwyn atal y dirywiad mewn bioamrywiaeth a chyflawni ecosystemau mwy gwydn. Bydd y dull hwn, wedi'i ategu gan Fil yr amgylchedd a mentrau fel y gronfa natur, yn cyflwyno buddiannau niferus i'r safleoedd hyn a'r amgylchedd ehangach.

13:51 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The banks of Llanishen reservoir in my region are a site of special scientific interest for grassland fungi—[Interruption.]

Mae glannau cronfa ddŵr Llanisien yn fy rhanbarth yn safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig ar gyfer ffyngau glaswelltir—[Torri ar draws.]

13:51 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Sorry, with people talking I cannot hear the question.

Mae'n ddrwg gennyf, gyda phobl yn siarad ni allaf glywed y cwestiwn.

13:51 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The banks of Llanishen reservoir in my region are a site of special scientific interest for grassland fungi. They are also a site of importance for nature conservation for toads and water plants. Of course, what makes that environment suitable for supporting these things is the water, and that reservoir has now been drained for more than three years. What discussions has the Welsh Government had with the new owners of the reservoir with regard to protecting this particular site? What is the Welsh Government's policy on engaging with new owners of sensitive sites of this nature?

Mae glannau cronfa ddŵr Llanisien yn fy rhanbarth yn safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig ar gyfer ffyngau glaswelltir. Maent hefyd yn safle pwysig o ran cadwraeth natur ar gyfer llyffantod a phlanhigion dŵr. Wrth gwrs, yr hyn sy'n gwneud yr amgylchedd yn addas ar gyfer cefnogi'r pethau hyn yw'r dŵr, ac mae'r gronfa ddŵr honno bellach wedi'i draenio ers mwy na thair blynedd. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda pherchenogion newydd y gronfa ddŵr o ran diogelu'r safle penodol hwn? Beth yw polisi Llywodraeth Cymru o ran ymgysylltu â pherchenogion newydd safleoedd sensitif o'r fath?

13:51 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have had no discussions at all with any new owners of that particular site. I think that our overall approach to the protection of these special sites has to be important. One reason that I developed the nature fund—I will be making further announcements on that before the end of this month—is because I recognise that our current approach is not working, and we need to try different and new approaches.

Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau o gwbl gydag unrhyw berchenogion newydd o ran y safle penodol hwnnw. Credaf fod ein dull cyffredinol o ddiogelu'r safleoedd arbennig hyn yn bwysig, yn sicr. Un rheswm pam y datblygais y gronfa natur—byddaf yn gwneud cyhoeddiadau pellach ar hynny cyn diwedd y mis—yw fy mod yn cydnabod nad yw ein dull gweithredu presennol yn gweithio, a bod angen inni roi cynnig ar ddulliau gwahanol a newydd.

We are, at the moment, seeing the protection of sites of special scientific interest being delivered in a reasonable fashion. I think that we need to do more, quite frankly, but we are not seeing a decline in the protection of those sites, as we have in the past. However, I think that we need to look at how we protect those sites, and I will be addressing that in the environment Bill.

Ar hyn o bryd, mae safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig yn cael eu diogelu mewn ffordd resymol. Credaf fod angen inni wneud mwy, mewn gwirionedd, ond nid yw nifer y safleoedd hynny a gaiff eu diogelu yn lleihau, fel y gwelwyd yn y gorffennol. Fodd bynnag, credaf fod angen inni ystyried sut rydym yn diogelu'r safleoedd hynny, a byddaf yn ymdrin â hynny fel rhan o Fil yr amgylchedd.

13:52 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, as you will be aware, we have a range of sites, from SSSIs all the way through to those sites of local importance. What discussions might you be having with the Minister for Housing and Regeneration and the Minister for Local Government to ensure that county councils do not ride roughshod over some of our more protected areas, either in agreeing planning applications or levelling them for large housing developments?

Weinidog, fel y byddwch yn ymwybodol, mae gennym amrywiaeth o safleoedd, o SoDdGA hyd at y safleoedd hynny o bwysigrwydd lleol. Pa drafodaethau y byddwch o bosibl yn eu cael gyda'r Gweinidog Tai ac Adfywio a'r Gweinidog Llywodraeth Leol i sicrhau nad yw cynghorau sir yn sathru ar rai o'n hardaloedd mwy gwarchodedig, naill ai drwy gytuno i geisiadau cynllunio neu drwy eu lefelu ar gyfer datblygiadau tai mawr?

13:52 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am not sure that I accept the characterisation that you have made, but the Minister for planning is in the Chamber and will have heard your question.

Nid wyf yn siŵr fy mod yn derbyn y nodweddu a wnaed gennych, ond mae'r Gweinidog cynllunio yn y Siambr a bydd wedi clywed eich cwestiwn.

13:53 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr, Fonesig Lywydd. A gaf i symud y cwestiwn o'r tir i'r môr? Bydd y Gweinidog, fel finnau, yn sicr, wedi croesawu parodrwydd y comisiwn ar ddatganoli, ym mhennod 8, i argymell y dylid sicrhau pwerau i Weinidogion Cymru dros ddyfroedd môr Cymru, gan gynnwys y môr mawr, a fyddai'n galluogi cadwraeth a rheoli moroedd, gan gynnwys pysgodfeydd môr mawr, i ddigwydd yn gydlynol. Pa mor fuan y mae'r Gweinidog yn mynd i ofyn am y pwerau hyn oddi ar Lywodraeth San Steffan?

Thank you very much, Dame Presiding Officer. May I shift the question from the land to the sea? The Minister will welcome, as I do, certainly, the willingness of the commission on devolution, in chapter 8, to recommend that we should ensure powers for Welsh Ministers over the Welsh marine environment, including the open sea, which would enable conservation and the management of the oceans, including deep-sea fisheries, to occur in a co-ordinated way. How soon will the Minister ask for these powers from the Westminster Government?

13:53 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n credu bod y pwyllgor y mae'r Aelod yn ei gadeirio a thystiolaeth Llywodraeth Cymru wedi bod yn un ar y pwnc hwn. Rwy'n credu bod cytundeb eang wedi bod ar draws y Siambr ar y materion hyn. Yn amlwg, bydd proses Silk yn broses a fydd yn cael ei gweithredu gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig gyda'i gilydd.

I believe that the committee that the Member chairs and the evidence of the Welsh Government have been as one on this subject. I think that there has been consensus across the Chamber on these issues. It is obvious that the Silk process will be implemented by the Welsh Government and the United Kingdom Government jointly.

## Stormydd Difrifol Diweddar

## The Recent Severe Storms

13:54 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. Pa wersi sydd wedi eu dysgu o'r stormydd difrifol diweddar mewn perthynas â chynnal cymunedau arfordirol? OAQ(4)0132(NRF)*

*6. What lessons have been learnt from the recent severe storms in relation to sustaining coastal communities? OAQ(4)0132(NRF)*

13:54 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf wedi gofyn i Gyfoeth Naturiol Cymru gynnal adolygiad dwy ran o'r llifogydd arfordirol diweddar. Cyhoeddwyd y rhan gyntaf, sef asesiad o effeithiau, ar 14 Chwefror. Bydd yr ail ran, a fydd yn cael ei chyhoeddi ym mis Ebrill yn fwy na thebyg, yn cynnwys argymhellion a'r gwersi a ddysgwyd.

I have asked Natural Resources Wales to conduct a two-part review into the recent coastal flooding. The first part, an assessment of impacts, was published on 14 February. The second part, due in April, will include recommendations and lessons learnt.

13:54 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Weinidog, am yr esboniad hwnnw. Mae'n amlwg bod ein diolch ni yn fawr iawn i bawb a fu'n cynorthwyo ar adeg y stormydd hyn. Fodd bynnag, o edrych ymlaen, mae'n amlwg bod yna ddau fath o ddynesiad yn awr. Os edrychwch ar bentref megis y Borth, ger Aberystwyth, fe welwch fod amddiffynfeydd stormydd a llifogydd wedi gweithio'n dda iawn, mae'n ymddangos i mi, ac yn werth y buddsoddiad. Wedyn, os edrychwch chi ar bentref fel y Friog yng Ngwynedd, fe welwch fod cynllun gwahanol i ymdrin ag effaith newid hinsawdd ac ati, ac mae hynny o fewn y cynllun traethlin, wrth gwrs. Beth yw agwedd y Llywodraeth tuag at y ddau fath hyn o ddynesiad, ac ymhle y gallwn ni amddiffyn pentrefi a chymunedau ac ymhle y bydd yn rhaid inni wneud rhywbeth yn wahanol a chaniatáu i'r môr adennill tir o bosibl, a rheoli hynny? A oes gan y Llywodraeth fwriad i gyhoeddi rhyw fath o strategaeth genedlaethol ar y materion hyn?

Thank you, Minister, for that explanation. It is clear that our thanks are very great to everyone who assisted during these storms. However, in looking forward, it is clear that there are two approaches now. If you look at villages such as Borth, near Aberystwyth, you will see that storm and flood defences have worked extremely effectively, it would appear, and have been worth the investment. Then, if you look at a village such as Fairbourne in Gwynedd, you will see that there is a different approach to dealing with the impact of climate change and so on, and that is contained within the shoreline plan, of course. What is the Government's view on these two kinds of approaches, and where do we protect villages and communities and where do we have to take a different approach and allow the sea to reclaim land possibly, and manage that? Does the Government have any intention to publish any sort of national strategy on these issues?

13:55 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n cytuno â'r dadansoddiad a gynigwyd gan yr Aelod. Mae ef yn sôn am y 'shoreline management plans', wrth gwrs. Buaswn yn cynghori'r Aelod i beidio â chael ei gamarwain gan adroddiadau'r BBC ar y materion hyn. Nid ydym wedi gwneud unrhyw benderfyniadau ar y pwnc. Mae fy swyddogion yn asesu'r 'shoreline management plans' a byddaf yn gwneud penderfyniad ac yn cyhoeddi'r penderfyniad hwnnw yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

I agree with the analysis that the Member has just proposed. He is talking about the shoreline management plans, of course. I would advise the Member not to be misled by the BBC reports on these issues. We have not taken any decisions on the subject. My officials are assessing the shoreline management plans and I will make a decision and announce that decision later in the year.

13:56 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, severe storms have regularly affected the Ilan part of Rhydyfelin in my constituency, with regular flooding that has caused severe damage to housing. My predecessor secured some £3 million from the Welsh Government and from European funding in order to develop a flood prevention scheme. Despite the severest storms that we have had in a century, the measures that were taken have prevented flooding. Does the Minister agree that not only is this a good investment, but it is perhaps a model that can be looked at in terms of how it might assist other areas? Would the Minister be prepared to come to my constituency to see the success of the scheme and the impact that it has had on people's homes?

Weinidog, mae stormydd difrifol wedi effeithio'n rheolaidd ar ran Ilan Rhydyfelin yn fy etholaeth, gyda llifogydd rheolaidd sydd wedi achosi difrod difrifol i dai. Llwyddodd fy rhagflaenydd i sicrhau tua £3 miliwn gan Lywodraeth Cymru a chyllid Ewropeaidd er mwyn datblygu cynllun atal llifogydd. Er gwaethaf y stormydd mwyaf difrifol a welwyd ers canrif, mae'r camau a gymerwyd wedi atal llifogydd. A yw'r Gweinidog yn cytuno, nid yn unig bod hyn yn fuddsoddiad da, ond ei fod o bosibl yn fodel y gellid ei ystyried o ran sut y gallai helpu ardaloedd eraill? A fyddai'r Gweinidog yn barod i ddod i fy etholaeth i weld llwyddiant y cynllun a'r effaith a gafodd ar gartrefi pobl?

13:56 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am always delighted to visit Pontypridd. I will be delighted to take up the Member's invitation.

Mae bob amser yn bleser gennyf ymweld â Phontypridd. Bydd yn bleser gennyf dderbyn gwahoddiad yr Aelod.

The Member raises a very significant point. We discussed this a month ago in relation to Swansea and the lower Swansea valley scheme, where very innovative schemes and new and different ways of developing flood prevention and flood protection work are delivering protection for tens of thousands of homes and businesses in communities up and down Wales. This is the real lesson, perhaps, of the last few months: when you invest in protecting people, their homes and their communities, you do not get the sort of chaos that you saw in England.

Mae'r Aelod yn codi pwynt pwysig iawn. Trafodwyd hyn fis yn ôl mewn perthynas ag Abertawe a chynllun cwm Tawe isaf, lle mae cynlluniau arloesol iawn a ffyrdd newydd a gwahanol o ddatblygu gwaith atal llifogydd ac amddiffyn rhag llifogydd yn darparu amddiffyniad i ddegau o filoedd o gartrefi a busnesau mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru. Dyma, o bosibl, yw gwers go iawn yr ychydig fisoedd diwethaf: pan fyddwch yn buddsoddi i amddiffyn pobl, eu cartrefi a'u cymunedau, ni chewch y lefelau o anhrefn a welwyd yn Lloegr.

13:57 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fel y mae'r Gweinidog yn ymwybodol, bu cryn ddifrod i ardaloedd yn fy etholaeth i fel Niwgwl ac Abergwaun. Rwy'n sylwi o'ch datganiad chi ychydig wythnosau yn ôl y byddwch chi'n cefnogi gwaith atgyweirio llwybr arfordir Cymru. O ystyried pwysigrwydd y llwybr fel atyniad i dwristiaid, yn enwedig yn fy etholaeth i, a wnaiff y Gweinidog nodi yn union sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith atgyweirio, ac a yw e'n gallu dweud wrthym yn union faint o arian fydd yn cael ei ddynodi i lwybr arfordir Cymru?

As the Minister is aware, there has been considerable damage to areas in my constituency, such as Newgale and Fishguard. I noticed from your statement a few weeks ago that you will support repairs to the Wales coast path. Given the importance of the route as a tourist attraction, particularly in my constituency, will the Minister indicate exactly how the Welsh Government will support the repair work, and whether he can tell us exactly how much money will be designated to the Wales coast path?

15:58 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n gyfrifol am y gwaith ar yr amddiffynfeydd arfordirol, ac nid wyf yn gyfrifol am waith cynnal yr 'infrastructure' ar gyfer twristiaid. Arweinir ar hynny gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon ar y cyd. Rwy'n awgrymu eich bod chi'n cysylltu â nhw.

I am responsible for the work on the coastal defences, and I am not responsible for maintenance work on tourism infrastructure. This is led by the Minister for Economy, Science and Transport and the Minister for Culture and Sport, jointly. I would suggest that you contact them.

### Newid yn yr Hinsawdd

### Climate Change

13:58 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfraniad Cymru i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd? OAQ(4)0131(NRF)*

*7. Will the Minister make a statement on Wales's contribution to tackling climate change? OAQ(4)0131(NRF)*

**Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

*9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefel allyriadau CO2 yng Nghymru? OAQ(4)0128(NRF)*

*9. Will the Minister make a statement on the level of CO2 emissions in Wales? OAQ(4)0128(NRF)*

13:58 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Presiding Officer, I understand that you have given your permission for questions 7 and 9 to be grouped.

Lywydd, deallaf eich bod wedi rhoi eich caniatâd i gwestiynau 7 a 9 gael eu grwpio.

13:58 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Do.

13:58 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Our annual report shows that good progress has made addressing climate change, but that further action is needed. I have committed to a policy refresh to focus on practical action that we can all take to tackle the causes and consequences of climate change to increase the resilience and prosperity of Wales.

Dengys ein hadroddiad blynyddol y gwnaed cynnydd da wrth ymdrin â newid yn yr hinsawdd, ond bod angen cymryd camau pellach. Rwyf wedi ymrwymo i adnewyddu'r polisi er mwyn canolbwyntio ar gamau ymarferol y gall pob un ohonom eu cymryd i fynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau newid yn yr hinsawdd er mwyn cynyddu gwydnwch a ffyniant Cymru.

13:58 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister for that answer. According to the latest Eurobarometer survey, over half of people in the UK think that it is the main responsibility of the Governments of the member states to be tackling climate change, or that they should be leading the charge. How is the Welsh Government working to engage people on an individual level with climate change to change behaviours and attitudes? What hope is there at Westminster when there is a climate change denier leading the charge?

Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Yn ôl arolwg diweddaraf Eurobarometer, mae dros hanner poblogaeth y DU o'r farn mai Llywodraethau'r aelod-wladwriaethau sy'n bennaf gyfrifol am fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, neu mai hwy ddylai fod yn arwain yr ymdrechion. Sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i ymgysylltu pobl ar lefel unigol â newid yn yr hinsawdd er mwyn newid ymddygiad ac agweddau? Pa obaith sydd yna yn San Steffan pan fo'r unigolyn sy'n gyfrifol am yr ymdrechion yn gwadu bod problem o ran newid yn yr hinsawdd?

13:59 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that the consequences are very difficult when you have UK Ministers who deny the obvious and deny the reality of what is happening in the world today. Then again, the Conservatives have never been particularly in touch with reality.

Credaf fod y canlyniadau yn anodd iawn pan fo rhai o Weinidogion y DU yn gwadu'r hyn sy'n amlwg ac yn gwadu realiti'r hyn sy'n digwydd yn y byd sydd ohoni. Eto i gyd, ni fu'r Ceidwadwyr erioed yn arbennig o ymwybodol o realiti.

One of the reasons why the Welsh Government undertakes a great deal of work and investment in programmes like the eco-Schools programme is to engender that idea of citizenship and the idea that we, as people, can make changes that will have an impact on a global and world-wide scale. That is a very empowering thing to do, and it is what we will continue to invest in. In terms of empowerment, one of the innovative things that this Government is doing, and where it is being a leader internationally, is with the future generations Bill. The national conversation that was launched by my good friend the Minister for communities last month is seeking to engage people across the whole of Wales in what we can do to deliver sustainability in our communities and in our lives.

Un o'r rhesymau pam bod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â chryn dipyn o waith ac yn buddsoddi'n helaeth mewn rhaglenni fel y rhaglen eco-Ysgolion yw er mwyn meithrin y syniad o ddinasyddiaeth a'r syniad y gallwn ni, fel pobl, wneud newidiadau a gaiff effaith ar raddfa fyd-eang. Mae hynny'n beth grymus iawn i'w wneud, a byddwn yn parhau i fuddsoddi ynddo. O ran grymuso, un o'r pethau arloesol y mae'r Llywodraeth hon yn ei wneud, ac y mae'n arweinydd rhyngwladol yn y maes, yw Bil cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r sgwrs genedlaethol a lansiwyd gan fy ffrind da y Gweinidog cymunedau fis diwethaf yn ceisio ymgysylltu pobl ledled Cymru gyfan â'r hyn y gallwn ei wneud i sicrhau cynaliadwyedd yn ein cymunedau ac yn ein bywydau.

14:00 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Carbon dioxide emissions are a significant contributor to climate change, but while I would support your point that we need to take personal responsibility for our own actions, gases respect no national boundaries. Would you, therefore, support Ed Davey's calls to get statutory targets introduced at an EU level to make sure that we are all working together towards a consistent target? If so, what level of target would you hope to see adopted?

Mae allyriadau carbon deuocsid yn cyfrannu'n sylweddol at newid yn yr hinsawdd, ond er y byddwn yn cefnogi eich pwynt bod angen inni gymryd cyfrifoldeb personol dros ein gweithredoedd ein hunain, nid yw nwyon yn parchu unrhyw ffiniau cenedlaethol. Felly, a fyddech yn cefnogi galwadau Ed Davey i gyflwyno targedau statudol ar lefel yr UE er mwyn sicrhau bod pawb yn cydweithio tuag at darged cyson? Os felly, pa lefel o darged y byddech yn awyddus iddo gael ei fabwysiadu?

14:01 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I attended the Environment Council of Ministers two weeks ago in Brussels with Ed Davey, and we spoke there about the UK position, and it is a UK position that is accepted and supported by the different administrations within the United Kingdom. We all signed up to that position and we are continuing to work alongside it. The key thing now, taking this forward, is that, within the United Kingdom, the four administrations work more closely together in order to deliver within our different areas of competence so that we do not simply have a UK position on paper, but that we have a UK position in reality as well.

Euthum i Gyngor Gweinidogion yr Amgylchedd bythefnos yn ôl ym Mrwsel gydag Ed Davey, a buom yn siarad yno am safbwynt y DU, ac mae'n safbwynt y DU a dderbynnir ac a gefnogir gan y gwahanol weinyddiaethau o fewn y Deyrnas Unedig. Ymrwymodd pob un ohonom i'r safbwynt hwnnw ac rydym yn parhau i weithredu'n unol â'r safbwynt hwnnw. Y peth allweddol yn awr, wrth symud ymlaen, yw bod angen i'r pedair gweinyddiaeth o fewn y Deyrnas Unedig gydweithio'n agosach er mwyn cyflawni o fewn ein gwahanol feysydd cymhwysedd er mwyn sicrhau bod safbwynt y DU yn ymarferol yn cyfateb i safbwynt y DU ar bapur.

14:01 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Government's 2013 climate change report, published in December, highlighted that agricultural-based emissions have been on the rise in recent years. You responded to that by commissioning a review into land-based climate change. Now that the tender process has finished, can you provide an update on that review and how you intend to strengthen the evidence base to support decision makers in that sector to deliver emission reductions and improved climate change resilience?

Nododd adroddiad 2013 y Llywodraeth ar newid yn yr hinsawdd, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr, fod allyriadau amaethyddol wedi bod yn cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gwnaethoch ymateb i hynny drwy gomisiynu adolygiad i newid yn yr hinsawdd ar y tir. Gan fod y broses dendro bellach wedi dirwyn i ben, a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad hwnnw a sut rydych yn bwriadu atgyfnerthu'r sail dystiolaeth i helpu gwneuthurwyr penderfyniadau yn y sector hwnnw i leihau allyriadau a gwella gwydnwch o ran newid yn yr hinsawdd?

14:02 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am beginning to regret that the Member has got his voice back. [Laughter.]

Rwy'n dechrau difaru bod llais yr Aelod wedi dychwelyd. [Chwerthin.]

The Conservative spokesperson is right to identify agriculture as the one sector where we have seen significant increases in emissions. One of the things that I was anxious to do as a consequence of publishing the report in December, and looking back to the inter-governmental panel on climate change report in September, was to refresh the way we address these matters as a Government as a whole. I will be taking forward the sector plans for agriculture and land-based industries as a part of that refresh, and I will make further announcements on this later in the year.

Mae llefarydd y Ceidwadwyr yn llygad ei le wrth nodi amaethyddiaeth fel yr un sector lle rydym wedi gweld cynnydd sylweddol mewn allyriadau. Un o'r pethau roeddwn yn awyddus i'w wneud yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad ym mis Rhagfyr, a chan edrych yn ôl i'r panel rhynglywodraethol ar yr adroddiad newid yn yr hinsawdd ym mis Medi, oedd ailwampio'r ffordd yr ymdriniwn â'r materion hyn fel Llywodraeth gyfan. Byddaf yn bwrw ymlaen â'r cynlluniau sector ar gyfer amaethyddiaeth a diwydiannau'r tir fel rhan o'r broses ailwampio honno, a byddaf yn gwneud cyhoeddiadau pellach ar hyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

14:02 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The effects of climate change, as we know here in Wales, are very real, and we all know that we have had some areas particularly at risk of rising sea levels. The Gwent levels have a long-established system of flood control, including important wetlands and mudflats, providing natural sea defences. However, they are under threat from some major infrastructure projects, particularly roads and houses, and that will have an adverse effect on flooding. Bearing that in mind, how has that affected your view of the M4 relief road to the south of Newport, and do you agree that any major project that has a detrimental effect on long-established and, to a large extent, natural flood defences, will place those levels at greater risk in the future?

Mae effeithiau newid yn yr hinsawdd, fel y gwyddom yma yng Nghymru, yn real iawn, ac mae pob un ohonom yn gwybod bod rhai ardaloedd yn wynebu perygl arbennig o ran lefel y môr yn codi. Mae gan wastatiroedd Gwent system hirsefydledig ar gyfer rheoli llifogydd, gan gynnwys gwlyptiroedd a gwastadeddau llaid pwysig, sy'n darparu amddiffynfeydd naturiol rhag y môr. Fodd bynnag, maent dan fygythiad gan rai prosiectau seilwaith mawr, yn enwedig ffyrdd a thai, a chaiff hynny effaith andwyol ar lifogydd. O ystyried hyn, sut mae hynny wedi effeithio ar eich barn am ffordd liniaru'r M4 i'r de o Gasnewydd, ac a gytunwch y bydd unrhyw brosiect mawr a gaiff effaith andwyol ar amddiffynfeydd rhag llifogydd hirsefydledig ac, i raddau helaeth, naturiol, yn golygu bod mwy o berygl i'r gwastatiroedd hynny yn y dyfodol?

14:03 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member is one of our greatest optimists, if he seriously expects me to answer that question with the Minister for transport sitting a few metres away from me. [Laughter.]

Mae'r Aelod yn un o'n hoptimistiaid mwyaf, os yw o ddifrif yn disgwyl imi ateb y cwestiwn hwnnw gyda'r Gweinidog trafnidiaeth yn eistedd ychydig fetrau i ffwrdd. [Chwerthin.]

I disagree, actually, with the Member's analysis. The Gwent levels are not a natural environment; it is a man-made environment and it has been man-made since Roman times. One of the great challenges facing us has been [Interruption.]—I know the history. The challenge has been to ensure that we have effective drainage and flood alleviation and protection policies in place now and in the future, and the Gwent levels are absolutely critical to that.

Rwy'n anghytuno, a dweud y gwir, â dadansoddiad yr Aelod. Nid amgylchedd naturiol yw gwastadeddau Gwent; amgylchedd a wnaed gan ddyn ydyw ac felly y bu ers cyfnod y Rhufeiniaid. Un o'r heriau mawr fu'n ein hwynebu yw [Torri ar draws.]—Rwy'n ymwybodol o'r hanes. Yr her fu sicrhau bod gennym systemau draenio effeithiol a pholisïau lliniaru llifogydd ac amddiffyn rhag llifogydd ar waith yn awr ac yn y dyfodol, ac mae gwastadeddau Gwent yn gwbl hanfodol yn hynny o beth.

14:04 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you partly addressed the answer to this question when you answered Russell George. I would like to ask you specifically how agriculture fits into the aspirations of this Government regarding zero carbon emissions. I note with interest reports such as 'The Carbon Footprint of Sheep Farming in Wales', which demonstrated the current data behind many assumptions of the carbon footprint of farms across Wales. Indeed, Wales is not, perhaps, as erudite as it could be. Results demonstrate the variation that occurs between farms producing the same product and, as such, they severally undermine the generality of any claims made about the carbon footprint of a farming enterprise for a whole country or region. Given that, could you explain how you look at the agriculture sector to either give it targets or to monitor them?

Weinidog, gwnaethoch ymdrin yn rhannol â'r ateb i'r cwestiwn hwn wrth ateb Russell George. Hoffwn eich holi'n benodol sut y mae amaethyddiaeth yn rhan o ddyheadau'r Llywodraeth hon o ran allyriadau di-garbon. Nodaf â diddordeb adroddiadau megis 'Ôl Troed Carbon Ffermio Defaid yng Nghymru', a ddangosodd y data presennol sy'n sail i lawer o dybiaethau am ôl troed carbon ffermydd ledled Cymru. Yn wir, efallai nad yw Cymru mor ddysgedig ag y gallai fod. Dengys canlyniadau yr amrywiadau rhwng ffermydd sy'n cynhyrchu'r un cynnyrch ac, fel y cyfryw, maent yn tanseilio cyffredinoldeb unrhyw honiadau a wneir am ôl troed carbon menter ffermio ar gyfer gwlad neu ranbarth cyfan yn sylweddol. O ystyried hyn, a allech egluro sut rydych yn ystyried y sector amaethyddiaeth naill ai er mwyn rhoi targedau iddo neu fonitro'r targedau hynny?

14:04 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that we can look at this in a different way. I appreciate and understand why the Member is taking that approach, and it is a matter that is worthy of examination and discussion. However, agriculture can play a very positive part in these issues, not simply in managing the impact of livestock on emissions and other matters, but the way in which we farm and the way in which we manage the land. If we do that sustainably, then we would be able to have a much bigger impact on emissions, climate change and carbon than we would if we simply looked at the sector in a far more narrow sense. I will give the Member an example: if we were able to restore all of the blanket bogs in Wales through effective and sustainable land management, we would create not only a carbon sink—a means of storing carbon—but we would also be able to manage water better and release more land for grazing. We would win in a number of different areas. Therefore, I would like to see the role of agriculture in its wider sense recognised, supported and encouraged.

Credaf y gallwn edrych ar y mater hwn mewn ffordd wahanol. Rwy'n gwerthfawrogi ac yn deall pam bod yr Aelod yn ystyried y mater fel ag y mae, ac mae'n fater sy'n werth ei ystyried a'i drafod. Fodd bynnag, gall amaethyddiaeth chwarae rhan gadarnhaol iawn yn y materion hyn, nid dim ond o ran rheoli effaith da byw ar allyriadau a materion eraill, ond o ran y ffordd rydym yn ffermio ac yn rheoli'r tir. Os gwnawn hynny mewn ffordd gynaliadwy, yna byddem yn gallu cael effaith lawer mwy ar allyriadau, newid yn yr hinsawdd a charbon na'r effaith a geid drwy ystyried y sector mewn ffordd lawer culach. Dyma esiampl i'r Gweinidog: pe gallem adfer yr holl orgorsydd yng Nghymru drwy ddulliau rheoli tir effeithiol a chynaliadwy, byddem nid yn unig yn creu sinc carbon—ffordd o storio carbon—ond byddem hefyd yn gallu rheoli dŵr yn well a rhyddhau mwy o dir at ddibenion pori. Byddai o fudd i nifer o wahanol feysydd. Felly, hoffem weld rôl amaethyddiaeth yn cael ei chydnabod, ei chefnogi a'i hannog yn ei hystyr ehangach.

14:06 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, rwy'n siŵr bod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r cynllun gan Tata Steel i greu system cynnyrch ynni mewnol newydd, sydd wedi cael ei grybwyll ar gyfer ei ganolfan. Pe bai hynny'n cael ei adeiladu, dywed Tata y byddai'n lleihau allyriadau yn sylweddol drwy ddefnyddio nwyon sgîl-gynhyrchu fel ffynhonnell pŵer cynradd. A ydych chi wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Tata Steel ynglŷn â hyn? A oes modd defnyddio hyn fel arfer da mewn sectorau tebyg yng Nghymru?

Minister, I am sure that the Welsh Government is aware of Tata Steel's proposal to create a new internal energy system, which is being mentioned as part of its centre. If this is built, Tata says that it will reduce emissions substantially by using by-product gases as a primary source of power. Have you had any discussions with Tata Steel on this? Could this be used as a model of good practice in similar sectors in Wales?

14:06 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Nid wyf wedi cael trafodaethau, ond cytunaf gyda'r pwynt y mae'r Aelod yn ei wneud. Mae ein gwaith gyda busnesau yn dangos nad yw newid hinsawdd yn fygythiad i fusnes ond bod modd i ymateb i newid hinsawdd a bod busnesau yn gallu bod yn fwy 'efficient' ac ychwanegu at eu helw. Felly, credaf fod cydweithio gyda busnes yn bwysig o ran sicrhau ein bod yn cyrraedd ein targedau ar gyfer pob sector. Rwy'n hapus iawn i barhau â'r gwaith hwnnw.

I have not had discussions, but I agree with the point that the Member is making. Our collaboration with businesses demonstrates that climate change is not a threat to business but that there is a way of responding to climate change in a way that allows businesses to be more efficient and add to their profit. Therefore, I see collaboration with business as being important to ensure that we reach our targets in every sector. I am very happy to continue with that work.

### Gwenyn a Pheillwyr Eraill

### Bees and Other Pollinators

14:07 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

*8. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i atal y dirywiad mewn poblogaethau gwenyn a pheillwyr eraill yng Nghymru? OAQ(4)0125(NRF)*

*8. What is the Welsh Government doing to halt the decline in the populations of bees and other pollinators in Wales? OAQ(4)0125(NRF)*

Senedd.tv Fideo Video

14:07 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Following my launch of the action plan for pollinators last year, a pollinators taskforce is taking forward actions on pollinators to reverse their decline through better roadside management, improving their health, creating habitats and raising awareness of their importance. This co-operative approach is an exemplar in the United Kingdom.

Ar ôl imi lansio'r cynllun gweithredu ar gyfer peillwyr y llynedd, mae tasglu peillwyr yn bwrw ati i roi camau gweithredu ar waith mewn perthynas â pheillwyr er mwyn gwyrdroi'r gostyngiad yn eu nifer drwy well rheolaeth ar ochr y ffordd, gwella eu hiechyd, creu cynefinoedd a chodi ymwybyddiaeth o'u pwysigrwydd. Mae'r dull gweithredu cydweithredol hwn yn esiampl i'r Deyrnas Unedig.

Senedd.tv Fideo Video

14:07 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer. I am aware of your recognition of the vital importance of bumble bees and of your launch of the action plan for pollinators. However, can you tell me what progress that taskforce has made in this area, and how we can make the public in general aware of the need to encourage diverse and connected flower-rich habitats—not just on farm land and in the countryside, but in our towns, cities and developed areas?

Diolch am yr ateb hwnnw. Rwy'n ymwybodol eich bod yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol gwenyn bŵm a'ch bod wedi lansio'r cynllun gweithredu ar gyfer peillwyr. Fodd bynnag, a allwch ddweud wrthyf pa gynnydd y mae'r tasglu hwnnw wedi'i wneud yn y maes hwn, a sut y gallwn sicrhau bod y cyhoedd yn gyffredinol yn ymwybodol o'r angen i annog cynefinoedd amrywiol a chysylltiedig yn llawn blodau—nid dim ond ar ffermdir ac yng nghefn gwlad, ond yn ein trefi, ein dinasoedd a'n hardaloedd datblygedig?

Senedd.tv Fideo Video

14:08 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

I very much agree with the points made by the Member. The taskforce has established web pages, which are hosted by the Wales Biodiversity Partnership, where further details of actions, resources and documents can be found. I will write to Members with details of that web page.

Cytunaf yn llwyr â'r pwyntiau a wnaed gan yr Aelod. Mae'r tasglu wedi creu tudalennau gwe, a gynhelir gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, lle y gellir cael rhagor o fanylion am gamau gweithredu, adnoddau a dogfennau. Byddaf yn ysgrifennu at Aelodau gyda manylion y we-dudalen honno.

So far, the actions taken by the taskforce encompass a wide range of different activities, from roadside verges, Glastir, developing wildlife gardening and ensuring that we have the monitoring and evidence base that we need in order to take these matters forward. I very much agree with the general point being made by the Member that we need to look creatively at how we manage land within our urban areas—towns, cities and communities—to ensure that we have green areas and green spaces, where pollinators are allowed to live, but also where we can all breathe.

Hyd yn hyn, mae'r camau a gymerwyd gan y tasglu yn cwmpasu amrywiaeth eang o wahanol weithgareddau, o ymylon ffyrdd, Glastir, datblygu garddio bywyd gwyllt a sicrhau bod gennym y trefniadau monitro a'r sail dystiolaeth sydd eu hangen arnom er mwyn bwrw ati â'r materion hyn. Cytunaf yn llwyr â'r pwynt cyffredinol a wneir gan yr Aelod bod angen inni edrych yn greadigol ar sut rydym yn rheoli ein tir o fewn ardaloedd trefol—trefi, dinasoedd a chymunedau—er mwyn sicrhau bod gennym ardaloedd gwyrdd a mannau gwyrdd, lle gall peillwyr fyw, ond hefyd lle y gall pob un ohonom anadlu.

Senedd.tv Fideo Video

14:08 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Minister, the Wild Weekend for Wales project occurred last week, from 7-9 March. The project provides funding of up to £150 for community groups, schools or businesses to enable them to create small, bee-friendly habitats in public areas, such as community gardens and allotments. How is the Minister proposing to measure the success of these projects in increasing the bee population?

Weinidog, cynhaliwyd prosiect Dathlwch Benwythnos Gwyllt dros Gymru yr wythnos diwethaf, o 7-9 Mawrth. Mae'r prosiect yn rhoi arian o hyd at £150 i grwpiau cymunedol, ysgolion neu fusnesau i'w galluogi i greu cynefinoedd bach sy'n gyfeillgar i wenyn mewn mannau cyhoeddus, megis gerddi cymunedol a rhandiroedd. Sut mae'r Gweinidog yn bwriadu mesur llwyddiant y prosiectau hyn o ran cynyddu'r boblogaeth wenyn?

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Those projects and programmes are important in involving individuals and communities in these areas. You are absolutely right to say that the key thing is not simply to spend the money and run a project; it is absolutely essential that we set clear objectives for these projects, that we have clear ways of monitoring them, that we have clear targets and that we evaluate the projects afterwards and learn lessons from doing so. I ensure that that happens not only in this area of work, but across the whole of my portfolio.

Mae'r prosiectau a'r rhaglenni hynny yn bwysig o ran cynnwys unigolion a chymunedau yn y meysydd hyn. Rydych yn llygad eich lle wrth ddweud nad gwario'r arian a chynnal prosiect yw'r peth allweddol; mae'n gwbl hanfodol ein bod yn pennu amcanion clir ar gyfer y prosiectau hyn, bod gennym ffyrdd clir o'u monitro, bod gennym dargedau clir a'n bod yn gwerthuso prosiectau wedi hynny ac yn dysgu gwersi o wneud hynny. Rwy'n sicrhau hynny nid yn unig yn y maes gwaith hwn, ond ar draws fy mhortffolio cyfan.

14:09 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the parasites that have attacked managed colonies have spread to our wild bee population and other mismanagement has resulted in decline. Therefore, is it time to adopt the precautionary principle or risk losing bees such as the large mason bee, which is Britain's rarest bee, with just 250 females existing in two colonies, both of which are in Wales? What are the consequences for us all of not addressing bee decline? Will you publish the monitoring work that you mentioned earlier of wild bees, so that we have a full picture of the numbers and changes in the population of this very important insect?

Weinidog, mae'r parasitiaid sydd wedi ymosod ar gytrefi rheoledig wedi lledaenu i'n poblogaeth o wenyn gwyllt ac mae enghreifftiau eraill o gamreoli wedi arwain at ostyngiad yn eu nifer. Felly, a yw'n bryd mabwysiadu'r egwyddor ragofalus neu wynebu'r perygl y byddwn yn colli gwenyn fel y saerwenynen mawr, sef gwenynen brinnaf Prydain, gyda dim ond 250 o wenyn benywaidd yn bodoli mewn dwy gytref, y mae'r ddwy ohonynt yng Nghymru? Beth fydd canlyniadau peidio ag ymdrin â'r gostyngiad hwn mewn gwenyn i bob un ohonom? A wnewch gyhoeddi'r gwaith monitro a grybwyllwyd gennych yn gynharach mewn perthynas â gwenyn gwyllt, er mwyn inni gael darlun cyflawn o'r niferoedd a'r newidiadau ym mhoblogaeth y pryfyn hynod bwysig hwn?

14:10 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will publish all of the actions, all of the minutes, all of the reviews, all of the evaluation and all of the information from the taskforce so that you will be able to see the work in its totality, to judge the success from that and to hold us to account for the promises and commitments that we have made.

Byddaf yn cyhoeddi'r holl gamau gweithredu, yr holl gofnodion, yr holl adolygiadau, yr holl waith gwerthuso a'r holl wybodaeth gan y tasglu er mwyn ichi allu gweld y gwaith yn ei gyfanrwydd, er mwyn barnu'r llwyddiant o hynny a sicrhau ein bod yn atebol am yr addewidion a'r ymrwymiadau a wnaed gennym.

14:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Welsh Liberal Democrats' spokesperson, William Powell.

Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, William Powell.

14:11 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. Minister, my discussions recently with beekeepers and their associations in mid and west Wales concur very much with the findings that Sandy Mewies mentioned earlier, in that there has been a strong welcome for the pollinator action plan across the sector. However, it has been raised with me that there is still a relatively low level of awareness out there among beekeepers, particularly small-scale beekeepers, of the plan and its scope. What further measures, in addition to what the Minister has already outlined, can the Welsh Government take to ensure that the excellent objectives within that plan are fully realised?

Diolch, Lywydd. Weinidog, mae fy nhrafodaethau diweddar gyda gwenynwyr a'u cymdeithasau yng nghanolbarth a gorllewin Cymru yn cadarnhau'r canfyddiadau y soniodd Sandy Mewies amdanynt yn gynharach i raddau helaeth, sef y cafodd y cynllun gweithredu ar gyfer peillwyr groeso cynnes ar draws y sector cyfan. Fodd bynnag, codwyd y ffaith gyda mi bod lefelau ymwybyddiaeth ymhlith gwenynwyr o'r cynllun a'i gwmpas yn parhau'n gymharol isel, yn enwedig ymhlith gwenynwyr ar raddfa fach. Pa gamau pellach, yn ogystal â'r hyn a amlinellwyd gan y Gweinidog eisoes, y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i sicrhau y caiff yr amcanion ardderchog sy'n rhan o'r cynllun hwnnw eu gwireddu'n llawn?

14:11 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

I am not sure that I accept the analysis that the Member has outlined; I think that there is general awareness of the plan that was launched at the Royal Welsh Show last year. The plan was drawn up after a significant amount of consultation, led by my predecessor. The main beekeeping associations in Wales are represented on the taskforce, and it has received a considerable amount of coverage in Wales and the United Kingdom. So, I would not necessarily accept that analysis.

Nid wyf yn siŵr fy mod yn derbyn y dadansoddiad a amlinellwyd gan yr Aelod; credaf fod ymwybyddiaeth gyffredinol o'r cynllun a lansiwyd yn Sioe Frenhinol Cymru y llynedd. Lluniwyd y cynllun yn dilyn cryn ymgynghori, o dan arweiniad fy rhagflaenydd. Caiff y prif gymdeithasau cadw gwenyn yng Nghymru eu cynrychioli ar y tasglu, ac mae wedi cael cryn dipyn o sylw yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. Felly, ni fyddwn o reidrwydd yn derbyn y dadansoddiad hwnnw.

Senedd.tv Fideo Video

14:12 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Make it a shorter question this time.

Gofynnwch gwestiwn byrrach y tro hwn.

Senedd.tv Fideo Video

14:12 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Indeed. Thank you very much for that response. In association with the previous question, does the Minister believe that there would be benefit in engaging in a partnership with particular special purpose local authorities, such as the Welsh national park authorities, in taking forward specific actions with regard to the pollinator action plan? Will the Minister consider locating such a plan in the divisional office in Brecon, which is co-located with the headquarters of the Brecon Beacons National Park Authority, the future of which he was kind enough to confirm yesterday?

Yn wir. Diolch yn fawr iawn am yr ymateb hwnnw. Mewn perthynas â'r cwestiwn blaenorol, a yw'r Gweinidog o'r farn y byddai'n fuddiol cymryd rhan mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol diben arbennig penodol, megis awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru, er mwyn rhoi camau gweithredu penodol ar waith o ran y cynllun gweithredu ar gyfer peillwyr? A wnaiff y Gweinidog ystyried lleoli cynllun o'r fath yn y swyddfa ranbarthol yn Aberhonddu, sydd wedi'i chyd-leoli â phencadlys Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, y bu'n ddigon caredig â chadarnhau ei ddyfodol ddoe?

Senedd.tv Fideo Video

14:13 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

I am not sure that the plan exists in quite the physical way that the Member suggests. The plan is a series of actions that will be taken by people across the whole of Wales. We are not going to locate all these actions in the wonderful, magnificent town of Brecon—we are going to do it in every community up and down Wales from Amlwch to Porthcawl.

Nid wyf yn siŵr bod y cynllun yn bodoli yn y ffordd ffisegol a awgrymir gan yr Aelod. Cyfres o gamau gweithredu i'w cymryd gan bobl ledled Cymru gyfan yw'r cynllun. Nid ydym yn bwriadu lleoli'r holl gamau gweithredu hyn yn nhref ardderchog, odidog Aberhonddu—rydym yn bwriadu gwneud hynny ymhob cymuned ar hyd a lled Cymru o Amlwch i Borthcawl.

Senedd.tv Fideo Video

14:13 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Question 9 was grouped with question 7, so we move on to question 10.

Cafodd cwestiwn 9 ei grwpio gyda chwestiwn 7, felly symudwn ymlaen i gwestiwn 10.

Senedd.tv Fideo Video

## Pysgota

## Fishing

14:13 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

*10. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o effaith stormydd mis Ionawr a mis Chwefror eleni ar bysgota? OAQ(4)0134(NRF)*

*10. What assessment has the Minister made of the effect of the January and February storms this year on fishing? OAQ(4)0134(NRF)*

Senedd.tv Fideo Video

14:13 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Rydym yn cydweithio â Chymdeithas Pysgotwyr Cymru er mwyn asesu effaith y stormydd diweddar ar y diwydiant pysgota. Cyhoeddais fy mwriad i sefydlu cynllun cymorth ar gyfer pysgotwyr yr effeithiwyd arnynt a byddaf yn cyhoeddi'r holl fanylion yn fuan iawn.

We are working collaboratively with the Welsh Fisherman's Association to assess the impact of the recent storms on the Welsh fishing industry. I announced my intention to establish a support scheme for affected fishermen last week and I will publish full details very shortly.

Senedd.tv Fideo Video

14:13 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae pysgotwyr yn fy etholaeth, fel y gallwch ddeall mae'n siŵr, wedi methu pysgota am gyfnod hir iawn y gaeaf hwn. Yn ogystal yn ddiweddar, mae'r MOD wedi cyhoeddi y bydd yn cau'r ardal danio o gwmpas Aberporth am ychydig wythnosau cyn bo hir, sydd hefyd yn effeithio ar bysgotwyr mewn ffordd ymarferol iawn. Mae'r pysgotwyr felly yn awyddus iawn i wybod cyn gynted ag sy'n bosibl—

Fishermen in my constituency, as you understand, I am sure, have failed to undertake any fishing for long periods during this winter. Also, the Ministry of Defence has recently announced that it will be closing the firing range in the Aberporth area for a few weeks in the not too distant future, and this will affect fishermen in a very practical way. Fishermen are therefore eager to know as soon as possible —

14:14 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am sorry to interrupt, but there is no translation at the moment.

Mae'n ddrwg gennyf dorri ar draws, ond nid oes cyfieithiad ar hyn o bryd.

14:14 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister and I are fine; we can carry on. [Laughter.] It is okay in Welsh now, is it?

Rwyf innau a'r Gweinidog yn iawn; gallwn barhau. [Chwerthin.] Mae'n iawn yn y Gymraeg yn awr, ydyw?

14:14 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fine, carry on.

Iawn, parhewch.

14:14 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, fel y clywsoch, mae'r pysgotwyr wedi cael eu heffeithio yn galed iawn yn fy etholaeth ac, yn ogystal, mae'r MOD wedi cyhoeddi'n ddiweddar ei bod yn bwriadu cau'r ardal danio o gwmpas Aberporth am ychydig wythnosau, sydd hefyd yn effeithio yn uniongyrchol ar y pysgotwyr. Mae pysgotwyr, felly, yn awyddus iawn i wybod manylion eich cynllun cymorth fel y gallant benderfynu pa fath o fuddsoddiad ychwanegol y byddant yn gyfrifol amdano a pha fuddsoddiad y byddwch chi'n gallu ei roi i'w cefnogi. Maent yn awyddus i glywed y manylion am hynny cyn gynted ag y bo modd.

Minister, as you have just heard, fishermen have been affected very badly in my constituency and, in addition, the MOD has announced recently that it intends to close the firing range near Aberporth for a few weeks, which will also have a direct impact on fishermen. Fishermen are, therefore, very eager to know the details of your support programme so that they can decide what sort of additional investment they will be responsible for and what investment you will be able to support them with. They are eager to hear the details of that as soon as possible.

14:15 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Absolutely.

Wrth gwrs.

Rydym yn trafod hynny â nhw ar hyn o bryd. Mae'r drafodaeth wedi bod yn parhau ers rhai wythnosau, a gwneuthum ddatganiad yr wythnos diwethaf gan fy mod yn gwybod bod pobl yn trafod y math o gynllun y byddwn yn ei gyhoeddi. Byddaf yn gwneud cyhoeddiad cyn diwedd y flwyddyn ariannol ar y math o gynllun a fydd gennym. Bydd y cynllun yn edrych ar pa fath o offer sydd wedi'i ddinistrio yn ystod y stormydd diweddar. Mae materion eraill sy'n berthnasol i'r diwydiant pysgota. Bydd yr aelod yn ymwybodol ein bod wedi bod yn buddsoddi'n hael yn nyfodol y diwydiant.

We are in discussions with them on that at present. We have been discussing this for a few weeks and I made a statement last week as I knew that people were discussing the kind of scheme that we will be announcing. I will be making an announcement before the end of the financial year on the kind of scheme that we will have. The scheme will look at what kind of equipment has been destroyed during the recent storms. There are other issues pertaining to the fishing industry. The Member will be aware that we have been investing generously in the future of the industry.

14:15 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, on 11 February, you would have heard the First Minister saying that Natural Resources Wales, when it undertook its assessment of coastal damage, would include the damage to fisheries. Are you able to confirm that you have received that report from Natural Resources Wales? I know that you are working closely with the Welsh Fisherman's Association, but do you have an idea of the scale of the damage, not only to the equipment but to the fishing grounds, caused by the storms?

Weinidog, ar 11 Chwefror, byddech wedi clywed y Prif Weinidog yn dweud y byddai Cyfoeth Naturiol Cymru, pan gynhaliodd ei asesiad o'r difrod i'r arfordir, yn cynnwys y difrod i bysgodfeydd. A allwch gadarnhau eich bod wedi cael yr adroddiad hwnnw gan Cyfoeth Naturiol Cymru? Gwn eich bod yn gweithio'n agos gyda Chymdeithas Pysgotwyr Cymru, ond a oes gennych syniad faint o ddifrod a achoswyd gan y stormydd, nid yn unig i'r offer ond i'r tiroedd pysgota?

14:16 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

The statement that the First Minister made on 11 February referred to the two reports that I referred to earlier. The first-stage report is about the damage to coastal defences as a result of the storms. The second-stage report, which will look at the wider impacts of the storms, will be published next month.

Cyfeiriodd y datganiad a wnaeth y Prif Weinidog ar 11 Chwefror at y ddau adroddiad y cyfeiriais atynt yn gynharach. Mae'r adroddiad cam cyntaf yn ymwneud â'r difrod i amddiffynfeydd arfordirol o ganlyniad i'r stormydd. Cyhoeddir yr adroddiad ail gam, a fydd yn edrych ar effeithiau ehangach y stormydd, fis nesaf.

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

Senedd.tv Fideo Video

## Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio

## Questions to the Minister for Housing and Regeneration

### Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

### Anti-social Behaviour

14:17 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pa ganllawiau y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi i landlordiaid cymdeithasol ar gyfer ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol? OAQ(4)0364(HR)*

*1. Will the Minister make a statement on what guidance the Welsh Government gives to social landlords for dealing with anti-social behaviour? OAQ(4)0364(HR)*

Senedd.tv Fideo Video

14:17 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration*

I thank the Member for Cynon Valley for her question. Our guidance is extensive and can be found on the Welsh Government website. It includes anti-social behaviour policies and procedures and the housing management standard for tackling anti-social behaviour.

Diolch i'r Aelod dros Gwm Cynon am ei chwestiwn. Mae ein canllawiau'n helaeth a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru. Maent yn cynnwys polisïau ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithdrefnau a safon rheoli tai ar gyfer mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Senedd.tv Fideo Video

14:17 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

You know that residents experiencing anti-social behaviour from neighbours often face the most difficult situations. Such incidents can affect their health and wellbeing. You have talked about guidance, but what guidance are you giving to social landlords so that they actually engage with the local communities around them effectively so that these matters can be resolved quickly?

Gwyddoch fod trigolion sy'n cael profiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol gan gymdogion yn aml yn wynebu sefyllfaoedd hynod anodd. Gall achosion o'r fath effeithio ar eu hiechyd a'u lles. Rydych wedi sôn am ganllawiau, ond pa ganllawiau yr ydych yn eu rhoi i landlordiaid cymdeithasol fel eu bod yn wir yn ymgysylltu â'r cymunedau lleol o'u cwmpas yn effeithiol fel y gall y materion hyn gael eu datrys yn gyflym?

Senedd.tv Fideo Video

14:17 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I certainly recognise the issue the Member raises. Across Wales, there are pockets of anti-social behaviour occurring across estates. It is clearly unacceptable. There is a duty with the landlord. They have to take it seriously. I held a conference only two weeks ago, which brought local housing associations and authorities together to talk about these very issues. If the issue is not addressed by the landlord, individuals can take that organisation through the formal complaints procedure, which I would advise your constituents to do if they are not getting any joy through the actions they are taking currently.

Rwyf yn sicr yn gyfarwydd â'r broblem y mae'r Aelod yn ei chodi. Ledled Cymru, ceir pocedi o ymddygiad gwrthgymdeithasol ar ystadau. Mae'n amlwg yn annerbyniol. Mae dyletswydd ar y landlord. Rhaid iddynt gymryd y peth o ddifrif. Cynheliais gynhadledd bythefnos yn ôl, a ddaeth â chymdeithasau tai lleol ac awdurdodau at ei gilydd i drafod yr union faterion hyn. Os nad yw'r landlord yn ymdrin â'r mater, gall unigolion fynd drwy drefn gwyno ffurfiol, a byddwn yn cynghori'ch etholwyr i wneud hynny os nad ydynt yn cael llwyddiant drwy'r camau y maent yn eu cymryd ar hyn o bryd.

Senedd.tv Fideo Video

14:18 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Minister, I read with interest a recent piece of research entitled 'How social landlords tackle anti-social behaviour'. It said:

Weinidog, darllenais gyda diddordeb waith ymchwil diweddar yn dwyn y teitl 'How social landlords tackle anti-social behaviour'.. Dywedodd:

Senedd.tv Fideo Video

'Landlords identified a number of weaknesses in the Standard, in particular the fact that the Standard was voluntary, that the accreditation process was a desktop exercise only, and that there were no follow up assessments once a landlord had been accredited.'

Nododd landlordiaid nifer o wendidau yn y Safon, yn arbennig y ffaith bod y Safon yn wirfoddol, bod y broses achredu ond yn ymarfer pen desg, ac nad oedd unrhyw asesiadau dilynol unwaith bod landlord wedi cael ei achredu.

Given this complete failure of the standard, what action are you taking, specifically? Are you minded to replace the current standard with something that is perhaps more meaningful?

O ystyried y methiant llwyr hwn o ran y safon, pa gamau gweithredu yr ydych yn eu cymryd, yn benodol? A fyddech yn ystyried cyflwyno rhywbeth mwy ystyrlon o bosibl yn lle'r safon gyfredol?

14:18 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am reviewing the standard and how it will be implemented across the whole sector.

Rwy'n adolygu'r safon a sut y caiff ei rhoi ar waith drwy'r sector cyfan.

14:18 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, as a former housing manager for a social landlord in this city for 26 years, I would like to ask how closely the Welsh Government is working with the hate crime research project to alert social landlords to hate crime committed by some of their tenants against other tenants who are simply disabled.

Weinidog, fel cyn-reolwr tai i landlord cymdeithasol yn y ddinas hon am 26 mlynedd, hoffwn ofyn pa mor agos y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r prosiect ymchwil i droseddau casineb er mwyn tynnu sylw landlordiaid cymdeithasol at droseddau a gyflawnwyd gan rai o'u tenantiaid yn erbyn tenantiaid eraill am eu bod yn anabl.

14:19 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We work across departments within Welsh Government. I know that the Minister for Communities and Tackling Poverty is looking at this very issue of hate crime. However, I am very committed to tackling the issue of anti-social behaviour, whatever form that takes, to make sure that landlords act responsibly and take this seriously.

Rydym yn gweithio ar draws adrannau o fewn Llywodraeth Cymru. Gwn fod y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn edrych ar yr union fater hwn sef troseddau casineb. Fodd bynnag, rwy'n ymroddedig iawn i fynd i'r afael â phroblem ymddygiad gwrthgymdeithasol, ar ba ffurf bynnag y mae'n codi, er mwyn sicrhau bod landlordiaid yn ymddwyn mewn ffordd gyfrifol ac yn cymryd hyn o ddifrif.

14:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Welsh Liberal Democrat spokesperson on housing, Peter Black.

Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar dai, Peter Black.

14:19 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, one of the consequences of social landlords taking action against anti-social tenants is that they will often end up in private sector rented properties, where they continue to cause problems to their neighbours and the local community. What guidance will you give as part of the new registration process in the housing Bill to private landlords to try to help them to control this particular issue?

Weinidog, pan fydd landlordiaid cymdeithasol yn cymryd camau yn erbyn tenantiaid gwrthgymdeithasol, un o'r canlyniadau yw y byddant yn aml yn cael eu cartrefu mewn eiddo rhent yn y sector preifat, lle maent yn parhau i achosi problemau i'w cymdogion a'r gymuned leol. Pa ganllawiau y byddwch yn eu rhoi fel rhan o'r broses gofrestru newydd yn y Bil tai i landlordiaid preifat er mwyn ceisio helpu i reoli'r mater penodol hwn?

14:20 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that the whole issue of ownership, whether that is in the private or public sector of housing, is about somebody taking responsibility. We are working with groups across the sector to ensure that they understand and recognise what anti-social behaviour is and that there is a pathway to deal with it, whether that is an agency, such as a landlord in particular, or a service for a law enforcement group, such as the police or otherwise. However, it is important and we all have to consider how we move forward on this.

Credaf fod mater perchnogaeth, boed hynny yn y sector tai preifat neu gyhoeddus, yn ymwneud â rhywun yn cymryd cyfrifoldeb. Rydym yn gweithio gyda grwpiau yn y sector i sicrhau eu bod yn deall ac yn cydnabod beth yw ymddygiad gwrthgymdeithasol a bod llwybr i ymdrin ag ef, boed hynny'n asiantaeth, fel landlord yn enwedig, neu'n wasanaeth ar gyfer grŵp gorfodi'r gyfraith, megis yr heddlu neu fel arall. Fodd bynnag, mae'n bwysig a rhaid inni i gyd ystyried sut yr ydym yn symud ymlaen o ran hyn.

14:20 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. One of the problems with the private rented sector is, where you have large concentrations of rented properties, particularly houses in multiple occupation, anti-social behaviour can be amplified and cause particular problems for a community.

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Un o'r problemau gyda'r sector rhentu preifat, lle ceir nifer fawr o eiddo rhent mewn un ardal, yn arbennig tai amlfeddiannaeth, yw y gall ymddygiad gwrthgymdeithasol gynyddu ac achosi problemau penodol i gymuned.

Will you consider, as part of the forthcoming planning Bill, introducing restrictions on planning in terms of houses in multiple occupation, so that local authorities have more control over the numbers in a particular community and can make sure that they have more balanced communities, to prevent these problems from taking place?

Fel rhan o'r Bil cynllunio arfaethedig, A wnewch chi ystyried cyflwyno cyfyngiadau ar gynllunio o ran tai amlfeddiannaeth, fel y bydd gan awdurdodau lleol fwy o reolaeth dros y niferoedd mewn cymuned benodol ac fel y gallant sicrhau bod cymunedau'n fwy cytbwys, er mwyn atal y problemau hyn rhag digwydd?

14:21 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I believe that local authorities already have powers to control the mechanism of what their cities, towns or villages look like in terms of the planning process. I will look closer at the issues around HMOs and I have offered, following lobbying from other Members, to work around the consequences of having major developments of HMOs in a particular area. I will be making further inquiries around that in the next couple of months.

Credaf fod gan awdurdodau lleol bwerau eisoes i reoli golwg eu dinasoedd, eu trefi neu eu pentrefi o ran y broses gynllunio. Edrychaf yn fanylach ar y materion sy'n ymwneud â thai amlfeddiannaeth ac, ar ôl lobïo gan Aelodau eraill, rwyf wedi cynnig ystyried goblygiadau datblygiadau mawr o dai amlfeddiannaeth mewn ardal benodol. Gwnaf ymholiadau pellach ynghylch hynny yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf.

### System Gynllunio Cymru

### The Welsh Planning System

14:21 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei gynigion ar gyfer dyfodol system gynllunio Cymru? OAQ(4)0360(HR)*

*2. Will the Minister make a statement on his proposals for the future of the Welsh planning system? OAQ(4)0360(HR)*

14:21 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The consultation period on the draft planning Wales Bill and the supporting paper, 'Positive Planning', closed on 26 February. The responses to the consultation are currently being considered.

Daeth y cyfnod ymgynghori ar y Bil cynllunio Cymru drafft a'r papur ategol, 'Cynllunio Cadarnhaol', i ben ar 26 Chwefror. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

14:22 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, as you know, I take a great deal of interest in the heritage of our nation. I appreciate that your ministerial colleague will be bringing forward a heritage Bill, but what protections might local authorities be able to introduce with the support of your proposals to ensure that local buildings that are of importance locally and nationally to the heritage of Wales might have the proper protections that they deserve?

Weinidog, fel y gwyddoch, mae gennyf ddiddordeb mawr yn nhreftadaeth ein cenedl. Sylweddolaf y bydd eich cyd-Weinidog yn cyflwyno Bil treftadaeth, ond pa gamau diogelu y gallai awdurdodau lleol eu cyflwyno gyda chefnogaeth eich cynigion er mwyn sicrhau y gallai adeiladau lleol sydd o bwys yn lleol ac yn genedlaethol i dreftadaeth Cymru gael eu diogelu fel y maent yn ei haeddu?

14:22 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am already in discussion with the Minister and his proposal around the heritage Bill to see how the two Bills—planning and heritage—interact, as well as the environment Bill. Again, there are synergies between the three around protection of the natural environment. It is an important part of the work that we are doing and it is being considered during the drafting stages.

Rwyf eisoes yn trafod gyda'r Gweinidog a'i gynnig ynglŷn â'r Bil treftadaeth i weld sut y mae'r ddau Fil—cynllunio a threftadaeth—yn rhyngweithio, yn ogystal â Bil yr amgylchedd. Unwaith eto, ceir synergeddau rhwng y tri o ran gwarchod yr amgylchedd naturiol. Mae'n rhan bwysig o'r gwaith yr ydym yn ei wneud ac mae'n cael ei ystyried yn ystod y cyfnodau drafftio.

14:22 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, could you indicate whether community councils will be given an enhanced role in the planning process following the implementation of larger local authorities, as recommended by the Williams report?

Weinidog, a allech nodi a fydd cynghorau cymuned yn cael mwy o rôl yn y broses gynllunio yn sgil gweithredu awdurdodau lleol mwy o faint, fel y'u hargymhellwyd gan adroddiad Williams?

14:23 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Mick, for your question. Our proposals are to introduce locally relevant supplementary planning guidance in the form of place plans. I believe that community councils will feature heavily in the process in terms of pre-application consultations. So, there will be a role there for them.

Diolch ichi, Mick, am eich cwestiwn. Ein cynigion yw y dylid cyflwyno canllawiau cynllunio atodol perthnasol yn lleol ar ffurf cynlluniau lle. Credaf y bydd cynghorau cymuned yn cael rôl amlwg iawn yn y broses o ran ymgynghoriadau cyn cais. Felly, bydd ganddynt rôl i'w chwarae.

14:23 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call the opposition spokesperson, Mark Isherwood.

Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Mark Isherwood.

14:23 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Given that your forthcoming planning Bill, as you have indicated, intends to make it easier to encourage housing supply through greater flexibility, and given that we have too few homes, too many boarded up shops and that town centre development already has an infrastructure, what consideration will you give in the Bill to making it easier to convert excess retail property to residential use?

O ystyried y bwriedir i'ch Bil cynllunio arfaethedig, fel y nodwyd gennych, ei gwneud yn haws i annog cyflenwad tai drwy fwy o hyblygrwydd, ac o gofio nad oes gennym ddigon o gartrefi, bod gormod o siopau gwag a bod gan brosesau datblygu canol y dref seilwaith eisoes, pa ystyriaeth y byddwch yn ei rhoi yn y Bil i'w gwneud yn haws i addasu eiddo manwerthu dros ben at ddefnydd preswyl?

14:23 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

There is already a facility to convert properties from retail into housing provision in current legislation. We will consider that further in the drafting of this new Bill.

Ceir cyfleuster eisoes yn y ddeddfwriaeth gyfredol i addasu eiddo o ddefnydd manwerthu i ddefnydd preswyl. Byddwn yn ystyried hynny ymhellach wrth ddrafftio'r Bil newydd hwn.

14:23 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for that. You will be aware that there are professional bodies that are very keen to see this strengthened, so that local authorities are compliant. On a related matter, again, within the forthcoming planning Bill, what consideration will you give to the provision of independent training and refresher training for councillors and council officials on the planning process, so that they know where to access ministerial interim planning policies, statements and Welsh Government guidance, so that they can challenge, if need be, the advice that they are given and so that they know when they can speak out under the planning code of conduct?

Diolch ichi am hynny. Byddwch yn ymwybodol bod rhai cyrff proffesiynol yn awyddus iawn i weld hyn yn cael ei gryfhau, er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn cydymffurfio. Ar fater cysylltiedig, unwaith eto, o fewn y Bil cynllunio arfaethedig, pa ystyriaeth y byddwch yn ei rhoi i ddarparu hyfforddiant annibynnol a hyfforddiant gloywi i gynghorwyr a swyddogion cyngor ar y broses gynllunio, er mwyn iddynt wybod ble y gallant gael gafael ar bolisïau cynllunio interim y gweinidog, datganiadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru, fel y gallant herio'r cyngor a roddir iddynt os oes angen ac er mwyn iddynt wybod pryd y gallant leisio barn o dan y cod ymddygiad cynllunio?

14:24 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I will be very clear, Presiding Officer: the new planning Bill will be a procedure-based Bill, not a policy Bill, and we will be looking at how delivery can be enhanced in terms of growing the economy in Wales. I share the Member's concern around training and skill-based knowledge for both elected members and professionals in that process, and we are looking at a training package for delivery through the Bill process.

Byddaf yn glir iawn, Lywydd: bydd y Bil cynllunio newydd yn seiliedig ar weithdrefn, nid Bil polisi fydd, a byddwn yn ystyried sut y gellir gwella prosesau cyflawni o ran creu twf yn yr economi yng Nghymru. Rhannaf bryder yr Aelod ynglŷn â hyfforddiant a gwybodaeth yn seiliedig ar sgiliau ar gyfer aelodau etholedig a gweithwyr proffesiynol yn y broses honno, ac rydym yn edrych ar becyn hyfforddi i'w gyflwyno drwy broses y Bil.

14:24 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Minister, you decided not to include a statutory purpose for planning in Wales in the draft Bill that you have published, against the recommendations of the independent advisory group and others, of course. Would not making it a statutory purpose for planning in Wales to contribute to the achievement of sustainable development give the clearest possible signal in terms of the priorities of this Government?

Weinidog, gwnaethoch benderfynu peidio â chynnwys pwrpas statudol ar gyfer cynllunio yng Nghymru yn y Bil drafft a gyhoeddwyd gennych yn groes i argymhellion y grŵp cynghori annibynnol ac eraill, wrth gwrs. Oni fyddai creu pwrpas statudol bod yn rhaid i gynllunio yng Nghymru gyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy yn rhoi'r neges gliriaf bosibl o ran blaenoriaethau'r Llywodraeth hon?

Senedd.tv Fideo Video

14:25 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I think that the Member is right to raise the issues about what we accept and what we do not accept within the Bill structure. We are still in a consideration phase of drafting, so who knows what might come in the more detailed approach to the final Bill? However, what I will say is that I believe that sustainable development is a core plank in terms of delivering all our policies, including the planning Bill, as well as the Bill on future generations that my colleague will be bringing forward later this year.

Credaf ei bod yn iawn i'r Aelod godi'r materion ynglŷn â'r hyn yr ydym yn ei dderbyn a'r hyn nad ydym yn ei dderbyn o fewn strwythur y Bil. Rydym yng nghanol cyfnod ystyried y drafftio o hyd, felly pwy a ŵyr beth allai gael ei gynnwys ym manylion y Bil terfynol? Fodd bynnag, yr hyn yr hoffwn ei nodi yw fy mod yn credu bod datblygu cynaliadwy yn elfen greiddiol o ran gweithredu ein holl bolisïau, gan gynnwys y Bil cynllunio, yn ogystal â'r Bil ar genedlaethau'r dyfodol y bydd fy nghyd-Weinidog yn ei gyflwyno'n ddiweddarach eleni.

Senedd.tv Fideo Video

14:25 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Minister, in a written response to me last week, you confirmed that, so far, the Welsh Government has made no assessment of the consequences of planning inspectors using Department for Communities and Local Government guidance during their examination of the community infrastructure levy aspect of local authority local development plans here in Wales. I understand that this is an issue that has particularly come to light in Carmarthenshire and in Caerphilly. Given the lack of assessment of the consequences of using English planning guidance in this way, how can the Welsh Government be assured that Welsh planning policy is not being inappropriately influenced by planning policy drafted for use across the border in England?

Weinidog, mewn ymateb ysgrifenedig imi yr wythnos diwethaf, cadarnhawyd nad oedd Llywodraeth Cymru, hyd yn hyn, wedi gwneud unrhyw asesiad o'r goblygiadau os bydd arolygwyr cynllunio yn defnyddio canllawiau'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol wrth archwilio agwedd ardoll leol seilwaith cymunedol ar gynlluniau datblygu awdurdodau lleol yma yng Nghymru. Caf ar ddeall bod hwn yn fater sydd wedi dod i'r amlwg yn Sir Gaerfyrddin ac yng Nghaerffili yn benodol. O ystyried nad yw goblygiadau defnyddio canllawiau cynllunio Lloegr yn y modd hwn wedi cael eu hasesu, sut y gall Llywodraeth Cymru fod yn sicr nad yw polisi cynllunio a luniwyd i'w ddefnyddio dros y ffin yn Lloegr yn cael dylanwad amhriodol ar bolisi cynllunio Cymru?

Senedd.tv Fideo Video

14:26 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I think that your written question to me was had we had any discussions and the answer was that, clearly, we had not. Does that mean that we will not have in the future, or that we will not consider the implications of the English element of the Bill having an effect? That is something that I am considering

Credaf mai'ch cwestiwn ysgrifenedig ataf oedd a oeddem wedi cael unrhyw drafodaethau a'r ateb oedd nad oeddem, yn amlwg. A yw hynny'n golygu na fyddwn yn cael trafodaethau yn y dyfodol, neu na fyddwn yn ystyried y goblygiadau os bydd elfen Lloegr y Bil yn cael effaith? Mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn ei ystyried

Senedd.tv Fideo Video

### Adfywio Canol Trefi

### Town-centre Regeneration

14:27 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adfywio canol trefi yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0359(HR)*

*3. Will the Minister make a statement on town centre regeneration in west Wales? OAQ(4)0359(HR)*

Senedd.tv Fideo Video

14:27 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I thank the Member for Preseli Pembrokeshire. West Wales will benefit from 'Vibrant and Viable Places', support for business improvement districts, a new town-centre loans fund and other actions.

Diolch i'r Aelod dros Breseli Sir Benfro. Bydd Gorllewin Cymru yn cael budd o gymorth o dan 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid', i ardaloedd gwella busnes, cronfa benthyciadau canol trefi newydd a chamau gweithredu eraill.

Senedd.tv Fideo Video

14:27 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the Minister for that answer, but, as he is aware, Pembrokeshire was unsuccessful in obtaining funding through the 'Vibrant and Viable Places' scheme and, again, through the business improvement districts scheme. Given that areas such as Fishguard in my constituency were promised funding by the Welsh Government to regenerate their areas some 10 years ago, which never materialised, can the Minister tell us what funding opportunities will be available to Pembrokeshire in the near future to help support vital regeneration?

Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw, ond, fel y gŵyr, methodd Sir Benfro â chael cyllid drwy gynllun y 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' ac, unwaith eto, drwy'r cynllun ardaloedd gwella busnes. O gofio i Lywodraeth Cymru addo cyllid i ardaloedd fel Abergwaun yn fy etholaeth er mwyn adfywio eu hardaloedd tua 10 mlynedd yn ôl, sydd erioed wedi ymddangos, a all y Gweinidog ddweud wrthym pa gyfleoedd cyllid fydd ar gael i Sir Benfro yn y dyfodol agos er mwyn helpu i gefnogi gwaith adfywio hanfodol?

14:27 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, 'Vibrant and Viable Places' is just one part of my department. There is cross-Government investment that is available for all areas of Wales, including Fishguard, and it is something that I know that my colleagues are looking at in terms of making the right investment in the right places.

Wrth gwrs, dim ond un rhan o'm hadran yw 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid'. Mae buddsoddiad trawslywodraethol ar gael ar gyfer pob rhan o Gymru, gan gynnwys Abergwaun, ac mae'n rhywbeth y gwn fod fy nghyd-Weinidigion yn ei ystyried o ran gwneud y buddsoddiad cywir yn y lleoedd cywir.

14:28 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, yng nghanol tref Llanelli, ceir sawl uned wag uwch ben siopau. Byddai eu defnyddio fel lleoedd byw yn ychwanegol yn dod â sawl mantais yn nhermau creu cymuned sy'n byw ac yn siopa yn lleol ar y stryd fawr ac yn gwneud defnydd o'r unedau gwag. Pa drafodaethau ydych chi wedi eu cael gyda rhanddeiliaid am y mathau gwahanol o weithredu i adfywio canol trefi, megis cynyddu defnydd o'r unedau hyn?

Minister, in Llanelli town centre, there are many vacant units above shops. Using them as additional living spaces would bring many benefits in terms of creating a community that lives and shops locally on the high street and make use of the vacant units. What discussions have you had with stakeholders on the different types of action to regenerate town centres, such as increasing use of these units?

14:28 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the Member for raising the issue, particularly around the Llanelli area, but this is prevalent in many areas across Wales. This type of scenario is what I intend my VVP investment funding to target. I will be announcing shortly details of the fund for those areas that were unsuccessful at stage 1 of VVP and that are eligible for further funding, for which Llanelli will be eligible.

Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod am godi'r mater hwn, yn enwedig yn ardal Llanelli, ond mae hyn yn rhywbeth cyffredin mewn sawl rhan o Gymru. Dyma'r math o sefyllfa yr wyf yn bwriadu i'n cyllid buddsoddi Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid ei thargedu. Cyn bo hir byddaf yn cyhoeddi manylion y gronfa ar gyfer yr ardaloedd hynny a fu'n aflwyddiannus yng nghyfnod 1 Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid ac sy'n gymwys i gael cyllid pellach, y bydd Llanelli yn gymwys i wneud cais amdano.

## Mannau Hamdden

## Recreational Space

14:29 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am warchodaeth gynllunio ar gyfer mannau hamdden yng Nghymru? OAQ(4)0361(HR)*

*4. Will the Minister make a statement on planning protections for recreational space in Wales? OAQ(4)0361(HR)*

14:29 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for Clwyd West for this question. National planning policy and guidance, together with local development plans, afford protection to recreational space in Wales.

Diolch i'r Aelod dros Orllewin Clwyd am y cwestiwn hwn. Mae polisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol, ynghyd â chynlluniau datblygu lleol, yn diogelu mannau hamdden yng Nghymru.

14:29 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer. Minister, there is a great deal of concern in Abergele in my constituency regarding proposals for development on what has been traditionally used as recreational space adjacent to some playing fields in the town. Will you tell us what proposals you have for changing the way that village greens are registered in Wales and how that might impact upon this system? There is a lot of concern that the process for village green registration may become more bureaucratic, more cumbersome, and more difficult for locals in constituencies like mine in the future.

Diolch ichi am yr ateb hwnnw. Weinidog, mae cryn dipyn o bryder yn Abergele yn fy etholaeth ynghylch cynigion ar gyfer datblygiad ar yr hyn sydd wedi cael ei ddefnyddio'n draddodiadol fel man hamdden ger rhai caeau chwarae yn y dref. A wnewch chi ddweud wrthym pa gynigion sydd gennych ar gyfer newid y ffordd y caiff meysydd pentref eu cofrestru yng Nghymru a sut y gallai hynny effeithio ar y system hon? Mae llawer o bryder y gallai'r broses ar gyfer cofrestru meysydd pentref ddod yn fwy biwrocrataidd, yn fwy beichus, ac yn fwy anodd i bobl leol mewn etholaethau fel fy un i yn y dyfodol.

14:30 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Again, I thank the Member for his question. If I may, I will not comment on the specific planning application within his constituency. However, the broader policy of village greens is an important point that the Member raises. It is our intention currently within the draft Bill process to give, still, the opportunity for people to register for village green status, provided that that is not complicated by a planning application that is current. A post-planning or pre-planning application for village green space can still be pursued, but not during a planning process when an application is taking place, because it does frustrate the planning system.

Unwaith eto, hoffwn ddiolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Os caf, ni wnaf sylwadau ar y cais cynllunio penodol o fewn ei etholaeth. Fodd bynnag, mae'r polisi ehangach ynglŷn â meysydd pentref yn bwynt pwysig y mae'r Aelod yn ei godi. Ein bwriad ar hyn o bryd o fewn proses y Bil drafft yw parhau i roi'r cyfle i bobl gofrestru statws maes y pentref, ar yr amod nad yw hynny'n cael ei gymhlethu gan gais cynllunio sy'n gyfredol. Gall cais ôl-gynllunio neu cyn cynllunio ar gyfer meysydd pentref gael eu hystyried o hyd, ond nid yn ystod proses gynllunio pan fo cais yn mynd rhagddo, oherwydd mae'n rhwystro'r system gynllunio.

14:30 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, mae tir sydd wedi ei ddynodi ar gyfer gweithgareddau hamdden yn denu datblygiadau, oherwydd y niferoedd o dai sy'n cael eu dynodi o dan y cynllun datblygu lleol. Er enghraifft, yng Nghaerfyrddin, mae arolwg anheddau Cymru yn rhagweld bod angen 11,000 o dai dros y 25 mlynedd nesaf, ond, eto, o fewn y cynllun datblygu lleol, mae cynllun i adeiladu 10,000 o dai o fewn y 10 mlynedd nesaf. A oes angen, Weinidog, i chi edrych unwaith yn rhagor ar y niferoedd o dai sydd wedi eu cynnwys o dan gynlluniau datblygu lleol ein hawdurdodau lleol, er mwyn sicrhau bod y mannau hyn sydd wedi cael eu dynodi ar gyfer hamdden yn cael eu diogelu?

Minister, land that is designated for recreational use does attract development, because of the numbers of houses designated under the local development plan. For example, in Carmarthen, the Welsh dwelling survey says that we need another 11,000 houses over the next 25 years, but, in the local development plan, the intention is to build 10,000 houses in the next 10 years. Is there a need, Minister, for you to look once again at the number of houses that are included under the local development plans of our local authorities, in order to ensure that these areas that are designated for recreational use are protected?

14:31 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, I think that the whole issue about recreational space is part of the planning process that is considered by the local planning authority. Local development plans mean that they are created locally, and it is not for me to interfere with the process, whereby a local authority creates the plan, and designs the housing need and the recreational spaces that are developed within the plans that it creates. It is something that we are conscious of, which has a high impact on communities, but is something that, locally, should be considered by the local planning authority.

Wrth gwrs, credaf fod holl fater mannau hamdden yn rhan o'r broses gynllunio sy'n cael ei hystyried gan yr awdurdod cynllunio lleol. Mae cynlluniau datblygu lleol yn golygu eu bod yn cael eu creu'n lleol, ac nid fy lle i yw ymyrryd yn y broses, lle mae awdurdod lleol yn creu cynllun, ac yn cynllunio ar gyfer yr angen am dai a'r mannau hamdden sy'n cael eu datblygu o fewn y cynlluniau y mae'n eu creu. Mae'n rhywbeth yr ydym yn ymwybodol ohono, sy'n cael effaith fawr ar gymunedau, ond mae'n rhywbeth a ddylai gael ei ystyried, yn lleol, gan yr awdurdod cynllunio lleol.

14:32 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, rwy'n derbyn bod canllawiau drafft wedi cael eu cyhoeddi ynglŷn â meysydd chwarae ar ddiwedd mis Chwefror. Fodd bynnag, mae llawer o sylw yr wythnos yma ar ordewdra mewn plant, a'r ffaith bod Cymru rŵan ymysg y lleoedd gwaethaf yn Ewrop. Mae swyddog y Llywodraeth wedi dweud bod hwn yn fater ar draws holl adrannau'r Llywodraeth erbyn hyn. Gaf i ofyn i chi, felly, a ydych yn ystyried—yn dilyn eich ateb blaenorol—bod lle i Lywodraeth Cymru roi canllawiau pendant ynglŷn â chynllunio, o gofio'r ffaith bod cymaint o feysydd chwarae o dan fygythiad o achos penderfyniadau gan awdurdodau lleol?

Minister, I accept that draft guidelines have been published on play areas at the end of February. However, there has been a great deal of coverage this week of childhood obesity, and the fact that Wales is now among the worst places in Europe. A Government official has said that this is an issue across all Government departments—a cross-cutting issue, if you like. May I ask you therefore—in the light of your previous response—whether there is scope for the Welsh Government to put specific guidance in place on planning, bearing in mind that so many playing fields are now under threat because of decisions taken by local authorities?

14:33 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think, again—and I am often criticised for micromanaging local planning authorities, or local authorities, in whatever guise—that the issue is that these are local developments, and that these are plans that are created by the democratically elected members and officers of an authority. I do not want to get involved in that process, in making sure that what is right for local determination is designed locally. In terms of the guidance and the opportunity that we offer for local authorities to make that consideration, there is TAN 12 around design, TAN 18 around transport opportunities, which could include walking and cycling routes, and on the issue around the Welsh Government's TAN 16 on sports, recreation and open spaces, there is a raft of guidance already in place—it is how it is implemented on a local basis with the local planning department.

Credaf, unwaith eto—a chaf fy meirniadu'n aml am ficroreoli awdurdodau cynllunio lleol, neu awdurdodau lleol, ar ba ffurf bynnag—mai'r hyn i'w gofio yw mai datblygiadau lleol yw'r rhain, a chynlluniau sy'n cael eu creu gan yr aelodau a etholwyd yn ddemocrataidd a swyddogion awdurdodau. Nid wyf am fod yn rhan o'r broses honno, o ran sicrhau bod yr hyn a ddylai gael ei benderfynu'n lleol yn cael ei lunio'n lleol. O ran y canllawiau a'r cyfle a gynigir gennym i awdurdodau lleol roi'r ystyriaeth honno, mae TAN 12 yn ymwneud â llunio, ac mae TAN 18 yn ymwneud â chyfleoedd trafnidiaeth, a allai gynnwys llwybrau cerdded a beicio, ac o ran TAN 16 Llywodraeth Cymru ynglŷn â chwaraeon, hamddena a mannau agored, mae llu o ganllawiau eisoes ar waith—y mater yw sut y cânt eu rhoi ar waith yn lleol gyda'r adran gynllunio leol.

### Landlordiaid Preifat

### Private Landlords

14:33 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisi Llywodraeth Cymru ynglŷn â chofrestru landlordiaid preifat? OAQ(4)0374(HR)*

*5. Will the Minister provide an update on Welsh Government policy in relation to the registration of private landlords? OAQ(4)0374(HR)*

14:34 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposals for private landlords form part of the housing Bill, which has recently been through Stage 1 committee scrutiny. I am currently awaiting a report from the Communities, Equality and Local Government Committee, which will precede a general debate on the Bill in the Chamber.

Mae'r cynigion ar gyfer landlordiaid preifat yn rhan o'r Bil tai, sydd wedi mynd drwy broses graffu pwyllgor Cyfnod 1 yn ddiweddar. Ar hyn o bryd rwy'n aros am adroddiad gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, cyn inni gael dadl gyffredinol ar y Bil yn y Siambr.

14:34 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n croesawu camau fel hyn i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Argymhelliad allweddol yn yr adroddiad annibynnol ar ymyddygiad gwrthgymdeithasol yw pwysigrwydd partneriaethau. Mae Llanelli yn enghraifft arbennig. Ffurfiais y Station Road forum, sy'n galw rhanddeiliaid lleol at ei gilydd i weithredu ar achosion lleol. Mae'r cyngor sir newydd lawnsio system drwyddedu detholus i landlordiaid yn yr ardal. A ydych yn cytuno bod y weithred bartneriaeth real yma, gyda'r holl randdeiliaid lleol, gan gynnwys swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, yn enghraifft arbennig o fynd i'r afael â chraidd ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn tai rhentu preifat, ac ar draws y sector tai yn gyffredinol?

I welcome steps such as this to tackle anti-social behaviour. A crucial recommendation of the independent report on anti-social behaviour is on the importance of partnership. Llanelli is an excellent example. I set up the Station Road forum, which calls local stakeholders together to take action at a local level. The county council has just launched a selective licensing system for landlords in the area. Would you agree with me that this real partnership working, with all local stakeholders, including the police community support officers, is an excellent example of tackling the core issues of anti-social behaviour in private rented homes and across the housing sector more generally?

14:35 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I commend the Member and his colleagues who work alongside him in the Station Road forum for that implementation. This is exactly what we need in terms of working in partnership to deliver against tackling the scourge of anti-social behaviour in our communities. That is a great example that the Member raises today that could be learnt from by many.

Cymeradwyaf yr Aelod a'r unigolion sy'n gweithio ochr yn ochr ag ef ar fforwm Heol yr Orsaf am y camau gweithredu hynny. Dyna'n union beth sydd ei angen o ran gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â niwsans ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ein cymunedau. Mae honno'n enghraifft wych y mae'r Aelod yn ei chodi heddiw a gellid dysgu llawer ohoni.

14:35 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Given that the Housing Act 2004 introduced selective licensing to tackle anti-social behaviour and to control criminal and poor quality landlords, and that the housing health and safety rating system that the Minister indicated, which was also introduced in the 2004 Act, will be the repairing standard under the Housing (Wales) Bill, can you tell us how many enforcement actions there have been in Wales under selective licensing, under the housing health and safety rating system, since these were adopted in Wales under subordinate legislation in this Assembly?

O ystyried i Ddeddf Tai 2004 gyflwyno trwyddedu dethol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac i reoli landlordiaid gwael a landlordiaid sy'n torri'r gyfraith, ac mai'r system mesur iechyd a diogelwch tai a nodwyd gan y Gweinidog, a gyflwynwyd hefyd yn Neddf 2004, fydd y safon atgyweirio o dan y Bil Tai (Cymru), a allwch ddweud wrthym faint o achosion o orfodi a fu yng Nghymru o dan drwyddedu dethol, o dan y system mesur iechyd a diogelwch tai, ers i'r rhain gael eu mabwysiadu yng Nghymru o dan is-ddeddfwriaeth yn y Cynulliad hwn?

14:35 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I cannot give the Member the numbers, but I will look at them and write to him with the detail. However, what I can say is that he commented on two pieces of legislation that are designed to tackle anti-social behaviour, which are clearly still having a low impact in the communities that we all represent, where anti-social behaviour is still taking place. I am committed to making sure that we can make a difference, whether that is with that legislation or with new legislation that is required.

Ni allaf roi'r ffigurau i'r Aelod, ond edrychaf arnynt ac yn ysgrifennu ato gyda'r manylion. Fodd bynnag, yr hyn y gallaf ei ddweud yw iddo wneud sylwadau ar ddau ddarn o ddeddfwriaeth sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, sydd yn amlwg yn dal i gael effaith fach ar y cymunedau yr ydym i gyd yn eu cynrychioli, lle mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn dal i ddigwydd. Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau y gallwn wneud gwahaniaeth, boed hynny drwy'r ddeddfwriaeth honno neu drwy ddeddfwriaeth newydd angenrheidiol.

14:36 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you plan to allow local authorities to place homeless families into the private rented sector. How will you ensure that those landlords will be equipped to deal with the difficulties homeless households often face, so that they will then not face repeated homelessness?

Weinidog, rydych yn bwriadu caniatáu i awdurdodau lleol gartrefu teuluoedd digartref yn y sector rhentu preifat. Sut y byddwch yn sicrhau y bydd y landlordiaid hynny'n barod i ddelio â'r anawsterau y mae aelwydydd digartref yn aml yn eu hwynebu, fel na fyddant, yn wynebu digartrefedd dro ar ôl tro?

14:36 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member is absolutely right to raise this issue and I am doing some more work in terms of the drafting of the legislation and how we look at the licensing criteria related to an individual landlord to see whether they deem themselves as suitable candidates to discharge the duty with the homeless element into the private rented sector.

Mae'r Aelod yn llygad ei lle i godi'r mater hwn ac rwy'n gwneud mwy o waith o ran drafftio'r ddeddfwriaeth a'r ffordd yr ydym yn edrych ar y meini prawf trwyddedu mewn perthynas â landlord unigol i weld a ydynt yn eu hystyried eu hunain yn ymgeiswyr addas i gyflawni'r ddyletswydd gyda'r elfen ddigartref yn y sector rhentu preifat.

14:37 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you; that is very good news, Minister. Your housing Bill also aims to drive up standards within the private rented sector. Why does it therefore set the acceptable standard as the current legal minimum?

Diolch ichi; mae'n newyddion da iawn, Weinidog. Mae eich Bil tai hefyd yn anelu at godi safonau yn y sector rhentu preifat. Felly pam mae'n pennu'r lleiafswm cyfreithiol presennol fel y safon dderbyniol?

14:37 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

There has to be a benchmark in terms of what the minimum standard is and it does not prohibit any landlord being above that. I am conscious of the Member's interest in terms of raising standards across housing and I share her view, but I do not believe that the housing Bill is the vehicle to deliver on that. I think that there are other opportunities that we are pursuing in terms of standards across the private rented sector that we are looking at and will possibly implement at a later stage.

Rhaid bod meincnod o ran beth fydd y safon ofynnol ac nid yw'n gwahardd unrhyw landlord rhag mynd yn uwch na hynny. Rwy'n ymwybodol o ddiddordeb yr Aelod o ran codi safonau ym maes tai yn gyffredinol ac rwy'n cyd-fynd â hi, ond ni chredaf mai'r Bil tai yw'r cyfrwng i gyflawni hynny. Credaf fod cyfleoedd eraill o ran safonau ar draws y sector rhentu preifat yr ydym yn eu hystyried ac y byddwn yn eu gweithredu o bosibl yn ddiweddarach.

Senedd.tv Fideo Video

### Taliadau Escrow

### Escrow Payments

14:37 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

*6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am daliadau escrow a wnaed rhwng awdurdodau cynllunio lleol a gweithredwyr glo brig? OAQ(4)0362(HR)*

*6. Will the Minister make a statement on escrow payments made between local planning authorities and opencast operators? OAQ(4)0362(HR)*

Senedd.tv Fideo Video

14:37 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I thank the Member for her qusetion. I am not able to comment on specific cases. However, national planning policy on securing restoration is contained in 'Minerals Planning Policy Wales' and 'Minerals Technical Advice Note 2: Coal'.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Ni allaf wneud sylwadau ar achosion penodol. Fodd bynnag, ceir polisi cynllunio cenedlaethol ynglŷn â sicrhau gwaith adfer yn 'Polisi Cynllunio Mwynau Cymru' a 'Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo'.

Senedd.tv Fideo Video

14:38 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

I did not expect you to comment on any particular planning, Minister, but I am sure that you will agree with me that it is right and proper that particular operators should provide clear and transparent plans for ensuring that sites are left as they should be, as you indicated in the Varteg decision. I wonder what the Welsh Government can do with regard to existing sites. The escrow accounts for East Pit and Margam are woefully underfunded, to the point where planners now have to find other ways of filling the hole in the ground. People living near Ffos-y-fran in Merthyr also fear that the restoration is being pushed to the background as opposed to being done now. Does the Welsh Government have any ideas on how it can play a role in making sure that these companies fulfil their obligations in these particular communities?

Nid oeddwn yn disgwyl ichi wneud sylwadau ar unrhyw achos cynllunio penodol, Weinidog, ond byddwch yn cytuno â mi, mae'n siŵr gennyf, ei bod yn hollol briodol bod gweithredwyr penodol yn darparu cynlluniau clir a thryloyw i sicrhau bod safleoedd yn cael eu gadael fel y dylent, fel y nodwyd gennych yn y penderfyniad ynglŷn â'r Farteg. Tybed beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud o ran safleoedd sy'n bodoli eisoes. Mae cyfrifon ysgrow Pwll y Dwyrain a Margam wedi'u tanariannu'n druenus, nes bod yn rhaid i gynllunwyr ddod o hyd i ffyrdd eraill o lenwi'r twll yn y ddaear bellach. Mae pobl sy'n byw ger Ffos-y-frân ym Merthyr hefyd yn ofni bod y gwaith adfer yn cael ei roi o'r neilltu yn hytrach na'i wneud yn awr. A oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw syniadau ynglŷn â sut y gall chwarae rôl i sicrhau bod y cwmnïau hyn yn cyflawni eu rhwymedigaethau yn y cymunedau penodol hyn?

Senedd.tv Fideo Video

14:39 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

The Member is right to raise the issue around restoration. It is an important part of the whole planning consent. I believe that there is further work to be done on this. I have asked my officials to look at current workings within Wales to see how the escrow payments process is working, and when we have the data available I will share those with Members at the appropriate time.

Mae'r Aelod yn llygad ei lle i godi'r mater ynghylch adfer. Mae'n rhan bwysig o'r holl ganiatâd cynllunio. Credaf fod gwaith pellach i'w wneud ar hyn. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion edrych ar y gweithfeydd presennol yng Nghymru er mwyn gweld sut mae'r broses taliadau ysgrow yn gweithio, a phan gawn y data hynny byddaf yn eu rhannu â'r Aelodau ar yr adeg briodol.

Senedd.tv Fideo Video

### Addasiadau i Gartrefi yn Islwyn

### Home Adaptations in Islwyn

14:39 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer yr addasiadau i gartrefi a gynhaliwyd yn Islwyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? OAQ(4)0369(HR)*

*7. Will the Minister make a statement on the number of home adaptations carried out in Islwyn in the last year? OAQ(4)0369(HR)*

Senedd.tv Fideo Video

14:39 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We do not hold the data at Assembly constituency level. However, we have the information at local authority level. I can confirm that during the last financial year, 2012-13, Caerphilly County Borough Council provided 174 disabled facilities grants. In addition, the Welsh Government received 55 applications for physical adaptations grants.

Nid ydym yn dal y data ar lefel etholaeth Cynulliad. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth ar gael ar lefel awdurdod lleol. Gallaf gadarnhau yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, 2012-13, i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ddarparu 174 o grantiau cyfleusterau i'r anabl. Yn ogystal, cafodd Llywodraeth Cymru 55 o geisiadau am grantiau addasiadau ffisegol.

14:39 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. While it is always important to provide home adaptations, do you agree that the consequences of the bedroom tax could be people moving from homes that have already taken adaptations and so doubling the expense of putting them in again? That is, if they can find a place to go.

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Er ei bod bob amser yn bwysig darparu addasiadau i'r cartref, a ydych yn cytuno mai un o ganlyniadau'r dreth ystafell wely yw y bydd pobl yn symud o gartrefi sydd eisoes wedi'u haddasu a thrwy hynny y bydd yn dyblu cost addasiadau eto? Hynny yw, os gallant ddod o hyd i le i symud iddo.

14:40 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his very prudent question. There is anecdotal evidence that disabled tenants living in adapted properties that are affected by the bedroom tax are not receiving discretionary housing payments. I wrote to Lord Freud, asking that money be ring-fenced for this client group so that they are not forced to move out of their properties. Sadly, Lord Freud rejected my request on this process.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn doeth iawn. Ceir tystiolaeth anecdotaidd nad yw tenantiaid anabl sy'n byw mewn eiddo a addaswyd y mae'r dreth ystafell wely yn effeithio arnynt yn cael taliadau tai dewisol. Ysgrifennais at yr Arglwydd Freud, yn gofyn am i arian gael ei neilltuo'n benodol ar gyfer y grŵp cleient hwn fel nad ydynt yn cael eu gorfodi i symud o'u heiddo. Yn anffodus, gwrthododd yr Arglwydd Freud fy nghais ar y broses hon.

14:40 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

College occupational therapists call for a thorough overhaul of the housing adaptation system in Wales. I quote from its comment. It said that it was,

Mae coleg y therapyddion galwedigaethol yn galw am ailwampio'r system addasu tai yng Nghymru yn llwyr. Dyfynnaf o'i sylwadau. Mae'n dweud ei bod yn,

'bewildering, discriminatory and failing those in need'.

ddryslyd, yn camwahaniaethu ac nad yw'n diwallu anghenion y rhai sydd mewn angen.

Your housing White Paper calls for a review of these aids and adaptation programme, with which we agree. What has been done in the interim to make further improvements to the current range of services?

Mae'ch Papur Gwyn ar dai yn galw am adolygiad o'r cymhorthion hyn a'r rhaglen addasu, yr ydym yn cytuno â hynny. Beth sydd wedi cael ei wneud yn y cyfamser i wneud gwelliannau pellach i'r ystod bresennol o wasanaethau?

14:41 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I share some of the concerns that the Member raises about the way that the scheme operates. I have asked my team to conduct a review of services and how they will be delivered in the future. I will make further statements to the Assembly when that has concluded.

Rhannaf rai o'r pryderon y mae'r Aelod yn eu codi am y ffordd y mae'r cynllun yn gweithredu. Rwyf wedi gofyn i'm tîm gynnal adolygiad o wasanaethau a'r ffordd y byddant yn cael eu cyflwyno yn y dyfodol. Gwnaf ddatganiadau pellach i'r Cynulliad pan fydd wedi dod i ben.

14:41 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

My question is almost along the lines of William Graham's question. We know that one Welsh local authority actually employees two occupational therapists, and another has 21 and they are of similar size. Occupational therapists play a part in the process of delivering grants and home adaptations. What proposals will you be putting in place to help to increase the number of OTs employed in certain underperforming local authorities?

Mae fy nghwestiwn yn debyg iawn i un William Graham. Gwyddom fod un awdurdod lleol yng Nghymru yn cyflogi dau therapydd galwedigaethol, ac mae un arall yn cyflogi 21 ac maent o faint tebyg. Mae therapyddion galwedigaethol yn chwarae rhan yn y broses o ddarparu grantiau ac addasiadau i'r cartref. Pa gynigion y byddwch yn eu rhoi ar waith i helpu i gynyddu nifer y therapyddion galwedigaethol a gyflogir mewn rhai awdurdodau lleol sy'n tangyflawni?

14:41 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

The elements of OTs do not come under my remit in terms of employment, but I am concerned about underperforming authorities. We are seeing an increase in delivery. It probably is not fast enough. However, I have committed to review the whole system to make sure that we are actually passporting the money in the right direction and through to the right people who can deliver on time and effectively across the communities that we represent.

Nid yw'r elfennau sy'n ymwneud â therapyddion galwedigaethol yn dod o dan fy nghylch gwaith o ran cyflogaeth, ond rwy'n pryderu am awdurdodau sy'n tangyflawni. Rydym yn gweld cynnydd yn y ddarpariaeth. Mae'n debyg nad yw'n ddigon cyflym. Fodd bynnag, rwyf wedi ymrwymo i adolygu'r system gyfan er mwyn sicrhau ein bod yn trosglwyddo'r arian i'r cyfeiriad cywir mewn gwirionedd ac i'r bobl iawn a all gyflawni ar amser ac yn effeithiol yn y cymunedau yr ydym yn eu cynrychioli.

Senedd.tv Fideo Video

### Y Sector Cymdeithasau Tai

### The Housing Association Sector

14:42 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

*8. Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i gynorthwyo'r gwaith o wella llywodraethu yn y sector cymdeithasau tai? OAQ(4)0373(HR)*

*8. What action is the Minister taking to support the improvement of governance within the housing association sector? OAQ(4)0373(HR)*

Senedd.tv Fideo Video

14:42 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I thank the Member for Mid and West Wales for her question. I have asked associations to adopt a code of governance and my officials are helping to develop it. I have published a paper on the risks facing associations and set out my expectations on governance as part of the risk-based approach to regulation.

Diolch i'r Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru am ei chwestiwn. Rwyf wedi gofyn i gymdeithasau fabwysiadu cod llywodraethu ac mae fy swyddogion yn eu cynorthwyo i'w ddatblygu. Rwyf wedi cyhoeddi papur ar y risgiau sy'n wynebu cymdeithasau ac wedi nodi fy nisgwyliadau o ran llywodraethu fel rhan o'r dull o reoleiddio yn seiliedig ar risg.

Senedd.tv Fideo Video

14:42 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

I thank you for that answer, Minister. Last Saturday was International Women's Day. As well as celebrating achievements from progress, it was a chance to reflect on where we are in terms of realising equality. The latest 'Who runs Wales?' report makes for disappointing reading, as does the Welsh Government's governance of the housing association study that reports that women are consistently under-represented on housing association boards. What can the Government do to help to address this imbalance?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Dydd Sadwrn diwethaf oedd Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Yn ogystal â dathlu cyflawniadau o gynnydd, bu'n gyfle i fyfyrio ar ble rydym arni o ran gwireddu cydraddoldeb. Mae'r adroddiad diweddaraf 'Pwy sy'n rhedeg Cymru?' yn siomedig, a hefyd astudiaeth Llywodraeth Cymru o lywodraethu cymdeithas dai sy'n nodi bod menywod yn gyson heb gynrychiolaeth ddigonol ar fyrddau cymdeithasau tai. Beth y gall y Llywodraeth ei wneud i helpu i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd hwn?

Senedd.tv Fideo Video

14:43 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

The Member is absolutely right to raise this issue. I joined many people in celebrating International Women's Day on Saturday. I have made a commitment through my department that I expect all of my boards, for which I have responsibility, to be, at the very least, gender balanced if not gender biased to women. The ministerial advisory group that I launched last week has a membership that is gender biased towards women, which I believe is absolutely appropriate for good governance. I will continue to drive that process and I have written, as I said, to boards and am working with Community Housing Cymru across Wales to develop a better understanding about how we can achieve gender balance and equality being deployed, hopefully, before Christmas this year, in terms of the detail about what that will mean for boards in the future in Wales.

Mae'r Aelod yn llygad ei lle i godi'r mater hwn. Ymunais â llawer o bobl i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ddydd Sadwrn. Rwyf wedi gwneud ymrwymiad drwy fy adran fy mod yn disgwyl i'r holl fyrddau yr wyf yn gyfrifol amdanynt, fod, o leiaf, yn gytbwys o ran rhyw os nad â thuedd o blaid menywod. Mae gan grŵp cynghori'r Gweinidog a lansiwyd gennyf yr wythnos diwethaf aelodaeth â thuedd o blaid menywod, sy'n hollol briodol ar gyfer llywodraethu da, yn fy marn i. Byddaf yn parhau i sbarduno'r broses honno ac rwyf wedi ysgrifennu, fel y dywedais, i fyrddau ac rwy'n gweithio gyda Cartrefi Cymunedol Cymru ledled Cymru i feithrin gwell dealltwriaeth o'r ffordd y gallwn sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau a chydraddoldeb a'i chymhwyso, gobeithio, cyn y Nadolig eleni, o ran y manylion am yr hyn y bydd yn ei olygu i fyrddau yn y dyfodol yng Nghymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:44 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

To what extent will the code of governance that you referred to, being developed by you and Community Housing Cymru, impact on the housing pact for supply with Community Housing Cymru, and to what extent, under the code, is the Welsh Government willing to give housing associations in Wales the same freedom as those available to housing associations in England and Scotland to manage increased levels of risk?

I ba raddau y bydd y cod llywodraethu y cyfeiriwyd ato, yn cael ei ddatblygu gennych chi a Cartrefi Cymunedol Cymru, yn cael effaith ar y cytundeb tai i gyflenwi â Cartrefi Cymunedol Cymru, ac i ba raddau, o dan y cod, y mae Llywodraeth Cymru yn barod i roi'r un rhyddid i gymdeithasau tai yng Nghymru ag sydd ar gael i gymdeithasau tai yn Lloegr a'r Alban i reoli lefelau uwch o risg?

14:44 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We are in discussion with CHC and interested stakeholders in terms of what that pact will consist of. I am very flexible on my approach to risk-based assessment. We have changed the way that that is operating, and there is still a little bit of improvement to go. However, it works both ways. There is an expectation that I will release risk in terms of giving autonomy to RSLs in the way that they operate, providing that they can show to me that there is good governance in place. Good governance means equity across board membership, not just male-dominated boards.

Rydym yn cynnal trafodaethau â Cartrefi Cymunedol Cymru a rhanddeiliaid sydd â diddordeb o ran yr hyn y bydd y cytundeb hwnnw yn ei gynnwys. Rwy'n hyblyg iawn o ran asesu sy'n seiliedig ar risg. Rydym wedi newid y ffordd y mae hynny yn gweithredu, ac mae angen ychydig bach mwy o welliant. Fodd bynnag, mae'n gweithio ddwy ffordd. Mae disgwyl y byddaf yn rhyddhau risg o ran rhoi ymreolaeth i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn y ffordd y maent yn gweithredu, cyn belled ag y gallant ddangos imi fod trefniadau llywodraethu da ar waith. Mae llywodraethu da yn golygu cydraddoldeb ymhlith aelodaeth byrddau, yn hytrach na byrddau lle mae dynion yn fwyafrif.

## Tai Amlfeddiannaeth

## Houses in Multiple Occupation

14:45 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. Pa bwerau sydd gan y Llywodraeth i gyfyngu ar nifer y tai amlfeddiannaeth mewn cymuned? OAQ(4)0370(HR)*

*9. What powers does the Government have to limit the number of HMOs in a community? OAQ(4)0370(HR)*

**Julie James** Bywgraffiad Biography

*11. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o ran sefydlu comisiwn i ystyried ardaloedd o dai amlfeddiannaeth dwysedd uchel? OAQ(4)0368(HR)*

*11. Will the Minister provide an update on progress in establishing a commission to look at areas of high density HMOs? OAQ(4)0368(HR)*

14:45 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for her question. Presiding Officer, I understand that you have given permission for questions 9 and 11 to be grouped. There are currently limited powers that would enable the Welsh Government or local authorities to limit the number of HMOs in a given area.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Lywydd, caf ar ddeall eich bod wedi rhoi caniatâd i gwestiynau 9 a 11 gael eu grwpio. Ar hyn o bryd cyfyngedig yw'r pwerau a fyddai'n galluogi Llywodraeth Cymru neu awdurdodau lleol i gyfyngu ar nifer y tai amlfeddiannaeth mewn ardal benodol.

14:45 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. Cathays in my constituency has one of the highest concentrations of HMOs anywhere in Wales and, indeed, in the UK. It is a ghost town during university holidays. The result, for those who remain, is that it is a very lonely place to be and hardly a vibrant and viable place. You have referred in the Chamber in the past to a working party that you have set up that is going to look at this issue. Could you tell us what the time frame is for that work, and how you will obtain the input of local authorities that have something to say on this matter, and, indeed, of local communities that are affected by the preponderance of HMOs in their areas?

Diolch, Weinidog. Mae gan Cathays yn fy etholaeth un o'r crynodiadau mwyaf o dai amlfeddiannaeth unrhyw le yng Nghymru ac, yn wir, yn y DU. Mae'n anghyfannedd yn ystod gwyliau'r brifysgol. O ganlyniad, i'r rhai sy'n parhau i fyw yno, mae'n lle unig iawn a phrin y gellir dweud ei fod yn lle bywiog a hyfyw. Rydych wedi cyfeirio yn y Siambr yn y gorffennol at weithgor a sefydlwyd gennych a fydd yn ystyried y mater hwn. A allech ddweud wrthym beth yw'r amserlen ar gyfer y gwaith hwnnw, a sut y byddwch yn gadael i awdurdodau lleol y mae ganddynt rywbeth i'w ddweud ar y mater hwn gyfrannu, ac, yn wir, gymunedau lleol yr effeithir arnynt gan niferoedd mawr o dai amlfeddiannaeth yn eu hardaloedd?

14:46 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for her question. As other Members have done, she has alluded to the difficulties and problems that a concentration of HMOs in a specific area causes for the community. I came through the Member's constituency the other day, and I was shocked to see the amount of 'To Let' signs that are still littered across the community. This is something that, again, we need to consider in the whole, in terms of how HMOs operate. I will be setting up the working group shortly. I hope that that will be in April. I am still looking for membership of that. Again, if the Member and other Members wish to give some advice or thoughts around that process, in terms of who is best placed to give me advice on this particular issue, I would welcome some of that intervention.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Fel y gwnaeth Aelodau eraill, mae wedi cyfeirio at yr anawsterau a'r problemau a achosir gan niferoedd mawr o dai amlfeddiannaeth mewn ardal benodol i'r gymuned. Fe deithiais drwy etholaeth yr Aelod y diwrnod o'r blaen, a chefais fy synnu o weld faint o arwyddion 'I'w Osod' a welir drwy'r gymuned gyfan. Mae hyn yn rhywbeth, unwaith eto, y mae angen inni ei ystyried yn ei gyfanrwydd, o ran sut mae tai amlfeddiannaeth yn gweithredu. Byddaf yn sefydlu'r gweithgor cyn hir. Gobeithio y bydd hynny'n digwydd ym mis Ebrill. Rwy'n dal i chwilio am aelodau. Unwaith eto, os hoffai'r Aelod ac Aelodau eraill roi rhyw gyngor neu syniadau ynghylch y broses honno, o ran pwy sydd yn y sefyllfa orau i roi cyngor ar y mater penodol hwn imi, byddwn yn croesawu ymyriad o'r fath.

14:47 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am delighted to hear that answer to my colleague Jenny Rathbone. The Minister will know, as does everyone else in this Chamber, that I am one of the people who has a major problem with HMOs in my constituency. The Minister has recently received a copy of a major report from the City and County of Swansea Council on HMO densities.

Rwy'n falch iawn o glywed yr ateb hwnnw i'm cyd-Aelod Jenny Rathbone. Gŵyr y Gweinidog, fel pawb arall yn y Siambr hon, fy mod yn un o'r bobl sydd â phroblem fawr o ran tai amlfeddiannaeth yn fy etholaeth. Yn ddiweddar, mae'r Gweinidog wedi derbyn copi o adroddiad pwysig gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe ar ddwyseddau tai amlfeddiannaeth.

Minister, would you pay particular attention to paragraphs 7.2 and 7.3 of that report? Paragraph 7.2 says that some of the highest densities in my constituency are reaching 71% of houses in single streets. Paragraph 7.3 talks about community cohesion and sustainability issues that are now beyond control in those areas. Minister, I would urge you to set up that working group or commission as soon as possible. I have already furnished you with some names for it, and I am happy to furnish you with more. Minister, could we be assured that that group will work as speedily as possible before this gets completely out of control in most of our university towns?

Weinidog, a wnewch roi sylw arbennig i baragraffau 7.2 a 7.3 o'r adroddiad hwnnw? Noda paragraff 7.2 fod rhai o'r dwyseddau mwyaf yn fy etholaeth yn cyrraedd 71% o dai mewn strydoedd unigol. Mae paragraff 7.3 yn sôn am gydlyniant cymunedol a materion cynaliadwyedd sydd bellach y tu hwnt i reolaeth yn yr ardaloedd hynny. Weinidog, hoffwn eich annog i sefydlu'r gweithgor neu'r comisiwn hwnnw cyn gynted ag y bo modd. Rwyf eisoes wedi rhoi rhai enwau ar ei gyfer ichi, ac rwy'n fodlon rhoi rhagor. Weinidog, a allem gael sicrwydd y bydd y grŵp hwnnw'n gweithio mor gyflym ag y bo modd cyn y collir pob rheolaeth ar hyn yn y rhan fwyaf o'n trefi prifysgol?

14:48 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

It would not be right for me, Presiding Officer, to say that I try to avoid Julie James sometimes because she raises this with me on every occasion in terms of HMOs. The fact of the matter is that she is very passionate about the issue and recognises, as I do, the difficulty that it causes within her constituency. I have committed to setting up this working group, and I am very grateful to Julie for recommending names for membership of that group. I will take this very seriously in terms of how we deal with the issues that affect not only Julie James's community and Jenny Rathbone's, but many other communities across Wales.

Ni fyddai'n briodol, Lywydd, imi ddweud fy mod yn ceisio osgoi Julie James weithiau am ei bod yn codi hyn gyda mi ar bob achlysur o ran tai amlfeddiannaeth. Y ffaith amdani yw bod y mater hwn yn agos iawn at ei chalon a'i bod yn cydnabod, fel minnau, yr anhawster y mae'n ei achosi yn ei hetholaeth. Rwyf wedi ymrwymo i sefydlu'r gweithgor hwn, ac rwy'n ddiolchgar iawn i Julie am argymell enwau ar gyfer aelodaeth y grŵp hwnnw. Byddaf yn cymryd hyn yn wirioneddol o ddifrif o ran sut rydym yn ymdrin â'r materion sydd nid yn unig yn effeithio ar gymuned Julie James a Jenny Rathbone, ond llawer o gymunedau eraill ledled Cymru.

14:48 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, in reply to my question of 5 February, you indicated that your working group will be considering the implications of the existing planning and licensing regime for HMOs and that you will look across the range of legislative tools available to you, including the Housing (Wales) Bill, to see what would add advantage in terms of licensing and so on. That suggests to me that you may simply be looking at the housing Bill as a possibility for dealing with our recently expressed concerns about the overconcentration of HMOs, including in my own ward. Could you confirm whether I have drawn the right inference from your answer? If so, what are your plans for consultation beyond your working group for what may be material changes to this Bill?

Weinidog, wrth ateb fy nghwestiwn ar 5 Chwefror, dywedasoch y bydd eich gweithgor yn ystyried goblygiadau'r gyfundrefn cynllunio a thrwyddedu bresennol ar gyfer tai amlfeddiannaeth ac y byddwch yn ystyried yr holl adnoddau deddfwriaethol sydd ar gael ichi, gan gynnwys y Bil Tai (Cymru), i edrych i weld beth fyddai'n ychwanegu mantais o ran trwyddedu ac yn y blaen. Mae hynny'n awgrymu imi eich bod ond yn edrych ar y Bil tai fel posibilrwydd ar gyfer ymdrin â'r pryderon a fynegwyd yn ddiweddar gennym ynglŷn â gormod o dai amlfeddiannaeth mewn ardal, gan gynnwys yn fy ward fy hun. A allech gadarnhau a wyf wedi dod i'r casgliad cywir o'ch ateb? Os felly, beth yw eich cynlluniau ar gyfer ymgynghori y tu hwnt i'ch gweithgor ar yr hyn a allai fod newidiadau sylweddol i'r Bil hwn?

14:49 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

What we have tried to do is to see, within the scope of the Housing (Wales) Bill, whether there is anything that we can do now to make a real difference within the HMO sector. What we have discovered is that there will be more legislative tools that we will need to apply that would not be appropriate for the housing Bill. So, I do not believe that the changes for that will take place. However, my commitment to looking across the raft of opportunities that we have in legislation—secondary legislation or guidance that will be issued to local authorities—will be informed by the working group as it moves forward. If we need to create legislation through that process, there is an opportunity through the renting homes Bill that we may be able to scope within the competency and scope of the Bill. That may be an opportunity for us to take forward at that appropriate time.

Yr hyn yr ydym wedi ceisio ei wneud yw gweld a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud yn awr, o fewn cwmpas y Bil Tai (Cymru), i wneud gwahaniaeth gwirioneddol yn y sector tai amlfeddiannaeth. Yr hyn a ddarganfuwyd yw y bydd angen inni gymhwyso mwy o offer deddfwriaethol nag y byddai'n briodol ar gyfer y Bil tai. Felly, ni chredaf y bydd y newidiadau ar gyfer hynny yn digwydd. Fodd bynnag, bydd fy ymrwymiad i ystyried y llu o gyfleoedd sydd gennym mewn deddfwriaeth—is-ddeddfwriaeth neu ganllawiau a fydd yn cael eu rhoi i awdurdodau lleol—yn cael ei lywio gan y gweithgor wrth iddo symud ymlaen. Os bydd angen inni lunio deddfwriaeth drwy'r broses honno, mae cyfle drwy'r Bill rhentu cartrefi y gallwn ei gwmpasu o bosibl o fewn cymhwysedd a chwmpas y Bil. Efallai y bydd cyfle inni fanteisio ar hynny ar yr adeg briodol honno.

14:50 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Weinidog, hoffwn godi agwedd arall ar y broblem hon. Rwy'n ymwybodol iawn am landlordiaid mewn lleoedd fel Aberystwyth ac Abertawe sy'n dal i ecsbloetio myfyrwyr y tu fewn i'r HMOs hyn, yn enwedig drwy beidio â dychwelyd ernes neu godi rhent dros yr haf pan nad yw'r llety ar gael, sy'n ychwanegu at y broblem gan fod y lle yn wag dros yr haf. O gofio'r cyd-destun hwnnw a'r ffaith efallai na fydd myfyrwyr sydd wedi'u hecsbloetio fel hyn yn trin y HMO yn y ffordd fwyaf teilwng ac ni fyddant yn teimlo ei fod yn gartref iddynt gan eu bod yn cael eu hecsbloetio, a oes rhywbeth pellach y medrwch ei wneud fel Llywodraeth i annog arfer da a gwell gan landlordiaid er mwyn creu cymunedau sydd llawer yn fwy cynaliadwy a chartrefol i bawb?

Minister, I would like to raise another aspect of this problem. I am very aware of landlords in places such as Aberystwyth and Swansea that continue to exploit students within these HMOs, particularly by not returning deposits or charging rent over the summer when the accommodation is not available, which adds to the problem as the place is vacant over the summer. Bearing that context in mind and the fact that students exploited in this way will not treat the HMO in the best way possible and will not view it as home because they are being exploited, is there anything further that you can do as a Government to encourage good and better practice among landlords in order to create communities that are far more sustainable and welcoming all round?

14:50 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I recognise the problem that the Member raised and it is something that we need to look at in terms of a suite of things that we can do to ensure that people, wherever they live, whether they are students or otherwise, in the HMO setting or the private-rented sector, have a fair deal. That is part of the issue that we are delivering on the private rented sector in the Housing (Wales) Bill. We are looking at opportunities in the renting homes Bill and this working group will look at the selection of tools that we have available or could need to make sure that we can give more security to people who are sometimes in a vulnerable position because of the way that an unscrupulous landlord operates their activity.

Rwy'n cydnabod y broblem a gododd yr Aelod ac mae'n rhywbeth y mae angen inni ei ystyried o ran cyfres o bethau y gallwn eu gwneud i sicrhau bod pobl, lle bynnag y maent yn byw, pa un a ydynt yn fyfyrwyr neu fel arall, mewn tai amlfeddiannaeth neu yn y sector rhentu preifat, yn cael chwarae teg. Mae hynny'n rhan o'r broblem yr ydym yn ymdrin â hi yn y sector rhentu preifat yn y Bil Tai (Cymru). Rydym yn edrych ar gyfleoedd yn y Bil rhentu cartrefi a bydd y gweithgor hwn yn edrych ar y dewis o adnoddau sydd ar gael inni, neu y gallai fod eu hangen arnom er mwyn sicrhau ein bod yn gallu rhoi mwy o sicrwydd i bobl sydd weithiau yn agored i niwed oherwydd y ffordd y mae landlord diegwyddor yn gweithredu.

14:51 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, landlords can avoid getting planning permission for an HMO if fewer than eight people live there, but many of the HMOs in my region—in Cathays in Cardiff or in Llantrisant, for example—while still very densely populated, are conversions of much smaller properties with fewer people in them. Would you consider reducing that trigger for planning consent to five or six so that councils can tackle a greater proportion of the HMOs in their regions?

Weinidog, gall landlordiaid osgoi cael caniatâd cynllunio ar gyfer tai amlfeddiannaeth os bydd llai nag wyth o bobl yn byw ynddynt, ond mae llawer o'r tai amlfeddiannaeth yn fy rhanbarth—yn ardal Cathays yng Nghaerdydd neu yn Llantrisant, er enghraifft—er eu bod yn cynnwys nifer fawr o bobl, yn dai wedi'u trosi o eiddo llawer llai gyda llai o bobl ynddynt. A fyddech yn ystyried lleihau'r trothwy sy'n ysgogi caniatâd cynllunio i bump neu chwech fel y gall cynghorau fynd i'r afael â chyfran fwy o'r tai amlfeddiannaeth yn eu rhanbarthau?

14:51 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am not ruling that out but I will be better informed by the working group that is being set up in the next few weeks.

Nid wyf yn gwrthod ystyried hynny, ond byddaf yn cael mwy o wybodaeth gan y gweithgor sy'n cael ei sefydlu yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf.

### Adfywio'r Stryd Fawr

### The Regeneration of High Streets

14:52 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sy'n cael ei wneud i adfywio'r stryd fawr yng Nghymru? OAQ(4)0363(HR)*

*10. Will the Minister provide an update on the progress being made to regenerate Welsh high streets? OAQ(4)0363(HR)*

14:52 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for Monmouth for his question. Our 'Vibrant and Viable Places—A New Regeneration Framework' sets the policy for the regeneration of town centres in Wales.

Diolch i'r Aelod dros sir Fynwy am ei gwestiwn. Mae ein 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid—Fframwaith Adfywio Newydd' yn gosod y polisi ar gyfer adfywio canol trefi yng Nghymru.

14:52 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that succinct answer, Minister. As you will know, there was a commitment last March by the Welsh Government to supporting a long-awaited Welsh high-street campaign, which was originally scheduled to be introduced last June. The First Minister has now signalled that it will not be launched until this autumn, 18 months after originally planned and a whole three years after the Enterprise and Business Committee issued our report—an excellent report, I might say—called 'Regeneration of town centres', which is well worth refreshing yourself with.

Diolch ichi am yr ateb cryno hwnnw, Weinidog. Fel y gwyddoch, gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad fis Mawrth diwethaf i gefnogi ymgyrch stryd fawr hir ddisgwyliedig yng Nghymru, y bwriadwyd ei chynnal yn wreiddiol fis Mehefin diwethaf. Mae'r Prif Weinidog bellach wedi awgrymu na fydd yn cael ei lansio tan yr hydref hwn, 18 mis ar ôl y bwriad gwreiddiol a thair blynedd ar ôl i'r Pwyllgor Menter a Busnes gyhoeddi ein hadroddiad—adroddiad ardderchog, os caf ddweud—o'r enw 'Adfywio canol trefi', y bydd yn werthfawr iawn ichi edrych arno eto.

In the meantime, the Welsh Conservatives have published our own vision for Welsh high streets, which is, again, well worth looking at. Minister, I am all for that old adage 'more haste, less speed' but do you think that you could possibly pick up the pace a little bit so there are at least some high streets left in Wales to regenerate?

Yn y cyfamser, mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi cyhoeddi ein gweledigaeth ein hunain ar gyfer y stryd fawr ledled Cymru, sydd, unwaith eto, yn werth ei darllen. Weinidog, rwy'n gredwr mawr yn yr hen ddywediad 'mwyaf y brys, mwyaf y rhwystr' ond a ydych yn meddwl y gallech weithredu ychydig yn gynt fel y bydd o leiaf rai enghreifftiau o'r stryd fawr ar ôl yng Nghymru i'w hadfywio?

14:53 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Well, I have seen the vision of the Conservative Party and that is why we see people trailing down to the job centre on a daily basis. The fact of the matter is that we have made a £100 million investment in our 'Vibrant and Viable Places' programme across Wales. We are making sure that there are business improvement districts across Wales, one of which is in the Member's constituency and I am sure that he welcomes that, despite his harsh exterior. We are making a difference in communities. There is more work to be done and the report, as the First Minister mentioned, will be launched in the autumn.

Wel, rwyf wedi gweld gweledigaeth y Blaid Geidwadol a dyna pam rydym yn gweld pobl yn ymlwybro i'r ganolfan waith bob dydd. Y ffaith amdani yw ein bod wedi gwneud buddsoddiad gwerth £100 miliwn yn ein rhaglen 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' ledled Cymru. Rydym yn sicrhau bod ardaloedd gwella busnes ledled Cymru, ac mae un ohonynt yn etholaeth yr Aelod ac rwy'n siŵr ei fod yn croesawu hynny, er ei fod yn ddiflas ei olwg. Rydym yn gwneud gwahaniaeth mewn cymunedau. Mae mwy o waith i'w wneud a bydd yr adroddiad, fel y dywedodd y Prif Weinidog, yn cael ei lansio yn yr hydref.

14:53 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

A yw'r ffigurau ynglŷn â siopau gwag ar ein strydoedd wedi cynyddu neu ostwng yn ystod y tair blynedd diwethaf?

Have the figures regarding vacant shops on our high streets increased or decreased over the past three years?

14:53 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I do not have those data available to respond to the Member but I will seek to clarify that with him by letter.

Nid oes gennyf y data hynny i ymateb i'r Aelod, ond byddaf yn ceisio cadarnhau hynny iddo drwy lythyr.

14:54 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Question 11 was grouped with question 9, so we now move to question 12.

Cafodd Cwestiwn 11 ei grwpio â chwestiwn 9, felly symudwn yn awr at gwestiwn 12

### Y Bil Cynllunio

### The Planning Bill

14:54 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*12. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd y Bil Cynllunio? OAQ(4)0366(HR)*

*12. Will the Minister make a statement on the progress of the Planning Bill? OAQ(4)0366(HR)*

14:54 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The consultation period on the draft planning (Wales) Bill closed on 26 February. The responses to the consultation are currently being considered and the final planning (Wales) Bill will be introduced to the National Assembly later this year.

Daeth y cyfnod ymgynghori ar y Bil cynllunio drafft (Cymru) i ben ar 26 Chwefror. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried ar hyn o bryd a bydd y Bil cynllunio (Cymru) terfynol yn cael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn ddiweddarach eleni.

14:54 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for that response. One of the proposals in the planning Bill is to put in an intermediate, more regional tier to make planning decisions. Has the Minister considered how that will fit in with the proposals for city regions? In this area, there is the proposal for a metro and there are proposals from the Williams commission. There may be a danger that there will be a lot of different levels. How would these all fit together?

Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Un o'r cynigion yn y Bil cynllunio yw y dylid cyflwyno haen ganolraddol, fwy rhanbarthol i wneud penderfyniadau cynllunio. A yw'r Gweinidog wedi ystyried sut y bydd hynny'n cyd-fynd â'r cynigion ar gyfer dinas-ranbarthau? Yn yr ardal hon, mae'r cynnig ar gyfer metro ac mae cynigion gan gomisiwn Williams. Efallai y bydd perygl y bydd llawer o lefelau gwahanol. Sut y byddai'r rhain i gyd yn cyd-blethu â'i gilydd?

14:55 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for her supplementary question. The evidence that we are seeking through the 'Positive Planning' consultation process was to understand better the concerns of constituents and constituency representatives. The issue around city regions is something that we have taken into consideration in terms of the strategic planning areas. We think the Bill is futureproofed, whether that be Williams-proof or otherwise. On city region status, we can deal with that in terms of tiers of determination. It is something that I know the Member has a view on. Of course, the LDP process is for local authorities, and the information provided for city regions when they have strategic planning control will be something that the Bill will deal with in its passage through this Assembly.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn atodol. Y dystiolaeth yr ydym yn ei cheisio drwy broses ymgynghori 'Cynllunio Cadarnhaol' yw deall pryderon etholwyr a chynrychiolwyr etholaethol yn well. Mae'r mater o ran dinas-ranbarthau yn rhywbeth yr ydym wedi ei ystyried o ran yr ardaloedd cynllunio strategol. Credwn fod y Bil yn cael ei ddiogelu rhag newidiadau yn y dyfodol, boed hynny mewn cysylltiad ag adroddiad Williams—neu fel arall. O ran statws dinas-ranbarth, gallwn ymdrin â hynny o ran haenau o benderfyniad. Mae'n rhywbeth y mae gan yr Aelod farn amdano, fe wn. Wrth gwrs, awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am broses y CDLl, a bydd y wybodaeth a ddarperir ar gyfer dinas-ranbarthau pan fydd ganddynt reolaeth gynllunio strategol yn rhywbeth y bydd y Bil yn ymdrin â hi yn ystod ei hynt drwy'r Cynulliad hwn.

14:55 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Minister, you talk about futureproofing the Bill; there is a huge discussion going on at the moment as to exactly how local government will work and how the regional consortia will work in developing economic activity across Wales. Can you give us an example of what you are thinking about when you talk about futureproofing the Bill so that we have something tangible to think about in terms of what your officials and you as Minister are looking to introduce with that Bill?

Weinidog, rydych yn sôn am ddiogelu'r Bil rhag newidiadau yn y dyfodol; mae cryn dipyn o drafodaeth yn mynd rhagddi ar hyn o bryd o ran sut yn union y bydd llywodraeth leol yn gweithio a sut y bydd y consortia rhanbarthol yn gweithio o ran datblygu gweithgarwch economaidd ledled Cymru. A allwch roi enghraifft o'r hyn sydd gennych mewn golwg wrth sôn am ddiogelu'r Bil rhag newidiadau yn y dyfodol fel y bydd gennym rywbeth pendant i feddwl amdano o ran yr hyn yr ydych chi fel Gweinidog a'ch swyddogion yn bwriadu ei gyflwyno gyda'r Bil hwnnw?

14:56 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The current situation is that the draft planning Bill is very clear in terms of what is expected within a planning function of an authority across Wales. I have been very clear that 25 planning authorities are far too many for Wales. It is something that I am considering through the consultation responses currently, and I will make an announcement about what the shape of a planning authority may look like in the future. However, should Williams come along and change the focus on how a local planning authority would operate in size or scale, we believe that the drafting of the Bill will allow enough flexibility to make those subtle changes in terms of what a planning authority would look like. I do not think that it is helpful that Williams is being used as a smokescreen by some authorities not to change the way we operate in a planning function across Wales for the betterment of economic growth in Wales.

Y sefyllfa ar hyn o bryd yw bod y Bil cynllunio drafft yn glir iawn o ran yr hyn a ddisgwylir o fewn swyddogaeth gynllunio awdurdod yng Nghymru. Rwyf wedi bod yn glir iawn bod 25 o awdurdodau cynllunio yn llawer gormod i Gymru. Mae'n rhywbeth yr wyf yn ei ystyried drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar hyn o bryd, a byddaf yn gwneud cyhoeddiad ynghylch ar ba ffurf y bydd awdurdod cynllunio yn y dyfodol. Fodd bynnag, pe bai Williams yn newid y ffocws ar sut y byddai awdurdod cynllunio lleol yn gweithredu o ran maint neu raddfa, credwn y bydd y gwaith o ddrafftio'r Bil yn cynnig digon o hyblygrwydd i wneud y newidiadau cynnil hynny o ran sut beth fyddai awdurdod cynllunio. Ni chredaf ei bod yn beth buddiol fod Williams yn cael ei ddefnyddio fel esgus gan rai awdurdodau i beidio â newid y ffordd yr ydym yn gweithredu mewn swyddogaeth gynllunio ledled Cymru er mwyn gwella twf economaidd yng Nghymru.

### Polisi Cynllunio

### Planning Policy

14:57 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*13. Sut mae'r Gweinidog yn bwriadu defnyddio ei gyfrifoldeb am bolisi cynllunio i ddatblygu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0375(HR)*

*13. How does the Minister intend to use his responsibility for planning policy to advance the Welsh Government's priorities? OAQ(4)0375(HR)*

14:57

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

I thank the Member for her question. Planning policy is regularly updated based upon relevant evidence for change or improvement reflecting commitments made in the programme for government.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Caiff polisi cynllunio ei ddiweddaru'n rheolaidd yn seiliedig ar dystiolaeth berthnasol ar gyfer newid neu wella gan adlewyrchu'r ymrwymiadau a wnaed yn y rhaglen lywodraethu.

Senedd.tv
Fideo Video

14:57

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

The Active Travel (Wales) Act 2013 places a duty on local authorities to make more accessible routes for pedestrians and cyclists, yet in my constituency there is a rash of gating of the lanes going on, which is actually going to be deterring their use by people who are walking or cycling. What action do you think is required to ensure that local authorities are clear about their planning duties in implementing the active travel Act actively in order to promote vibrant communities, where people, as a default, are walking or cycling?

Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod ffyrdd yn fwy hygyrch i gerddwyr a beicwyr, ac eto yn fy etholaeth, mae gatiau yn cael eu codi ar draws lonydd ym mhob man, a fydd yn atal pobl sy'n cerdded neu'n seiclo rhag eu defnyddio mewn gwirionedd. Pa gamau sydd angen eu cymryd, yn eich barn ichi, i sicrhau bod awdurdodau lleol yn glir ynghylch eu dyletswyddau cynllunio wrth weithredu'r Ddeddf teithio llesol er mwyn hyrwyddo cymunedau bywiog, lle mae pobl yn cerdded neu'n beicio fel dewis naturiol?

Senedd.tv
Fideo Video

14:58

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

As a powerful advocate of the active travel Act—and I know that many in this Chamber were too—I am very keen to make sure that that works collectively across Government, and Ministers have discussions about implementation and the effects of that on their portfolios. I do not think that local authorities need any more guidance in terms of the way that they operate the planning process; it is the way that they interpret that, and the planning Bill will give better training opportunities for people who are interpreting the Bill, and also recognising the democratic process in which this operates. Of course, the gating of some areas is for community safety, and I am sure that the Member would support that in many areas, but it has to be taken in conjunction with how the active travel Act operates, and activity levels between A and B in a particular area.

Fel eiriolwr mawr dros y Ddeddf teithio llesol—a gwn fod llawer yn y Siambr hon wedi ei chefnogi hefyd—rwy'n awyddus iawn i sicrhau ei bod yn gweithio ar y cyd ym mhob rhan o'r Llywodraeth, ac mae Gweinidogion wedi cael trafodaethau am ei rhoi ar waith ac effeithiau hynny ar eu portffolios. Ni chredaf fod angen mwy o ganllawiau ar awdurdodau lleol o ran y ffordd y maent yn gweithredu'r broses gynllunio; mae'n ymwneud â'r ffordd y maent yn dehongli hynny, a bydd y Bil cynllunio yn rhoi gwell cyfleoedd hyfforddi i bobl sy'n dehongli'r Bil; a hefyd i gydnabod y broses ddemocrataidd y mae hyn yn gweithredu oddi mewn iddi. Wrth gwrs, codir gatiau mewn rhai ardaloedd oherwydd diogelwch y gymuned, ac rwy'n siŵr y byddai'r Aelod yn cefnogi hynny mewn llawer ardal, ond rhaid iddo gael ei ystyried ar y cyd â'r ffordd y mae'r Ddeddf teithio llesol yn gweithredu, a lefelau gweithgarwch rhwng A a B mewn ardal benodol.

Senedd.tv
Fideo Video

### Cartrefi Newydd yng Ngogledd Cymru

### New Homes for North Wales

14:59

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

*14. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y nifer arfaethedig o gartrefi newydd a fwriedir ar gyfer Gogledd Cymru? OAQ(4)0371(HR)*

*14. Will the Minister make a statement on the proposed number of new homes planned for North Wales? OAQ(4)0371(HR)*

Senedd.tv
Fideo Video

14:59

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

The number of new homes planned in north Wales is a matter for each local planning authority when preparing its local development plan.

Mae nifer y cartrefi newydd arfaethedig yn y gogledd yn fater i bob awdurdod cynllunio lleol wrth baratoi ei gynllun datblygu lleol.

Senedd.tv
Fideo Video

14:59

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Thank you for your answer. Household numbers for Wales were projected to increase in the period 2011 to 2033. According to the 2008-based projections, the increase would be 284,000. However, the updated 2011-based projections now show an increase of just 175,000. Can you please explain why there is a 38% reduction in the household projections, and will you therefore allow local development plans to be revised to reflect this considerable decrease?

Diolch ichi am eich ateb. Rhagwelwyd y bydd niferoedd aelwydydd i Gymru yn cynyddu yn y cyfnod rhwng 2011 a 2033. Yn ôl amcanestyniadau 2008, byddai cynnydd o 284,000. Fodd bynnag, mae'r amcanestyniadau wedi'u diweddaru yn 2011 yn dangos cynnydd o 175,000 yn unig erbyn hyn. A allwch esbonio pam mae gostyngiad o 38% mewn amcanestyniadau o nifer yr aelwydydd, ac a fyddwch felly yn caniatáu i gynlluniau datblygu lleol gael eu diwygio i adlewyrchu'r gostyngiad sylweddol hwn?

Senedd.tv
Fideo Video

15:00 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The household projection figures that have been issued are only part of the proposal, in terms of making a creative plan for the future. I think that what we have to do is look at what the household need is, but also at what the household ambition is for the future. That is something that I would expect all local planning authorities to consider. I will not be issuing a directive for household projection figures to be modified in any LDP.

Mae ffigurau'r amcanestyniadau o aelwydydd sydd wedi cael eu cyhoeddi ond yn rhan o'r cynnig, o ran llunio cynllun creadigol ar gyfer y dyfodol. Credaf mai'r hyn sy'n rhaid inni ei wneud yw edrych ar yr hyn sydd ei angen ar aelwydydd, ond hefyd uchelgais aelwydydd ar gyfer y dyfodol. Mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn disgwyl i bob awdurdod cynllunio lleol ei ystyried. Ni fyddaf yn cyhoeddi cyfarwyddeb addasu ffigurau amcanestyniadau o aelwydydd mewn unrhyw CDLl.

### Eiddo ar Orlifdiroedd Cofrestredig

### Properties on Registered Floodplains

15:00 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*15. A wnaiff y Gweinidog amlinellu faint o eiddo sydd wedi cael eu hadeiladu ar orlifdiroedd cofrestredig yng Nghymru dros y 10 mlynedd diwethaf? OAQ(4)0367(HR)*

*15. Will the Minister outline how many properties have been built on registered floodplains in Wales over the past 10 years? OAQ(4)0367(HR)*

15:00 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his question. The most relevant data are from Natural Resource Wales, which has identified that, between 2007 and 2012, 188 dwellings in Wales have been approved in flood-risk areas contrary to its advice. I should say that not all have been built.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Daw'r data mwyaf perthnasol o Cyfoeth Naturiol Cymru, sydd wedi nodi i 188 o anheddau yng Nghymru gael eu cymeradwyo mewn ardaloedd perygl llifogydd rhwng 2007 a 2012, a hynny'n groes i'w gyngor. Dylwn nodi nad yw pob un wedi cael ei adeiladu.

15:00 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for that response. A number of developments have taken place in areas that are prone to flooding. We also know that, as the developments take place, the trees and bushes that are there, which currently suck up the water, are also chopped down, to make matters worse. Do you think that stronger guidelines are necessary to stop houses and other dwellings being built in these areas that are so liable to flooding?

Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Mae nifer o ddatblygiadau wedi mynd rhagddynt mewn ardaloedd lle mae llifogydd yn debygol o ddigwydd. Gwyddom hefyd, wrth i'r datblygiadau fynd rhagddynt, bod y coed a'r llwyni sydd yno, sydd ar hyn o bryd yn amsugno'r dŵr, yn cael eu torri hefyd, sy'n gwneud pethau'n waeth. A ydych yn credu bod angen canllawiau cryfach er mwyn atal tai ac anheddau eraill rhag cael eu hadeiladu yn yr ardaloedd hyn sydd mor debygol o fynd dan ddŵr?

15:01 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that we have very strong guidance already, in terms of technical advice note 15 and C2 provision around flood areas. When a local authority is minded to approve a site in a C2 flood area, it has to be referred to the Welsh Government to have a backstop position in terms of whether it believes that it is acceptable in terms of development. As I said, we already have an increased support mechanism to deal with flooding and development, and I know that the Member is acutely aware of how important dealing with these issues at the first point of action is for his constituents and for many people across Wales, too.

Credaf fod gennym ganllawiau cryf iawn eisoes, o ran nodyn cyngor technegol 15 a darpariaeth C2 o ran ardaloedd llifogydd. Pan fydd awdurdod lleol yn bwriadu cymeradwyo safle mewn ardal llifogydd C2, rhaid iddo gael ei gyfeirio at Lywodraeth Cymru i gael barn wrth gefn o ran a gred ei bod yn dderbyniol er mwyn datblygu. Fel y dywedais, ceir eisoes ddull cymorth cynyddol i ymdrin â llifogydd a datblygu, a gwn fod yr Aelod yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd ymdrin â'r materion hyn yn y man gweithredu cyntaf i'w etholwyr ac i lawer o bobl ledled Cymru hefyd.

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Gwasanaethau Bws

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Elin Jones, a gwelliant 3 yn enw Lesley Griffiths.*

## Welsh Conservatives Debate: Bus Services

*The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Elin Jones, and amendment 3 in the name of Lesley Griffiths.*

15:02 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Byron Davies to move the motion.

Galwaf ar Byron Davies i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5448 Paul Davies

Motion NDM5448 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau bysiau i bobl Cymru.

1. Recognises the importance of bus services to the people of Wales.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau sefydlogrwydd ar gyfer y diwydiant bysiau a theithwyr.

2. Calls on the Welsh Government to ensure stability for the bus industry and passengers.

3. Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i ddiogelu gwasanaethau bysiau yng Nghymru.

3. Further calls on the Welsh Government to protect bus services in Wales.

15:02 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I am delighted to move today's motion on behalf of the Welsh Conservatives in this debate. We have tried to ensure that the motion receives broad support around the Chamber; indeed, we welcome the Government's amendment on this.

Mae'n bleser gennyf gynnig y cynnig heddiw ar ran y Ceidwadwyr Cymreig yn y ddadl hon. Rydym wedi ceisio sicrhau bod y cynnig yn cael cefnogaeth eang yn y Siambr; yn wir, rydym yn croesawu gwelliant y Llywodraeth iddo.

In our debate today, I hope that we can pose, and the Government can respond to, some of the fears and very real dangers currently facing our bus industry in Wales. It is not my intention to get too bogged down in the semantics of the devolved settlement, and I will address Plaid Cymru's amendments in a moment. Today is really about scrutinising Welsh Government delivery and protecting our local bus services, and that will be the focus of my contribution on behalf of the Welsh Conservatives.

Yn ein dadl heddiw, gobeithio y gallwn godi rhai o'r ofnau a'r peryglon gwirioneddol sy'n wynebu ein diwydiant bysiau yng Nghymru ar hyn o bryd, ac y gall y Llywodraeth ymateb iddynt. Nid yw'n fwriad gennyf fynd ar drywydd semanteg y setliad datganoledig, a byddaf yn ymdrin â gwelliannau Plaid Cymru yn y man. Diben y ddadl heddiw yw craffu ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn darparu ac yn diogelu ein gwasanaethau bysiau lleol, sef yr hyn y bydd fy nghyfraniad ar ran y Ceidwadwyr Cymreig yn canolbwyntio arno.

I want to start with some context. Over the last two years, the bus industry has seen an £8 million reduction through the local transport service grant, the bus service operators grant and regional transport services grant funding. This is the primary reason for the reduction in services and, indeed, the withdrawal of some routes.

Rwyf am ddechrau drwy nodi ychydig o gyd-destun. Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae'r diwydiant bysiau wedi gweld gostyngiad o £8 miliwn drwy'r grant gwasanaethau trafnidiaeth lleol, y grant i weithredwyr gwasanaethau bysiau a chyllid grant gwasanaethau trafnidiaeth rhanbarthol. Dyma'r prif reswm dros y gostyngiad mewn gwasanaethau ac, yn wir, ddileu rhai llwybrau.

The real pressure is now coming in the form of an 11% cut in the concessionary fare reimbursement budget; this scheme is a blow to bus operators and passengers. It is interesting to note that this cut was not announced in the Chamber or through a written statement on a Friday before recess, but through a letter to local authorities in Wales.

Mae'r pwysau gwirioneddol bellach yn dod ar ffurf toriad o 11% yn y gyllideb ad-dalu consesiynau teithio; mae'r cynllun hwn yn ergyd i weithredwyr bysiau a theithwyr. Mae'n ddiddorol nodi na chafodd y toriad hwn ei gyhoeddi yn y Siambr na thrwy ddatganiad ysgrifenedig ar ddydd Gwener cyn y toriad, ond drwy lythyr i awdurdodau lleol yng Nghymru.

This cut comes after months of uncertainty over this important issue. While bus operators should have been forward-planning, they were left second-guessing what the Welsh Government would offer them. In fact, a key bus industry monitor in the UK described bus policy in Wales as one of indecision and hesitation. Of that there can be no doubt, and there is ample evidence to substantiate that this is the case.

Daw hyn ar ôl misoedd o ansicrwydd ynghylch y mater pwysig hwn. Er y dylai gweithredwyr bysiau fod wedi bod yn blaengynllunio, bu'n rhaid iddynt geisio dyfalu beth fyddai Llywodraeth Cymru yn ei gynnig iddynt. Yn wir, yn ôl un monitor allweddol yn y diwydiant bysiau yn y DU mae'r polisi bysiau yng Nghymru yn bolisi o ddiffyg penderfyniad a phetruso. Nid oes unrhyw amheuaeth o ran hynny, ac mae digon o dystiolaeth i gadarnhau bod hyn yn wir.

To see the context of this cut, I would recommend that all Assembly Members look at the TAS Partnership Limited's bus monitoring report. It is a much-respected observer in the UK, and the report contains financial information for all of the large bus companies in the UK over the last decades. It includes Cardiff Bus, Newport Bus and the Welsh subsidiaries of First Group, Arriva and Stagecoach.

Er mwyn gweld cyd-destun y toriad hwn, byddwn yn argymell bod holl Aelodau'r Cynulliad yn edrych ar adroddiad monitro bysiau Partneriaeth TAS Cyfyngedig. Mae'n sylwedydd uchel ei barch yn y DU, ac mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ariannol am bob un o'r cwmnïau bysiau mawr yn y DU dros y degawdau diwethaf. Mae'n cynnwys Bws Caerdydd, Bws Casnewydd ac is-gwmnïau First Group, Arriva a Stagecoach yng Nghymru.

One interesting statistic is that profitability in Wales is lower than in England—outside of London, that is. Concerning concessionary fares, the data show that there has been no increase in profitability since the introduction of the Welsh Government's free concessionary fares scheme. In other words, every additional penny that went into the industry has led to additional investment and vehicles. Conversely, any penny taken out of it will lead to fare increases and service reductions.

Un ystadegyn diddorol yw bod proffidioldeb yng Nghymru yn is nag yn Lloegr—hynny yw, y tu allan i Lundain. O ran tocynnau rhatach, mae'r data yn dangos na fu unrhyw gynnydd mewn proffidioldeb ers cyflwyno cynllun tocynnau teithio rhatach Llywodraeth Cymru. Mewn geiriau eraill, mae pob ceiniog ychwanegol a wariwyd ar y diwydiant wedi arwain at fuddsoddi a cherbydau ychwanegol. Ar y llaw arall, bydd pob ceiniog a dynnwyd yn ôl yn arwain at gynnydd mewn prisiau a gostyngiadau mewn gwasanaethau.

So, even if the Welsh Government is technically correct that operators will be no worse or no better off after the cut in funding, passengers, for sure, will be worse off. I believe that the Welsh Government is wrong and I would be surprised if operators do not challenge the Minister's decision through the courts.

Felly, hyd yn oed os yw Llywodraeth Cymru yn dechnegol gywir na fydd gweithredwyr yn waeth eu byd nac yn well eu byd ar ôl y toriad mewn cyllid, bydd teithwyr, yn sicr, yn waeth eu byd. Credaf fod Llywodraeth Cymru yn anghywir a byddwn yn synnu os na fydd gweithredwyr yn herio penderfyniad y Gweinidog drwy'r llysoedd.

On that note, I would like at this point to refer to the Confederation of Passenger Transport Cymru reaction to the concessionary fares reduction. It stated that:

Ar y nodyn hwnnw, hoffwn gyfeirio yn y fan hon at ymateb Cydffederasiwn Teithwyr Cymru i'r gostyngiad mewn consesiynau teithio. Mae'n datgan y:

'The Welsh Government's damaging cuts will have far-reaching implications right across daily life in Wales, not just on direct bus provision.'

bydd i doriadau niweidiol Llywodraeth Cymru oblygiadau pellgyrhaeddol i fywyd bob dydd yng Nghymru, nid yn unig ar y ddarpariaeth bws uniongyrchol.

It went on to warn that

Aeth ymlaen i rybuddio y

'businesses, local authorities, charities and support groups should all be hugely concerned by the Welsh Government's poorly thought-out plans.'

dylai busnesau, awdurdodau lleol, elusennau a grwpiau cymorth oll fod yn bryderus iawn ynglŷn â chynlluniau anystyriol Llywodraeth Cymru.

The effects of these Labour Government cuts have already started. It was reported in February that 100 subsidised bus routes have already been scrapped in Wales in the past three years. Nearly one in seven routes across 19 council areas has been axed.

Mae effeithiau'r toriadau hyn gan y Llywodraeth Lafur eisoes wedi dechrau. Nodwyd ym mis Chwefror fod 100 o lwybrau bysiau â chymhorthdal eisoes wedi cael eu diddymu yng Nghymru yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mae bron un o bob saith llwybr ar draws 19 o ardaloedd cyngor wedi cael ei dileu.

So, I would say to the Chamber that among the confusion, delay and hesitation by the Welsh Government, the Minister has also announced a public transport users advisory panel. This is being established to replace the public transport users committee. There is at the moment little information about the structure, remit and full membership of these groups and any further changes to the Welsh Government's approach to the bus industry will result in more uncertainty and instability. We, on this side of the Chamber, have great unease at the amount of change that the Minister has undertaken in this area, without any kind of vision or guarantee to the people of Wales about the level of bus service that they can expect.

Felly, hoffwn ddweud wrth y Siambr, ymhlith dryswch ac oedi Llywodraeth Cymru, fod y Gweinidog hefyd wedi cyhoeddi sefydlu panel cynghori defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus. Bydd hwn yn disodli'r pwyllgor defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus. Ar hyn o bryd nid oes fawr ddim gwybodaeth am strwythur, cylch gorchwyl nac aelodaeth lawn y grwpiau hyn a bydd unrhyw newidiadau pellach i'r ffordd y mae'r Llywodraeth Cymru yn ymdrin â'r diwydiant bysiau yn arwain at fwy o ansicrwydd ac ansefydlogrwydd. Rydym ni, ar yr ochr hon i'r Siambr, yn anesmwyth iawn ynglŷn â faint o newid y mae'r Gweinidog wedi ei wneud yn y maes hwn, heb unrhyw fath o weledigaeth na sicrwydd i bobl Cymru am lefel y gwasanaeth bws y gallant ei ddisgwyl.

It is important to highlight that there are almost 800,000 people aged 60 and over in Wales, a quarter of the population, in fact, and in the next twenty years, this is expected to exceed 1 million people. Transport is vital to the aging population of rural Wales as it helps older people maintain their independence. Without sufficient transport links older people can become isolated, lonely and are often unable to take care of themselves due to poor access to services. The Age Cymru report 'Buses—A Lifeline for Older People' concluded that

Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod bron 800,000 o bobl 60 oed a throsodd yng Nghymru, chwarter y boblogaeth, mewn gwirionedd, ac yn ystod yr ugain mlynedd nesaf, disgwylir i'r ffigur hwn fod yn fwy na miliwn o bobl. Mae trafnidiaeth yn hanfodol i boblogaeth sy'n heneiddio yng nghefn gwlad Cymru gan ei bod yn helpu pobl hŷn i barhau i fyw'n annibynnol. Heb ddigon o gysylltiadau trafnidiaeth gall pobl hŷn gael eu hynysu, bod yn unig ac yn aml methu â gofalu amdanynt eu hunain oherwydd mynediad gwael at wasanaethau. Daeth adroddiad Age Cymru 'Buses—A Lifeline for Older People' i'r casgliad

'Without steps to improve the frequency, reliability and accessibility of bus services throughout Wales, more and more older people will be unable to reach essential services. Not only will their wellbeing suffer but there are significant consequences for other services, notably health and social care services, which will have to cope with older people's isolation.'

Os na chymerir camau i wella amlder, dibynadwyedd a hygyrchedd gwasanaethau bysiau ledled Cymru, bydd mwy a mwy o bobl hŷn yn methu â chyrraedd gwasanaethau hanfodol. Nid yn unig y bydd eu lles yn dioddef, ond mae goblygiadau mawr i wasanaethau eraill, yn enwedig gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a fydd yn gorfod ymdopi â phobl hŷn sydd wedi'u hynysu.

I would say to Members that in opening this debate I highlighted the dangers in the Government's current approach, predicted the complete breakdown in our bus network if the current funding cuts are not reversed and highlighted the ageing demographics of our nation and the importance of free bus travel for senior citizens, but more importantly the need for an actual bus service.

Hoffwn ddweud wrth yr Aelodau, wrth agor y ddadl hon, imi dynnu sylw at y peryglon sydd ynghlwm wrth ddull gweithredu presennol y Llywodraeth, rhagweld chwalfa lwyr ein rhwydwaith bysiau os nad yw'r toriadau cyllido cyfredol yn cael eu gwrthdroi ac amlygu demograffeg ein cenedl sy'n heneiddio a phwysigrwydd darpariaeth teithio ar fysiau am ddim i'r henoed, ond yn bwysicach na hynny, yr angen am wasanaeth bws go iawn.

I promised to deal with the Plaid Cymru amendments; we will be abstaining on the two amendments. It is not my intention to jump the gun on Silk part 2; there is much to be considered here. It is time to reflect and not rush into judgments, so, as I said, we will be abstaining on those amendments.

Addewais ymdrin â gwelliannau Plaid Cymru; byddwn yn ymatal ar y ddau welliant. Nid yw'n fwriad gennyf achub y blaen ar ran 2 Silk; mae llawer i'w ystyried o ran hyn. Mae'n amser myfyrio â pheidio â llunio barn ar frys, felly, fel y dywedais, byddwn yn ymatal ar y gwelliannau hynny.

Financial settlements for the bus industry are an issue that affects and threatens the very infrastructure of our delicate transport system here in Wales. I urge the Welsh Government to reconsider the funding arrangements and to consult properly and meaningfully with the bus industry. The message that I am receiving is that the industry is very much out of the loop at present and in a complete dilemma as to the future.

Mae setliadau ariannol i'r diwydiant bysiau yn fater sy'n effeithio'n union ar seilwaith ein system drafnidiaeth fregus yma yng Nghymru ac yn ei beryglu. Hoffwn annog Llywodraeth Cymru i ailystyried y trefniadau ariannu ac ymgynghori'n briodol ac ystyrlon â'r diwydiant bysiau. Y neges rwyf yn ei chael yw nad yw'r diwydiant yn cael fawr ddim cyswllt â'r Llywodraeth ar hyn o bryd a'i fod mewn penbleth llwyr ynghylch y dyfodol.

15:08

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected three amendments to the motion. I call on Dafydd Elis-Thomas to move amendments 1 and 2, tabled in the name of Elin Jones.

Rwyf wedi dethol tri gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Dafydd Elis-Thomas i gynnig gwelliannau 1 a 2, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Amendment 1—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 1 ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Add new point after point 1 and renumber accordingly:*

*Yn croesawu argymhelliad y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru i ddatganoli pŵer rheoleiddio dros fysiau i Lywodraeth Cymru.*

*Welcomes the recommendation of the Commission on Devolution in Wales to devolve regulatory power over buses to the Welsh Government.*

*Gwelliant 2—Elin Jones*

*Amendment 2—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 1 ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Add new point after point 1 and renumber accordingly:*

*Yn cydnabod bod angen Comisiynydd Traffig penodol i Gymru.*

*Recognises the need for a dedicated Traffic Commissioner for Wales.*

15:08

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf welliannau 1 a 2.

I move amendments 1 and 2.

Mae'n bleser mawr heddiw bod gennym dair dadl ar drafnidiaeth, yn enwedig dadl bwysig iawn yn y ddadl fer. Fel cyn-deithiwr ar y trên rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin, gan ddod 'off' ym Mhencader ar gyfer Castellnewydd Emlyn, rwy'n edrych ymlaen at weld sut y mae fy nghyfaill Simon Thomas yn mynd i ailsefydlu'r rheilffordd yn y fan hyn.

It is a great pleasure that, today, we have three debates on transport, particularly the very important debate in the short debate. As a former passenger on the train between Aberystwyth and Carmarthen, getting off at Pencader to go to Newcastle Emlyn, I am looking forward to seeing how my colleague Simon Thomas is going to re-establish that rail link here.

Fy nghyfle i heddiw yw dweud ei bod yn bwysig iawn inni gefnogi'r cynnig sydd gerbron, ond hefyd y gwelliant yr wyf i wedi ei gynnig yn enw Plaid Cymru, sef y gwelliant sy'n tynnu sylw at argymhellion adroddiad y comisiwn ar y cyfansoddiad.

It is my opportunity today to state that it is extremely important that we should support the motion before us today, but also the amendment that I moved in the name of Plaid Cymru, namely the amendment that highlights the recommendation of the commission on the constitution in Wales.

Nid wyf am ddadlau'r ddadl fy mod yn gwybod fod fy nghyfaill mewn Senedd arall, yr Arglwydd Bourne o Aberystwyth—teitl ardderchog—yn gyfan gwbl gefnogol i'r argymhellion hyn a bod gydag ef gysylltiad agos iawn, wrth gwrs, â grŵp Ceidwadwyr Cymru. Fodd bynnag, efallai y gallai'r grŵp ystyried hyn rhwng hyn a'r cyfnod pleidleisio. Fodd bynnag, yr hyn sy'n allweddol i ni yw bod yr argymhellion sylweddol hyn sydd ym mhennod 7 adroddiad y comisiwn ar ddatganoli yn rhoi fframwaith newydd a phriodol i drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys, yn arbennig, trafnidiaeth bysiau. Byddai rheoleiddio bysiau, gan gynnwys swyddogaethau perthnasol y comisiynydd traffig, yn creu, o'r diwedd, modd i Lywodraeth Cymru greu cyfundrefn drafnidiaeth integredig. Heb y ddau biler yma i drafnidiaeth integredig, sef masnachfraint rheilffordd y Mers a holl reilffyrdd Cymru a'r cyfle i reoleiddio bysys, nid yw trafnidiaeth integredig yn bosibl.

I will not argue that I know that my colleague in another Parliament, Lord Bourne of Aberystwyth—an excellent title—is entirely supportive of these recommendations and that he has a very close link, of course, with the Welsh Conservative group. However, perhaps the group could consider this between now and voting time. However, what is crucial to me is that the substantial recommendations in chapter 7 of the commission's report sets a new and appropriate framework for public transport in Wales, including, particularly, bus transport. The regulation of bus services, including the relevant functions of the traffic commissioner, would, at last, create a means for the Welsh Government to create an integrated transport regime. Without these two pillars for integrated transport, mainly the railway franchises of the Marches and the rest of Wales and the opportunity to regulate bus services, integrated transport is not possible.

Rwy'n cofio'n dda iawn—bendith arnoch, Fonesig Lywydd, am disian—imi fynd i'r sgwâr yn Nolgellau i weld effaith dadreoleiddio bysiau ym 1985 a gweld tri neu bedwar bws anferth yn ceisio meddiannu gofod o flaen Neuadd Idris yn Nolgellau. Roedd y peth yn wallgofrwydd. I mi, mae'r gyfundrefn o ddadreoleiddio bysys wedi methu â chreu perthynas resymol rhwng y farchnad a'r anghenion busnes a'r anghenion cyhoeddus, a hynny yw'r gyfrinach. Nid wyf yn sosialydd ideolegol, ac nid wyf ychwaith, yn amlwg, yn geidwadwr marchnad rydd, ond rwyf yn credu bod perthynas adeiladol rhwng y farchnad, yn enwedig y farchnad cwmnïau lleol, a darparu gwasanaeth cyhoeddus rhesymol. Byddwn yn argymell i'r Ceidwadwyr edrych ar fodel trafnidiaeth Llundain, sef model o reoleiddio sy'n defnyddio cwmnïau yn y sector preifat ond model sydd hefyd yn cyfrannu at gynllunio mwy effeithlon.

I well recall—bless you, Dame Presiding Officer, for sneezing—going to the square in Dollgellau to see the impact of the deregulation of bus services in 1985 and seeing three or four huge buses trying to occupy a space in front of Neuadd Idris in Dolgellau. It was complete madness. To me, the regime of deregulating buses has failed to create a rational relationship between the market and the needs of business and the needs of the public, and that is the secret. I am not an ideological socialist, and neither am I, obviously, a free-market conservative, but I do believe that there is a constructive relationship between the market, particularly the market in terms of local companies, and the provision of reasonable public services. I would recommend that the Conservatives look at the transport model for London, which is a model of regulation that uses private sector companies but also a model that contributes to more efficient planning.

Beth yw'r anawsterau presennol? Wel, mae gwasanaethau sydd wedi eu cymorthdalu yn methu â chystadlu—

What are the current difficulties? Well, services that are subsidised are unable to compete—

15:12 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Will you give way?

A wnewch ildio?

15:12 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Of course I will give way.

Wrth gwrs, gwnaf ildio.

15:12 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you. Just on that point that the Member has made, I understand what you are saying about the importance of bus services relating to the local environment. London is a capital city of 10 million people, which is quite a different situation to Wales. You could not simply replicate that model across Wales, could you?

Diolch. O ran y pwynt hwnnw mae'r Aelod wedi ei wneud, deallaf yr hyn rydych yn ei ddweud am bwysigrwydd gwasanaethau bysiau mewn perthynas â'r amgylchedd lleol. Mae Llundain yn brifddinas o 10 miliwn o bobl, sy'n sefyllfa dipyn yn wahanol i Gymru. Oni allech, yn syml, efelychu'r model hwnnw ledled Cymru?

15:12 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I think that you could replicate the structure of the model, which is that relationship between public procurement and the operation of private transport, and that is what, in my view, in the present circumstance, we have not done, and cannot do because we do not have the power to do it.

Credaf y gallech efelychu strwythur y model, sef bod perthynas rhwng caffael cyhoeddus a gweithrediad trafnidiaeth breifat, a dyna'r hyn, yn fy marn i, o dan yr amgylchiadau presennol, nad ydym wedi ei wneud, ac na allwn ei wneud gan nad oes gennym y pŵer i wneud hynny.

Yr elfen arall, wrth gwrs, yw bod y gwasanaethau masnachol yn tueddu i fanteisio ar y rhannau o'r gwasanaethau sydd yn talu orau iddyn nhw. Felly, mae cystadleuaeth gwbl annheg yn aml. Y peth pwysicaf oll, efallai, yn hyn yw'n bod ni wedi galluogi strwythur o gwmnïau mawr i dyfu ar draul cwmnïau llai. Felly, rwy'n meddwl fod yr amser wedi dod inni fynd ymlaen yn gyflym i allu rheoleiddio bysiau yng Nghymru, ac rwy'n gobeithio na fydd yn rhaid inni aros yn hir iawn i'r Llywodraeth glymblaid, y ddwy ochr yn y Siambr hon, i ymateb i adroddiad rhagorol Paul Silk a'i gyd-aelodau, oherwydd un o'r problemau, Fonesig Lywydd, gyda datganoli yw bod pethau'n cymryd amser hir oherwydd bod y Deyrnas Unedig mor araf deg.

The other element, of course, is that commercial services tend to take advantage of those parts of the service that are most profitable for them. So, there is often unfair competition. The most important thing here, perhaps, is that we have enabled a structure of major companies to develop at the expense of smaller companies. I think, therefore, that the time has come for us to proceed quickly to regulate buses in Wales, and I hope that we will not have to wait too long for the coalition Government, the two sides in the Chamber, to respond to the excellent report produced by Paul Silk and his fellow members, because one of the problems, Dame Presiding Officer, with devolution is that things take a very long time because the United Kingdom is so slow.

15:13 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on the Minister to move amendment 3, tabled in the name of Lesley Griffiths.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 3, a gyflwynwyd yn enw Lesley Griffiths.

*Gwelliant 3—Lesley Griffiths*

*Amendment 3—Lesley Griffiths*

*Ym mhwynt 3, ar ôl 'Lywodraeth Cymru' cynnwys 'i gydweithio â'r diwydiant bysiau a phartneriaid eraill'.*

*In point 3, after 'Welsh Government' insert 'to work with the bus industry and other partners'.*

15:13 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

I move amendment 3.

Cynigiaf welliant 3.

15:14 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on Nick Ramsay.

Galwaf ar Nick Ramsay.

15:14 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I would not have intervened earlier on if I had known that I was about to be called, Presiding Officer.

Ni fyddwn wedi ymyrryd yn gynharach pe gwyddwn fy mod ar fin cael fy ngalw, Lywydd.

I want to pick up on some of the comments made by Byron Davies in his opening remarks relating to the financial concerns around the settlement for buses within Wales. I share Byron Davies's concerns about the uncertainty that has been created over the last two years surrounding concessionary fare reimbursement and the 11% cut to the budget for this scheme.

Hoffwn gyfeirio at rai o'r sylwadau a wnaed gan Byron Davies yn ei sylwadau agoriadol mewn perthynas â'r pryderon ariannol ynglŷn â'r setliad ar gyfer bysiau yng Nghymru. Rhannaf bryderon Byron Davies ynglŷn â'r ansicrwydd sydd wedi cael ei greu dros y ddwy flynedd ddiwethaf o ran ad-dalu consesiynau teithio a'r toriad o 11% i'r gyllideb ar gyfer y cynllun hwn.

It is very hard to disagree with the view of the Confederation of Passenger Transport Cymru, which stated that:

Mae'n anodd iawn anghytuno â barn Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr Cymru, a nododd:

'The Welsh Government's damaging cuts will have far-reaching implications right across daily life in Wales, not just on direct bus provision.'

Bydd i doriadau niweidiol Llywodraeth Cymru oblygiadau pellgyrhaeddol ym mhob rhan o fywyd bob dydd yng Nghymru, nid yn unig ar y ddarpariaeth uniongyrchol o fysiau.

Let us face it, if we cannot get the funding issues right, we cannot get anything right. Concession reimbursement, as we know, was introduced 12 years ago, with great fanfare—as is often the case; we hear lots of noises, but whether action follows is less obvious—as a way to enable pensioners and disabled people in Wales to have the opportunity to travel free of charge on all Welsh bus services. That law committed the Welsh Government to paying for each passenger at a rate that leaves the bus operator no better or worse off than if the free travel were unavailable. As we have heard, it is estimated that the cost of each pass equates to around £100 per pass holder per year.

Gadewch inni wynebu'r gwir, os na allwn gael y materion ariannu yn iawn, ni allwn gael unrhyw beth yn iawn. Cafodd ad-dalu consesiynau teithio, fel y gwyddom, ei gyflwyno 12 mlynedd yn ôl, gyda ffanffer mawr—fel sy'n digwydd yn aml, rydym yn clywed tipyn o sôn, ond nid yw mor amlwg a yw camau gweithredu yn dilyn—fel ffordd o alluogi pensiynwyr a phobl anabl yng Nghymru i gael y cyfle i deithio am ddim ar bob gwasanaeth bws yng Nghymru. O dan y gyfraith honno ymrwymodd Llywodraeth Cymru i dalu am bob teithiwr ar gyfradd sy'n golygu na fydd y cwmni bysiau yn well nac yn waeth ei fyd na phe na bai teithio am ddim ar gael. Fel y clywsom, amcangyfrifir bod cost pob cerdyn bws yn cyfateb i tua £100 fesul deiliaid cerdyn bws y flwyddyn.

The last funding settlement period saw a funding rise from the Welsh Government. However, as we know, the forthcoming settlement for the next three years sees funding being cut by £24.3 million, which is a reduction of over 11% and leaves savings to be found and, invariably—unless the Minister can tell us otherwise—services cut.

Yn y cyfnod setliad ariannu diwethaf gwelwyd cynnydd cyllidol gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, fel y gwyddom, mae'r setliad arfaethedig ar gyfer y tair blynedd nesaf yn cael ei dorri o £24.3 miliwn, sef gostyngiad o fwy nag 11% sy'n golygu bod yn rhaid dod o hyd i arbedion ac, yn anochel—oni all y Gweinidog ddweud wrthym fel arall—dorri gwasanaethau.

In some rural Welsh counties, such as Pembrokeshire, we have seen all subsidised Saturday and evening bus services removed, and other services have witnessed a reduction in frequency or a change in routes. These cuts have been seen not only in rural areas, although they are particularly concerning there, but in areas such as Cardiff, where Cardiff Bus has stated that it will have to make necessary changes to fares and services due to the 11% cut. This action seems to fly in the face of the Welsh Government's sustainability agenda, and will surely see more people taking to their cars, putting more pressure on the already busy road network, especially if early-morning services are cut. This is the exact opposite of what the Welsh Government and the Assembly, with their sustainability remit, are supposed to be trying to safeguard. Their words say one thing, but they are doing quite the opposite.

Mewn rhai siroedd gwledig yng Nghymru, megis Sir Benfro, rydym wedi gweld pob gwasanaeth bws ar ddydd Sadwrn a chyda'r nos a gafodd gymhorthdal yn cael eu dileu, ac mae gwasanaethau eraill wedi cael eu cwtogi o ran amlder neu mae llwybrau wedi cael eu newid. Mae'r toriadau hyn wedi cael eu gweld, nid yn unig mewn ardaloedd gwledig, er eu bod yn achos pryder arbennig yno, ond mewn ardaloedd fel Caerdydd, lle mae Bws Caerdydd wedi datgan y bydd yn rhaid iddo wneud newidiadau angenrheidiol i brisiau a gwasanaethau oherwydd y toriad o 11%. Ymddengys bod y camau hyn yn gwbl groes i agenda cynaliadwyedd Llywodraeth Cymru, a bydd yn sicr yn gweld mwy o bobl yn defnyddio eu ceir, gan roi mwy o bwysau ar y rhwydwaith ffyrdd sydd eisoes yn brysur, yn enwedig os caiff gwasanaethau ben bore eu torri. Mae hyn yn wrthgyferbyniad llwyr â'r hyn y dylai Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad, gyda'u cylch gwaith o gynaliadwyedd, fod yn ceisio ei ddiogelu. Mae eu geiriau yn dweud un peth, ond maent yn gweithredu'n gyfan gwbl i'r gwrthwyneb.

The BBC reported last month that, already, 100 subsidised bus routes—and this was picked up by Byron Davies—have been scrapped in Wales over the last three years, and this is before the reduction in funding has even been introduced. It begs the question as to whether the statutory objective of being no better or worse off can be met if operators have to make significant changes to their services because of the Welsh Government. John Pockett of the Confederation of Passenger Transport Cymru stated last month that

Nododd y BBC fis diwethaf fod 100 o lwybrau bysiau â chymhorthdal—a chyfeiriodd Byron Davies at hyn—eisoes wedi cael eu diddymu yng Nghymru dros y tair blynedd diwethaf, a digwyddodd hyn hyd yn oed cyn i'r gostyngiad gael ei gyflwyno. Mae'n codi'r cwestiwn a oes modd i'r amcan statudol, sef nad yw cwmnïau yn well nac yn waeth eu byd, gael ei fodloni os bydd yn rhaid i weithredwyr wneud newidiadau sylweddol i'w gwasanaethau oherwydd Llywodraeth Cymru. Dywedodd John Pockett o Gydffederasiwn Cludiant Teithwyr Cymru y mis diwethaf

'These government cuts will cut connectivity in towns and cities, as well as rural areas and will close the door on access to employment for people on welfare looking to get into work; and they will hit the country's high streets, whose biggest customers are bus passengers.'

Bydd y toriadau hyn gan y llywodraeth yn torri cysylltedd mewn trefi a dinasoedd, yn ogystal ag mewn ardaloedd gwledig a bydd yn cau'r drws ar y cyfle i gael cyflogaeth i bobl sy'n cael budd-daliadau ac sy'n chwilio am waith, a byddant yn ergyd i'r stryd fawr ledled y wlad, y mae eu cwsmeriaid mwyaf yn deithwyr bws.

Cutting access to employment for people on welfare looking to work—where is the sense in that, Minister? So often, we hear from the Welsh Government about the need to safeguard people on welfare and many debates are brought forward in which we hear that. For goodness' sake, make sure that people on welfare find it as easy as possible to get the work that they need and which we would want them to have.

Cwtogi ar gyfleoedd i gael cyflogaeth i bobl sy'n cael budd-daliadau ac sy'n chwilio am waith—ble mae'r synnwyr yn hynny, Weinidog? Rydym yn clywed mor aml gan Lywodraeth Cymru am yr angen i ddiogelu pobl sy'n cael budd-daliadau lles a chyflwynir llawer o ddadleuon lle rydym yn clywed hynny. Er mwyn popeth, gwnewch yn siŵr bod pobl sy'n cael budd-daliadau yn ei chael mor hawdd â phosibl i gael y gwaith sydd ei angen arnynt ac y byddem am iddynt ei gael.

The concerning thing, as identified by the Commissioner for Older People in Wales recently, is that although funding will be reduced, the number of people qualifying for concessionary fares is increasing, as nearly a quarter of the population are over the age of 60. The impact of the reduction in services may be exacerbated in this section of the community because over a third of older people do not possess a driving licence. This reduction in funding will have a serious impact on the independence that older people in Wales will be able to enjoy. Once again, we hear from the older people's commissioner of the need to safeguard services for older people and, every year, we debate the annual report of the older people's commissioner in the Chamber. We all use nice warm words about it and say how wonderful it is, but what is actually happening and what policies are being implemented on the ground to support older people? It seems to the people out there that, all too often, we are going backwards.

Yr hyn sy'n achos pryder, fel y nodwyd gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ddiweddar, yw, er y bydd cyllid yn cael ei ostwng, bod nifer y bobl sy'n gymwys i gael tocynnau rhatach yn cynyddu, gan fod bron chwarter y boblogaeth dros 60 oed. Efallai y bydd effaith y gostyngiad yn y gwasanaethau yn waeth ymhlith y rhan hon o'r gymuned gan nad oes gan draean o bobl hŷn drwydded yrru. Bydd y gostyngiad hwn yn y cyllid yn cael effaith ddifrifol ar yr annibyniaeth y bydd pobl hŷn yng Nghymru yn gallu ei chael. Unwaith eto, rydym yn clywed gan y comisiynydd pobl hŷn am yr angen i ddiogelu gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn a, bob blwyddyn, rydym yn trafod adroddiad blynyddol y comisiynydd pobl hŷn yn y Siambr. Rydym i gyd yn defnyddio geiriau teg am y peth ac yn dweud pa mor wych ydyw, ond beth sy'n digwydd mewn gwirionedd a pha bolisïau sy'n cael eu gweithredu ar lawr gwlad i gefnogi pobl hŷn? Ymddengys i bobl gyffredin, yn rhy aml, ein bod yn mynd tuag yn ôl.

Advice provided to the Welsh Government in a technical paper clearly identifies that funding cuts will result in a material economic impact on Welsh bus operators and that the Welsh Government should provide reasonable timescales for the sector to adjust.

Mae cyngor a roddir i Lywodraeth Cymru mewn papur technegol yn nodi'n glir y bydd toriadau yn y cyllid yn arwain at effaith economaidd sylweddol ar weithredwyr bysiau yng Nghymru ac y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu terfynau amser rhesymol i'r sector ymaddasu.

We have tabled this debate, and we look forward to hearing the Minister's response to it and her telling us what efforts, if any, are being made to mitigate the impact of the reduction and whether a comprehensive impact assessment can be carried out to assess the effect of a reduction on services in Wales.

Rydym wedi cyflwyno'r ddadl hon, ac edrychwn ymlaen at glywed ymateb y Gweinidog iddi a chlywed ganddi pa ymdrechion, os o gwbl, sy'n cael eu gwneud i liniaru effaith y gostyngiad ac a oes modd cynnal asesiad cynhwysfawr o'r effaith er mwyn asesu effaith gostyngiad ar wasanaethau yng Nghymru.

15:19 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We know that those who rely on bus services are mostly the elderly, the disabled, children and people in our most deprived communities, where at least 50% of people simply do not have a car. Therefore, unless there is a bus available, they are unable to go any further than they can walk or cycle. We know that older people are twice as likely to travel by bus as younger people, and it is even more important for older women, who are twice as likely to use the bus as older men. When income is factored into the equation, we see that people on low incomes are two-and-a-half times more likely to use the bus than older people on higher incomes. However, it is an important service for all older people, because, inevitably, even if you are wealthy, once you start to lose your sight, it is obviously not safe for you to continue to drive.

Gwyddom mai'r henoed, pobl anabl, plant a phobl yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, lle nad oes gan o leiaf 50% o bobl gar, yw'r rhai sy'n dibynnu ar wasanaethau bysiau yn bennaf. Felly, oni bai fod bws ar gael, ni allant deithio ymhellach nag y gallant gerdded neu feicio. Gwyddom fod pobl hŷn ddwywaith yn fwy tebygol o deithio ar y bws na phobl iau, ac mae hyd yn oed yn fwy pwysig i fenywod hŷn, sydd ddwywaith yn fwy tebygol o ddefnyddio'r bws na dynion hŷn. Pan fydd incwm yn cael ei ystyried, gwelwn fod pobl ar incwm isel ddwywaith a hanner yn fwy tebygol o ddefnyddio'r bws na phobl hŷn ar incwm uwch. Fodd bynnag, mae'n wasanaeth pwysig i bobl hŷn yn gyffredinol, oherwydd, yn anochel, hyd yn oed os ydych yn gyfoethog, unwaith y byddwch yn dechrau colli eich golwg, yn amlwg nid yw'n ddiogel ichi barhau i yrru.

So, older people rely on buses for simple things such as getting their food in, going to the doctor and going to the post office or the bank, and it is an essential part of ensuring that older people stay healthy and maintain connections with their communities.

Felly, mae pobl hŷn yn dibynnu ar fysiau am bethau syml fel prynu bwyd, mynd at y meddyg a mynd i'r swyddfa bost neu'r banc, ac mae'n rhan hanfodol o sicrhau bod pobl hŷn yn aros yn iach ac yn cynnal cysylltiadau â'u cymunedau.

Quite how the needs of older people interface with the Minister's desire to make bus operators more commercially savvy is unclear, because all people over 60 travel for free, thanks to the Welsh Government's ongoing commitment to the concessionary fares scheme. The difficult decisions that the Government has to make as a result of the reduction in the amount of money coming from the UK Government inevitably leads to bus operators having to look again at the amount of services that they can provide. It is not clear whether there is any financial disincentive or incentive for them to maintain services for the elderly, because it is not clear whether they get paid for the numbers of journeys that people make, or whether it is done simply on the basis of the numbers of people using that service. The difficulty is that the less that bus service is available, the more inevitable it is that there will be shrinking in the numbers of people who use that service.

Nid yw'n amlwg beth yw'r cysylltiad rhwng anghenion pobl hŷn a dymuniad y Gweinidog i wneud gweithredwyr bysiau yn fwy masnachol, gan fod pawb dros 60 yn teithio am ddim, diolch i ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i'r cynllun tocynnau teithio rhatach. Mae'r penderfyniadau anodd y mae'n rhaid i'r Llywodraeth eu gwneud o ganlyniad i'r gostyngiad yn y swm o arian a ddaw o Lywodraeth y DU yn anochel yn arwain at weithredwyr bysiau yn gorfod edrych eto ar faint o wasanaethau y gallant eu darparu. Nid yw'n amlwg a oes unrhyw anghymhelliad neu gymhelliant ariannol iddynt gynnal gwasanaethau i'r henoed, oherwydd nid yw'n amlwg a ydynt yn cael eu talu am nifer y teithiau y mae pobl yn eu gwneud, neu a yw'n cael ei wneud ar y sail nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwnnw. Yr anhawster yw po fwyaf anfynych yw'r gwasanaeth bws, y mwyaf anochel ydyw y bydd nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwnnw yn lleihau.

A lot of attention is paid to the implications of the lack of public transport for older people, and not enough is paid to its implications for younger people. People simply cannot get to work unless they have the public transport available to enable them to do so. We do not question the idea that children who have to travel further than three miles to get to school should have school transport made available to them, and I think that we should have a similar attitude towards those who are unemployed to encourage them to get to work.

Rhoddir llawer o sylw i oblygiadau diffyg cludiant cyhoeddus i bobl hŷn, ac ni roddir digon o sylw i'r goblygiadau i bobl iau. Yn syml, ni all pobl gyrraedd y gwaith oni bai bod y drafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael yn eu galluogi i wneud hynny. Nid ydym yn cwestiynu'r syniad y dylai cludiant ysgol fod ar gael i blant sy'n gorfod teithio ymhellach na thair milltir i gyrraedd yr ysgol, a chredaf y dylem fabwysiadu agwedd debyg tuag at y rhai sy'n ddi-waith i'w hannog i gyrraedd y gwaith.

I would like to see a lot more co-production of bus services with other services; for example, I would like to see libraries being provided on buses in rural areas; I would like to see the Royal Mail providing bus services as it delivers and picks up the post; and I would like to see the possibility of other travellers using school transport in rural areas so that they can travel at those times, timed to ensure that children get to school on time. I cannot see how, with shrinking public subsidy, we can do anything other than engage with the rest of the community in terms of how we can co-produce our public transport services to ensure that they continue to provide the glue that keeps our communities together.

Hoffwn weld llawer mwy o gyd-gynhyrchu rhwng gwasanaethau bysiau a gwasanaethau eraill; er enghraifft, hoffwn weld llyfrgelloedd yn cael eu darparu ar fysiau mewn ardaloedd gwledig; hoffwn weld y Post Brenhinol yn darparu gwasanaethau bysiau wrtho iddo ddosbarthu a chasglu'r post; a hoffwn weld y posibilrwydd o deithwyr eraill yn defnyddio cludiant ysgol mewn ardaloedd gwledig er mwyn iddynt allu teithio ar yr adegau hynny, wedi'u hamseru i sicrhau bod plant yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon. Wrth i'r cymhorthdal cyhoeddus grebachu ni allaf weld sut y gallwn wneud unrhyw beth heblaw am ymgysylltu â gweddill y gymuned o ran sut y gallwn gyd-gynhyrchu ein gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i sicrhau eu bod yn parhau i gadw ein cymunedau gyda'n gilydd.

15:23 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

As Nick Ramsay has already said, many older people rely on bus services. Jenny Rathbone touched on this issue as well. With the number of over-60s in Wales already at 800,000 and expected to rise to over a million within the next 20 years, we have to recognise that this is a pressure on the system and that it brings unique challenges.

Fel y dywedodd Nick Ramsay eisoes, mae llawer o bobl hŷn yn dibynnu ar wasanaethau bysiau. Crybwyllodd Jenny Rathbone y mater hwn hefyd. Gyda nifer y bobl dros 60 oed yng Nghymru eisoes wedi cyrraedd 800,000 a disgwylir i'r niferoedd godi i fwy na miliwn o fewn yr 20 mlynedd nesaf, rhaid inni gydnabod bod hyn yn bwysau ar y system a'i fod yn cynnig heriau unigryw.

Transport is vitally important to older people. It helps to maintain independence, it helps to keep them connected with outside interests, it helps to keep them active and, often, it very much promotes walking as an exercise as well. Without sufficient transport links, older people can often become isolated, and it can contribute to poor health outcomes as people get less used to going out of their home and maintaining their independence. The ability to get around without extortionate cost for day-to-day life is extremely important.

Mae trafnidiaeth yn hanfodol bwysig i bobl hŷn. Mae'n eu helpu i gadw eu hannibyniaeth, mae'n helpu i gadw cysylltiad â diddordebau allanol, mae'n helpu i'w cadw'n egniol ac, yn aml, mae'n hyrwyddo cerdded fel ymarfer corff hefyd. Heb ddigon o gysylltiadau trafnidiaeth, gall pobl hŷn yn aml gael eu hynysu, a gall hynny gyfrannu at ganlyniadau iechyd gwael wrth i bobl fynd yn llai cyfarwydd â mynd allan o'r tŷ a pharhau i fod yn annibynnol. Mae'r gallu i fynd o un lle i'r llall heb gost afresymol yn eithriadol o bwysig o ran bywyd o ddydd i ddydd.

Age Cymru has done a great deal of work in promoting the interests of older people in its report 'Buses—a lifeline for older people'. It made a number of important conclusions in that report, not only that older people's wellbeing could suffer if bus services deteriorate, but that there would be knock-on consequences for other parts of the public sector, most notably for health and social care. It is really important that we take on board some of the recommendations in that report, one of which, for example, was the call for local authorities to consult with older people as a condition of their funding arrangements when it comes to transport. So, whenever bus routes are being planned in a locality, there has to be some engagement with older people about the sorts of services they would like to see in their area. I appreciate that many people will have a shopping list of services they want and that it is not always possible out of the public purse to maintain some of those very un-economic services. However, at least this would go some way towards engaging with the very people we are hoping to attract to using the services that we can afford to pay for.

Mae Age Cymru wedi gwneud llawer iawn o waith i hyrwyddo buddiannau pobl hŷn yn ei adroddiad 'Buses—a lifeline for older people'. Daeth i nifer o gasgliadau pwysig yn yr adroddiad hwnnw, sef nid yn unig y gallai lles pobl hŷn ddioddef os yw gwasanaethau bysiau'n dirywio, ond y byddai sgil-ganlyniadau i rannau eraill o'r sector cyhoeddus, yn bennaf i iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n bwysig iawn ein bod yn derbyn rhai o'r argymhellion yn yr adroddiad hwnnw, yr oedd un ohonynt, er enghraifft, yn galw ar awdurdodau lleol i ymgynghori â phobl hŷn fel un o amodau eu trefniadau cyllido o ran trafnidiaeth. Felly, pryd bynnag y mae llwybrau bws yn cael eu cynllunio mewn ardal, rhaid cael rhywfaint o ymgysylltu â phobl hŷn ynghylch y mathau o wasanaethau yr hoffent eu gweld yn eu hardal. Sylweddolaf y bydd gan lawer o bobl restr siopa o wasanaethau y maent am eu gweld ac nad yw bob amser yn bosibl cynnal rhai o'r gwasanaethau aneconomaidd iawn o bwrs y wlad. Fodd bynnag, o leiaf byddai hyn yn mynd rywfaint o'r ffordd tuag at ymgysylltu â'r union bobl yr ydym yn gobeithio eu denu i ddefnyddio'r gwasanaethau y gallwn fforddio talu amdanynt.

It also suggests in its report that the Welsh Government, along with local authorities and health boards, should explore developing links between the NHS, and social care in particular, and bus services because of the reconfiguration of health services in different parts of Wales. I think that there has perhaps not been enough thought given to the importance of the impact of the support given to local authorities to maintain bus routes for people's access to health services. Perhaps that is something you would be able to touch on in your response to today's debate, Minister.

Awgryma hefyd yn ei adroddiad y dylai Llywodraeth Cymru, ynghyd ag awdurdodau lleol a byrddau iechyd, ymchwilio i ddatblygu cysylltiadau rhwng y GIG a gofal cymdeithasol yn arbennig, a gwasanaethau bysiau oherwydd ad-drefnu gwasanaethau iechyd mewn gwahanol rannau o Gymru. Credaf na fu digon o ystyriaeth o bosibl i bwysigrwydd effaith y cymorth a roddir i awdurdodau lleol gynnal llwybrau bysiau er mwyn i bobl gyrraedd gwasanaethau iechyd. Efallai fod hynny'n rhywbeth y byddech yn gallu sôn amdano yn eich ymateb i'r ddadl heddiw, Weinidog.

We know that older people are more likely to use bus services. We know that they are less likely to have a driving licence. We know that they are also less likely to have a car. So, for them, a bus service is very often a lifeline. In terms of the Welsh population, while there are many people in Wales who have easy access to bus routes because they live in an urban centre, in rural parts of Wales, of course, the situation is very different. There are many people in my constituency who are served by very infrequent bus services. That makes their use much more difficult in terms of it being convenient for them. We know that the older people's commissioner has looked at the growth in rail passenger numbers, for example, and at how that might help to link bus services to other parts of the public transport infrastructure, just to help older people to get out and about and maintain their independence. We know that older people, for example, feel very comfortable using buses but less comfortable using trains. So, we have got to make sure that there is an integrated transport system around Wales that people can feel familiar with, particularly as they get into their old age.

Gwyddom fod pobl hŷn yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau bysiau. Gwyddom eu bod yn llai tebygol o feddu ar drwydded yrru. Gwyddom eu bod hefyd yn llai tebygol o fod yn berchen ar gar. Felly, iddynt hwy, mae gwasanaeth bws yn achubiaeth yn aml iawn. O ran poblogaeth Cymru, er bod llawer o bobl yng Nghymru yn cael mynediad hawdd at lwybrau bysiau am eu bod yn byw mewn canolfan drefol, mewn rhannau gwledig o Gymru, wrth gwrs, mae'r sefyllfa yn wahanol iawn. Mae llawer o bobl yn fy etholaeth i yn cael gwasanaethau bws anfynych iawn. Mae hynny'n ei gwneud yn llawer mwy anodd iddynt eu defnyddio o ran bod yn gyfleus iddynt. Gwyddom fod y comisiynydd pobl hŷn wedi edrych ar y twf yn nifer y teithwyr rheilffyrdd, er enghraifft, ac ar y ffordd y gallai fod o gymorth i gysylltu gwasanaethau bws â rhannau eraill o'r seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus, dim ond i helpu pobl hŷn i fynd allan a pharhau i fod yn annibynnol. Gwyddom fod pobl hŷn, er enghraifft, yn teimlo'n gyfforddus iawn yn defnyddio bysiau ond yn llai cyfforddus yn defnyddio trenau. Felly, rhaid inni sicrhau bod system drafnidiaeth integredig ledled Cymru y gall pobl deimlo'n gyfarwydd â hi, yn enwedig wrth iddynt fynd yn hen.

We know that, with the concessionary bus fares scheme, while it has been extremely useful in getting older people out and about, there is some anecdotal evidence of abuse in the system on the part of some operators that are requiring people to get on and off buses in order to clock a fair twice under the scheme. That is a cause for concern because, when you have limited budgets, you have to make sure that they can go as far as possible towards benefiting as many people as possible. So, Minister, I wonder whether this is something you are aware of and whether you will take an interest in putting that right so that we can get best value for the taxpayer from the limited resource we have to spend.

Gwyddom, gyda'r cynllun tocynnau bws rhatach, er ei bod wedi bod yn ddefnyddiol iawn o ran cael pobl hŷn i fynd allan, fod rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd bod rhai gweithredwyr yn camddefnyddio'r system drwy ofyn i bobl gamu ar y bws ac wedyn gamu oddi arno er mwyn iddynt gofnodi taith ddwywaith o dan y cynllun. Mae hynny'n destun pryder oherwydd, pan fo cyllidebau'n gyfyngedig, rhaid ichi sicrhau y gallant fynd mor bell â phosibl tuag at roi budd i gymaint o bobl ag y bo modd. Felly, Weinidog, tybed a yw hyn yn rhywbeth yr ydych yn ymwybodol ohono ac a fyddwch yn cymryd diddordeb mewn unioni hynny fel y gallwn gael y gwerth gorau i'r trethdalwr o'r adnodd cyfyngedig sydd gennym i'w wario.

15:28

## Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I welcome the debate today and I thank the Welsh Conservatives for bringing it forward. It is difficult to contest the basic premise of today's motion, which is that buses are, of course, an incredibly important lifeline for communities across Wales. Many of those communities have access to no other form of public transport. That means that, when buses are affected by cuts or decisions to change routes, people who do not have access to private transport find themselves disconnected and cut off from vital services and others in their community. In recent months, Members across the Chamber have had cause to raise local concerns about the services in their areas across Wales. We all know how important it is to our constituents. We all see our mailbags fill up with representations when changes to bus routes are proposed.

Croesawaf y ddadl heddiw a hoffwn ddiolch i'r Ceidwadwyr Cymreig am ei chyflwyno. Mae'n anodd dadlau yn erbyn rhagdybiaeth sylfaenol y cynnig heddiw, sef bod bysiau, wrth gwrs, yn bwysig tu hwnt i gymunedau ledled Cymru. Mewn llawer o'r cymunedau hynny nad oes unrhyw fath arall o drafnidiaeth cyhoeddus ar gael. Mae hynny'n golygu, pan fydd toriadau yn effeithio ar fysiau neu pan fydd penderfyniadau i newid llwybrau, fod pobl nad oes ganddynt fynediad at gludiant preifat yn cael eu hunain wedi'u datgysylltu oddi wrth wasanaethau hanfodol ac eraill yn eu cymuned. Yn y misoedd diwethaf, bu achos gan Aelodau o bob rhan o'r Siambr dros godi pryderon lleol am y gwasanaethau yn eu hardaloedd ledled Cymru. Gwyddom oll pa mor bwysig ydyw i'n hetholwyr. Mae pob un ohonom yn gweld ein bagiau post yn llenwi â sylwadau pan fydd newidiadau i lwybrau bysiau yn cael eu cynnig.

As the Enterprise and Business Committee found when it investigated the issue, I would say that integration is the key to enabling and encouraging a wider use of public transport, to reduce the public's dependency on cars and to encourage economic growth by encouraging people back into work. However, resources are limited and I think that we have to be efficient with what we are providing if we are to be sure that the support we are offering to people through public transport is hitting our priorities. However, efficient use of resources does not have to be a coded way of saying 'cuts' and, sometimes, it is a question of managing the services we are offering in a more effective way to give the public a better or more practical service that they are better able to access. I will give you one example of where that might be the case. For example, where buses and trains run along the same route, they should complement each other rather than compete against each other. However, very often, we find that bus routes are running on timetables that are directly competitive with the rail routes for the same area. For example, take an individual who lives in Newtown and wants to travel by public transport to Welshpool, 15 miles down the road; unlike many other towns in rural Wales, Newtown and Welshpool are both blessed with train and bus services, but trains and buses that leave Newtown do so within 20 minutes of each other and then there is a gap of almost one hour and 40 minutes before the next bus and train leave. It is a ridiculously wasteful use of a limited resource. Better co-ordination in this instance could give passengers a real improvement in services and make public transport a more viable option for many people, particularly those who travel every day for school or work. If it encourages more passengers to take up public transport, it increases the fare take, and helps make those services more sustainable in the future.

Fel y canfu'r Pwyllgor Menter a Busnes pan ymchwiliodd i'r mater, byddwn yn dweud mai integreiddio yw'r allwedd i alluogi ac annog defnydd ehangach o drafnidiaeth gyhoeddus, er mwyn lleihau dibyniaeth y cyhoedd ar geir ac annog twf economaidd drwy annog pobl i weithio eto. Fodd bynnag, mae adnoddau yn brin a chredaf fod yn rhaid inni fod yn effeithlon o ran yr hyn yr ydym yn ei ddarparu os ydym am fod yn sicr bod y cymorth yr ydym yn ei gynnig i bobl drwy gludiant cyhoeddus yn bodloni ein blaenoriaethau. Fodd bynnag, nid oes rhaid i'r defnydd effeithlon o adnoddau fod yn ffordd gyfrin o ddweud 'toriadau' a, weithiau, mae'n fater o reoli'r gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig mewn ffordd fwy effeithiol er mwyn rhoi gwasanaeth gwell neu fwy ymarferol i'r cyhoedd y gallant ei ddefnyddio'n haws. Rhoddaf un enghraifft lle y gallai hyn ddigwydd. Er enghraifft, lle mae bysiau a threnau yn rhedeg ar hyd yr un llwybr, dylent ategu ei gilydd yn hytrach na chystadlu â'i gilydd. Fodd bynnag, yn aml iawn, gwelwn fod y llwybrau bws yn rhedeg ar amserlenni sy'n cystadlu'n uniongyrchol â llwybrau rheilffordd yn yr un ardal. Er enghraifft, meddyliwch am unigolyn sy'n byw yn y Drenewydd ac sydd am deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus i'r Trallwng, 15 milltir i ffwrdd; yn wahanol i lawer o drefi eraill yng nghefn gwlad Cymru, mae gan y Drenewydd a'r Trallwng wasanaethau trenau a bysiau, ond mae'r trenau a'r bysiau sy'n gadael y Drenewydd yn gwneud hynny o fewn 20 munud i'w gilydd ac yna mae bwlch o awr a 40 munud bron cyn i'r bws a'r trên nesaf adael. Mae'n hynny'n ddefnydd gwastraffus o adnoddau cyfyngedig. Gallai gwell cyd-drefnu yn yr achos hwn gynnig gwelliant gwirioneddol mewn gwasanaethau i deithwyr a gwneud trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy ymarferol i lawer o bobl, yn enwedig y rhai sy'n teithio bob dydd i'r ysgol neu i'r gwaith. Os yw'n annog mwy o deithwyr i fanteisio ar drafnidiaeth gyhoeddus, mae'n cynyddu faint o arian a godir drwy docynnau, ac yn helpu i sicrhau bod y gwasanaethau hynny yn fwy cynaliadwy yn y dyfodol.

I also have concerns over the level of subsidy reported on the Cardiff Airport express service. The Minister will know that I very strongly advocated for the introduction of that service a year ago, but I was surprised by the detail of the implementation. The Minister might like to give us some indication of where we are going with this service now. I had anticipated that either a timetable would be integrated with the existing services in the area, such as the X91, to provide a frequency that was appropriate to the level of traffic at the airport, or that services would be timed to meet flights, as they are at other airports with infrequent or irregular flights times, like Oslo Torp, for example, with plans to grow the service and develop it more as flights increased. Instead, we have had a fully blown airport express service that seems to have been designed for a much busier airport. We have a service every 20 minutes from 4 a.m. until midnight, but many of the services are running empty. That is not an efficient use of resources. In the meantime, the X91 service, which serves many of my local communities, has been rerouted to avoid them because of the loss of business from the airport.

Mae gennyf bryderon hefyd ynghylch lefel y cymhorthdal y cyhoeddwyd bod y gwasanaeth cyflym i Faes Awyr Caerdydd yn ei gael. Gŵyr y Gweinidog imi ddadlau'n gryf iawn o blaid cyflwyno'r gwasanaeth hwnnw flwyddyn yn ôl, ond roeddwn yn synnu at y ffordd y cafodd ei weithredu. Efallai y bydd y Gweinidog am roi rhyw syniad inni ynglŷn â sut y bydd y gwasanaeth hwn yn datblygu. Roeddwn wedi rhagweld naill ai y byddai amserlen yn cael ei hintegreiddio â'r gwasanaethau presennol yn yr ardal, megis yr X91, er mwyn darparu gwasanaeth digon mynych a oedd yn briodol i lefel y traffig yn y maes awyr, neu y byddai gwasanaethau yn cael eu hamseru yn unol â theithiau hedfan, fel sy'n digwydd mewn meysydd awyr eraill sydd ag amseroedd hedfan anfynych neu afreolaidd, fel Oslo Torp, er enghraifft, gyda chynlluniau i dyfu'r gwasanaeth a'i ddatblygu'n fwy wrth i deithiau hedfan gynyddu. Yn lle hynny, rydym wedi gweld gwasanaeth cyflym llawn i'r maes awyr wedi ei gynllunio i bob golwg ar gyfer maes awyr llawer prysurach. Ceir gwasanaeth bob 20 munud o 04:00 tan hanner nos, ond mae llawer o'r gwasanaethau yn rhedeg heb deithwyr. Nid yw hynny'n ddefnydd effeithlon o adnoddau. Yn y cyfamser, mae llwybr gwasanaeth X91, sy'n gwasanaethu llawer o'm cymunedau lleol, wedi cael ei newid er mwyn eu hosgoi am ei fod wedi colli busnes o'r maes awyr.

It is difficult to balance priorities between economic development and social inclusion. We expect transport to do a lot to deliver both for us, but I would say that we do not always get that balance right. When I originally looked at the south Wales metro consortium's stated objectives, one of the things that it said that it would do was identify and target the region's most disconnected communities. This is an aspiration that I would share, but the opposite is happening on the ground now. As we are talking, on the one hand, about what the metro can deliver, on the other hand, Cardiff Bus has announced plans to reduce the frequency of buses serving Fairwater, which is one of the No. 1 things that the metro will tackle, and Trowbridge, St Mellons, Penylan and areas to the east of the city—the largest area of disconnected communities in south-east Wales. So, we need to think more carefully about how we prioritise and what we expect our transport to deliver for us.

Mae'n anodd cydbwyso blaenoriaethau rhwng datblygu economaidd a chynhwysiant cymdeithasol. Rydym yn disgwyl i gludiant wneud llawer i gyflawni'r ddau inni, ond byddwn yn dweud nad ydym bob amser yn cael y cydbwysedd hwnnw'n iawn. Pan edrychais yn wreiddiol ar amcanion datganedig consortiwm metro de Cymru, un o'r pethau y dywedodd y byddai'n ei wneud oedd nodi a thargedu'r cymunedau sydd â'r cysylltiadau gwaethaf yn y rhanbarth. Mae hwn yn uchelgais y byddwn yn ei rannu, ond y gwrthwyneb sy'n digwydd ar lawr gwlad bellach. Wrth inni siarad, ar y naill law, am yr hyn y gall y metro ei gyflawni, ar y llaw arall, mae Bws Caerdydd wedi cyhoeddi cynlluniau i leihau amlder bysiau sy'n gwasanaethu'r Tyllgoed, sy'n un o'r prif bethau y bydd y metro yn mynd i'r afael ag ef, a Trowbridge, Llaneirwg, Pen-y-lan ac ardaloedd ym mhen dwyreiniol y ddinas—yr ardal fwyaf o gymunedau digyswllt yn ne-ddwyrain Cymru. Felly, mae angen inni feddwl yn fwy gofalus am sut yr ydym yn blaenoriaethu a'r hyn yr ydym yn disgwyl i'n trafnidiaeth ei gyflawni inni.

15:33

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am grateful for the opportunity this afternoon to speak on bus services in Wales. We know that the London red bus service is more popular than many heads of state across the world. We should have an iconic bus service in Wales—unanimity among all bus services giving not only a good service to the public, but also comfort and economy for Wales.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle y prynhawn yma i sôn am wasanaethau bysiau yng Nghymru. Gwyddom fod gwasanaeth bws coch Llundain yn fwy poblogaidd na llawer o benaethiaid gwladwriaeth ledled y byd. Dylai fod gennym wasanaeth bws eiconig yng Nghymru—unfrydedd ymhlith yr holl wasanaethau bysiau sydd, nid yn unig yn rhoi gwasanaeth da i'r cyhoedd, ond hefyd yn rhoi cysur a darbodusrwydd i Gymru.

Labour cuts in funding for bus services will make it harder for people all over Wales to go about their daily lives and will lead to job losses. It is clear that those hit hardest will be the most vulnerable in our society, including the elderly and disabled. Margaret Everson, senior officer of Bus Users UK Cymru, said recently that she was extremely concerned about warning from bus operators about funding cuts. She went on to say that cuts in services would make connection with other services more difficult, affecting accessibility in towns and cities without direct services, and that the impact would particularly fall on rural areas and reduce access to employment for people who do not have their own transport and who are looking for work.

Bydd toriadau Llafur yng nghyllid gwasanaethau bysiau yn ei gwneud yn anos i bobl ledled Cymru fyw eu bywydau bob dydd a bydd yn arwain at golli swyddi. Mae'n amlwg mai'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas fydd yn dioddef fwyaf, gan gynnwys yr henoed a phobl anabl. Dywedodd Margaret Everson, uwch swyddog Bus Users UK Cymru, yn ddiweddar ei bod yn pryderu'n fawr am rybudd gan weithredwyr bysiau ynglŷn â'r toriadau cyllidol. Aeth ymlaen i ddweud y byddai toriadau mewn gwasanaethau yn gwneud cysylltiadau â gwasanaethau eraill yn fwy anodd, gan effeithio ar hygyrchedd mewn trefi a dinasoedd heb wasanaethau uniongyrchol, ac y byddai'r effaith yn arbennig ar ardaloedd gwledig ac y byddai'n ei gwneud yn anodd i bobl nad oes ganddynt eu cludiant eu hunain ac sy'n chwilio am waith gael cyflogaeth.

It is on the effect on the disabled that I want to mainly concentrate my remarks today. Funding for the free bus scheme is to be cut by nearly £25 million over the next three years. This represents a huge threat to the policy of giving unlimited free bus travel to all disabled people, which has been in operation since 2002. Although no bus operator can refuse to carry a bus-pass holder for free, this reduction in payment threatens the profitability of many Welsh bus companies. Many routes could be put at risk, thereby increasing the isolation of disabled people and creating a major obstacle to their wish to live independently. Disabled people already travel a third less, on average, than other people. Nearly two-thirds of households containing a disabled person do not have access to a private car and 41% of disabled people in England and Wales say that they experience difficulty in travelling around their areas. A large proportion of them mention difficulty in travelling to and from the doctor and hospital, visiting friends or relatives or even travelling to and from their place of work.

Yn fy sylwadau heddiw hoffwn ganolbwyntio'n bennaf ar yr effaith ar bobl anabl. Bwriedir torri cyllid ar gyfer y cynllun bws di-dâl bron £25 miliwn dros y tair blynedd nesaf. Mae hyn yn fygythiad enfawr i'r polisi o alluogi pob person anabl i deithio'n ddiderfyn am ddim ar fysiau, sydd wedi bod yn weithredol ers 2002. Er na all unrhyw gwmni bysiau wrthod cludo deiliad cerdyn bws am ddim, mae'r gostyngiad hwn mewn taliadau yn peryglu proffidioldeb llawer o gwmnïau bysiau yng Nghymru. Gallai llawer o lwybrau gael eu peryglu, a thrwy hynny beri i bobl anabl gael eu hynysu'n fwy a chreu rhwystr mawr i'w dymuniad i fyw yn annibynnol. Mae pobl anabl eisoes yn teithio draean yn llai, ar gyfartaledd, na phobl eraill. Nid oes gan bron ddwy ran o dair o aelwydydd sy'n cynnwys person anabl fynediad at gar preifat ac mae 41% o bobl anabl yng Nghymru a Lloegr yn dweud eu bod yn cael anhawster i deithio o le i le yn eu hardaloedd. Mae cyfran fawr ohonynt yn sôn am anhawster o ran teithio i'r meddyg ac i'r ysbyty ac oddi yno, ymweld â ffrindiau neu berthnasau neu hyd yn oed deithio i'w gweithle ac oddi yno.

Many disabled people are forced to use taxis for easier access, but the vice-chair of the National Taxi Association claimed recently that overcharging of disabled passengers who use taxis and private hire vehicles is rife. It is quite a widespread experience and these taxi drivers are using their own meters and robbing these disabled people. It is unacceptable in Wales. It was reported that some wheelchair users were being charged up to twice the fare of non-disabled passengers as a direct consequence of their disability. That is a sad fact. This is an absolute scandal, Minister, and we have to stop it in Wales.

Mae llawer o bobl anabl yn gorfod defnyddio tacsis i gael mynediad haws, ond honnodd is-gadeirydd y Gymdeithas Tacsis Genedlaethol yn ddiweddar fod codi gormod ar deithwyr anabl sy'n defnyddio tacsis a cherbydau hurio preifat yn rhemp. Mae'n brofiad eithaf cyffredin ac mae'r gyrwyr tacsi hyn yn defnyddio eu mesuryddion eu hunain ac yn dwyn oddi wrth y bobl anabl hyn. Mae'n annerbyniol yng Nghymru. Dywedwyd bod rhai defnyddwyr cadeiriau olwyn yn talu hyd at ddwywaith y pris y byddai teithwyr nad ydynt yn anabl yn ei dalu, a hynny o ganlyniad uniongyrchol i'w hanabledd. Mae hynny'n ffaith athrist. Mae hyn yn gwbl warthus, Weinidog, a rhaid inni roi terfyn arno yng Nghymru.

Labour's funding cuts also threaten jobs. Cardiff Bus has announced a programme of cuts from April, with an estimated loss of around 80 jobs. Across Wales, it is estimated that 10% of all buses on the road could be taken out of service and many rural lifelines could be lost altogether, maybe forever. Transport analyst Chris Cheek, of TAS Partnership Ltd, has suggested that some 1,500 jobs could disappear in this sector.

Mae toriadau cyllidol Llafur hefyd yn peryglu swyddi. Mae Bws Caerdydd wedi cyhoeddi rhaglen o doriadau o fis Ebrill, ac amcangyfrifir y caiff tua 80 o swyddi eu colli. Ledled Cymru, amcangyfrifir y gallai 10% o'r holl fysiau gael eu tynnu oddi ar y ffyrdd a gallai llawer o gysylltiadau gwledig gael eu colli'n gyfan gwbl, efallai am byth. Mae'r dadansoddwr trafnidiaeth Chris Cheek, o TAS Partnership Ltd, wedi awgrymu y gallai tua 1,500 o swyddi ddiflannu yn y sector hwn.

Presiding Officer, the proportion of older people making up the population of Wales is increasing and the number of people with disabilities is also growing. Improving bus services not only makes good economic sense by improving accessibility to goods and services, it makes good sense socially by allowing vulnerable people to live fuller and more satisfying lives. I support the motion.

Lywydd, mae cyfran y bobl hŷn sy'n rhan o boblogaeth Cymru yn cynyddu ac mae nifer y bobl ag anableddau hefyd yn cynyddu. Mae gwella gwasanaethau bysiau, nid yn unig yn gwneud synnwyr da yn economaidd drwy wella hygyrchedd i nwyddau a gwasanaethau, mae'n gwneud synnwyr da yn gymdeithasol drwy roi cyfle i bobl sy'n agored i niwed fyw bywydau llawnach a mwy boddhaus. Cefnogaf y cynnig.

15:38 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We have heard already this afternoon about the importance of bus services to older people, to poorer people and to disabled people. I want to say as a first point how important the buses are to women. Most of us will have received the briefing from Chwarae Teg, which makes the very important points that fewer women own cars, more are more reliant on public transport, they are often in part-time, low-paid work and they are unable to benefit from season ticket savings. Chwarae Teg has worked with Sustrans to draw attention to the advantage of introducing part-time season tickets on rail services and it is currently working on a paper specifically about bus services and multi-use discounts. That is very important and I look forward to the result of that paper. My first point was about the impact on women.

Rydym wedi clywed eisoes y prynhawn yma am bwysigrwydd gwasanaethau bysiau i bobl hŷn, i bobl dlawd ac i bobl anabl. Fel pwynt cyntaf, hoffwn nodi pa mor bwysig yw'r bysiau i fenywod. Bydd y rhan fwyaf ohonom wedi derbyn y nodyn briffio gan Chwarae Teg, sy'n gwneud y pwyntiau pwysig iawn bod llai o fenywod yn berchen ar geir, bod mwy ohonynt yn fwy dibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus, eu bod yn aml mewn gwaith rhan amser â chyflog isel ac nad oes modd iddynt elwa ar arbedion tocyn tymor. Mae Chwarae Teg wedi gweithio gyda Sustrans i dynnu sylw at fanteision cyflwyno tocynnau tymor yn rhan-amser i wasanaethau rheilffyrdd ac mae wrthi'n gweithio ar bapur penodol ar wasanaethau bysiau a gostyngiadau aml-ddefnydd. Mae hynny'n bwysig iawn ac edrychaf ymlaen at ganlyniadau'r papur hwnnw. Roedd fy mhwynt cyntaf yn ymwneud â'r effaith ar fenywod.

The second point that I want to make is a point particular to Cardiff—it is very important because Cardiff is the capital city of Wales—which is the issue of the Cardiff bus station. We have often mentioned, particularly Cardiff Members in this Chamber, how important it is to develop the Cardiff bus station, so that when you arrive, you feel that you are arriving in a capital city where everything links together and that it is a perfect place of integration between bus and train and between all other forms of transport—for bikes, light rail and so on. I know that it is the intention to develop the bus station and to develop a transport hub. However, it seems that we have been discussing this issue for a very, very long time.

Yr ail bwynt yr hoffwn ei wneud yw pwynt penodol am Gaerdydd—mae'n bwysig iawn am mai Caerdydd yw prifddinas Cymru—sef gorsaf fysiau Caerdydd. Rydym yn aml wedi crybwyll, yn enwedig Aelodau Caerdydd yn y Siambr hon, pa mor bwysig yw datblygu gorsaf fysiau Caerdydd, fel y byddwch yn teimlo, wrth gyrraedd, eich bod yn cyrraedd prifddinas lle mae popeth yn cysylltu â'i gilydd a'i bod yn lle perffaith o ran integreiddio rhwng bysiau a threnau a rhwng pob math arall o gludiant—i feiciau, rheilffyrdd ysgafn ac yn y blaen. Gwn fod bwriad i ddatblygu'r orsaf fysiau a datblygu canolfan drafnidiaeth. Fodd bynnag, ymddengys ein bod wedi bod yn trafod y mater hwn ers amser hir iawn.

We have had lots of debates about whether the bus station should be in the front of the station, northwards, or south of the station. My view has always been that, since the majority of the population are coming into the centre of Cardiff from the north, it makes absolute sense to have the bus station to the north of the city. However, now, I think that we are talking about a wider concept of a transport hub, where the front of the station will not only be the front of the station as we see it, but the back of the station will also be the front of the station. These are the debates that are going on at the moment.

Rydym wedi cael llawer o ddadleuon ynghylch a dylai'r orsaf fysiau fod o flaen yr orsaf, tua'r gogledd, neu i'r de o'r orsaf. Fy marn i erioed oedd, gan fod y rhan fwyaf o'r boblogaeth yn dod i mewn i ganol Caerdydd o'r gogledd, ei bod yn hollol synhwyrol cael yr orsaf fysiau i'r gogledd o'r ddinas. Fodd bynnag, erbyn hyn, credaf ein bod yn sôn am gysyniad ehangach o ganolfan drafnidiaeth, lle y bydd tu blaen yr orsaf, nid yn unig yn du blaen yr orsaf fel yr ydym yn ei weld, ond bydd tu cefn yr orsaf hefyd yn du blaen yr orsaf. Dyma'r dadleuon sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd.

There have been numerous plans drawn up, but whatever form this takes, it must be somewhere that is welcoming, which has places to sit and wait, which is comfortable, safe and light, which has good toilets and live information. I think that it is absolutely essential that a transport hub has live transport information in every area. I think that it is so important that, when you get off a train in Cardiff, you immediately see where you go to get a bus, where the buses are going and what time they are running, and that it is all interlinked. As has already been said in this debate, transport is the key to so many things. If we can get people out of cars on to public transport, we not only make them walk more, as someone said earlier on, but we also improve their health and cut down emissions. It is such an important area that I think that we really need a strategic move forward on the bus station in the centre of Cardiff.

Mae nifer o gynlluniau wedi cael eu llunio, ond waeth beth fo ffurf yr orsaf fysiau, rhaid iddi fod yn rhywle sy'n groesawgar, sydd â lleoedd i eistedd ac aros, sy'n gyfforddus, yn ddiogel ac yn olau, sydd â thoiledau da a gwybodaeth fyw. Credaf ei bod yn gwbl hanfodol bod gwybodaeth fyw am drafnidiaeth ym mhob rhan o ganolfan drafnidiaeth. Credaf ei bod mor bwysig eich bod yn gallu gweld ar unwaith, wrth ddisgyn oddi ar y trên yng Nghaerdydd, ble rydych yn mynd i ddal bws, i ble mae'r bysiau yn mynd a phryd y maent yn rhedeg, a bod y cyfan wedi'i gydgysylltu. Fel y dywedwyd eisoes yn y ddadl hon, trafnidiaeth yw'r allwedd i gymaint o bethau. Os gallwn gael pobl i gefnu ar eu ceir a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, rydym nid yn unig yn gwneud iddynt gerdded mwy, fel y dywedodd rhywun yn gynharach, ond rydym hefyd yn gwella eu hiechyd a lleihau allyriadau. Mae'n faes mor bwysig fel y credaf fod gwir angen inni gymryd cam strategol ymlaen o ran yr orsaf fysiau yng nghanol Caerdydd.

The last point that I want to make is about the effects that the changes to bus services are having in my constituency in particular, in Cardiff North. There are plans to restrict the bus services on a number of routes in Cardiff North. In particular, the protests that I have received are about the bus services in Rhiwbina and Lisvane. One of the key services that is being restricted is the service between Rhiwbina and Whitchurch village—the 21 and 23 bus services. Whitchurch village is a key destination for people from Rhiwbina, many of whom are elderly, and the withdrawal of a bus service can mean the withdrawal of a lifeline for them. I have had people coming to me who will no longer be able to travel from their homes to Whitchurch village, where they do all of their shopping.

Mae'r pwynt olaf yr wyf am ei wneud yn ymwneud â'r effeithiau y mae'r newidiadau i'r gwasanaethau bysiau yn eu cael yn fy etholaeth yn benodol, yng Ngogledd Caerdydd. Bwriedir cwtogi ar y gwasanaethau bysiau ar nifer o lwybrau yng Ngogledd Caerdydd. Yn benodol, mae'r protestiadau yr wyf wedi'u cael yn ymwneud â'r gwasanaethau bysiau yn Rhiwbeina a Llys-faen. Un o'r gwasanaethau allweddol sy'n cael ei gwtogi yw'r gwasanaeth rhwng Rhiwbeina a'r Eglwys Newydd—gwasanaethau 21 a 23. Mae pentref yr Eglwys Newydd yn gyrchfan allweddol i bobl o Riwbeina, y mae llawer ohonynt yn oedrannus, a gall tynnu gwasanaeth bws yn ôl olygu tynnu cysylltiad hanfodol oddi arnynt. Mae pobl wedi bod yn dod ataf na fyddant yn gallu teithio o'u cartrefi i bentref yr Eglwys Newydd bellach, lle maent yn gwneud eu holl siopa.

The concessionary bus pass has, I think, opened up a whole new world to older people and it has been the badge of this Assembly since devolution. I think that that is what everybody thinks—'Oh, devolution came and we had the concessionary bus pass'. So, I think that it is so important that, in very difficult financial times, when there are restrictions on spending, that this is done with the utmost sensitivity, because there is not a lot of point in having a concessionary bus pass if there is not a bus to get on.

Mae'r tocyn bws am ddim wedi agor byd hollol newydd i bobl hŷn, yn fy marn i, ac mae wedi bod yn symbol o'r Cynulliad hwn ers datganoli. Credaf mai dyna'r hyn y mae pawb yn ei feddwl—'O, daeth datganoli a chawsom y tocyn bws am ddim'. Felly, credaf ei fod mor bwysig, mewn cyfnod ariannol anodd iawn, pan fo cyfyngiadau ar wariant, bod hyn yn cael ei wneud yn y ffordd fwyaf sensitif, oherwydd nid oes llawer o ddiben mewn tocyn bws am ddim os nad oes bws i deithio arno.

I know that we in the Assembly are dealing with very difficult cuts from the coalition Government in Westminster, and it is very difficult for the Minister to work out the best way of using the money that is available. Therefore, I think that this must all be dealt with with the utmost sensitivity and in consultation with bus users.

Gwn ein bod ni yn y Cynulliad yn delio â thoriadau anodd iawn gan y Llywodraeth glymblaid yn San Steffan, ac mae'n anodd iawn i'r Gweinidog ddod o hyd i'r ffordd orau o ddefnyddio'r arian sydd ar gael. Felly, credaf fod yn rhaid ymdrin â hyn i gyd yn y ffordd fwyaf sensitif ac mewn ymgynghoriad â defnyddwyr bysiau.

15:43

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I call on the Minister for Economy, Science and Transport to speak on behalf of the Government, Edwina Hart.

Galwaf ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i siarad ar ran y Llywodraeth, Edwina Hart.

15:43

## Edwina Hart [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Thank you, Presiding Officer. All of our priorities are to ensure that we have a transport system that helps to improve the economic competitiveness of Wales, providing good access to jobs and services and boosting the prosperity of the people in Wales.

Diolch ichi, Lywydd. Mae ein holl flaenoriaethau yn ymwneud â sicrhau bod gennym system drafnidiaeth sy'n helpu i wella cystadleurwydd economaidd Cymru, gan ddarparu mynediad da at swyddi a gwasanaethau, a rhoi hwb i ffyniant pobl Cymru.

We certainly recognise the importance of bus services to communities and the challenges for service provision, particularly in rural areas. I am clear that this is an area on which Welsh Government should take a greater lead and this is reflected in my decision last autumn to step in to ensure the continuity of services for communities in west Wales where a major bus operator pulled out. I was very much taken by the point that Lord Elis-Thomas made in his contribution about the need to look at smaller local firms, sometimes, for them to provide services in certain strategic areas.

Rydym yn sicr yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau bysiau i gymunedau a'r heriau i ddarparu gwasanaethau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Rwy'n glir bod hwn yn faes y dylai Llywodraeth Cymru gymryd yr awenau'n fwy a chaiff hyn ei adlewyrchu yn fy mhenderfyniad yr hydref diwethaf i gamu i'r adwy a sicrhau parhad gwasanaethau i gymunedau yn y gorllewin lle roedd gweithredwr bysiau wedi tynnu'n ôl. Hoffais yn fawr y pwynt a wnaeth yr Arglwydd Elis-Thomas yn ei gyfraniad am yr angen i edrych ar gwmnïau lleol llai, er mwyn iddynt hwy, weithiau, ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd strategol penodol.

I thank the Welsh Conservatives very much for indicating their support for our amendment. I will also turn to the other amendments that have been tabled, which the Government will be supporting today. In terms of amendment 1, our evidence to the Silk commission asked for powers over bus regulation and we are pleased to see this reflected in the commission on devolution in Wales's recent report and we will consider this recommendation and others in the commission's report over the next few weeks.

Hoffwn ddiolch i'r Ceidwadwyr Cymreig yn fawr iawn am nodi eu bod yn cefnogi ein gwelliant. Byddaf hefyd yn troi at y gwelliannau eraill a gyflwynwyd, y bydd y Llywodraeth yn eu cefnogi heddiw. O ran gwelliant 1, yn ein tystiolaeth i gomisiwn Silk gofynnwyd am bwerau dros reoleiddio bysiau, ac rydym yn falch o weld hyn yn cael ei adlewyrchu yn adroddiad diweddar y comisiwn ar ddatganoli yng Nghymru a byddwn yn ystyried yr argymhelliad hwn ac eraill yn adroddiad y comisiwn dros yr ychydig wythnosau nesaf.

In terms of amendment 2, one of our programme for government commitments was to seek to establish a traffic commissioner based in Wales. I note that the commission on devolution in Wales has recommended a Welsh traffic commissioner and we will consider the recommendation carefully, along with the other recommendations. We already provide support to the activities of the traffic commissioner in Wales while providing an office for the commissioner's use in Brunel House. This is part of the overall leasing arrangements for the premises there, so there are no additional costs other than modest IT support. That lease expires later this year, and we are already reviewing with the commissioner and Bus Users UK Cymru, whose bus compliance officers also use the office, to secure alternative premises. Therefore, we are quite clear about what relationships we want in the future on those two particular issues.

O ran gwelliant 2, un o'n hymrwymiadau yn y rhaglen lywodraethu yw ceisio sefydlu comisiynydd traffig wedi'i leoli yng Nghymru. Nodaf fod y comisiwn ar ddatganoli yng Nghymru wedi argymell comisiynydd traffig i Gymru a byddwn yn ystyried yr argymhelliad yn ofalus, ynghyd â'r argymhellion eraill. Rydym eisoes yn cynorthwyo gweithgareddau'r comisiynydd traffig yng Nghymru a hefyd yn darparu swyddfa at ddefnydd y comisiynydd yn Nhŷ Brunel. Mae hyn yn rhan o'r trefniadau prydlesu cyffredinol ar gyfer yr eiddo yno, fel nad oes unrhyw gostau ychwanegol eraill heblaw am ychydig o gymorth TG. Daeth y brydles honno i ben yn ddiweddarach eleni, ac rydym eisoes yn adolygu gyda'r comisiynydd a Bus Users UK Cymru, y mae eu swyddogion cydymffurfiaeth bysiau hefyd yn defnyddio'r swyddfa, er mwyn cael swyddfa arall. Felly, rydym yn eithaf clir ynghylch pa gydberthnasau yr ydym am eu gweld yn y dyfodol o ran y ddau fater penodol hynny.

If I may turn to some of the contributions in the debate, Jenny Rathbone, I think, quite rightly referred not just to the discussion that we have had an older people and people with disabilities, but also to young people and their need for good and accessible bus services. She also made a very important point about how we connect everything. I think that she used the phrase 'corporate use' and that leads very nicely on to Darren Millar's contribution when he spoke about health. The important thing is that we have to have local government, health and all of them working together in terms of how they provide transport in various areas. That is why I am very pleased that, in the new group that I have established, there will be representation from the health boards, but also, importantly, there has been a large amount of work done in the health department, under Mark Drakeford, to come into the discussion about what transport is required.

Os caf droi at rai o'r cyfraniadau yn y ddadl, cyfeiriodd Jenny Rathbone, a hynny'n gwbl briodol yn fy marn i, nid yn unig at y drafodaeth yr ydym wedi ei chael am bobl hŷn a phobl ag anableddau, ond hefyd at bobl ifanc a'u hangen am wasanaethau bysiau da a hygyrch. Hefyd, gwnaeth bwynt pwysig iawn ynghylch sut rydym yn cysylltu popeth. Credaf iddi ddefnyddio'r ymadrodd 'defnydd corfforaethol' ac mae hynny'n arwain yn dwt at gyfraniad Darren Millar pan soniodd am iechyd. Y peth pwysig yw bod yn rhaid inni sicrhau bod llywodraeth leol, iechyd a phob un ohonynt yn gweithio gyda'i gilydd o ran sut y maent yn darparu trafnidiaeth mewn gwahanol ardaloedd. Dyna pam rwy'n falch iawn y bydd cynrychiolaeth o'r byrddau iechyd yn y grŵp newydd yr wyf wedi ei sefydlu, ond hefyd, yn bwysig ddigon, fod llawer iawn o waith wedi ei wneud yn yr adran iechyd, o dan Mark Drakeford, i fod yn rhan o'r drafodaeth am y drafnidiaeth sydd ei hangen.

Members, including Darren Millar and Eluned Parrott, also spoke about local government, and I do have concerns about what is going on in local government and how it is dealing with some of the bus agendas. I think that my group will have to start to have a look at some of these issues, because I have been particularly concerned because the metro, as far as I was concerned, was about disconnected communities having more access to the centre, in order to ensure that they could have jobs, be able to travel to work, be able to go out in the evening and all these types of issues. Certainly, some local decisions negate that whole concept and that is something that I think that we will have to clearly look at.

Soniodd aelodau, gan gynnwys Darren Millar ac Eluned Parrott, hefyd am lywodraeth leol, ac mae gennyf bryderon ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd mewn llywodraeth leol a sut y mae'n ymdrin â rhai agweddau ar agendâu bysiau. Credaf y bydd yn rhaid i'm grŵp ddechrau edrych ar rai o'r materion hyn, oherwydd mae wedi bod yn achos pryder arbenig imi am mai diben y metro, o'm rhan i, oedd sicrhau ei bod yn haws i gymunedau digyswllt gyrraedd y canol, er mwyn sicrhau y gallent gael swyddi, teithio i'r gwaith, mynd allan gyda'r nos a'r holl faterion o'r fath. Yn sicr, mae rhai penderfyniadau lleol yn negyddu'r cysyniad cyfan hwnnw ac mae hynny'n rhywbeth y credaf y bydd yn rhaid inni ei ystyried, yn amlwg.

Also, we will have to look at the integration of bus and rail. We have been looking at some of the issues within mid Wales about timetabling, particularly, and the nonsense where you arrive on the bus and find that the train has gone. That is absolutely absurd when people are travelling for employment and they want to get into work and get out of work, or they want to go to education and come back from education. Therefore, those are certainly issues that we need to look at.

Hefyd, bydd yn rhaid inni edrych ar integreiddio bysiau a rheilffyrdd. Rydym wedi bod yn edrych ar rai o'r problemau sy'n codi yn y canolbarth o ran amserlennu, yn arbennig, a'r nonsens lle rydych yn cyrraedd ar y bws a chanfod bod y trên wedi mynd. Mae hynny'n hollol hurt pan fydd pobl yn teithio i'r gwaith ac maent yn awyddus i gyrraedd y gwaith a gadael y gwaith, neu maent am gyrraedd lleoliad addysg a dod yn ôl. Felly, mae'n rhain yn sicr yn faterion y mae angen inni edrych arnynt.

I think that it is also very important, as Darren Millar said, that we must once again look if further issues of abuse are being raised. This is something that my officials are quite hot on, in that we must ensure that there is no abuse of the system.

Credaf ei bod hefyd yn bwysig iawn, fel y dywedodd Darren Millar, fod yn rhaid inni edrych unwaith eto os codir achosion pellach o gamddefnyddio. Mae hyn yn rhywbeth y mae fy swyddogion yn eithaf awyddus i ymchwilio iddo, yn yr ystyr bod yn rhaid inni sicrhau nad yw'r system yn cael ei chamddefnyddio.

I appreciate that, in terms of the airport bus service, there is a lot of discussion. I saw this picture, if I may show it to you all in the Chamber, of a full line of people waiting to catch the airport bus. The service was introduced on 1 August 2013—[Interruption.] I would be delighted to circulate it to all Members for their enjoyment. The service provides faster, more frequent services, and we have been encouraged by the numbers. Stuart Cole has done a report on it and he has made a number of short-term and long-term recommendations, and we are currently working through these with the airport and the Vale of Glamorgan to implement them and look at what we can do. So, I will certainly be reporting back to the Chamber on that particular issue.

Sylweddolaf, o ran y gwasanaeth bws i'r maes awyr, fod llawer o drafod yn ei gylch. Gwelais y llun hwn, os caf ei ddangos i bawb yn y Siambr, o linell lawn o bobl yn aros i ddal y bws i'r maes awyr. Cafodd y gwasanaeth ei gyflwyno ar 1 Awst 2013 – [Torri ar draws.] Byddwn yn fwy na pharod i'w gylchredeg i'r holl Aelodau er mwyn iddynt ei fwynhau. Mae'r gwasanaeth yn darparu gwasanaethau cyflymach, mwy mynych, ac fe'n calonogwyd gan y ffigurau. Mae Stuart Cole wedi paratoi adroddiad arnynt ac mae wedi gwneud nifer o argymhellion yn y byrdymor a'r hirdymor, ac ar hyn o bryd rydym yn gweithio drwy'r rhain gyda'r maes awyr a Bro Morgannwg i'w gweithredu ac yn edrych ar yr hyn y gallwn ei wneud. Felly, byddaf yn sicr yn adrodd yn ôl i'r Siambr ar y mater penodol hwnnw.

It has been interesting to hear the comments on older people, but the most important thing for older people is that I have not messed around with the criteria on concessionary fares. I am not thinking of putting the age up to 70, I am not withdrawing it for other services, and I think that that is to be applauded from the Government perspective.

Bu'n ddiddorol clywed y sylwadau ar bobl hŷn, ond y peth pwysicaf i bobl hŷn yw nad wyf wedi newid y meini prawf ar deithio am ddim. Nid wyf yn ystyried codi'r oedran i 70 oed, nid wyf yn ei dynnu yn ôl er mwyn gwasanaethau eraill, a chredaf fod hynny i'w ganmol o safbwynt y Llywodraeth.

I have, obviously, heard the remarks about the issues and what we are doing on funding, and these are difficult financial times, as Julie Morgan indicated. I do not think, however, Julie, that I particularly want to get involved in a discussion about what Cardiff Council might be doing about the bus station. I just have to say that, in Swansea, we have a nice new bus station, even though it is not co-located with the railway station. This is, effectively, a matter for Cardiff Council to look at in overall issues.

Yn amlwg, rwyf wedi clywed y sylwadau am y problemau a'r hyn yr ydym yn ei wneud o ran cyllid, ac rydym yn wynebu amseroedd ariannol anodd, fel y nododd Julie Morgan. Fodd bynnag, Julie, ni chredaf fy mod yn arbennig o awyddus i gymryd rhan mewn trafodaeth am yr hyn y mae Cyngor Caerdydd yn ei wneud ynglŷn â'r orsaf fysiau. Y cyfan yr wyf am ei ddweud yw bod gennym ni, yn Abertawe, orsaf fysiau braf newydd, er nad yw wedi'i chyd-leoli â'r orsaf reilffordd. Mater i Gyngor Caerdydd ei ystyried o ran materion cyffredinol yw hwn, i bob diben.

However, may I say in terms of the finance that it is going to be difficult for us to look at the financial arrangements, but, at the end of the day, it is important that we keep as much access to services as possible? The majority of bus services are provided commercially by operators in response to their assessment of the need for, and the profitability of, the services. I hope that bus operators will rise to the challenge that the financial outlook undoubtedly presents by using their commercial nous to retain their existing passengers and attract new paying passengers.

Fodd bynnag, a gaf ddweud o ran y cyllid y bydd yn anodd inni edrych ar y trefniadau ariannol, ond, yn y pen draw, mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod y gwasanaethau mor hygyrch â phosibl? Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau bysiau yn cael eu darparu'n fasnachol gan weithredwyr mewn ymateb i'w hasesiad o'r angen am y gwasanaethau a'u proffidioldeb. Gobeithio y bydd cwmnïau bysiau yn ateb yr her y mae'r rhagolygon ariannol yn ddi-os yn eu codi drwy ddefnyddio eu crebwyll masnachol i gadw eu teithwyr presennol a denu teithwyr newydd sy'n talu.

In terms of the bus advisory group, it is going to refresh policy on bus services. I have asked it to give its initial findings to me by the end of June 2014. The intention will be to identify and prioritise funding for measures that will support bus operators' commercial performance, thereby reducing their reliance on public funding. I think that that is a correct aim for us to have within Government. This group is widely representative and it is anticipated that it will meet early in April. However, my focus is on ensuring that passengers throughout Wales can look forward to a stable and sustainable bus network that is better co-ordinated, looking at the points that others have raised, with other transport services.

O ran y grŵp cynghori ar fysiau, bydd yn adnewyddu polisi ar wasanaethau bysiau. Rwyf wedi gofyn iddo roi ei ganfyddiadau cychwynnol imi erbyn diwedd mis Mehefin 2014. Y bwriad fydd adnabod a blaenoriaethu cyllid ar gyfer mesurau a fydd yn cefnogi perfformiad masnachol gweithredwyr bysiau, a thrwy hynny leihau eu dibyniaeth ar arian cyhoeddus. Credaf mai dyna'r nod cywir inni yn y Llywodraeth. Mae'r grŵp hwn yn gynrychioliadol iawn a rhagwelir y bydd yn cyfarfod ar ddechrau mis Ebrill. Fodd bynnag, mae fy ffocws ar sicrhau y gall teithwyr ledled Cymru edrych ymlaen at rwydwaith bysiau sefydlog a chynaliadwy wedi'u cydgysylltu'n well, gan edrych ar y pwyntiau y mae eraill wedi'u codi, gyda gwasanaethau trafnidiaeth eraill.

Mohammad Asghar also raised what I thought was an extremely serious issue about the taxi drivers. I will certainly be asking my officials to look at that matter because it is of concern. We only have to look at how licences are given, and what checks are made on this. I will certainly be instigating some work on that particular area. In response —and I do not want to sound churlish on this, because this has actually been quite a good debate—I do not intend to take any lectures off Byron Davies or Nick Ramsay about what is going on in terms of bus policy. I have quite a clear strategy in terms of bus policy. Also, I do not want apologists for the bus industry addressing comments to me in this Chamber. I protected the scheme in Wales. I want to ensure that people can utilise the scheme in Wales and I have a very transparent view. What I have done is correct: I have taken into account budgetary considerations. I think that they can manage on the money that is there, but I do have an open-door policy in terms of how I wish to take bus services forward. Therefore, thank you very much, Presiding Officer.

Hefyd, cododd Mohammad Asghar yr hyn a oedd yn fater difrifol iawn ynglŷn â gyrwyr tacsi, yn fy marn i. Byddaf yn sicr yn gofyn i'm swyddogion edrych ar y mater am ei fod yn destun pryder. Y cyfan y mae'n rhaid inni ei wneud yw edrych ar y ffordd y rhoddir trwyddedau, a pha wiriadau sy'n cael eu gwneud ar hyn. Byddaf yn sicr yn gofyn am rywfaint o waith ar y maes penodol hwnnw. Mewn ymateb —ac nid wyf am swnio'n anfoesgar o ran hyn, am fod hon wedi bod yn ddadl eithaf da mewn gwirionedd—ni fwriadaf dderbyn pregeth gan Byron Davies na Nick Ramsay am yr hyn sy'n digwydd o ran polisi bysiau. Mae gennyf strategaeth eithaf clir o ran polisi bysiau. Hefyd, nid wyf am glywed amddiffynwyr y diwydiant bysiau yn cyfeirio sylwadau ataf yn y Siambr hon. Amddiffynwyd y cynllun yng Nghymru gennyf. Rwyf am sicrhau y gall pobl ddefnyddio'r cynllun yng Nghymru ac mae gennyf farn glir iawn ar hynny. Mae'r hyn yr wyf wedi ei wneud yn briodol: rwyf wedi edrych ar ystyriaethau cyllidebol. Credaf eu bod yn gallu ymdopi gyda'r arian a roddir, ond mae gennyf bolisi drws agored o ran sut yr hoffwn ddatblygu gwasanaethau bysiau. Felly, diolch yn fawr iawn, Lywydd.

15:51

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies, to reply to the debate.

Galwaf ar arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies, i ymateb i'r ddadl.

15:51

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank everyone who has contributed in the debate this afternoon. I led a short debate here a couple of months ago—I think that it was in November—and at which point there were six Members who wished to contribute in that debate. I said in my opening remarks that we could clearly see what an important issue this was for constituents up and down the length and breadth of Wales. Since that time, I think that this issue has got bigger and bigger.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu yn y ddadl y prynhawn yma. Arweiniais ddadl fer yma ychydig o fisoedd yn ôl—ym mis Tachwedd, fe gredaf—pan oedd chwe Aelod yn dymuno cyfrannu yn y ddadl honno. Dywedais yn fy sylwadau agoriadol y gallem weld yn glir pa mor bwysig oedd y mater hwn i etholwyr ar hyd a lled Cymru. Ers hynny, credaf fod y mater hwn wedi mynd yn fwyfwy pwysig.

I know that in my electoral area, here in South Wales Central—and Julie Morgan touched on it, as did Eluned Parrott—there is the reduction in Cardiff Bus services that was just recently announced. It will have a dramatic impact on many of the people who are socially excluded from many other aspects of our society, if they cannot access the bus service. Jenny, from Cardiff Central, touched on that when she made the point that many of the people who are seeking jobs, the disabled and the socially excluded will not have that opportunity because, obviously, they do not have access to a car in any shape or form, and therefore that isolation in a big city like Cardiff, not to mention in a rural area, will actually become greater over the years.

Gwn, yn fy ardal etholiadol, yma yng Nghanol De Cymru—a soniodd Julie Morgan am hyn, a hefyd Eluned Parrott—fod gwasanaethau Bws Caerdydd wedi cael eu cwtogi, rhywbeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Bydd yn cael effaith fawr ar lawer o'r bobl sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol o lawer o agweddau eraill ar ein cymdeithas, os nad ydynt yn gallu cael y gwasanaeth bws. Soniodd Jenny, o Ganol Caerdydd, am hynny pan wnaeth y pwynt na fydd llawer o'r bobl sy'n chwilio am swyddi, pobl anabl a'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol yn cael y cyfle hwnnw oherwydd, yn amlwg, nid oes ganddynt unrhyw fath o fynediad at gar, ac felly bydd ynysu mewn dinas fawr fel Caerdydd, heb sôn mewn ardal wledig, yn gwaethygu dros y blynyddoedd mewn gwirionedd.

I think that the sentiment of the motion before us today is unarguable. In fairness, the Minister did touch on that in her opening remarks about how the Welsh Government is working to try to address some of the shortcomings. However, I have to say to the Minister that the shortcomings are because there was a lack of engagement by your predecessor, I accept, in bringing forward these proposals on the reduction in funding in the first place, and literally dropping it in the lap of the local authorities that commission many of these services. I have seen that at first hand in my own electoral area of the Vale of Glamorgan where, overnight, services were just decimated. We had the example last summer of students—I was going to call them children, but perhaps it is not politically correct these days to call people who are 15 or 16-years-old 'children'—who were taking GCSEs and A-levels having to change schools because the bus service from the village of Rhoose, for example, to the school in Cowbridge just went overnight and they could not get in to school to do their exams. That is how dramatic the impact of the reduction of service was.

Ni chredaf y gall unrhyw un ddadlau yn erbyn gwraidd y cynnig ger ein bron heddiw. A bod yn deg, cyfeiriodd y Gweinidog at hynny yn ei sylwadau agoriadol o ran sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i geisio mynd i'r afael â rhai o'r diffygion. Fodd bynnag, rhaid imi ddweud wrth y Gweinidog mai'r rheswm dros y diffygion oedd y diffyg ymgysylltu ar ran eich rhagflaenydd, fe dderbyniaf, wrth gyflwyno'r cynigion hyn i leihau'r cyllid yn y lle cyntaf, ac yn llythrennol eu trosglwyddo'n ddisymwth i'r awdurdodau lleol sy'n comisiynu llawer o'r gwasanaethau hyn. Rwyf wedi gweld hynny drosof fy hun yn fy ardal etholiadol fy hun, sef Bro Morgannwg lle y cafodd gwasanaethau eu tynnu'n ôl dros nos. Cawsom yr enghraifft yr haf diwethaf o fyfyrwyr—roeddwn yn mynd i'w galw'n blant, ond efallai nad yw'n wleidyddol gywir y dyddiau hyn i alw pobl 15 neu 16 oed yn blant—a oedd yn sefyll arholiadau TGAU a Safon Uwch a oedd yn gorfod newid ysgol am fod y gwasanaeth bws o bentref y Rhws, er enghraifft, i'r ysgol yn y Bont-faen wedi'i dynnu'n ôl dros nos ac na allent gyrraedd yr ysgol i sefyll eu harholiadau. Dyna pa mor ddramatig oedd effaith cwtogi ar wasanaethau.

In his opening remarks, Byron Davies touched on the process that led up to this, and indeed the lack, as I said earlier, of engagement from the Government in working with the bus operators to deliver a reduced service in some instances, with less money, but a sustainable service that could actually meet the requirements of the passengers who use that service. Darren Millar touched upon the older people who rely on the bus service for their everyday travel to access services, and some of the figures that are out there show that 30% to 40% of older people require the bus to fulfil their basic needs—that is, just to go to the shop, or some form of community engagement. Overnight, across Wales, those services disappeared. In England, that did not happen. There was a reduction in the service, and the money was transferred back to local authorities. In many instances, other programmes had been worked up to make sure that there were alternatives. We did not have that in Wales. We had all sorts of green initiatives talked about, but nothing really came forward for the green link operation, for example, that could have been brought forward. In terms of the exemplars in bus services to work with local authorities, to have pilot areas to support bus operations, it was just a cliff-edge mentality here in Wales that took away those services from communities the length and breadth of Wales.

Yn ei sylwadau agoriadol, cyfeiriodd Byron Davies at y broses a arweiniodd at hyn, ac yn wir y diffyg ymgysylltu, fel y dywedais yn gynharach, ar ran y Llywodraeth i weithio gyda'r cwmnïau bysiau i ddarparu llai o wasanaethau mewn rhai achosion, gyda llai o arian, ond gwasanaeth cynaliadwy a allai mewn gwirionedd fodloni gofynion y teithwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwnnw. Cyfeiriodd Darren Millar at y bobl hŷn sy'n dibynnu ar y gwasanaeth bws am deithio bob dydd er mwyn cael gafael ar wasanaethau, ac mae rhai o'r ffigurau a gyhoeddwyd yn dangos bod angen gwasanaeth bws ar 30% i 40% o bobl hŷn i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol—hynny yw, dim ond i fynd i'r siop, neu ryw fath o ddigwyddiad cymunedol. Dros nos, ledled Cymru, diflannodd y gwasanaethau hynny. Yn Lloegr, ni ddigwyddodd hynny. Cafodd y gwasanaeth ei gwtogi, a chafodd yr arian ei drosglwyddo yn ôl i'r awdurdodau lleol. Mewn llawer o achosion, roedd rhaglenni eraill wedi cael eu llunio er mwyn sicrhau bod dewisiadau eraill ar gael. Ni ddigwyddodd hynny yng Nghymru. Clywsom sôn am bob math o fentrau gwyrdd, ond mewn gwirionedd ni ddaeth yr un i'r fei o ran y gweithrediad cyswllt gwyrdd, er enghraifft, a allai fod wedi cael ei gyflwyno. O ran y patrymau enghreifftiol o sut y gall gwasanaethau bysiau weithio gydag awdurdodau lleol, er mwyn llunio ardaloedd peilot i gefnogi gweithrediadau bysiau, gwelwyd meddylfryd y dibyn yng Nghymru, a dynnodd y gwasanaethau hynny yn ôl o gymunedau ar hyd a lled Cymru.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 15:54.*

*The Deputy Presiding Officer took the Chair at 15:54.*

## Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Plaid Cymru spokesman, Lord Dafydd Elis-Thomas, touched on the commissioning process and referred to the example of Transport for London. Nick Ramsay pointed out that there are inconsistencies in that: you are obviously talking about a capital city of 10 million people in London whereas, in Wales, you are talking of a country with a lot of rural sparsity involved. However, there is a point there, I believe, in that the commissioning process can be looked at, and that model can be considered here in Wales. Nevertheless, there is obviously a complete disconnect in the level of service. Two million people, for example, use the tube every day in London, so there are alternatives.

Cyfeiriodd llefarydd Plaid Cymru, yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, at y broses gomisiynu ac at enghraifft Transport for London. Nododd Nick Ramsay fod anghysondebau yn hynny o beth: yn amlwg rydych yn sôn am brifddinas o 10 miliwn o bobl yn Llundain ond, yng Nghymru, rydych yn sôn am wlad lle mae llawer o ardaloedd prin eu poblogaeth. Fodd bynnag, codwyd pwynt dilys, fe gredaf, yn yr ystyr y gellir edrych ar y broses gomisiynu, ac y gall y model hwnnw gael ei ystyried yma yng Nghymru. Serch hynny, mae'n amlwg nad oes unrhyw gysylltiad o gwbl yn lefel y gwasanaeth. Mae dwy filiwn o bobl, er enghraifft, yn defnyddio'r rhwydwaith tanddaearol bob dydd yn Llundain, felly mae dewisiadau eraill.

What was encouraging to hear, coming from the floor, was the recognition that to have a sustainable transport system, we need to join it up and have an integrated transport system. Nothing deters people more than that hour's wait at a bus station or an hour's wait at a train station because the times are not linked. If you go on the continent, it just seems bizarre that we would have such a dislocated service here in Wales. However, I have to say that the actions that the Government has undertaken over the last 12 months have not encouraged a more sustainable model of public transport here in Wales.

Yr hyn yr oedd yn galonogol ei glywed, o'r llawr, oedd y gydnabyddiaeth, er mwyn cael system drafnidiaeth gynaliadwy, fod angen inni ei chydgysylltu a sicrhau system drafnidiaeth integredig. Nid oes dim byd yn digalonni pobl yn fwy nag aros am awr mewn gorsaf fysiau neu aros am awr mewn gorsaf drenau am nad yw'r amseroedd wedi'u cydgysylltu. Os byddwch yn mynd ar y cyfandir, mae'n ymddangos mor rhyfedd bod gennym wasanaeth mor ddigyswllt yma yng Nghymru. Fodd bynnag, rhaid imi ddweud nad yw'r camau y mae'r Llywodraeth wedi eu cymryd dros y 12 mis diwethaf wedi annog model mwy cynaliadwy o drafnidiaeth gyhoeddus yma yng Nghymru.

Many contributors referred to the airport bus service that has been brought forward by the Welsh Government. It shows that when the will is there, the money can be found to provide some of these services. The last figure that I saw was that there is an £11 per passenger subsidy. The village of Rhoose, which the Liberal Democrat Member for South Wales Central is a resident of, has nearly £600,000 spent on its bus services, with the link from the railway station round to the airport and the direct service to Cardiff Central station. However, it does not have a commercially operated—

Cyfeiriodd llawer o gyfranwyr at y gwasanaeth bws i'r maes awyr a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'n dangos, pan fo ewyllys, y gellir dod o hyd i'r arian i ddarparu rhai o'r gwasanaethau hyn. Y ffigur diwethaf a welais oedd bod cymhorthdal o £11 fesul teithiwr. Ym mhentref y Rhws, lle mae Aelod y Democratiaid Rhyddfrydol dros Ganol De Cymru yn byw, caiff bron £600,000 ei wario ar ei wasanaethau bysiau, gyda'r cyswllt o'r orsaf reilffordd i'r maes awyr a'r gwasanaeth uniongyrchol i orsaf Caerdydd Canolog. Fodd bynnag, nid oes ganddo wasanaeth a weithredir yn fasnachol—

15:56

## Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member for giving way. Yes, I am a resident of the village of Rhoose. However, I would point out that, while the airport express service serves Cardiff Airport, it does not serve the village of Rhoose. Residents in the villages of Aberthaw and Rhoose have been very seriously affected by the loss of the X91 service, which was providing them with a public transport link to Cardiff.

Diolch i'r Aelod am ildio. Ydwyf, rwy'n un o drigolion pentref y Rhws. Fodd bynnag, hoffwn nodi, er bod y gwasanaeth cyflym i'r maes awyr yn gwasanaethu Maes Awyr Caerdydd, nad yw'n gwasanaethu pentref y Rhws. Effeithiwyd yn ddifrifol iawn ar drigolion Aberddawan a'r Rhws pan gollwyd gwasanaeth X91, a oedd yn darparu cyswllt trafnidiaeth gyhoeddus i Gaerdydd.

15:57

## Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

That was the very point that I was going to make. That area benefits from a subsidy of £600,000, but it does not have the Cardiff Bus operation, the X91, that used to deliver a regular service that would take people from the village into the city of Cardiff and to Barry. This shows that if the Government has the will, it can overcome some of these problems and that there is resource, albeit in a very tight Welsh Government budget.

Dyna oedd yr union bwynt yr oeddwn ar fin ei wneud. Mae'r ardal honno'n elwa o gymhorthdal o £600,000, ond tynnwyd yn ôl weithrediad Bws Caerdydd, X91, a arferai ddarparu gwasanaeth rheolaidd a fyddai'n mynd â phobl o'r pentref i ddinas Caerdydd ac i'r Barri. Mae hyn yn dangos, os oes gan y Llywodraeth yr ewyllys, y gall oresgyn rhai o'r problemau hyn a bod adnoddau, er bod hynny mewn cyllideb dynn iawn i Lywodraeth Cymru.

Mohammad Asghar touched on a very serious point about potential abuse of the system. When money is tight and limited, it is vital that every pound is used to the best effect. I hope that the Minister will take some of those points on board. Mohammad was not the only one; Darren Millar touched on the point as well. It is vital that abuse, if it exists, is stamped out. Where that abuse exists, it is diverting money from the people who require that service and into other people's pockets.

Cyfeiriodd Mohammad Asghar at bwynt difrifol iawn ynglŷn ag achosion posibl o gamddefnyddio'r system. Pan fo arian yn brin, mae'n hanfodol bod pob punt yn cael ei defnyddio yn y ffordd orau bosibl. Gobeithio y bydd y Gweinidog yn derbyn rhai o'r pwyntiau hynny. Nid Mohammad oedd yr unig un; cododd Darren Millar y pwynt hefyd. Mae'n hanfodol bod achosion o gamddefnyddio, os ydynt yn bodoli, yn cael eu dileu. Lle ceir camddefnydd, mae'n dargyfeirio arian oddi wrth y bobl y mae angen y gwasanaeth hwnnw arnynt ac yn ei roi ym mhocedi pobl eraill.

The debate has been very beneficial today. Members from across Wales have contributed in a meaningful and substantive way to offer real examples of how the reduction in bus services has impacted on their electoral areas. I was a little disappointed that there was not a little more substance coming from the Government today. We have had some considerable time now for some of these proposals to be worked through and for replacement options to be put on the table to make up for the demise of many of these services. In the absence of those services, it looks as though it is going to be another bleak spring and summer, when communities are going to feel even more remote and isolated because the very service that they depended on was taken away from them. I urge the Minister and her Government colleagues to work with the bus operators, local authorities and service commissioners to make sure that there is a viable service put in place that does not exclude some of the most vulnerable in society and that joins up thinking across Government.

Bu'r ddadl yn un fuddiol iawn heddiw. Cyfrannodd aelodau o bob rhan o Gymru mewn ffordd ystyrlon a sylweddol er mwyn cynnig enghreifftiau go iawn o'r ffordd y mae'r gostyngiad yn y gwasanaethau bysiau wedi effeithio ar eu hardaloedd etholiadol. Roeddwn ychydig yn siomedig na chawsom ychydig mwy o sylwedd o du'r Llywodraeth heddiw. Mae cryn amser wedi mynd heibio bellach o ran ystyried rhai o'r cynigion hyn a chyflwyno opsiynau newydd er mwyn gwneud iawn am dranc llawer o'r gwasanaethau hyn. Yn absenoldeb y gwasanaethau hynny, mae'n edrych fel petai gwanwyn a haf diflas o'n blaen, pan fydd cymunedau yn teimlo hyd yn oed yn fwy anghysbell ac ynysig oherwydd bod yr union wasanaeth yr oeddent yn dibynnu arno wedi'i dynnu oddi wrthynt. Anogaf y Gweinidog a'i chyd-Weinidogion yn y Llywodraeth i weithio gyda'r gweithredwyr bysiau, awdurdodau lleol a chomisiynwyr gwasanaethau i sicrhau bod gwasanaeth hyfyw yn cael ei roi ar waith nad yw'n allgáu rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, a bod hynny yn cydgysylltu meddylfryd ar draws y Llywodraeth.

My colleague Byron Davies touched on how the withdrawal of bus services in many of our communities is running contrary to a lot of the Government initiatives that have been put forward about sustainable travel and about more environmentally friendly policies. Ultimately, you are driving those people back into their cars, if cars are an option, or you are placing a greater burden on the health service because of the health implications if people cannot get to their GP or hospital appointments. There are also mental health issues relating to isolation, especially rural isolation, that really have a devastating impact on individuals. I hope that Members will be able to support the motion before us this afternoon, and I look forward to the vote later on.

Soniodd fy nghyd-aelod Byron Davies am y ffordd y mae tynnu gwasanaethau bysiau yn ôl mewn llawer o'n cymunedau yn groes i lawer o fentrau'r Llywodraeth sydd wedi cael eu cyflwyno ym maes teithio cynaliadwy a pholisïau mwy cyfeillgar i'r amgylchedd. Yn y pen draw, rydych yn gorfod'r bobl hynny i fynd yn ôl i'w ceir, os yw ceir yn opsiwn, neu rydych yn gosod mwy o faich ar y gwasanaeth iechyd oherwydd y goblygiadau iechyd os na all pobl gyrraedd apwyntiadau gyda'u meddyg teulu neu'r ysbyty. Cyfyd materion o ran iechyd meddwl sy'n ymwneud ag ynysu, yn enwedig ynysu gwledig, sydd wir yn cael effaith ddinistriol ar unigolion hefyd. Gobeithio y bydd yr Aelodau'n gallu cefnogi'r cynnig sydd ger ein bron y prynhawn yma, ac edrychaf ymlaen at y bleidlais yn nes ymlaen.

16:00

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Y cwestiwn yw y dylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Mae gwrthwynebiad. Gohiriaf y pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There is objection. I will defer all voting on this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

# Dadl Plaid Cymru: Yr Iaith Gymraeg

# Plaid Cymru Debate: The Welsh Language

*Detholwyd y gwelliant canlynol: gwelliant 1 yn enw Aled Roberts.*

*The following amendment has been selected: amendment 1 in the name of Aled Roberts.*

16:00

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar Simon Thomas i gynnig y cynnig.

I call on Simon Thomas to move the motion.

Cynnig NDM5449 Elin Jones

Motion NDM5449 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod bod y Gymraeg yn sbarduno'r economi a bod ei ffyniant tymor hir fel iaith gymunedol yn dibynnu ar dwf economaidd rhanbarthol a lleol cryf.

1. Recognises that the Welsh language is an economic driver and that its long term continuation as a community language depends on strong local and regional economic growth.

2. Yn cydnabod bod gwariant gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yn gallu dylanwadu'n drwm ar yr iaith.

2. Recognises that expenditure by the Welsh Government and public bodies can have a real impact on the language.

3. Yn credu y dylai Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid ddatblygu polisïau i gefnogi'r iaith a hyrwyddo ei budd economaidd ar sail ardaloedd penodedig.

3. Believes that the Welsh Government and its partners should develop area-based economic policies to support the language and maximise its economic benefit.

16:00

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf y cynnig.

I move the motion.

Mae'n dda gen i agor y ddadl ar ran Plaid Cymru. Pwrpas y ddadl y prynhawn yma yw edrych ar y Gymraeg a'r economi. Rydym wedi arfer â chlywed y 'meme' fod y Gymraeg yn rhywfaint o 'sprag' yn yr economi, ei bod yn gostus, fod cefnogi'r Gymraeg yn costio hyn a hyn ac y dylid gwneud rhywbeth arall. Rwyf i ac aelodau Plaid Cymru am siarad yn bositif iawn dros ddefnyddio'r Gymraeg fel cerbyd i ddatblygu'r economi, ac yn bositif iawn am y Gymraeg fel un o'r sgiliau sy'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddwyieithog a fydd yn arwain, yn y pen draw, at economi fodern a dwyieithog lle mae'r Gymraeg yn cael ei thrysori, ond hefyd lle mae'n gallu chwarae ei rôl lawn yn economaidd ym maes twristiaeth, ym maes busnes, mewn gwasanaethau cyhoeddus ac ar draws yr economi hefyd.

I am pleased to open the debate on behalf of Plaid Cymru. The purpose of this afternoon's debate is to look at the Welsh language and the economy. We are used to hearing the meme that the Welsh language is a bit of a sprag in the economy, that it is costly, that supporting the Welsh language costs this and that, and that we should be spending the money elsewhere. Plaid Cymru Members and I will speak very positively about the use of the Welsh language as a vehicle for economic development, and very positively about the Welsh language as one of the skills required in a bilingual society, which will lead, ultimately, to a modern bilingual economy where the Welsh language is treasured, but also where it can play its full role economically in tourism, in business, in public services and also across the economy.

Mae nifer o sectorau eisoes lle mae diffyg gweithlu gyda sgiliau Cymraeg ac mae galw am y sgiliau hynny. Drwy hybu sgiliau Cymraeg a sicrhau bod busnesau a gweithleoedd yn eu gwerthfawrogi, bydd rhagor o ysgogiad i bobl ifanc nid yn unig ddysgu'r Gymraeg ond ei defnyddio ar ôl gadael ysgol—sef un o'r ffaeleddau sydd gennym mewn system addysg Gymraeg sydd, oni bai am hynny, yn un gwych iawn. Mae hefyd angen sicrhau bod busnesau a gweithleoedd yn gallu dibynnu ar gyflenwad o bobl ifanc yn gadael y system addysg gyda'r sgiliau iawn i helpu hyrwyddo'r Gymraeg mewn busnes.

There are already a number of sectors where there is a problem in terms Welsh-language skills within the workforce and there is demand for those skills. By promoting Welsh-language skills and ensuring that businesses and workplaces appreciate them, there will be more stimulus for young people to not only learn the language, but to use it once they leave school—which is one of the failings that we have in a Welsh education system that, otherwise, is excellent. There is also a need to ensure that businesses and workplaces can rely on a supply of young people leaving the education system with the appropriate skills to help to promote the language in business.

Un flaenoriaeth, yn sicr, yw bod mwy o siaradwyr Cymraeg yn cymryd prentisiaethau a chyrsiau addysg bellach drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n dda gen i gadarnhau, wrth gwrs, fod ein cytundeb ynglŷn â phrentisiaethau gyda Llywodraeth Cymru yn sôn am hybu a hyrwyddo prentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni fedrwn fynd yn syth efallai at sefyllfa lle mae pob prentisiaeth ar gael yn Gymraeg, neu rywbeth tebyg, ond yn sicr mae modd hyrwyddo hynny. Mae tipyn o waith, fel y mae ColegauCymru wedi cadarnhau, yn cael ei wneud i ehangu sgiliau drwy gyfrwng y Gymraeg yn ein colegau addysg bellach.

One priority, certainly, is that more Welsh speakers should take apprenticeships and FE courses through the medium of Welsh. I am pleased to confirm, of course, that our agreement on apprenticeships with the Welsh Government mentions supporting and promoting apprenticeships through the medium of Welsh. We cannot move immediately to a situation where all apprenticeships would be available through the medium of Welsh, or something similar, but we can certainly do some promotion work. Quite a bit of work, as ColegauCymru has confirmed, is being done to expand Welsh-medium skills in our FE colleges.

Blaenoriaeth arall yw galluogi siaradwyr Cymraeg i gychwyn eu busnesau eu hunain drwy ddarparu cefnogaeth, mentora a hyfforddiant iddynt. Dylid hefyd ystyried defnyddio arian Ewropeaidd i ddatblygu sgiliau mentergarwch mewn ardaloedd lle mae niferoedd uchel o siaradwyr Cymraeg gan fod yr ardaloedd hynny, megis Ceredigion a'r gorllewin, yn aml iawn yn ardaloedd lle mae nifer fawr o bobl yn hunangyflogedig a bod ganddynt fusnesau bach. Gallai'r safonau arfaethedig ar gyfer yr iaith Gymraeg hefyd greu rhagor o gyfleoedd gwaith ar gyfer siaradwyr Cymraeg—yn benodol, wrth gwrs, gyda'r safonau cyntaf, yn y sector cyhoeddus, ond, gan edrych ymlaen at safonau eraill, yn y sector cludiant, telegyfathrebu ac ati, lle bydd mwy o ddatblygu o sgiliau pwrpasol yn y pen draw. Dylid galluogi rhagor o awdurdodau lleol i ddilyn arfer da Cyngor Gwynedd a chynnal eu gwaith gweinyddu mewnol drwy gyfrwng y Gymraeg. Rwy'n siŵr bod dolen gyswllt rhwng y ffaith nad yw'r Gymraeg wedi erydu yn yr un ffordd yng Ngwynedd ag yng Ngheredigion a sir Gâr â pholisi blaengar Cyngor Gwynedd ers 1974, gyda'r hen awdurdod a'r datblygiad o dan bobl wych, gan ddechrau gyda Dafydd Orwig, wrth gwrs. Golyga polisi iaith Cyngor Gwynedd fod pwrpas i ddisgyblion ddysgu a defnyddio'r Gymraeg ac ennill cymwysterau a sgiliau yn yr iaith a rhoi balchder iddynt—ac nid oes unrhyw beth yn bod mewn balchder mewn cenedl neu mewn iaith.

Another priority is to enable Welsh speakers to establish their own businesses by providing support, mentoring and training to them. We should also consider using European funding to develop entrepreneurial skills in areas where there are high numbers of Welsh speakers because those areas, such as Ceredigion and west Wales in general, are often areas where there are many self-employed people and small businesses. The proposed standards for the Welsh language could also create further opportunities in the workplace for Welsh speakers—specifically, of course, with the first standards covering the public sector, but also, in looking forward to other standards, in the transport sector, the telecommunications sector and so on, where there will be further development of bespoke skills. We should enable more local authorities to follow the good practice of Gwynedd Council and maintain their internal administrative work through the medium of Welsh. I am sure that there is a link between the fact that the Welsh language has not eroded in the same way in Gwynedd as it has in Ceredigion and Carmarthenshire and Gwynedd Council's innovative policy since 1974, with the old local authority and the development led by excellent people, starting with Dafydd Orwig, of course. The language policy of Gwynedd Council means that there is a purpose for pupils to learn and use the language and acquire qualifications and skills in the language and give them pride—and there is nothing wrong with pride in a nation or a language.

Mae nifer o adroddiadau a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar ar y Gymraeg. Mae'n dda gen i weld y Prif Weinidog yn ei le. Rwy'n gwybod fod datganiad i fod gan y Llywodraeth yn fuan iawn am nifer o'r materion hyn ond rydym ni, ym Mhlaid Cymru, yn awyddus i roi syniadau ynglŷn â'r ffordd ymlaen gerbron y Prif Weinidog heddiw. Yn benodol, mae adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar yr iaith Gymraeg a datblygu economaidd a gyhoeddwyd yn ôl yn Ionawr 2014. Mae'n dda gen i weld fod y Gweinidog wedi comisiynu hwnnw. Rwy'n cofio Alun Ffred a mi yn mynd i gwrdd â'r Gweinidog i ofyn iddi gomisiynu'r math hwnnw o waith. Rwy'n siŵr bod y syniad eisoes yn ei phen, i fod yn deg.

There are a number of reports commissioned by the Welsh Government that have been published recently on the Welsh language. I am pleased to see the First Minister in his seat. I know that there is to be a statement by the Government very soon on many of these issues, but we, in Plaid Cymru, are eager to put forward some of our ideas on the way forward before the First Minister today. Specifically, there is a report by the task and finish group on the Welsh language and economic development that was published back in January 2014. I am pleased to see that the Minister commissioned that. I recall Alun Ffred and me going to see the Minister to ask her to commission that sort of work. I am sure that she had already had the idea, to be fair.

Mae'r grŵp yn argymell strategaeth i annog a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg fel erfyn marchnata ac i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd i fusnesau; datblygu gweithlu dwyieithog i fynd i'r afael â'r galw gan fusnesau a chwsmeriaid drwy ddatblygu sgiliau ieithyddol; a bod rhagor o adnoddau i hyrwyddo arloesi, mentergarwch a gyrfaoedd posibl mewn busnes ymhlith myfyrwyr a phobl ifanc Cymraeg. Mae hwn, i fi, yn argymhelliad pwysig iawn: ein bod yn gweld mentergarwch fel llwybr i Gymry Cymraeg aros yn eu cymunedau ac i fod yn aelodau llawn o'r cymunedau hynny. Rydym wedi bod yn rhy araf o lawer i feddwl am fentergarwch a busnes fel llwybr i Gymry Cymraeg.

The group recommends a strategy to encourage and facilitate the use of the Welsh language as a marketing tool and to promote the benefits of bilingualism to businesses; the development of a bilingual workforce to meet the demand from businesses and customers by developing language skills; and that there should be further resources to promote innovation, entrepreneurship and possible careers in business among students and young people who are Welsh speaking. This, to me, is a very important recommendation: that we see entrepreneurship as a means for Welsh speakers to remain in their communities and to play a full part in those communities. We have been far too slow to think about enterprise and business as a route for Welsh speakers.

Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i ddweud y dylid mynd ati yn rhagweithiol i roi cyfle i fusnesau ddewis darpariaeth Gymraeg yn y rhaglenni hyfforddiant a sgiliau presennol a ariennir gan y Llywodraeth ar gyfer pobl ifanc. Rydym yn sôn am bethau fel Twf Swyddi Cymru, GO Wales, canolfannau entrepreneuriaeth, ac ati. Rwy'n meddwl bod hyn yn bwysig iawn, achos, o edrych ar hynny, er bod y colegau addysg bellach yn datblygu yn y maes hwn, ychydig iawn o raglenni mentergarwch a busnes sydd ar gael yn Gymraeg. Mae hynny'n rhoi signal nad yw'r Gymraeg yn iaith fusnes. Rydym eisiau cyrraedd sefyllfa lle, yn benodol yn y cymunedau lle mae'r Gymraeg yn iaith gymunedol, wrth gwrs, bod y Gymraeg yn iaith fusnes ac yn erfyn sy'n gallu ychwanegu at eich busnes ac at yr economi.

The report goes on to say that we should proactively provide opportunities to businesses to choose Welsh-medium provision in the training and skills programmes currently funded by the Government for young people. We are talking about things as such Jobs Growth Wales, GO Wales, entrepreneurship hubs, and so on. I think this is very important, because, in looking at that, although the FE colleges are developing in this area, there are very few enterprise and business programmes available through the medium of Welsh. That sends a signal that the Welsh language is not the language of business. We want to reach a position, specifically in the communities where the Welsh language is the community language, of course, where the Welsh language is the language of business and is a tool that enhances your business and the economy.

Yn yr adroddiad, mae nifer o astudiaethau achos da yn cael eu cyflwyno sy'n dangos y ffordd ymlaen yn y maes hwn. Mae pethau megis Ceir Cymru yng Ngwynedd a Chonwy: cwmni preifat lle mae agwedd ar y busnes yn cael ei weinyddu a'i reoli drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cynlluniau cyffrous megis Brocer Iaith ym Mheblig yng Nghaernarfon, sy'n gwella cyflogadwyedd y trigolion lleol mewn ardal ddifreintiedig gyda nifer uchel o siaradwyr Cymraeg. Mae'n gwneud hynny drwy fagu eu hyder a datblygu eu sgiliau, ac yn rhoi cyfle gwell iddynt gystadlu yn y gweithle. Mae'r gwerthusiad o'r rhaglen Brocer Iaith yn dangos ei bod yn boblogaidd ac yn gweithio, ac yn argymell y dylid trin ardal Peblig fel labordy ar gyfer gweddill Cymru yn y maes hwn.

In the report, there are a number of good case studies that are put forward that show a way forward in this area. There are things such as Ceir Cymru in Gwynedd and Conwy: a private company where aspects of the business are administered and managed through the medium of Welsh. There are exciting schemes such as the Language Broker at Peblig in Caernarfon, which improves the employability of local residents in a deprived area with a high number of Welsh speakers. It does so by developing their confidence and their skills, and giving them a better opportunity to compete in the jobs market. The evaluation of the Language Broker scheme shows that it is popular and that it works, and it recommends that the Peblig area should be used as a laboratory for the rest of Wales in this area.

Meysydd eraill sy'n boblogaidd yw Coleg Menai, sy'n arbrofi gyda sawl enghraifft o brentisiaethau yn yr iaith Gymraeg, ac wedyn mae gennym Lwyddo'n Lleol, sy'n cael ei redeg gan awdurdodau lleol Ynys Môn, Conwy a sir Ddinbych, gyda Chyngor Gwynedd yn arwain arno. Pwrpas y rhaglen hon yw cynyddu eto hyder pobl ifanc yn eu cymunedau a'u dyfodol a'r hyn y gallent ei gynnig i'r cymunedau hynny. Mae potensial cenedlaethol, rwy'n meddwl, yn y patrwm hwn, yn y cynllun Llwyddo'n Lleol. Mae'n meithrin ymagwedd 'gallaf ei wneud' ymysg y bobl ifanc ac yn annog ein cenhedlaeth ifanc i ystyried hunangyflogaeth a chreu menter fel dewis gyrfa ymarferol a chyffrous, a drwy hynny, wrth gwrs, yn rhoi'r Gymraeg yn ganolbwynt i hynny.

Other areas that are popular are Coleg Menai, which is experimenting with a number of examples of Welsh-medium apprenticeships, and then we have Llwyddo'n Lleol, which is run by the local authorities of Anglesey, Conwy and Denbighshire, along with Gwynedd Council which is leading on it. The purpose of this programme is to increase the confidence of young people in their communities and their future and to show them what they could offer to those communities. There is national potential, I think, in this model, the Llwyddo'n Lleol model. It nurtures a can-do attitude among young people and encourages the younger generation to consider self-employment and entrepreneurship as a viable and exciting career choice, and through that, of course, it puts the Welsh language at the heart of it.

Mae'r adroddiad hefyd yn sôn am—mae'n ddrwg gennyf, roeddwn yn mynd i sôn am adroddiad Comisiynydd y Gymraeg a gyhoeddwyd ar botensial y Gymraeg i gyfrannu at wireddu amcanion rhaglenni ariannu Ewropeaidd o 2014 ymlaen at 2020. Mae'r comisiynydd o'r farn bod potensial mawr i ddefnyddio'r Gymraeg wrth symud pobl oddi wrth anweithgarwch tuag at waith neu hunangyflogaeth.

The report also mentions—I apologise, I was going to mention the Welsh Language Commissioner's report that was published on the potential of the Welsh language to contribute to the realisation of the objectives of the European funding programmes from 2014 to 2020. The commissioner is of the opinion that there is huge potential to use the Welsh language in moving people away from economic inactivity towards work or self-employment.

Un peth olaf rwyf eisiau ei bwysleisio, sy'n dod o'r adroddiadau di-rif hyn, fel y mae'n ymddangos weithiau, ond, yn benodol, o'r adroddiad yr wyf wedi bod yn sôn amdano, yw pa mor bwysig yw ein bod yn edrych ar ddatblygu a chynnal y gwaith hwn ar sail ardaloedd penodol. Mae angen canolfannau twf yn yr ardaloedd Cymraeg fel sydd gennych yn weddill Cymru. Rydym yn sôn am ddinas-ranbarthau fel ffordd a chyfrwng i ddatblygu ardaloedd difreintiedig yn y de. Mae'n hollol briodol ein bod yn sôn am ganolfannau twf mewn trefi megis Aberystwyth, Caerfyrddin, Bangor, Menai ac ati fel ffordd o ddatblygu a chryfhau'r iaith hefyd. Mae hynny'n rhywbeth yr wyf eisiau pwysleisio yn arbennig.

One final thing that I want to emphasise, which emerges from these numerous reports—it appears that there are very many of them on occasion—but, specifically, from the report that I mentioned earlier, is how important it is that we look at the development and maintenance of this work on the basis of specific areas. We need growth areas in the Welsh-speaking areas as we have in the rest of Wales. We are talking about city regions as a medium of developing deprived areas of south Wales. It is quite appropriate that we talk about growth centres in towns such as Aberystwyth, Carmarthen, Bangor, Menai and so on as a means of developing and strengthening the language too. That is something I want to emphasise in particular.

Rwy'n edrych ymlaen yn fawr iawn at glywed rhagor o syniadau yn y ddadl hon am sut y gallwn ddefnyddio'r Gymraeg yn bositif dros fusnes a sut y gall busnesau hefyd ddefnyddio'r Gymraeg yn bositif wrth ymwneud â'r eu cwsmeriaid.

I look forward very much to hearing more ideas in this debate on how we can use the Welsh language in a positive way for business and how businesses can also use the Welsh language in a positive way as they interact with their customers.

16:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf wedi dethol y gwelliant i'r gynnig, a galwaf ar Aled Roberts i gynnig gwelliant 1 a gyflwynwyd yn ei enw.

I have selected the amendment to the motion, and I call on Aled Roberts to move amendment 1, tabled in his name.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnwys asesiad o effaith ei pholisïau ar y Gymraeg yn ei Chanllawiau ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.*

*Calls on the Welsh Government to include an assessment of the impact of its policies on the Welsh language within its Equality Impact Assessment Guidance.*

16:09

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf welliant 1.

I move amendment 1.

A gaf ddechrau gan ddiolch i Blaid Cymru am ddod efo'r cynnig hwn ger ein bron? Rwy'n meddwl bod Simon Thomas yn hollol gywir. Nid oedd un gair o'i annerchiad, rwy'n meddwl, na fyddwn yn cydfynd ag ef. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig ein bod yn cadw rhyw fath o gytundeb o fewn y Siambr hon ynglŷn â phwysigrwydd yr iaith Gymraeg, a hefyd ynglŷn â'r ffaith bod angen inni rŵan, ar ôl yr holl lwyddiannau o ran addysg Gymraeg sydd wedi cael eu gweld yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, gamu ymlaen er mwyn creu Cymru sy'n Gymru ddwyieithog a lle mae'r Gymraeg yn cael ei gweld fel iaith sy'n ymwneud â busnes, nid dim ond yn iaith yr ysgol na hyd yn oed iaith y buarth ar adegau.

May I begin by thanking Plaid Cymru for bringing this motion before us? I think that Simon Thomas is entirely correct. There was not one word of his speech, I think, that I would disagree with. I think it is important that we retain some sort of consensus in this Chamber on the importance of the Welsh language, and also on the fact that there is a need for us now, after all of the successes in relation to Welsh-medium education that have been seen during last 20 years, to take a step forward in order to create a Wales that is a bilingual Wales and where the Welsh language is seen as a language of business, not just as a language of the school or even of the farmyard at times.

Rwy'n meddwl, felly, bod lle inni longyfarch Llywodraeth Cymru ar ddod â nifer o adroddiadau ymlaen. Rwy'n croesawu'r ffaith bod grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i arwain gan y Gweinidog busnes wedi adrodd yn ddiweddar. Fodd bynnag, ar ôl hynny, rwy'n meddwl bod angen inni ofyn i Lywodraeth Cymru symud ymlaen tipyn bach yn fwy cyflym nag y mae wedi'i wneud hyd yn hyn.

I think, therefore, that there is a place for us to congratulate the Welsh Government on bringing forward a number of reports. I welcome the fact that a task and finish group established by the Minister for business has reported recently. However, after that, I think there is a need for us to ask the Welsh Government to move forward a little more quickly than it has so far.

Rwy'n derbyn bod angen, fel y dywedodd y Gweinidog yn ei datganiad, iddi ymgynghori ar nifer o'r 27 o argymhellion o fewn yr adroddiad. Fodd bynnag, mae yna wir gwestiynu o fewn rhai meysydd yng Nghymru ynglŷn â'r ffordd y mae'r Llywodraeth wedi ymateb hyd yn hyn. Hefyd, rwy'n gwybod, wrth gwrs, fod pethau fel y gynhadledd fawr wedi cymryd lle y llynedd.

I accept that there is a need, as the Minister said in her statement, for her to consult on a number of the 27 recommendations in the report. However, there are real questions in some areas of Wales about the way in which the Government has responded thus far. Also, I know, of course, that such things as the 'cynhadledd fawr' took place last year.

Pwrpas ein gwelliant, felly, yw gofyn i Lywodraeth Cymru o hyn ymlaen asesu effaith ei pholisïau o ran y Gymraeg, achos rwy'n siŵr na fyddwn eisiau bod yma ymhen rhyw naw blynedd yn edrych ar sefyllfa lle mae dirywiad yn y niferoedd sy'n siarad Cymraeg, yn arbennig yn y gorllewin, yn parhau. Rwy'n meddwl bod ffigurau Ceredigion a sir Gâr yn benodol yn 'shock' enfawr i'r system.

The purpose of our amendment, therefore, is to ask the Welsh Government from now on to assess the impact of its policies in terms of the Welsh language, because I am sure that we would not want to be here in about nine years' time looking at a situation where the decline in the number of people speaking Welsh, especially in west Wales, continues. I think that the figures for Ceredigion and Carmarthenshire in particular were a massive shock to the system.

Rwy'n meddwl, fel y dywedodd Simon Thomas, efallai bod rhai o'r polisïau sydd wedi cael eu canlyn yng Ngwynedd, o ran y ffaith bod yr iaith yn cael ei gweld fel iaith swyddogol o fewn y cyngor, lle mae staff o fewn y cyngor yn gweithredu drwy'r Gymraeg, yn golygu bod Gwynedd efallai wedi bod yn fwy llwyddiannus nag ardaloedd eraill yn cadw gafael ar rhai o'r Cymry Cymraeg. Fodd bynnag, fel yn y gogledd ddwyrain, mae problem yn dal i fod o ran Cymry ifanc yn cael eu denu i'r de ddwyrain. Rwy'n siŵr bod hynny'n wir o ran sir Caerfyrddin hefyd. Mae angen i Lywodraeth Cymru, felly, edrych ar effaith ei pholisïau ar bob ran o hyn.

I think, as Simon Thomas said, that perhaps some of the policies that have been followed in Gwynedd, in terms of the fact that language has been seen as an official language within the council, where staff within the council operate through the medium of Welsh, mean that Gwynedd perhaps has been more successful than other areas in retaining some of the Welsh speakers. However, as in north-east Wales, there is still a problem in terms of young Welsh speakers being attracted to south-east Wales. I am sure that is also true of Carmarthenshire. There is a need for the Welsh Government, therefore, to look at the impact of its policies on every aspect of this.

A gaf wneud apêl, hefyd? Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig bod y Llywodraeth yn dangos arweiniad ar y pwnc hwn. Cefais fy siomi, a dweud y gwir, yr wythnos diwethaf, pan ddaeth grŵp i'n gweld a oedd yn dweud bod hyd yn oed yr uned Gymraeg o fewn y Llywodraeth yn gweithredu drwy'r Saesneg. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig, os yw'r Llywodraeth yn ddiffuant o ran gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg, ei bod yn dangos bod hynny'n ymarferol bosibl o fewn y Llywodraeth ei hun.

May also make an appeal? I think that it is important that the Government shows leadership in this field. I was disappointed, to be honest, last week, when a group came to see me that said that even the Welsh language unit within the Government was operating through the medium of English. I think it is important, if the Government is sincere about operating through the medium of Welsh, that it shows that that is practically possible within the Government itself.

Hefyd, rwy'n meddwl bod yna gryn dipyn o gyfleon iddi edrych ar ei pholisïau caffael, caffael o fewn llywodraeth leol, a'r ffordd y mae'r holl asiantaethau o fewn y Llywodraeth, gan gynnwys y gwasanaeth iechyd, yn denu Cymry Cymraeg ifanc i weithio drwy gyfrwng yr iaith o fewn y meysydd hynny.

I also think that there quite a number of opportunities for it to look at its procurement policies, procurement within local government, and the way all the agencies within Government, including the health service, attract young Welsh speakers to work through the medium of Welsh in those fields.

Mae gen i esiampl. Mae fy mab, ar hyn o bryd, yn dilyn cwrs ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'r brifysgol yn denu Cymry ifanc i astudio os ydynt yn ymwneud â'r gwasanaeth iechyd. Yr hyn sy'n fy siomi yw bod yr holl gynnwys a gwybodaeth gan Brifysgol Caerdydd yn ddwyieithog, ac, er hynny, mae gennym fwrdd iechyd yn y gogledd sy'n ysgrifennu at bobl ifanc o fewn ein hysgolion Cymraeg yn ceisio eu denu yn ôl i'r gogledd i weithio drwy'r Gymraeg ac eto'n gohebu â nhw yn uniaith Saesneg. Nid yw hynny'n dangos arweiniad o ran y Llywodraeth na'r gwasanaeth iechyd. Cam ymlaen, felly, Brif Weinidog, os gwelwch yn dda.

I have an example. My son, at the moment, is taking a course in Cardiff University. The university attracts young Welsh people to study if that relates to the health service. What disappoints me is that the whole content and information from Cardiff University is bilingual, and, despite that, we have a health board in north Wales that writes to young people in our Welsh-medium schools trying to attract them back to north Wales to work through the medium of Welsh and yet corresponds with them in the medium of English. That does not show leadership in terms of the Government or the health service. So, a step forward, First Minister, please.

16:14 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv
Fideo Video

Dyma ddadl bwysig iawn. Rwyf eisiau ffocysu ar ddau bwynt o'r ddadl eang hon. Yn gyntaf, mae llawer o gyfleon i fusnesau yng Nghymru ddarparu gwasanaethau a deunydd i'r sector cyhoeddus. Mae gan bolisi caffael y potensial i gael dylanwad mawr ar fusnesau bach. Mae pawb yn y Siambr hon yn cytuno bod busnesau yn asgwrn cefn i economi Cymru.

This is a very important debate. I want to focus my comments on two issues in this broad-ranging debate. First, there are many opportunities for businesses in Wales to provide services and materials to the public sector. Procurement policy has the potential to have a huge influence on small businesses. Everyone in the Chamber is agreed that businesses are the backbone of the Welsh economy.

The debate on public procurement provides us with a great opportunity to provide our public sector with goods and services that will also boost employment opportunities and inject money into local economies across our country.

Mae'r ddadl ar gaffael cyhoeddus yn gyfle gwych i sicrhau bod gan ein sector cyhoeddus y nwyddau a'r gwasanaethau a fydd hefyd yn cynyddu cyfleoedd cyflogaeth ac yn chwistrellu arian i mewn i economïau lleol ledled ein gwlad.

Plaid Cymru has noted on numerous occasions how we can learn from the experiences of other European countries in this respect. Germany and France source over 98% of their public contracts domestically. Closer to home, our neighbours in Scotland source 75% of theirs domestically. If we in Wales could just match the Scottish levels as a starting point, then that could result in up to 48,000 new jobs and add half a percentage point to our national GVA. I think that Welsh businesses are capable of meeting that aspiration and we should do everything that we can to enable them to do so.

Mae Plaid Cymru wedi nodi ar sawl achlysur sut y gallwn ddysgu o brofiadau gwledydd eraill yn Ewrop yn hyn o beth. Mae dros 98% o gontractau cyhoeddus yr Almaen a Ffrainc yn gontractau domestig. Yn nes at adref, mae 75% o gontractau ein cymdogion yn yr Alban yn rhai domestig. Pe gallem ni yng Nghymru ond efelychu lefelau'r Alban fel man cychwyn, gallai hynny greu hyd at 48,000 o swyddi newydd ac ychwanegu hanner pwynt canran at ein GYC cenedlaethol. Credaf y gall busnesau yng Nghymru fodloni'r dyhead hwnnw a dylem wneud popeth a allwn i'w galluogi i wneud hynny.

I also wanted to take the opportunity this afternoon to talk about maximising our national assets for the economic and social good of all of our communities. In this respect, let us not overlook the potential for the unique assets at our disposal to enable us to achieve this. In particular, the Welsh language has a great part to play. It is a feature that we have in Wales that is not widely available elsewhere. There are specific examples in the report of the Welsh Government's own Welsh language and economic development task and finish group as to how this unique asset could be better used for economic development. I would draw Members' attention to the group's finding relating to the benefit of using the language as an effective marketing tool to boost a company's reach and broaden its consumer base.

Rwyf hefyd am fanteisio ar y cyfle y prynhawn yma i siarad am wneud y gorau o'n hasedau cenedlaethol er budd economaidd a chymdeithasol ein holl gymunedau. Yn hyn o beth, rhaid inni beidio ag anwybyddu potensial yr asedau unigryw sydd gennym i'n galluogi i gyflawni hyn. Yn benodol, mae gan yr iaith Gymraeg ran fawr i'w chwarae. Mae'n nodwedd sydd gennym yng Nghymru nad yw ar gael mewn mannau eraill. Mae adroddiad grŵp gorchwyl a gorffen Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg a datblygu economaidd yn cynnwys enghreifftiau penodol o sut y gallai'r ased unigryw hwn gael ei ddefnyddio'n well er mwyn datblygu'r economi. Hoffwn dynnu sylw'r Aelodau at ganfyddiad y grŵp o ran buddiannau defnyddio'r iaith fel dull marchnata effeithiol i gynyddu cyrhaeddiad cwmni ac ehangu ei sylfaen defnyddwyr.

I welcome suggestions from the Welsh Language Commissioner to establish a specific project to support business clusters within target sectors to maximise the commercial benefit of the Welsh language. The Welsh Language Commissioner has also outlined how we can target public funds, including European funds, to provide people with a high standard of language skills and to broaden their opportunities. European regional development fund programmes have been highlighted especially and I would concur with suggestions aimed at ensuring that the Welsh language as an economic and cultural factor features in such programmes.

Croesawaf awgrymiadau gan Gomisiynydd y Gymraeg i sefydlu prosiect penodol er mwyn helpu clystyrau busnes mewn sectorau targed i gael y budd masnachol mwyaf o'r iaith Gymraeg. Mae Comisiynydd y Gymraeg hefyd wedi amlinellu sut y gallwn dargedu arian cyhoeddus, gan gynnwys arian Ewropeaidd, er mwyn rhoi sgiliau iaith o safon uchel i bobl ac ehangu eu cyfleoedd. Tynnwyd sylw yn benodol at raglenni cronfa datblygu rhanbarthol Ewrop a byddwn yn cytuno ag awgrymiadau sy'n ceisio sicrhau bod yr iaith Gymraeg fel ffactor economaidd a diwylliannol yn cael ei chynnwys mewn rhaglenni o'r fath.

Rydym yn ffodus iawn ac yn falch iawn bod gan y wlad hon ddiwylliant unigryw a hanes sydd yn gwneud ein cenedl yn un arbennig iawn.

We are very fortunate and very proud that this country has a culture that is unique and a history that makes our nation a very special one.

We are not yet maximising our assets and we should include our unique linguistic assets so that they are utilised for the economic and cultural good of all in our country.

Nid ydym yn gwneud y gorau o'n hasedau eto a dylem gynnwys ein hasedau ieithyddol unigryw fel y cânt eu defnyddio er budd economaidd a diwylliannol holl drigolion ein gwlad.

16:18

## Keith Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwyf innau hefyd yn falch i gyfrannu at y ddadl heddiw ac i ddarllen adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar y berthynas rhwng yr iaith Gymraeg a datblygu economaidd. Mae hi wastad yn amserol i ystyried ffyrdd o hybu'r iaith ac rwyf yn croesawu sefydlu'r grŵp gan y Gweinidog, yn enwedig gan fod yr adroddiad yn ystyried y berthynas sydd yn bodoli rhwng yr iaith a'r economi er lles ei gilydd. Mae'n mynd y ddwy ffordd ac rwyf yn falch o weld y berthynas ar y cyd yn ymddangos mor aml yn yr adroddiad. Gallem i gyd gyfaddef nad yw'n fater syml, felly mae'r agwedd draws-weinidogol hon i'w groesawu. Rwy'n edrych ymlaen at ymateb y Gweinidog i'r adroddiad, yn enwedig er mwyn gweld sut y mae'n gweithio ar y cyd gydag agweddau yn y gweithle a gwasanaethau yn 'Iaith Pawb' a'r gynhadledd fawr.

I, too, am proud to contribute to this debate today and to read the task and finish group report on the relationship between the Welsh language and economic development. It is always timely to consider means of promoting the language and I welcome the establishment of the group by the Minister, particularly given that the report is considering the relationship that exists between the language and the economy for the benefit of each other. It goes both ways and I am pleased to see the joint relationship appearing so often in the report. We could all admit that it is not a simple matter, so the cross-ministerial approach is to be welcomed. I look forward to the Minister's response to the report, particularly to see how it works in conjunction with the attitudes in the workplace and services in 'Iaith Pawb' and the 'cynhadledd fawr'.

Rwyf am godi pwynt ar yr argymhelliad cyntaf i ddefnyddio dwyieithrwydd a diwylliant fel offerynnau marchnata. Mae'r parth .cymru yn enghraifft wych o'n presenoldeb ar y llwyfan rhyngwladol—mae'n 'unique selling point', USP, i fenthyg y jargon. Mae tasg cwmnïau i ddylunio a chreu brand personol yn rhywbeth a wariwyd miliynau o bunnau arno, mae'n debyg. Mae cwmnïau wedi bod yn defnyddio enwau Cymraeg yn y maes bwyd a diod yn llwyddiannus er mwyn tynnu ar ansawdd a tharddiad y cynnyrch. Roedd erthygl dros y penwythnos yn tynnu ar y profiad yn Iwerddon. Mae Foras na Gaeilge, y corff sydd yn gyfrifol am hyrwyddo'r iaith yn Iwerddon, wedi nodi sawl ffordd y mae'r iaith wedi bod yn fanteisiol i fusnesau, yn bennaf drwy frandio a chyfathrebu gweladwy. Yn ddiddorol, roedd yr ymchwil yn sôn am agwedd bositif cwsmeriaid o ran prynu cynnyrch sydd â labeli dwyieithog.

I want to raise a point on the first recommendation to use bilingualism and culture as marketing tools. The .wales domain is a prime example of our presence on the international stage—it is an unique selling point, USP, to borrow the jargon. The task for companies to design and create a personal brand is something that millions of pounds has been spent on, I guess. Companies have been using Welsh names successfully in the food and drink industry in order to draw on the quality and origin of the product. An article over the weekend drew on the experience in Ireland. Foras na Gaeilge, the body responsible for promoting the language in Ireland, has identified several ways in which the language has been beneficial for businesses, primarily through branding and visual communication. Interestingly, the research talks about the positive attitude of customers in terms of buying produce that have bilingual labels.

Mae'r adroddiad yn sôn ambell waith am y cyfryngau darlledu ac yn gwneud argymhellion o ran swyddi yn y sector. Mae gennyf ddau bwynt yn y fan hon. Mae'r cyntaf ynghylch y nifer o ddiwydiannau creadigol sy'n bodoli yn Llanelli a sir Gâr. Rwy'n ymwybodol fod y Gweinidog wedi ysgrifennu at gadeiryddion yr ardaloedd menter. Felly, rwyf hefyd eisiau gwneud y pwynt ynghylch manteision cael ardal fenter ar gyfer y diwydiannau creadigol yn yr ardal.

The report occasionally mentions the broadcasting media and makes recommendations in terms of jobs in the sector. I have two points here. The first is about the number of creative industries that exist in Llanelli and Carmarthenshire. I am aware that the Minister has written to the chairs of the enterprise zones. So, I also want to make the point about the benefits of having an enterprise zone for the creative industries in the area.

Fy ail bwynt yw fy mod yn cefnogi'r cais i adleoli S4C yng Nghaerfyrddin a gorllewin Cymru. Mewn cyfarfod o'r grŵp trawsbleidiol ar yr iaith Gymraeg, nodwyd 'swyddi' fel ffactor strategol i gadw siaradwyr Cymraeg yn eu cymunedau. Byddai presenoldeb S4C yn y gorllewin yn fanteisiol iawn ar gyfer yr economi a chynaliadwyedd yr iaith yn yr ardal. Byddai'n hybu'r iaith ar un llaw ac yn darparu rhagor o swyddi Cymreig ar y llaw arall.

My second point is that I support the call for S4C to relocate to Carmarthen and west Wales. At a meeting of the cross-party group on the Welsh language, 'jobs' was noted as a strategic factor to keep Welsh speakers in their communities. The presence of S4C in west Wales would be very beneficial for the economy and the sustainability of the language in the area. It would promote the language on the one hand and provide more Welsh jobs on the other.

O ran cydweithio gyda busnesau, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi sôn am ei gwaith gyda'r 'Federation of Small Businesses'. Mae aelodau'r FSB yn awyddus iawn i ddefnyddio'r Gymraeg ac yn croesawu gwybodaeth a chymorth yn y maes. Dywedodd yn ei thystiolaeth i'r grŵp gorchwyl a gorffen ei bod wastad yn clywed bod busnesau yn ystyried yr iaith yn bwysig o ran gofalu am eu cwsmeriaid ac o ran hunaniaeth.

In terms of collaborating with businesses, the Welsh Language Commissioner has talked about her work with the Federation of Small Businesses. Members of the FSB are very keen to use the Welsh language and welcome information and assistance in the field. She said in her evidence to the task and finish group that she always hears that businesses consider the language as being important in terms of customer care and in terms of identity.

O ran busnesau, mae prinder o ran galw ymysg cwsmeriaid yn rheswm a gynigir yn aml am ddarpariaeth ieithyddol isel, sy'n gwneud y berthynas ddwy ffordd rhwng yr iaith a'r economi yn ehangach eto. Yn ôl sawl un, y ffordd orau yw cynyddu'r achos busnes. Canlyniad ymgyrch lwyddiannus fyddai cynyddu'r pwysigrwydd a roddir ar sgiliau Cymraeg yn y gweithlu, a fydd, yn ei dro, yn cynyddu'r defnydd a'r ymateb ymysg cwsmeriaid pan fydd gwasanaeth Cymraeg ar gael. Rwy'n ymwybodol fod Comisiynydd y Gymraeg yn gweithio gyda busnesau i normaleiddio defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac i danlinellu'r berthynas rhwng yr iaith a throsiant.

In terms of businesses, the lack of demand from customers is often a reason that is offered for low linguistic provision, which makes the two-way relationship between the language and the economy even wider. According to many people, the best way is to increase the business case. The result of a successful campaign would be to increase the importance placed on Welsh skills in the workforce, which, in turn, would increase the use and the response among customers when a Welsh service is available. I am aware that the Welsh Language Commissioner is working with businesses to normalise the use of the Welsh language in the workplace and to underline the relationship between the language and turnover.

O ran sgiliau Cymraeg yn y gweithle, mae llenyddiaeth adrannau gyrfaoedd prifysgolion Cymru yn cydnabod pwysigrwydd dwyieithrwydd a bod y Gymraeg wedi ei chlustnodi fel sgìl a fydd yn codi mewn galw. Er enghraifft, o ganlyniad i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, dywed llenyddiaeth Prifysgol Caerdydd hyn:

In terms of Welsh language skills in the workplace, the literature of careers departments in Welsh universities recognises the importance of bilingualism and that the language has been earmarked as a skill that will increase in demand. For example, as a result of the Welsh Language (Wales) Measure 2011, Cardiff University's literature says this:

'there has been a significant increase in the number of bi-lingual job opportunities in Wales, particularly within the Public Sector and the service industries. A growing number of private sector and charitable organisations in Wales are recognising the economic benefits of the Welsh Language and are offering more bilingual services thus generating further demand for bi-lingual skills amongst their workforce. This is also in line with the new Welsh language standards being introduced'.

bu cynnydd sylweddol yn nifer y cyfleoedd am swyddi dwyieithog yng Nghymru, yn enwedig yn y Sector Cyhoeddus a'r diwydiannau gwasanaeth. Mae nifer gynyddol o sefydliadau yn y sector preifat a sefydliadau elusennol yng Nghymru yn cydnabod buddiannau economaidd yr iaith Gymraeg ac yn cynnig rhagor o wasanaethau dwyieithog sy'n creu mwy o alw am sgiliau dwyieithog ymhlith eu gweithlu. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â'r safonau newydd sy'n cael eu cyflwyno o ran yr iaith Gymraeg.

Gan barhau ar drywydd sgiliau dwyieithog, rwy'n croesawu'r ffocws ychwanegol ar dechnoleg a'r cyfryngau newydd yn 'Iaith Pawb'. Hynny yw, o ran defnyddio'r Gymraeg fel y ffordd fwyaf cyfarwydd o gyfathrebu, mae'n bwysig bod gwneud defnydd o sgiliau Cymraeg y gweithlu yn cynnwys defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu'n ysgrifenedig.

To continue to pursue bilingual skills, I welcomed the additional focus on technology and new media in 'Iaith Pawb'. That is, in using Welsh as the most familiar way of communicating, it is important that making use of the Welsh language skills of the workforce includes using social media to communicate in writing.

Dangosodd y cyfrifiad ddirywiad mewn siaradwyr Cymraeg, yn enwedig ar lefel leol. Mae dyfodol yr iaith yn ddibynnol iawn ar ein plant a phobl ifanc. Felly, yn yr un modd, mae cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg yn cyfrannu at gynyddu'r galw. Rwy'n edrych ymlaen at ragor o drafodaethau a rhagor o bolisïau i gynyddu cynaliadwyedd yr iaith a'r berthynas agos â'r economi.

The census showed a decline in Welsh speakers, especially at a local level. The future of the language is highly dependent on our children and young people. Therefore, in the same way, Welsh in education strategic plans are contributing to increasing the demand. I look forward to more discussions and more policies to increase the sustainability of the language and the close relationship with the economy.

16:23 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Y rhagfarn yr ydym ni i gyd yn y fan hon wedi ei chlywed, ac mae'n rhagfarn yr ydym ni i gyd yn fan hon yn ymwrthod â hi, yw bod y Gymraeg, rhywsut, yn gallu bod yn rhwystr i ddatblygiad economaidd. Mae'n bwysig ein bod yn cael cyfle fel hyn i roi sylw i dystiolaeth sy'n dangos fel arall ac sy'n dangos y rôl y gall y Gymraeg ei chwarae yn nhwf economaidd Cymru.

The prejudice that all of us here have heard, and it is a prejudice that all of us here are resisting, is that the Welsh language, somehow, can be a barrier to economic development. It is important that we have an opportunity like this to give attention to evidence that indicates otherwise and which demonstrates the role that the Welsh language can play in economic growth in Wales.

Nid yw'r arf hwnnw yn cael ei ddefnyddio i'r eithaf ar hyn o bryd, ond mae dwyieithrwydd fel rhan o'r brand Cymreig yn rhywbeth yn sicr y gellir ei ddefnyddio er ein mantais. Yn sicr, mae hyrwyddo dwyieithrwydd a gwerthfawrogiad o ddiwylliant lleol yn ehangach yn rhywbeth sydd yn cael ei ddefnyddio gan wledydd eraill ar draws y byd, a byddaf yn siarad am ychydig funudau am yr elfen frandio hon.

That tool is not being used to its full potential at present, but bilingualism as part of the Welsh brand is certainly something that can be used to our advantage. Certainly, the promotion of bilingualism and the appreciation of local culture more broadly is something that is used by other nations across the world, and I will talk for a few minutes on this issue of branding.

Gallem ddadlau am oriau lawer ynghylch llwyddiannau a methiannau'r 'Welsh Development Agency'. Nid dyma'r lle i'r ddadl honno. Fodd bynnag, heb os, un o lwyddiannau'r WDA oedd datblygu'r brand Cymreig hwnnw. Yn hynny o beth, roedd colled pan gafodd y corff hwnnw ei ddiddymu. Mae cryn sylw wedi ei roi i rai o atebion Plaid Cymru yn hynny o beth yn ddiweddar.

We could argue for many hours about the successes and failures of the Welsh Development Agency. This is not the place for that argument. However, without doubt, one of the successes of the WDA was the development of the Welsh brand. In that regard, there was a loss when that body was abolished. Considerable attention has been given to some of Plaid Cymru's solutions in that regard recently.

Ta waeth, mae'n fy nharo i, ac mae hyn wedi taro'r grŵp gorchwyl a gorffen ar y Gymraeg a datblygu economaidd hefyd, fod yr iaith Gymraeg yn cynnig cyfleoedd wrth inni ddatblygu'r brand Cymreig hwnnw unwaith eto.

Never mind, it strikes me, and this has struck the task and finish Group on the Welsh language and economic development as well, that the Welsh language offers opportunities as we develop that Welsh brand again.

Mae defnydd o'r iaith fel dull marchnata cadarnhaol yn sicr wedi dod i'r amlwg yn ddiweddar mewn nifer o farchnadoedd, ac un o'r rhai mwyaf amlwg, fel yr ydym wedi clywed, yw'r diwydiant bwyd a diod. Mae nifer helaeth iawn o esiamplau yn y diwydiant hwnnw o gwmnïau sy'n defnyddio'r iaith i hybu eu cynnyrch—mae gormod i'w henwi, bron: Caws Cenarth, Penderyn, Tŷ Nant ac, wrth gwrs, ni allaf beidio â sôn am Halen Môn yn fy etholaeth i, sydd ar gael mewn delicatessen a cheginau cogyddion ar draws y byd. Tra bod cwmnïau yn y sector preifat yn gweld budd o ran defnyddio'r Gymraeg fel arf brandio, mae'n siomedig nad yw Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at yr iaith Gymraeg unwaith yn ei dogfen ymgynghori ar gynllun i dyfu'r sector bwyd a diod.

The use of the language as a positive marketing tool has certainly become apparent recently in a number of markets, and one of the most obvious, as we have heard, is the food and drink industry. There are many examples in that industry of companies that use the language to promote their produce—there are almost too many to name: Caws Cenarth, Penderyn, Tŷ Nant and, of course, I cannot ignore Halen Môn from my constituency, which is available in delicatessen and the kitchens of chefs across the world. While companies in the private sector are seeing the benefit of using the Welsh language as a branding tool, it is disappointing that the Welsh Government does not refer to the language at any point in its consultation document on a plan to grow the food and drink sector.

Mae twristiaeth yn sector amlwg arall y gallwn sôn amdano hefyd. Mae cymaint ohono sy'n rhan o'r brand cryf Cymreig, gan gynnwys harddwch naturiol, llonyddwch, chwaraeon, campau awyr-agored, ac ati, ond, os ydym yn chwilio am USP, mae'r iaith Gymraeg yn cynnig yr 'U' yna—yr 'unique' neu'r 'unigryw'—yn glir iawn. Apêl gwyliau, yn aml iawn, yw mynd i rywle sy'n wahanol i'ch cartref. Mae'r Gymraeg yn cynnig hynny i weddill y farchnad Brydeinig.

Tourism is another obvious sector that we can consider as well. There is so much that is part of the strong Welsh brand, including natural beauty, tranquillity, sports, outdoor pursuits, and so on, but, if we are looking for a USP, the language clearly gives us that 'U'—the 'unique'. The appeal of having a holiday, very often, is to go somewhere different to home. The Welsh language is offering that to the rest of the British market.

Hoffwn grybwyll y cyfryngau hefyd, sy'n faes y mae gennyf rywfaint o brofiad ynddo. Mae gennym ddiwydiant creadigol yng Nghymru yr wyf yn falch iawn ohono.

I would like to mention the media, too, which is an area that I have some experience in. We have a creative industry in Wales that I am very proud of.

16:26 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You have given me the perfect opportunity to come back about my old bugbear of the old brown tourist signs on our roads. I quite agree with you that the Welsh language is a great advert for Welsh tourism. Can we make sure that we have an overhaul of those outdated tourism signs so that the Welsh language, as well as the English language, is prominently displayed?

Rydych wedi rhoi'r cyfle perffaith imi ddychwelyd at fy hen destun cwyno, sef yr hen arwyddion twristiaeth brown ar ein ffyrdd. Cytunaf â chi fod yr iaith Gymraeg yn hysbyseb wych i dwristiaeth yng Nghymru. A allwn wneud yn siŵr ein bod yn ailwampio'r arwyddion twristiaeth hen ffasiwn hynny fel bod yr iaith Gymraeg, yn ogystal â'r Saesneg, yn cael ei harddangos yn amlwg?

16:27 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am sure that your message has been heard loud and clear by the relevant Ministers.

Rwy'n siŵr bod y Gweinidogion perthnasol wedi clywed eich neges yn glir.

Mae gennym ddiwydiant creadigol yr ydym yn falch iawn ohono. Rwy'n siŵr y byddai'r cynulleidfaoedd a fwynhaodd 'Y Gwyll' gan BBC Cymru ac S4C yn ddiweddar yn dweud wrthych fod adlewyrchu dwyieithrwydd y rhan honno o Geredigion wedi ychwanegu at eu mwynhad o'r rhaglen honno. Rhaid cofio bod y rhaglen hon yn cael ei gwerthu yn rhyngwladol i wledydd lle mae dwyieithrwydd, is-deitlo ac ati yn norm. Gallai hyn fod yn rhan o'n datblygiad economaidd yn y maes hwn.

We have a creative industry that we are very proud of. I am sure that the audiences who recently enjoyed the 'Hinterland' by BBC Wales and S4C will tell you that reflecting the bilingualism of that part of Ceredigion added to their enjoyment of that programme. It must be remembered that this programme is being sold internationally to nations where bilingualism, subtitling and so on are the norm. This could be part of our economic development in this area.

Nid dim ond ar gyfer y farchnad allforio y mae'r defnydd o iaith fel arf brandio yn gallu bod yn ddefnyddiol, ond, gartref, mae profi cyswllt lleol drwy ddwyieithrwydd yn gallu gweithio o ran gwneud cynnyrch yn fwy perthnasol i gynulleidfa a chwsmeriaid lleol, felly.

It is not only for the export market that the use of language as a branding tool can be useful, but, at home, proving that local connections through bilingualism can therefore work in terms of making products more relevant to the audience and local customers.

Hoffwn ddweud gair byr iawn ynglŷn â'r pwysigrwydd o addysgu entrepreneuriaid ifanc, er enghraifft drwy Llwyddo'n Lleol, o ran y posibilrwydd o ddefnyddio'r Gymraeg fel y math hwn o arf marchnata yn lleol. Hoffwn hefyd wneud apêl i ystyried ehangu rhywbeth fel Llwyddo'n Lleol. Nid ydym wedi gweld y twf yr ydym am ei weld ym mhob rhan o Gymru, ond mae twf wedi bod mewn ardaloedd sy'n draddodiadol ddi-Gymraeg, ac mae potensial i ddefnyddio'r Gymraeg yn y lleoedd hynny hefyd.

I would like to say a brief word on the importance of educating young entrepreneurs, for example through Llwyddo'n Lleol, in terms of the possibility of using the Welsh language as this kind of local marketing tool. I would also like to make an appeal to consider expanding something like Llwyddo'n Lleol. We have not seen the growth that we want to see in all parts of Wales, but there has been growth in traditionally non-Welsh-speaking areas, and there is a potential to use the Welsh language in those places as well.

I gloi, hoffwn ddweud un peth nad yw, yn sicr, yn golygu amarch ichi, Brif Weinidog, nac i Simon Thomas: gobeithiaf yn arw y gallwn gael y dadleuon hyn yn y Cynulliad ynglŷn â'r iaith yn yr economi yn y dyfodol, ac i'r llefaryddion economi a Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth gymryd rhan yn y dadleuon hynny. Byddai hynny'n arwydd o normaleiddio lle yr iaith ym mhob rhan o fywyd yng Nghymru, yn cynnwys twf economaidd.

Finally, I would like to say one thing that is certainly of no disrespect to you, First Minister, or to Simon Thomas: I very much hope that we can have these debates about the language in the economy in the Assembly in the future and to have the spokespeople on the economy and the Minister for Economy, Science and Transport participating in those debates. That would be a sign of the normalisation of the place of the Welsh language in all parts of Welsh life, including economic growth.

16:29 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n diolch i Blaid Cymru am y cyfle i drafod hyn o safbwynt positif heddiw, oherwydd roedd yn siomedig bod preswylwyr yn fy ardal i wedi ymateb i arolwg gan y cyngor ar sut i arbed arian drwy awgrymu toriadau mewn gwariant ar yr iaith Gymraeg. Felly, sut y gellir cyflwyno'r ddadl i breswylwyr Abertawe bod gwariant cyhoeddus ar yr iaith Gymraeg yn fuddsoddiad, yn hytrach nag yn wastraff arian?

I thank Plaid Cymru for the opportunity to discuss this from a positive perspective today, because it was disappointing that residents in my area had responded to a survey by the council on how to save money by suggesting cuts in spending on the Welsh language. So, how can the case be made to Swansea residents that public spending on the Welsh language is an investment, rather than a waste of money?

Mae'r Gymraeg wedi goroesi am ei bod yn iaith addysg—fel y dywedodd Aled Roberts—yn iaith gweinyddiaeth gyhoeddus ac, i raddau, yn iaith materion cyfoes. Ni fydd yn ffynnu oni bai ei bod yn datblygu yn iaith ar gyfer masnach ac yn iaith y stryd.

The Welsh language has survived because it is a language of education—as Aled Roberts said—public administration and, to an extent, current affairs. It will not prosper unless it develops into a language of commerce and a language of the street.

Ni fydd clywed ein bod yn cefnogi'r cynnig a'r gwelliant heddiw yn syndod i Aelodau. Rwyf wedi sôn mewn dadleuon yn y gorffennol am botensial yr iaith i fod yn sbardun economaidd, yn enwedig drwy sicrhau bod pobl ifanc mewn ardaloedd difreintiedig yn cael sgiliau yn yr iaith Gymraeg. Efallai fod ffocws Plaid Cymru yn nadl heddiw ychydig yn wahanol, ond nid cystadleuaeth yw hi, wrth gwrs.

Hearing that we support the motion and the amendment today will be of no surprise to Members. I have mentioned in debates in the past the potential of the Welsh language to be an economic driver, particularly by ensuring that young people in deprived areas acquire skills in the Welsh language. Perhaps Plaid Cymru's focus in today's debate is a little different, but it is not a competition, of course.

Rydym yn clywed llawer am siaradwyr di-Gymraeg yn gefnogol i'r iaith, ac mae hynny'n hanfodol, ond roedd y cyfrifiad yn dangos bod siaradwyr Cymraeg eu hunain o bosibl yn colli golwg ar ba mor werthfawr yw'r sgil hwnnw, sgil sy'n destun eiddigedd i'r mwyafrif ohonom efallai yn y Siambr hon.

We hear a great deal about non-Welsh speakers being supportive of the language, and that is crucially important, but the census demonstrated that Welsh speakers themselves may be losing sight of the value of the skill that they have, a skill that is a cause of envy for many within this Chamber perhaps.

Felly, os nad yw diwylliant a degawdau o ymgyrchu gwleidyddol yn ddigon, beth sydd ar goll? Mae gennym adroddiadau academaidd sy'n dyddio'n ôl 20 mlynedd a mwy sy'n cynnwys tystiolaeth bod siaradwyr Cymraeg, yn enwedig menywod Cymraeg eu hiaith, yn dueddol o ennill mwy yn economaidd ac yn weithgar am gyfnodau hirach, ac yn fwy hyderus y gallant gael gwaith o gymharu â'u cydweithwyr di-Gymraeg yn y rhan o Gymru lle maent yn byw, ble bynnag y bo hynny. Er bod siaradwyr Cymraeg yn dueddol o fod â chymwysterau gwell hefyd, nid yw hynny ar ei ben ei hun yn egluro'r gwahaniaeth yn eu llwyddiant yn y gweithle. Er nad oes ateb hawdd o bosibl, mae'n ymddangos yn debygol bod gallu ieithyddol yn cael ei ystyried yn gaffaeliad.

Therefore, if culture and decades of political campaigning are not enough, what is missing? We have academic reports that date back 20 years and more that include evidence that Welsh speakers, particularly Welsh-speaking women, tend to earn more economically and are active for longer periods of time, and are more confident that they can gain employment compared to their non-Welsh speaking peers in the part of Wales where they live, wherever that may be. Although Welsh speakers tend to have better qualifications also, that alone does not explain the difference in their success in the workplace. Although there is no easy solution, it does appear that linguistic ability is considered an asset.

Rydym ni fel Ceidwadwyr Cymreig yn cydnabod hyn, fel y cofiwch o'n polisi Cymru dairieithog, ond caiff hyn ei nodi hefyd gan grŵp gorchwyl a gorffen y Gweinidog dros yr economi y mae cymaint o Aelodau wedi sôn amdano heddiw.

We as Welsh Conservatives recognise this, as you will remember from our policy on a trilingual Wales, but this is also noted by the task and finish group that the Minister for the economy established, which has been mentioned a number of times today.

Efallai fod llwyddiant siaradwyr Cymraeg wedi amlygu ei hun yn bennaf yn y sector cyhoeddus, ond mae'r sector preifat yn dechrau dal i fyny. Mae angen iddo wneud hynny os yw'r diwydiant darlledu a'r cyfryngau, fel yr awgryma'r grŵp gorchwyl a gorffen, yn dirywio. Fodd bynnag, gyda £1 o wariant S4C yn creu £2 i'r economi, efallai fod hynny'n cael ei or-ddweud. Mae adroddiad y grŵp yn cydnabod bod angen manteisio i'r eithaf ar botensial brandio, sef yr USP mae pobl eraill wedi sôn amdano. Cawsom yr ymgyrch 'Cwtsh' yn Abertawe—rwy'n siŵr bod pawb yn cofio hynny—a dylem sicrhau ein bod yn hyrwyddo'r Gymraeg ymysg ein hentrepreneuriaid, ein harloeswyr a phobl fusnes y dyfodol, gan wneud y Gymraeg yn gaffaeliaid.

The success of Welsh speakers may manifest itself primarily in the public sector, but the private sector is beginning to catch up. It needs to do that if the broadcasting and media industry, as suggested by the task and finish group, is in decline. However, with £1 of S4C spending generating £2 to the economy, that may be an overstatement. The report of the group recognises the need to maximise the potential of branding, namely the USP that other people have mentioned. We had the 'Cwtsh' campaign in Swansea—I am sure that everyone remembers that—and we should ensure that we promote the Welsh language among our entrepreneurs, our innovators and the businesspeople of the future, making the Welsh language a true asset.

Gall y Gymraeg dalu ar ei chanfed. Pa ffordd well o berswadio bwrdd ardal bae dinas Abertawe, sy'n gwasanaethu y preswylwyr hynny sydd am i'r cyngor dorri ar y gyllideb ar gyfer yr iaith Gymraeg, y dylai fod yn hybu'r Gymraeg ac yn gwario arian ar uwch-sgilio'r gweithlu? Gallwn wneud hyn drwy ddangos ei bod yn werth chweil yn economaidd, drwy ddangos nad yw'r iaith Gymraeg yn faich ar fusnesau, a'i bod yn fwy na phapurau arholiad wedi eu bychanu.

The Welsh language can pay dividends. What better way of persuading the Swansea bay city region board, serving those residents who want the council to cut the budget for the Welsh language, that it should be promoting the Welsh language and spending money on up-skilling the workforce? We can do this by demonstrating that it is worthwhile economically, by demonstrating that the Welsh language is not a burden on businesses, and that it is more than exam papers that have been derided.

Hoffwn wybod mwy am gynlluniau Plaid Cymru mewn perthynas â'i pholisïau economaidd sy'n seiliedig ar ardaloedd. Er enghraifft, rwy'n gobeithio bod ail bwynt y cynnig yn ystyried pwysigrwydd mynediad lleol gwell i gyllid, fel mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn awgrymu yn eu dogfen 'Gweledigaeth ar gyfer Buddsoddi yng Nghymru'. Roedd gan y grŵp gorchwyl a gorffen ddiddordeb mewn dull polisi ardaloedd hefyd. Fodd bynnag, er y gallaf dderbyn y ddadl fod yr economi a sefydlogrwydd yr iaith yn dibynnu ar ei gilydd, rwy'n ymwybodol iawn hefyd na all ein gweithlu addasu i syniad da dros nos.

I would like to know more about Plaid Cymru's plans in relation to its area-based economic policies. For example, I hope that the second point of the motion considers the importance of better local access to finance, as the Welsh Conservatives suggest in their document 'A Vision for Welsh Investment'. The task and finish group was interested in an area-based policy too. However, while I can accept the argument that the economy and the stability of the language are interdependent, I am also very conscious that our workforce cannot adapt to what is a good idea overnight.

Er gwaethaf y ffaith bod cenhedlaeth o bobl ifanc yn derbyn addysg iaith Gymraeg orfodol, nid oes gan y mwyafrif helaeth ohonynt unrhyw sgiliau iaith Gymraeg. Ni ddylent orfod colli'r cyfleoedd, a hynny'n unig oherwydd bod uchelgais y Cynulliad cyfan, nid dim ond y Llywodraeth, mewn perthynas â'r Gymraeg fel ail iaith wedi methu'n gyffredinol.

Despite the fact that a generation of young people receive Welsh-medium education on a compulsory level, the vast majority of them have no language skills. They should not miss out on opportunities, simply because the ambition of the whole Assembly, not just the Government, in relation to the Welsh language as a second language, has, generally speaking, failed.

16:34

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae hwn yn gynnig cadarnhaol gan Blaid Cymru heddiw, ond mae'n rhaid inni ei weld yn ei gyd-destun, wrth gwrs. Nid oes dwywaith y bu newid sylweddol yn y patrwm ieithyddol dros y 50 mlynedd diwethaf. Mae symudoledd pobl yn greiddiol i ddeall y gwanio a fu ar safle'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol. Dyna un o brif ganlyniadau'r gynhadledd fawr a alwodd y Prif Weinidog yn Aberystwyth beth amser yn ôl.

This is a positive motion from Plaid Cymru today, but we have to see it in its context, of course. There is no doubt that there has been a substantial change in the linguistic pattern over the past 50 years. People's mobility is crucial to understanding the weakening of the position of the Welsh language as a social language. This was one of the main conclusions of the 'cynhadledd fawr' convened by the First Minister in Aberystwyth some time ago.

Mae'n ffaith o fewn fy oes i bod y tirwedd ieithyddol wedi newid yn llwyr. Bu enillion o ran addysg Gymraeg, o ran defnydd cyhoeddus ac o ran statws i'r Gymraeg, ond gwelwyd colli o ran yr ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad yn eang ac yn dal i fod yn iaith gymdeithasol. Credaf bod hynny bellach yn tanseilio hyder siaradwyr Cymraeg yn nyfodol yr iaith ac yn nyfodol eu cymunedau eu hunain. Yn sicr, mae angen newid gêr yn go bendant yn ein hymdrechion i droi'r trai yn llanw. Mae mudoledd yn gweithio ddwy ffordd, wrth gwrs—mae gennych chi bobl ifanc yn symud allan, fel arfer i chwilio am swyddi neu i hyfforddi ac i gael addysg; ac mae mewnfudo, gan fwyaf gan bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg. I ymateb i hynny, rwy'n credu bod angen rhai mesurau amddiffynnol a rhai mesurau rhagweithiol. Rydym wedi clywed cryn dipyn am y rhai rhagweithiol heddiw. Yn sicr, un maes lle mae angen gweld y Llywodraeth yn gweithredu ynddo yw cynllunio, ac, yn y Bil arfaethedig gan y Llywodraeth, bydd angen i'r iaith Gymraeg gael ei chydnabod fel ffactor wrth greu patrwm o anheddau a gwaith i'r dyfodol. Dyna yw barn arbenigwyr yn y maes hefyd, sef na fydd hi'n bosibl gweithredu yn gadarnhaol heb fod hynny'n cael ei gydnabod yn y prif ddeddfwriaeth.

It is a fact that, during my lifetime, the linguistic landscape has changed quite considerably. There have been gains in terms of Welsh-medium education, in terms of public usage of the language and in terms of its status, but we have seen losses in terms of areas where the Welsh language is spoken widely and continues to be a social language. I believe that that undermines the confidence of Welsh speakers in the future of the language and the future of their own communities. Certainly, there is a need to change gear quite firmly in our efforts to turn the tide. Mobility works both ways, of course—you have young people moving out, usually to look for work or for training and education; and there is immigration, mostly by people who do not speak Welsh. To respond to that, we need some defensive measures and some proactive measures, and we have heard quite a bit about the proactive measures today. One area where there is certainly a need to see action from the Government is planning, and, in the proposed Bill from the Government, there is a need for the Welsh language to be recognised as a factor in the planning of homes and employment for the future. That is the view of experts in the field, namely that it will not be possible to operate positively without that being recognised in primary legislation.

Roeddwn yn falch bod cyfeiriad wedi'i wneud at Lwyddo'n Lleol. Datblygodd rhaglen Llwyddo'n Lleol o gynhadledd a gynhaliais pan oeddwn yn aelod o Gyngor Gwynedd ar ddechrau'r degawd diwethaf. Hon oedd y rhaglen a ddaeth allan o'r gynhadledd er mwyn hybu entrepreneuriaeth. Mae hynny'n hollol hanfodol a chreiddiol os ydym yn mynd i weld yr iaith Gymraeg a chymunedau Cymraeg yn ffynnu i'r dyfodol.

I was very pleased that there was a reference to Llwyddo'n Lleol. The Llwyddo'n Lleol scheme developed from a conference I held when I was a member of Gwynedd Council at the beginning of the last decade. This is the programme that came out of that conference to promote entrepreneurship opportunities. That is an absolutely crucial and central aspect if we are to see the Welsh language and Welsh-speaking communities prosper in future.

Un peth diddorol y soniodd Rhun amdano yw brandio. Un cwmni llwyddiannus iawn yn y Gymru wledig yw Llaeth y Llan. Newidiodd ei enw i Village Dairies am beth amser, ond mae wedi symud yn ôl nawr i Laeth y Llan, a hynny am ei fod yn credu bod yr enw Cymraeg yn rhoi'r USP arbennig hwnnw iddynt. Mae hynny'n newyddion calonogol, nid yn unig o safbwynt y cwmni ond o ran defnydd o'r Gymraeg ym myd busnes. Felly, rwyf am annog y Llywodraeth i edrych yn fanwl ar ganlyniadau ac argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen, ac yn arbennig ar yr argymhelliad i greu canolfannau twf. Mae'n sôn am dair prif ganolfan twf, ac rwy'n credu bod gwirionedd a grym yn ei ddadleuon, ond mae angen canolfannau llai hefyd sydd yn cynnig cyflogaeth amrywiol a bywiogrwydd diwylliannol er mwyn cadw a denu teuluoedd ifanc ar hyd ardal y gorllewin. Dyna pam yr oeddwn i mor falch o weld y datblygiad ym Mlaenau Ffestiniog gyda phobl ifanc, ar y cyfan yn bobl ifanc lleol, yn dod at ei gilydd i greu'r ganolfan beicio mynydd. Mae angen gweld mwy o'r math hwnnw o fywiogrwydd a gweithgarwch yn ein cymunedau.

Rhun talked about something interesting when he spoke about branding. One successful company in rural Wales is Llaeth y Llan. It changed its name to Village Dairies for some time, but it has returned to Llaeth yn Llan because it believes that the Welsh name gives it that unique selling point. That is good news and heartening news, not only for the company but for the use of the Welsh language in the business world. Therefore, I would urge the Government to look in detail at the recommendations of the task and finish group, and particularly at the recommendation to create growth centres. It talks about three main growth centres, and I think that there is strength in its arguments, but there is also a need for smaller centres that offer a variety of employment and economic viability to keep and attract young families in the west of Wales. That is why I was so pleased to see the development in Blaenau Ffestiniog with, mostly local, young people coming together and creating the mountain bike centre. There is a need for more of that sort of development and activity in our communities.

Rwy'n croesawu'n fawr bwriad S4C i ddatganoli peth o'i gweithgaredd y tu allan i Gaerdydd, a phrysured y dydd y bydd mwy o gyrff cyhoeddus yn gwneud yr un peth. Mae effaith cwmnïau sy'n gweithio i S4C yn y gogledd-orllewin yn aruthrol. Yr oedd adroddiad y llynedd ar 'Rownd a Rownd', sy'n dathlu 20 mlynedd o wneud rhaglenni ar gyfer S4C. Nododd yr adroddiad y cyfraniad y mae'r rhaglen wedi'i wneud o ran cyflogaeth leol, gyda dros 100 o bobl yn gweithio'n gyson yno, a'i chyfraniad i economi lleol Porthaethwy a Chaernarfon . Mae angen mwy o'r math hwnnw o hwb ar yr economi yn ein cymunedau gwledig ac yn ein trefi gwledig os ydym o ddifrif am weld y Gymraeg yn ffynnu i'r ganrif nesaf.

I welcome very much S4C's intention to devolve some of its activity outside Cardiff, and I hope to see more public bodies following suit shortly. The impact of companies working for S4C in north-west Wales is massive. There was a report last year on 'Rownd a Rownd', which is celebrating 20 years of programme-making for S4C. The report noted the large contribution it has made in terms of local employment, with more than 100 people working there regularly, and its contribution to the local community of Menai Bridge and Caernarfon. However, we need more of these economic boosts in our rural areas and rural towns if we are serious about seeing the Welsh language prosper in the next century.

16:39 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rydw i'n hapus iawn i siarad yn y ddadl hon. Mae'n bwysig iawn.

I am very pleased to contribute to this debate. It is very important indeed.

I want to start by picking up some of the points that have already been made, particularly about the benefits to Wales of economic development, reinforcing the importance and unique aspect of being a bilingual country. This is a key part of brand Wales. It increases our attractiveness to tourists. It gives us something unique. However, I want to pick up what Suzy Davies said about the survey in Swansea and the fact that the first response to cuts was to ask, 'Why don't we reduce the spending on the Welsh language?' I have had some responses like that in Cardiff North. I had someone who came in last week and asked, 'Why does everything have to be translated into Welsh when we all speak English?' I have noticed that, over the years, those sorts of comments, which have been very common in Cardiff North, have actually decreased quite a lot. I think that the importance of the Welsh language, its uniqueness and its selling point for Wales, is beginning to be accepted much more widely in the community. In fact, I think that the rise of Welsh-medium schools in English-speaking areas has been very important in doing that.

Rwyf am ddechrau drwy godi rhai o'r pwyntiau sydd eisoes wedi cael eu gwneud, yn enwedig am fuddiannau datblygu economaidd i Gymru, gan ategu pa mor bwysig yw hi ein bod yn wlad ddwyieithog a pha mor unigryw ydym yn hynny o beth. Mae hyn yn rhan allweddol o frand Cymru. Mae'n ein gwneud yn fwy deniadol i dwristiaid. Mae'n rhoi rhywbeth unigryw inni. Fodd bynnag, rwyf am gyfeirio at yr hyn a ddywedodd Suzy Davies am yr arolwg yn Abertawe a'r ffaith mai'r ymateb cyntaf i doriadau oedd gofyn, 'Pam nad ydym yn lleihau'r gwariant ar yr iaith Gymraeg?' Rwyf wedi cael rhai ymatebion tebyg yng Ngogledd Caerdydd. Daeth rhywun i'm gweld yr wythnos diwethaf a gofyn, 'Pam mae'n rhaid cyfieithu popeth i'r Gymraeg pan ydym i gyd yn siarad Saesneg?' Rwyf wedi sylwi, dros y blynyddoedd, bod y mathau hynny o sylwadau, sydd wedi bod yn gyffredin iawn yng Ngogledd Caerdydd, wedi lleihau cryn dipyn. Credaf fod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg, ei natur unigryw a'i phwynt gwerthu i Gymru, yn dechrau cael eu derbyn yn llawer ehangach yn y gymuned. Yn wir, credaf fod y cynnydd yn nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd Saesneg eu hiaith wedi bod yn bwysig iawn yn hynny o beth.

In Cardiff, where we have an increasing number of young people who speak Welsh, but whose families do not use Welsh in the home, it is very important that we make sure that there are opportunities for them to move into employment, as has been mentioned, and that there are apprenticeships available where they can go on learning through the medium of Welsh.

Yng Nghaerdydd, lle mae gennym nifer gynyddol o bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg, ond nad yw eu teuluoedd yn defnyddio'r iaith yn y cartref, mae'n bwysig iawn ein bod yn sicrhau bod cyfleoedd iddynt symud i mewn i gyflogaeth, fel y crybwyllwyd, a bod prentisiaethau ar gael lle y gallant barhau i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

I also wanted to pick up the S4C point, because I thoroughly understand the benefits that S4C might bring to other parts of Wales. I know that, this week, Gwynedd and the University of Wales, Trinity Saint David are making their pitch to attract S4C, and I think that the decision is likely to be on Friday. However, there is a unique place for S4C in Cardiff North in Llanishen, and, in some ways, I think that having it in an area that is mainly English speaking, means that it does have an asset. However, the important point that I wanted to make about that, really, was that, around S4C in Llanishen, a hub of small media businesses has built up, and I think that there are about 10 of them now. That has happened generally with broadcasting units, and it is very important that any decision that is made to move ensures that those businesses are allowed to prosper and to continue in Cardiff North. So, I do have some reservations about what my colleague, Keith Davies, said on that point.

Roeddwn hefyd yn awyddus i godi'r pwynt ynglŷn ag S4C, oherwydd rwy'n llwyr ddeall y buddiannau y gallai S4C eu cynnig i rannau eraill o Gymru. Gwn fod Gwynedd a Phrifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant wrthi yr wythnos hon yn gwneud eu cynnig i ddenu S4C, a chredaf fod y penderfyniad yn debygol o gael ei wneud ddydd Gwener. Fodd bynnag, mae lle unigryw i S4C yng Ngogledd Caerdydd yn Llanisien ac, mewn rhai ffyrdd, credaf fod ei lleoli mewn ardal Saesneg ei hiaith yn bennaf, yn golygu ei bod yn ased. Fodd bynnag, y pwynt pwysig yr oeddwn am ei wneud am hynny, mewn gwirionedd, oedd bod cnewyllyn o fusnesau bach ym maes y cyfryngau wedi datblygu o gwmpas S4C yn Llanisien, a chredaf fod tua 10 ohonynt bellach. Mae hynny wedi digwydd yn gyffredinol gydag unedau darlledu, ac mae'n bwysig iawn bod unrhyw benderfyniad sy'n cael ei wneud i symud yn sicrhau bod modd i'r busnesau hynny ffynnu a pharhau yng Ngogledd Caerdydd. Felly, mae gennyf rai amheuon am yr hyn a ddywedodd fy nghyd-Aelod, Keith Davies, ar y pwynt hwnnw.

I wanted to make an opportunity to commend Cardiff Council for its efforts in this field. I know that it held a conference in Cardiff, called, 'Cardiff: A Bilingual City' last week, at which I believe the First Minister spoke. The purpose of this conference was to try to explore ways of promoting and protecting the Welsh language in the city, where the language is growing. The conference emphasised things like the history of the language; the services that you can obtain in Welsh in Cardiff; businesses' use of language and how it can be used to promote businesses, entertainment and technology; and the importance of the language to children.

Roeddwn am greu cyfle i ganmol Cyngor Caerdydd am ei ymdrechion yn y maes hwn. Gwn iddo gynnal cynhadledd yng Nghaerdydd o'r enw, 'Caerdydd: Dinas Ddwyieithog' yr wythnos diwethaf, lle credaf i'r Prif Weinidog roi anerchiad. Pwrpas y gynhadledd hon oedd ceisio ystyried ffyrdd o hyrwyddo a gwarchod yr iaith Gymraeg yn y ddinas, lle mae'r iaith yn ffynnu. Pwysleisiodd y gynhadledd bethau fel hanes yr iaith; y gwasanaethau Cymraeg y gallwch eu cael yng Nghaerdydd; defnydd busnesau o'r iaith a sut y gellir ei defnyddio i hyrwyddo busnesau, adloniant a thechnoleg; a phwysigrwydd yr iaith i blant.

I think that 400 suggestions came out of this conference and they have been whittled down to, I think, 200 suggestions. A huge range of things were suggested, many of which were linked to business. They were around brand names for all of those working under the 'bilingual Cardiff' umbrella and it is going to have a bilingual action plan. This is not an end in itself. It was a conference that produced an action plan and it is intended to carry on into the future to promote bilingualism in Cardiff. It certainly was not a one-off event. I think that such events where a local authority brings forward a long-term plan to promote bilingualism in its own area is something very much to be commended. I wanted to use this opportunity to congratulate it today and hope that that will happen in other areas like Cardiff.

Credaf i 400 o awgrymiadau ddod i law drwy'r gynhadledd hon ac, o blith y rheini, credaf i ryw 200 ohonynt gael eu dewis. Awgrymwyd amrywiaeth eang iawn o bethau, llawer ohonynt yn gysylltiedig â busnes. Roeddent yn ymwneud ag enwau brand i bawb sy'n gweithio o dan faner 'Caerdydd ddwyieithog' a bydd cynllun gweithredu dwyieithog yn cael ei lunio. Nid diben ynddo'i hun yw hwn. Cynhadledd a gynhyrchodd gynllun gweithredu ydoedd a bwriedir iddi barhau yn y dyfodol er mwyn hyrwyddo dwyieithrwydd yng Nghaerdydd. Yn sicr nid digwyddiad unigryw ydoedd. Credaf fod digwyddiadau o'r fath lle mae awdurdod lleol yn cyflwyno cynllun hirdymor i hyrwyddo dwyieithrwydd yn ei ardal ei hun yn rhywbeth i'w ganmol yn fawr. Roeddwn am achub ar y cyfle hwn i'w longyfarch heddiw ac rwy'n gobeithio y bydd yr un peth yn digwydd mewn ardaloedd eraill fel Caerdydd.

16:44

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Galwaf ar y Prif Weinidog.

I call the First Minister.

16:44

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf i ddiolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl hon? Byddwn ni fel Llywodraeth yn cefnogi'r cynnig fel y mae wedi cael ei gyflwyno. Byddwn yn gwrthod y gwelliant, ond nid oherwydd y ffaith ein bod yn anghytuno â'r egwyddor o asesu effaith ein polisïau ar y Gymraeg, ond oherwydd yr ydym yn edrych, ar hyn o bryd, ar y ffordd orau i asesu'r effaith ar y Gymraeg fel rhan o'r cynllun gweithredu mewnol. Nid ydym yn gallu cytuno, felly, gyda'r gwelliant. Yr hyn yr ydym yn edrych arno yw sicrhau bod gennym ganllawiau unigol dros yr iaith Gymraeg, ac nid bod gennym ganllawiau o ran unrhyw ardal arall ym maes cydraddoldeb.

Thank you, Deputy Presiding Officer. May I thank everyone who has taken part in this debate? As a Government, we will be supporting the motion as it has been tabled. We will oppose the amendment, but not because we disagree with the principle of assessing the impact of our policies on the Welsh language, but because we are currently considering the best way of assessing impact on the Welsh language as part of our internal action plan. We cannot agree, therefore, with the amendment. What we will be looking at is ensuring that we have individual guidelines for the Welsh language, not that we have guidance in terms of any other area in the field of equality.

Mae'r asesiad effaith ar y Gymraeg yn bodoli ers nifer o flynyddoedd a chyda'r safonau iaith newydd a fydd yn dod i rym, mae swyddogion wrthi'n datblygu teclyn newydd i'r perwyl hwnnw. Bydd y teclyn yn cael ei beilota yn fewnol dros y chwe mis nesaf gyda'r nod o gryfhau penderfyniadau polisi a grant a sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn gynnar yn y broses o ddatblygu polisïau a deddfwriaeth.

The impact assessment on the Welsh language has existed for a number of years and with the new language standards that will come into force, officials are developing a new tool to that end. The tool will be piloted internally over the next six months with the aim of strengthening policy and grant decisions and ensuring that the Welsh language is considered early in the development of policies and legislation.

Wrth gwrs, mae'n bwysig dros ben inni gofio mai un o'r pethau a ddaeth drosodd yn gryf yn ystod y gynhadledd fawr oedd bod pobl yn siarad Cymraeg pan maen nhw'n gweld bod defnydd economaidd a chymdeithasol iddi. Felly, roedd pobl yn dod i arfer siarad Cymraeg pan oedden nhw'n gweld y gwerth hwnnw. Rydym yn gwybod hefyd fod economi gref yn arwain at gymunedau llewyrchus a chynaliadwy lle mae ansawdd bywyd da. Mae'n bwysig dros ben, felly, creu economi sy'n ystyried bod gwerth i'r Gymraeg, nid dim ond yn yr ardaloedd traddodiadol Cymraeg ond hefyd yn yr ardaloedd mwy Seisnigaidd.

Of course, it is very important that we remember that one of the things that came across strongly during the 'cynhadledd fawr' was that people speak Welsh when they see that it has an economic and social use. Therefore, people become used to speaking Welsh when they see that value. We also know that a strong economy leads to prosperous and sustainable communities where there is a good quality of life. It is very important, therefore, to create an economy that takes into account the value of the language, not just in the traditional Welsh areas but also in the more anglicised areas.

Beth, felly, sydd wedi digwydd? Yn ddiweddar, er enghraifft, cyhoeddwyd adroddiad grŵp gorchwyl a gorffen ardal twf lleol dyffryn Teifi. Mae'r grŵp, dan gadeiryddiaeth Delyth Humphreys, wedi gwneud nifer o argymhellion ar ddewisiadau polisi a fydd yn annog a chefnogi swyddi a thwf economaidd yn nyffryn Teifi. Mae'n werth nodi bod nifer o'r ymatebion wedi crybwyll pwysigrwydd y Gymraeg i ffyniant economaidd a chymdeithasol yr ardal a byddwn yn edrych yn ofalus ar y rhain wrth ystyried ein hymateb i'r adroddiad hwnnw.

What, then, has happened? Recently, for example, the report of the task and finish group on the Teifi valley local growth zone has been published. The group, chaired by Delyth Humphreys, has made a number of recommendations on policy options that will encourage and support jobs and economic growth in the Teifi valley. It is worth noting that many of the responses have mentioned the importance of the Welsh language to the economic and social prosperity of the area and we will look carefully at these when considering our response to that report.

Mewn mannau eraill, efallai y gallai'r mentrau iaith hefyd helpu i yrru'r Gymraeg o safbwynt economaidd, sydd yn bwysig dros ben. Un o'r pethau rydym yn eu hystyried ar hyn o bryd yw sut y gallwn gryfhau'r mentrau iaith er mwyn sicrhau eu bod yn gallu gweithredu i wneud hynny.

In other areas, perhaps the mentrau iaith could help to drive the Welsh language in economic terms, which is extremely important. One of the things that we are considering at the moment is how we can strengthen the mentrau iaith in order to ensure that they are able to take action to do so.

Fodd bynnag, mewn llawer o fannau ac ymysg rhai carfannau o bobl, mae'n wir i ddweud bod canfyddiad nad oes unrhyw werth economaidd i'r Gymraeg. Mae hynny'n siom i mi. Rwy'n dal i glywed pobl, er mai bach iawn ydynt mewn nifer, yn dweud bod y Gymraeg yn dal pobl yn ôl a bod y Gymraeg yn dal Cymru yn ôl. Nid wyf yn cefnogi'r farn honno o gwbl. Mae'n amlwg i mi bod cryfderau mawr o gael cymdeithas a gwlad sydd yn ddwyieithog a gwlad sydd yn cynnig rhywbeth gwahanol yn ddiwylliannol i weddill y byd. Rydym ni'n mo'yn sicrhau ein bod yn newid y canfyddiad hwnnw sydd gan rai ac, wrth gwrs, mae'n rhaid inni sicrhau bod pobl yn gweld y Gymraeg fel sgil gwerthfawr.

However, in many areas and among some groups of people, it is true to say that there is a perception that there is no economic value to the Welsh language. That disappoints me. I still hear some people, although they are very small in number, saying that the language holds people back and that the language holds Wales back. I do not support that view at all. It is clear to me that there are major benefits of having a society and a country that are bilingual and that offer something different, culturally, from the rest of the world. We want to ensure that we change that perception among some people and, of course, we must ensure that people see the Welsh language as a valuable skill.

Bydd gan ein safonau arfaethedig rôl, wrth gwrs, wrth roi dyletswydd ar y parciau cenedlaethol, yr awdurdodau lleol a ni fel Gweinidogion Cymru yn y lle cyntaf, a'r sector preifat yn ddiweddarach. Bydd hyn yn gwneud y Gymraeg yn amlycach fel iaith busnes a'r economi ac yn cynyddu'r galw am siaradwyr Cymraeg i weithio yn y cyrff hynny. Byddwn i'n meddwl y byddai unrhyw fusnes yn gweld gwerth masnachol defnyddio'r Gymraeg. Mae hynny'n sicrhau y bydd mwy o bobl yn defnyddio'r busnes, yn fy marn i. Rydym yn gwybod bod siaradwyr Cymraeg yn fwy awyddus i ddefnyddio busnesau a siopau lle mae'r Gymraeg yn amlwg yn y siop, o ran arwyddion, ond mae'n bwysig, wrth gwrs, fod y Gymraeg yn cael ei defnyddio tu fewn i'r siop neu'r busnes o ddydd i ddydd.

Our proposed standards will have a role, of course, in placing a duty on the national parks, the local authorities and us as Welsh Ministers in the first place, and the private sector at a later stage. This will make the language more prominent as a language of business and the economy and increase the demand for Welsh speakers to work in those organisations. I would think that businesses would see the commercial value of using the Welsh language. In my opinion, it would ensure that more people used the business. We know that Welsh speakers are keen to use businesses and shops where the Welsh language is evident in the shop, on signs, but it is important, of course, that the language is used in the shop or business on a day-to-day basis.

Mae Comisiynydd y Gymraeg wrthi'n ymgynghori ar y set gyntaf o safonau ac mae'r broses o greu tribiwnlys y Gymraeg, a fydd mor bwysig i weithredu ar y safonau, hefyd yn bwrw rhagddi. Bydd y tribiwnlys wedi ei sefydlu erbyn diwedd mis Tachwedd eleni.

The Welsh Language Commissioner is currently consulting on the first set of standards and the process of creating the Welsh language tribunal, which will be so important in terms of implementing the standards, is also ongoing. The tribunal will be in place by the end of November this year.

Fel y soniodd sawl Aelod, mae'r Gymraeg a'r economi yn fater cymhleth, wrth gwrs, fel y cydnabyddir yn adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar y Gymraeg a datblygu economaidd a gomisiynwyd gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Mae'r adroddiad hwnnw'n gwneud 27 o argymhellion ac mae'r Gweinidog yn ymgynghori arnynt ar hyn o bryd. Bydd yr ymgynghoriad hwnnw yn dod i ben ar 16 Ebrill a bydd yr ymatebion yn llywio'r camau nesaf yn y maes.

As mentioned by several Members, the Welsh language and the economy is a complex issue, of course, as is acknowledged in the report of the task and finish group on the Welsh language and economic development commissioned by the Minister for Economy, Science and Transport. That report made 27 recommendations, on which the Minister is currently consulting. That consultation will end on 16 April and the responses will steer the next steps in this area.

I ateb rhai o’r pwyntiau a wnaed gan rai o’r siaradwyr, clywais yr hyn a ddywedodd Simon Thomas. Mae’n bwysig dros ben ein bod yn gwrando ar syniadau da o bob rhan o Gymru ac o bob plaid wleidyddol er mwyn sicrhau bod yr ymateb o ran cryfhau’r iaith mewn perthynas â'r economi yn effeithiol. Rydym yn awyddus iawn, wrth gwrs, unwaith y byddwn wedi ymateb i’r grŵp gorchwyl a gorffen, bod hynny’n digwydd.

To answer some of the points made by some speakers, I heard what Simon Thomas said. It is very important that we listen to good ideas from all parts of Wales and from every political party in order to ensure that the response in terms of strengthening the language in respect of the economy is effective. We are extremely keen, of course, once we have responded to the task and finish group, that that happens.

O ran beth a ddywedodd Aled Roberts, byddwn yn dadlau bod mwy o Gymraeg ync ael ei ddefnyddio bellach o fewn y Llywodraeth nag erioed. Mae’n wir i ddweud, yn fy marn i, nad oedd yr hen Swyddfa Gymreig yn rhywle a ystyriwyd gan siaradwyr Cymraeg fel lle i weithio. Roedd canran y siaradwyr Cymraeg ym mharc Cathays yn 5% pan ddechreuodd datganoli. Mae hynny wedi cynyddu dros y blynyddoedd. Wrth gwrs, erbyn hyn mae gennym swyddfeydd yng Nghyffordd Llandudno, Aberystwyth, Caerfyrddin a Llandrindod, sy'n darparu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg weithio yn yr ardaloedd lle maent am fyw. Nid oeddent yno flynyddoedd yn ôl, pan oedd popeth, fwy neu lai, yng Nghaerdydd. Felly, mae hynny wedi newid.

In terms of what Aled Roberts said, I would argue that more Welsh is now being used within Government than ever before. It is true to say, in my view, that the old Welsh Office was not somewhere that was considered by Welsh-speakers as a place to work. The percentage of Welsh speakers in Cathays park was 5% when devolution began. That has increased over the years. Of course, we now have offices in Llandudno Junction, Aberystwyth, Carmarthen and Llandrindod Wells, providing opportunities for Welsh speakers to work in the areas where they want to live. They were not there years ago, when everything, more or less, was in Cardiff. So, that has changed.

O ran beth a ddywedodd Keith, unwaith eto, byddech yn meddwl bod busnesau yn gweld gwerth masnachol i'r iaith ac yn gweld y gallent gael hwb o gynnig gwasanaeth yn yr iaith er mwyn sicrhau y gall pobl ddefnyddio'r iaith o ddydd i ddydd. Mae hyn yn digwydd mewn rhai rhannau o Gymru. Er enghraifft, ar sgwâr Pontardawe, mae siop garpedi o’r enw ‘Viv Dates Carpets’. Mae'n dweud yn Saesneg, heb eironi, ‘Welsh-speaking members of staff’—yn uniaith Saesneg. Mae'n dangos, yn ardal Pontardawe, lle mae'r iaith wedi gwanhau yn fawr dros y blynyddoedd diwethaf, bod gwerth i’r siop ddangos bod ganddi bobl sy’n siarad Cymraeg er mwyn darparu gwasanaeth i bobl leol.

In terms of what Keith said, once again, you would think that businesses saw commercial value to the language and saw that it could benefit them if they offered a Welsh-language service so that people could use the language on a daily basis. This is happening in some parts of Wales. For example, on Pontardawe square, there is a carpet shop called Viv Dates Carpets. It advertises in English, without irony, ‘Welsh-speaking members of staff’—in English only. It shows that, in the Pontardawe area, where the Welsh language has been in decline over recent years, there is value in that business advertising the fact that it has Welsh-speaking members of staff in order to provide a service to local people.

I gloi, trof at yr hyn a ddywedodd Rhun. Unwaith eto, roedd yn hynod o ddiddorol i glywed am sut yr ydym yn defnyddio'r Gymraeg i ddangos bod Cymru yn wlad wahanol i ymweld â hi, er mwyn sicrhau, er enghraifft, pan ddaw Americanwyr i Ewrop, eu bod yn dod i Gymru, gan ddeall bod diwylliant gwahanol yma. Yn hanesyddol, nid yw wedi digwydd. Soniodd am y WDA, ond ni fyddaf yn siarad gormod am y WDA. Dwyedaf ddau beth. Yr eironi yw mai brand uniaith Saesneg oedd gan y WDA. Nid oedd yn gefnogol iawn i'r Gymraeg, i ddweud hynny’n garedig. Rwy’n deall y pwynt ei bod yn bwysig sicrhau bod y brand Cymreig, a Chymraeg, yn ddigon cryf yn y dyfodol. Mae Gweinidog yr economi yma ac rwy’n siŵr, yn y dyfodol, mai hi fydd yn ymateb i ddadl fel hyn, ond pe bai wedi gwneud hynny heddiw, byddai ganddi dair dadl a’r ddadl fer. Roeddwn am roi ychydig o hoe iddi.

In closing, I will turn to Rhun’s comments. Once again, it was extremely interesting to hear about the ways in which we use the language to show that Wales is a different place to visit, in order to ensure, for example, that when Americans come to Europe, they come to Wales, and understand that there is a different culture here. Historically, that has not happened. He mentioned the WDA, but I will not talk too much about the WDA. I will say two things. The irony is that the WDA’s brand was in English only. It was not very supportive of the Welsh language, to put it kindly. I understand that it is important to ensure that the Welsh brand, and Welsh-language brand, is strong enough in the future. The Minister for economy is here and I am sure that, in future, she will respond to debates like this, but had she done so today, she would have had three debates and the short debate. I wanted to give her a bit of a break.

16:52

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar Simon Thomas i ymateb i’r ddadl.

I call on Simon Thomas to reply to the debate.

16:53 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Hoffwn ddiolch i'r naw Aelod sydd wedi cyfrannu at y ddadl hon. Rwy'n falch o fod wedi cael dadl gadarnhaol, a dadl sydd mor agored i syniadau newydd. Wrth ymateb, hoffwn edrych ar y ddadl hon. Rwy'n credu bod pedwar prif faes a drafodwyd yn ystod y ddadl, gan ddechrau gyda chreu gweithluoedd lle defnyddir yr iaith Gymraeg. Mae'r Prif Weinidog newydd gau ei araith yn cyfeirio at hyn; soniodd Aled Roberts am hyn hefyd. Rwy'n gweld bod modd i'r safonau helpu yn y broses hon, gan ddilyn y gwaith rhagorol sydd wedi'i wneud yng Ngwynedd. Rwy'n derbyn, wrth gwrs, bod mwy o Gymraeg yn cael ei defnyddio yn y Llywodraeth yn awr, ond wrth feddwl am y Llywodraeth yn arwain, rwy'n meddwl ein bod am weld adrannau a lleoliadau o fewn y Llywodraeth—Cyffordd Llandudno neu Aberystwyth—yn gweithredu'n fewnol trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â chael rhyngwyneb Cymraeg. Yr ydym am weld y staff eu hunain yn gallu llunio adroddiadau drwy gyfrwng y Gymraeg ac ati. Yn wir, mae angen hefyd inni weld hynny'n digwydd o fewn Comisiwn y Cynulliad, yn hytrach na gwaith yn cael ei gyfieithu i ni sy'n defnyddio'r Gymraeg. Mae hynny'n rhoi arweiniad pwysig.

I wish to thank the nine Members who have contributed to this debate. I am pleased to have had such a positive debate, and a debate that is so open to new ideas. In responding, I would like to look at this debate. I think that there were four main areas covered, starting with creating workforces where the Welsh language is used. The First Minister has just closed his speech by referring to this, and Aled Roberts also mentioned it. I see that there is scope for standards to assist in this process, further to the excellent work that has been done in Gwynedd, for example. I accept, of course, that more use is made of the Welsh language within Government now, but in thinking of the Government taking a lead role, I think that we need to see Government departments and locations—Llandudno Junction or Aberystwyth—working internally through the medium of Welsh as well as having a Welsh interface. We want to see the staff themselves drawing up reports through the medium of Welsh and so forth. It is true that we also need to see that happening within the Assembly Commission, rather than work being translated for us who make use of the language. This sends a very clear message.

Yn yr un modd, crybwyllwyd Llwyddo'n Lleol sawl gwaith fel cynllun a oedd yn helpu i fentora a hybu mentergarwch yn y Gymraeg. Roedd wedi'i gychwyn gan Alun Ffred ac wedi'i weinyddu, mae'n debyg, gan Llyr Gruffydd. Felly, mae cysylltiadau pendant iawn â Llwyddo'n Lleol ar y meinciau hyn.

Likewise, Llwyddo'n Lleol has been mentioned a number of times as a scheme that assisted with mentoring and encouraging entrepreneurship through the medium of Welsh. It was started by Alun Ffred and administered, apparently, by Llyr Gruffydd. So, there are very definite links to Llwyddo'n Lleol on these benches.

Yr ail faes a oedd yn bwysig i Aelodau oedd caffael a chontractio. Soniodd Leanne Wood yn benodol am hyn: y dylem ddilyn esiampl yr Alban, cynyddu contractio a chaffael lleol, defnyddio mwy o wasanaethau lleol a rhoi bri, a dweud y gwir, ar y gweithlu lleol a phreifat. Tueddwn i feddwl am yr iaith Gymraeg fel rhywbeth sy'n bodoli o fewn cyd-destun y sector cyhoeddus ond mae'n hynod bwysig ein bod yn rhoi statws a bri i'r Gymraeg yn y sector preifat hefyd. Mae gan y rhaglenni Ewropeaidd y soniais amdanynt rôl i'w chwarae yn y broses honno. Mae'n rhaid inni chwilio am gyfleoedd yn awr, wrth lunio rhaglenni Ewropeaidd newydd, i sicrhau bod caffael a chontractio yn adlewyrchu'r pethau sydd er lles y cyhoedd. Mae hynny'n cynnwys pethau fel prentisiaethau, sgiliau a sut mae gweithwyr yn cael eu trin. Mae hefyd yn cynnwys y Gymraeg.

The second area that was important to Members was procurement and contracting. Leanne Wood specifically mentioned this: that we should follow the example of Scotland, increasing local contracting and procurement, using more local services and placing an emphasis on the private workforce at a local level. We tend to think of the Welsh language as something that exists within the context of the public sector. I think that it is extremely important that we give status and emphasis to the Welsh language in the private sector as well. The European programmes that I have mentioned have a role to play in that process. We must look for opportunities now, in drawing up the new European programmes, to ensure that procurement and contracting reflect things that are for the benefit of the public. That includes such things as apprenticeship, skills and how employees are treated. It also includes the Welsh lanuage.

Y trydydd maes yr oedd pobl yn awyddus i sôn amdano—maes diddorol iawn—oedd marchnata a'r Gymraeg. Roedd Alun Ffred, Keith Davies, Rhun a Julie Morgan wedi sôn am y maes hwn. Credaf fod y twf hwnnw'n ddiddorol iawn yng Nghymru. Nid yw'n digwydd eto fel y mae'n digwydd mewn gwledydd dwyieithog eraill. Os ewch chi i mewn i Lidl yn Sbaen, mae gan hyd yn oed dun o 'beans' bedair iaith arno. Mae tipyn o ffordd tan ein bod yn gweld y Gymraeg ar dun o 'beans' yng Nghymru. Ond, wedi dweud hynny, mae yna ddulliau diddorol, mentrus a chreadigol iawn o ddefnyddio'r Gymraeg. Soniodd Alun Ffred am Llaeth y Llan. Gallaf feddwl am dair fferm laeth organic yn dod at ei gilydd a ffurfio Trioni. Yna, buont yn cynhyrchu llaeth a'i alw'n Daioni. Cefais flas o rywbeth a oedd â fodca ynddo unwaith, a 'drygioni' oedd enw hwnnw. [Chwerthin.] Felly, mae defnyddio'r Gymraeg yn rhywbeth positif iawn weithiau.

The third area that people were eager to talk about—a very interesting one—was marketing and the Welsh language. Alun Ffred, Keith Davies, Rhun and Julie Morgan mentioned this. I believe that that growth is very interesting in Wales. It is not happening yet as it is in other bilingual nations. If you go to a Lidl in Spain, even a tin of beans has four languages on it. There is some way to go before we see Welsh on a tin of beans in Wales. However, having said that, there are some interesting, enterprising and creative ways of using of the language. Alun Ffred mentioned Llaeth y Llan. I can think of three organic dairy farms that came together and formed 'Trioni'. They then produced milk and called it 'Daioni'. I tasted something that had vodka in it once, and that was called 'drygioni'. [Laughter.] Therefore, the use of the Welsh language is sometimes very positive.

Soniodd Rhun am Halen Môn, a dŵr hefyd. Mae'n wir, onid ydyw, bod halen yn blasu yr un peth lle bynnag yr ydych yn y byd, ac nid oes gan ddŵr flas o gwbl, i fod? Eto, mae enwau a'r 'cachet' a'r modd y mae'r pethau hyn yn cael eu marchnata yn gwneud byd o wahaniaeth. Mae gen i bot o Halen Môn yn y gegin, ar bwys y man lle rwyf yn coginio. Dyna beth yw marchnata, a dyna'r gyfrinach o ddefnyddio'r Gymraeg i roi rhyw fath o 'cachet' a'r syniad eich bod yn prynu i mewn i rywbeth hefyd. Mae hynny'n bwysig iawn, wrth inni farchnata'r iaith yn y cyd-destun hwn.

Rhun mentioned Halen Môn, and water. It is true, is it not, that salt tastes the same wherever you are in the world, and water is not supposed to have any taste at all? Again, the names and the cachet and the way that these things are marketed make a world of difference. I have a pot of Halen Môn in my kitchen, next to my hob. That is the secret of marketing, and the secret of using the Welsh language to give some kind of cachet and the idea that you buy into something too. That is very important, as we market the language in this context.

Y pishyn olaf y canolbwyntiodd pobl arno'n arbennig oedd y syniad o lle y gallwn leoli swyddi, sef ardaloedd twf.

The last area that people focused on in particular was the concept of where we can locate jobs, namely growth areas.

*Nick Ramsay a gododd—*

*Nick Ramsay rose—*

16:57

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae arnaf ofn nad oes gennyf amser, Nick. Roedd y pwynt am leoli swyddi a rheoli swyddi newydd. Yn y cyd-destun hwn, roedd Rhun, Alun Ffred, Julie Morgan a'r Prif Weinidog wedi cyfrannu. Credaf ei bod yn bwysig ein bod yn cyfeirio at y ffaith bod S4C yn ystyried adleoli ar hyn o bryd. Rwy'n mawr obeithio y bydd yn adleoli. Ni allaf ddweud, gyda'r bobl sydd y tu ôl imi, lle y dylai adleoli, ond mae pobl yn gwybod lle mae fy nghefnogaeth i wedi mynd. Mae gwariant S4C yn rhywbeth fel £64 miliwn y flwyddyn ar hyn o bryd. Yn ei dro, mae hynny'n arwain at wariant ychwanegol o £60 miliwn. Felly, mae gennych gyfanswm o £120 miliwn o werth yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru, ac mae hynny'n cynnal 2,000 o swyddi. Yr unig beth a ddywedaf yw fy mod i o'r farn y bydd adleoli S4C yn cael mwy o effaith, lle bynnag y bydd yn mynd—i Gaerfyrddin neu i Gaernarfon—na'r twll y bydd yn ei adael ar ei ôl yng Nghaerdydd. Wrth gwrs, rwy'n parchu'r ffaith bod Julie Morgan am siarad dros ei hetholwyr hi ac am weld y gwaith da y mae S4C wedi'i wneud yn cael ei wneud yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, byddai S4C a'r effaith economaidd gref honno sy'n troi o gwmpas y Gymaeg—rwy'n siarad am y sgiliau, er enghraifft; mae S4C yn buddsoddi dros £300,000 y flwyddyn mewn sgiliau a phrentisiaethau yn y diwydiannau creadigol—yn gwneud byd o wahaniaeth i Gaerfyrddin neu Gaernarfon. Rwy'n mawr obeithio y byddwn yn gweld penderfyniad gan yr awdurdod sy'n bositif yn yr ystyr hwnnw.

I am afraid that I do not have time, Nick. The point was about job placement and management of new jobs. In this context, Rhun, Alun Ffred, Julie Morgan and the First Minister contributed. I think that it is important that we refer to the fact that S4C is considering relocation at presdent. I very much hope that it will relocate. I cannot say, given the people who are behind me, where it should relocate to, but people know where my support has gone. S4C expenditure is something like £64 million per annum at present. In turn, that leads to an additional spend of £60 million. So, you have a total of £120 million of value in the creative industries in Wales, maintaining 2,000 jobs. All I will say is that I believe that relocating S4C would have a greater impact, wherever it goes—Carmarthen or Caernarfon—than the hole that would be left behind in Cardiff. Of course, I respect the fact that Julie Morgan wants to speak up for her constituents and wants to see the good work that has been done by S4C continue in Cardiff. However, S4C and the strong economic impact that revolves around the language—I am talking about the skills, for example; S4C invests over £300,000 a year in skills and apprenticeships in the creative industries—would make a world of difference to Carmarthen or Caernarfon. I very much hope that we will see a decision by the authority that is positive in that sense.

Unwaith eto, diolch i bawb a gyfrannodd at y ddadl hon. Credaf ei bod wedi bod yn ddadl bositif a chadarnhaol iawn. Fel y dywedodd y Prif Weinidog, nid rhywbeth sy'n dal Cymru yn ôl yw'r Gymraeg. Mae tlodi efallai yn rhywbeth sy'n gwneud hynny. Mae'r Gymraeg yn un o'r arfau rydym yn eu defnyddio i wella ein heconomi.

Once again, thank you to everyone who has contributed to this debate. I think that it has been a very positive debate. As the First Minister said, the Welsh language is not something that holds Wales back. Poverty is perhaps something that does that. The Welsh language is one of the tools that we use to improve our economy.

16:59

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Y cwestiwn yw y dylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Mae gwrthwynebiad, felly gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The question is that we agree the motion without amendment. Are there any objections? There is objection, so I will defer voting on this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

# Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Trafnidiaeth Gyhoeddus

*Detholwyd y gwelliant canlynol: gwelliant 1 yn enw Paul Davies.*

Cynnig NDM5450 Aled Roberts

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod trafnidiaeth gyhoeddus ddiogel a fforddiadwy yn allweddol i alluogi pobl ifanc i gael gafael ar waith, addysg, hyfforddiant a phrentisiaethau.

2. Yn gresynu bod fforddiadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus yn rhwystr sylweddol i weithwyr rhan-amser ac i ddewisiadau ôl-16 pobl ifanc.

3. Yn croesawu'r camau a gymerir gan rai awdurdodau lleol yng Nghymru i gyflwyno cynllun teithio rhatach i bobl ifanc ond yn gresynu bod amrywioldeb sylweddol mewn consesiynau yn arwain at loteri cod post o ran trafnidiaeth fforddiadwy i deithwyr ifanc.

4. Yn cydnabod cyflawniadau cynlluniau trafnidiaeth gymunedol gan gynnwys Bwcabus a Grass Routes o ran darparu trafnidiaeth hygyrch a hyblyg i gymunedau lleol.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) gweithio gyda gweithredwyr bysiau i gyflwyno cynllun teithio rhatach cenedlaethol i bobl ifanc drwy gyfradd ‘teithwyr ifanc’ newydd i bobl ifanc 16-18 oed a myfyrwyr;

b) archwilio dichonoldeb tocyn tymor i weithwyr rhan-amser;

c) archwilio'r potensial i ymestyn cynlluniau trafnidiaeth gymunedol fel Bwcabus a Grass Routes mewn ardaloedd gwledig; a

d) archwilio ffyrdd o ddatblygu rhwydwaith carbon isel o drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru.

# Welsh Liberal Democrats Debate: Public Transport

*The following amendment has been selected: amendment 1 in the name of Paul Davies.*

Motion NDM5450 Aled Roberts

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Notes that safe and affordable public transport is key to enabling young people to access work, education, training and apprenticeships.

2. Regrets that the affordability of public transport acts as a significant barrier for part-time workers and to the post-16 choices of young people.

3. Welcomes the steps taken by some local authorities in Wales to introduce a concessionary fare scheme for young people but regrets that significant variability in concessions leads to a postcode lottery of affordable transport for young travellers.

4. Recognises the achievements of community transport schemes including Bwcabus and Grass Routes in providing accessible and flexible transport for local communities.

5. Calls on the Welsh Government to:

a) work with bus operators to introduce a national concessionary fare scheme for young people through a new ‘young travellers’ rate for 16-18 year olds and students;

b) examine the feasibility of a season ticket for part-time workers;

c) explore the potential for extending community transport schemes such as Bwcabus and Grass Routes in rural areas; and

d) examine ways to develop a low carbon network of public transport in Wales.

16:59

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I am very pleased to introduce today's second debate on buses and, Dirprwy Lywydd, you will be pleased to hear that I have successfully forced myself not to make the obvious joke on this occasion. We want to focus on the cost of transport and the practical steps that we can take to overcome the barrier that this presents to specific groups, particularly young people and part-time workers. We have brought forward this motion today because we believe that safe and affordable public transport is key to enabling young people to access work, education, training and apprenticeships. At this point, I would like to pay tribute to members of Ieuenctid Rhyddfrydol Cymru and Liberal Youth Wales, who have been very active in campaigning on this subject and who were instrumental in bringing this policy to the Liberal Democrats. It is a huge issue for young people. A report by the Campaign for Better Transport in 2012 highlighted that transport costs are the biggest single piece of expenditure in relation to post-16 education. Nearly half of 16 to 18-year-old students find their transport costs hard to meet. However, the cost of public transport for young people is not a new concern. Under the last Labour UK Government, the cost of transport rose by 24%, leaving many young people isolated and unable to take advantage of education and training opportunities.

Mae'n bleser gennyf gyflwyno ail ddadl heddiw ar fysiau a byddwch yn falch o glywed, Ddirprwy Lywydd, fy mod wedi llwyddo i orfodi fy hun i beidio â gwneud y jôc amlwg ar yr achlysur hwn. Rydym am ganolbwyntio ar gost trafnidiaeth a'r camau ymarferol y gallwn eu cymryd i oresgyn y rhwystr y mae hyn yn ei gyflwyno i grwpiau penodol, yn enwedig pobl ifanc a gweithwyr rhan-amser. Rydym wedi cyflwyno'r cynnig hwn heddiw, gan ein bod o'r farn bod trafnidiaeth gyhoeddus ddiogel a fforddiadwy yn allweddol er mwyn galluogi pobl ifanc i ymgymryd â gwaith, addysg, hyfforddiant a phrentisiaethau. Ar y pwynt hwn, hoffwn dalu teyrnged i aelodau Ieuenctid Rhyddfrydol Cymru a Liberal Youth Wales, a fu'n weithgar iawn wrth ymgyrchu ar y pwnc hwn ac a fu'n allweddol wrth gyflwyno'r polisi hwn i'r Democratiaid Rhyddfrydol. Mae'n fater pwysig iawn i bobl ifanc. Nododd adroddiad gan yr Ymgyrch dros Well Cludiant yn 2012 mai costau trafnidiaeth yw'r eitem unigol fwyaf o wariant mewn perthynas ag addysg ôl-16. Mae bron i hanner y myfyrwyr rhwng 16 a 18 oed yn ei chael hi'n anodd talu eu costau trafnidiaeth. Fodd bynnag, nid pryder newydd yw cost trafnidiaeth gyhoeddus i bobl ifanc. O dan Lywodraeth Lafur ddiweddaraf y DU, cynyddodd cost trafnidiaeth 24%, gan ynysu llawer o bobl ifanc a'u hatal rhag manteisio ar gyfleoedd addysg a hyfforddiant.

In Wales, the quarterly bus statistics released yesterday revealed that the cost of bus fares has risen by 3.2% in Wales in the last year alone. While this was lower than some parts of the UK, the cost of public transport has been steadily rising, which has had a disproportionate impact on young people who are heavily reliant on public transport to access education, employment and training because they often do not have private transport to fall back on.

Yng Nghymru, datgelodd yr ystadegau chwarterol ar fysiau a gyhoeddwyd ddoe fod cost tocynnau bws wedi codi 3.2% yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn unig. Er bod hyn yn is na rhai rhannau o'r DU, bu cost trafnidiaeth gyhoeddus yn cynyddu'n raddol, sydd wedi cael effaith anghymesur ar bobl ifanc sy'n dibynnu'n helaeth ar drafnidiaeth gyhoeddus i ymgymryd ag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant am nad oes ganddynt yn aml drafnidiaeth breifat y gallant ei defnyddio.

According to the British Youth Council, children and young people are among the largest user groups of public services, particularly public transport, yet the cost of travelling by bus, rail or tram can pose a barrier to young people getting around. Many young people are either in full-time education or have just left education and are looking for a job, so paying a full bus fare can be a significant cost. The affordability of public transport, therefore, is a significant barrier to the post-16 choices of young people and we need to break that barrier down.

Yn ôl Cyngor Ieuenctid Prydain, mae plant a phobl ifanc ymhlith grwpiau defnyddwyr mwyaf gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig trafnidiaeth gyhoeddus, ond gall y gost o deithio ar y bws, trên neu dram atal pobl ifanc rhag teithio. Mae llawer o bobl ifanc naill ai mewn addysg llawn-amser neu newydd adael addysg ac yn chwilio am swydd, felly gall talu am docyn bws llawn fod yn gost sylweddol. Felly, mae fforddiadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus yn rhwystr sylweddol i ddewisiadau ôl-16 pobl ifanc ac mae angen inni ddymchwel y rhwystr hwnnw.

Yesterday, I was proud to launch a report on the options for introducing a concessionary fare scheme for young travellers in Wales, which was adopted as party policy after being brought to our conference by our youth wing, as I have said. We welcome that some local authorities and bus operators in Wales have taken steps to introduce concessionary fares for young people. For example, Cardiff Bus offers a young person fare for five to 18-year-olds, but there is significant variability in concessionary schemes, which leads to confusion and difficulty when travelling across local authority boundaries. This report explores different mechanisms for operating a national concessionary fare scheme for young travellers that will be more easily accessible, help to reduce the cost of public transport and improve access to education, employment and training.

Ddoe, roedd yn bleser gennyf lansio adroddiad ar yr opsiynau ar gyfer cyflwyno cynllun teithio rhatach i deithwyr ifanc yng Nghymru, a gafodd ei fabwysiadu fel polisi'r blaid ar ôl i'r adain ieuenctid ei gyflwyno yn ein cynhadledd, fel y dywedais. Croesawn y ffaith bod rhai awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau yng Nghymru wedi cymryd camau i gyflwyno tocynnau rhatach i bobl ifanc. Er enghraifft, mae Bws Caerdydd yn cynnig tocyn person ifanc i bobl ifanc rhwng 5 a 18 oed, ond mae amrywiaeth sylweddol rhwng cynlluniau rhatach, sy'n arwain at ddryswch ac anhawster wrth deithio ar draws ffiniau awdurdodau lleol. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried gwahanol systemau ar gyfer gweithredu cynllun teithio rhatach cenedlaethol i deithwyr ifanc a fydd yn fwy hygyrch, yn helpu i leihau cost trafnidiaeth gyhoeddus ac yn gwella mynediad i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

On the basis of this report, we are calling today for a national concessionary fare scheme in the form of a blanket reduced fare rate for 16 to 18-year-olds and for students. Our policy proposals would extend the reduced rate on public transport to establish a new young travellers rate, which would be funded in a similar way to the over-60s bus pass, through a concessionary subsidy to bus companies to guarantee that a reduced rate is available for young travellers. The discount would be uniform across Wales and separate from the under-16 rate that most bus companies already offer, and eligibility might be determined through the use of official proof-of-age cards already in operation, such as pass cards, driving licences and student identification cards, in addition to visual verification where possible. We accept that our policy proposal will incur a cost, although it is perhaps a cost that could be offset, as I will explain in a moment. However, we have sought to identify the most cost-efficient scheme to provide affordable and accessible public transport for young people.

Ar sail yr adroddiad hwn, rydym yn galw heddiw am gynllun teithio rhatach cenedlaethol ar ffurf tocynnau gostyngol cyffredinol ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed a myfyrwyr. Byddai ein cynigion polisi yn ehangu'r gyfradd ostyngol ar drafnidiaeth gyhoeddus er mwyn cynnig cyfradd newydd i deithwyr ifanc, a gâi ei hariannu mewn ffordd debyg i'r tocyn bws i bobl dros 60 oed, drwy gymhorthdal teithio rhatach i gwmnïau bysiau er mwyn gwarantu bod cyfradd ostyngol ar gael i deithwyr ifanc. Byddai'r gostyngiad yn unffurf ledled Cymru ac yn annibynnol ar y gyfradd y mae'r rhan fwyaf o gwmnïau bysiau eisoes yn ei chynnig i blant o dan 16 oed, a gellid pennu cymhwysedd drwy ddefnyddio'r cardiau prawf oed swyddogol sydd eisoes ar waith, megis cardiau teithio, trwyddedau gyrru a chardiau adnabod myfyrwyr, yn ogystal â system ddilysu weledol lle y bo'n bosibl. Derbyniwn y bydd costau yn gysylltiedig â'n cynnig polisi, er ei bod o bosibl yn gost y gellid ei gwrthbwyso, fel yr egluraf maes o law. Fodd bynnag, rydym wedi ceisio nodi'r cynllun mwyaf costeffeithlon er mwyn darparu trafnidiaeth gyhoeddus fforddiadwy a hygyrch i bobl ifanc.

A concessionary fare scheme may need to be introduced in stages as the economy develops and public finances improve, but an initial roll-out to 16 to 18-year-olds of a one-third discount price would cost in the region of £2.4 million. For those local authorities that already operate such a scheme, there are potential savings to be redirected into other services that they support. Administration costs could be kept to a minimum by using existing forms of identification for eligibility, removing the need to create a new card to prove eligibility. We recognise that the administrative costs of things like the over-60s bus pass are a significant proportion of that cost and we would wish to defer that, if we possibly could, and direct the money that is available into savings for young people.

Efallai y bydd angen cyflwyno cynllun tocynnau rhatach fesul cam wrth i'r economi ddatblygu a chyllid cyhoeddus wella, ond byddai'r cam cychwynnol o gyflwyno pris â disgownt o draean i bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed yn costio tua £2.4 miliwn. I'r awdurdodau lleol sydd eisoes yn gweithredu cynllun o'r fath, ceir arbedion posibl y gellid eu hailgyfeirio i wasanaethau eraill a gefnogir ganddynt. Gellid cadw costau gweinyddol mor isel â phosibl drwy ddefnyddio dulliau adnabod sy'n bodoli eisoes er mwyn pennu cymhwysedd, gan ddileu'r angen i greu cerdyn newydd i brofi cymhwysedd. Rydym yn cydnabod bod costau gweinyddol pethau fel y tocyn bws i bobl dros 60 oed yn gyfran sylweddol o'r gost honno a byddem yn awyddus i ohirio hynny, os yn bosibl, a chyfeirio'r arian sydd ar gael i gyflwyno arbedion i bobl ifanc.

I believe that there would be a return on the investment that we are making. To the public purse, that return is through enabling young people to have better access to education, employment and training opportunities, which would help them to make a greater contribution to their local economies. It will also benefit communities: it will help to sustain bus services by increasing the use of public transport, particularly in rural areas and at off-peak times. There is also a benefit to bus operators as this is a discount, not a free travel scheme, so there is the opportunity to increase passenger numbers and, through that, increase fare revenue in the long term.

Credaf y byddai elw ar y buddsoddiad a wnawn. I bwrs y wlad, daw'r elw hwnnw drwy sicrhau gwell mynediad i bobl ifanc i gyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, a fyddai'n eu helpu i gyfrannu mwy at eu heconomïau lleol. Bydd hefyd o fudd i gymunedau: bydd yn helpu i gynnal gwasanaethau bws drwy gynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ar adegau tawel. Mae hefyd o fudd i weithredwyr bysiau gan mai cynllun disgownt ydyw, nid cynllun teithio am ddim, felly mae cyfle i gynyddu nifer y teithwyr a, thrwy hynny, gynyddu refeniw tocynnau yn yr hirdymor.

We need to look at others that have successfully implemented concessionary schemes elsewhere. One example that I want to bring to your attention is the example of Staffordshire County Council's 'Your Staffordshire' card, which allows 11 to 19-year-olds to pay £1 for travel between any two points in the county, regardless of the journey length or the number of changes required. It calculated, when it initially designed the scheme, that after 50,000 users were signed up to the card, the scheme would become cost-neutral because, as I say, this was a discount rather than a free bus travel scheme. Not only has it reached this aim, but the scheme is actually now making a profit for the bus companies involved in it. Bus operators in that area have reported that young people are travelling more, changing their travel patterns, and one company has even put on additional services to meet the demand driven by this particular scheme. So, I do believe that schemes along these lines could show us ways in which we could tackle this issue in Wales. Not only was the Staffordshire scheme well received by local people, it actually won 'The Guardian' public service award for transport and mobility in 2011.

Mae angen inni edrych ar eraill sydd wedi rhoi cynlluniau teithio rhatach ar waith yn llwyddiannus mewn mannau eraill. Un enghraifft yr hoffwn dynnu eich sylw ati yw enghraifft Cyngor Sir Stafford, sef cerdyn 'Your Stafford', sy'n caniatáu i bobl ifanc rhwng 11 a 19 oed dalu £1 i deithio rhwng unrhyw ddau bwynt yn y sir, ni waeth beth fo hyd y daith na nifer y newidiadau sydd eu hangen. Pan gafodd y cynllun ei gynllunio i ddechrau, cyfrifodd unwaith y byddai 50,000 o ddefnyddwyr wedi cofrestru ar gyfer y cerdyn, na fyddai unrhyw gost i'r cynllun gan mai cynllun disgownt ydoedd yn hytrach na chynllun teithiau bws am ddim, fel y dywedais. Yn ogystal â chyrraedd y nod hwn, mae'r cynllun erbyn hyn mewn gwirionedd yn gwneud elw i'r cwmnïau bysiau sy'n rhan ohono. Mae gweithredwyr bysiau yn yr ardal honno wedi nodi bod pobl ifanc yn teithio mwy, gan newid eu patrymau teithio, ac mae un cwmni hyd yn oed wedi darparu gwasanaethau ychwanegol er mwyn bodloni'r galw a lywiwyd gan y cynllun penodol hwn. Felly, credaf y gallai cynlluniau tebyg ddarparu ffyrdd o fynd i'r afael â'r mater hwn yng Nghymru. Cafodd cynllun sir Stafford groeso cynnes gan bobl leol, ac enillodd hefyd wobr gwasanaeth cyhoeddus 'The Guardian' yn y categori trafnidiaeth a symudedd yn 2011.

I believe that we need some vision and ambition here from the Welsh Government if we are to help overcome the barriers that face young people in accessing education, employment, training and apprenticeships, and to give young people the best possible opportunities. However, we have to be practical about it in difficult times. We have to make sure that any new scheme that we introduce is cost-effective and cost-efficient. Whilst we hope that today's debate will give Members the opportunity to discuss ways in which we might achieve an aim that we would all believe is right, it is now time to introduce a national scheme to show young travellers across Wales that we are listening to them, and that we want them to have access to the world through public transport.

Credaf fod angen i Lywodraeth Cymru ddangos rhywfaint o weledigaeth ac uchelgais er mwyn helpu i oresgyn y rhwystrau sy'n wynebu pobl ifanc wrth ymgymryd ag addysg, cyflogaeth, hyfforddiant a phrentisiaethau, a rhoi'r cyfleoedd gorau posibl i bobl ifanc. Fodd bynnag, rhaid inni fod yn ymarferol am y peth mewn cyfnodau anodd. Rhaid inni sicrhau bod unrhyw gynllun newydd a gyflwynir gennym yn gost-effeithiol a chosteffeithlon. Er ein bod yn gobeithio y bydd dadl heddiw yn rhoi cyfle i Aelodau drafod sut y gellid cyflawni nod y byddai pob un ohonom yn cytuno sy'n briodol, mae bellach yn bryd cyflwyno cynllun cenedlaethol i ddangos i deithwyr ifanc ledled Cymru ein bod yn gwrando arnynt, a'n bod yn awyddus iddynt allu ehangu eu gorwelion drwy drafnidiaeth gyhoeddus.

17:06

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have selected the amendment to the motion and I call on Byron Davies to move amendment 1, tabled in the name of Paul Davies.

Rwyf wedi dethol y gwelliant i'r cynnig a galwaf ar Byron Davies i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Amendment 1—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu'r ffaith fod gweithredwyr bysiau wrthi'n ystyried cynlluniau teithio rhatach i bobl ifanc a myfyrwyr.*

*Welcomes the fact that bus operators are actively pursuing concessionary fare schemes for young people and students.*

17:06

## Byron Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendment 1.

Cynigiaf welliant 1.

Unlike Eluned Parrott, I am happy to say that, as with buses, you wait for a chance to speak about the future of our transport network and then two come at once. It does give me great pleasure to move our amendment today and I commend the Liberal Democrats for the debate on enabling young people and part-time workers to use public transport more readily, and ensuring that it is affordable. Many of the essential points were of course raised in the earlier Welsh Conservative debate, so I am conscious that we have already had a debate on bus services in Wales, and many of the issues, as I say, will be common across both debates, but they are worth reiterating. That does not in any way diminish the importance of the debate. I will add that our local train services are also very intertwined with this motion.

Yn wahanol i Eluned Parrott, rwy'n falch cael dweud, fel yn achos bysiau, eich bod yn aros am gyfle i siarad am ddyfodol ein rhwydwaith trafnidiaeth ac wedyn daw dau ar yr un pryd. Mae'n bleser mawr gennyf gynnig ein gwelliant heddiw a hoffwn ganmol y Democratiaid Rhyddfrydol am y ddadl ar alluogi pobl ifanc a gweithwyr rhan-amser i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn haws, a sicrhau ei bod yn fforddiadwy. Wrth gwrs, codwyd llawer o'r pwyntiau hanfodol yn nadl gynharach y Ceidwadwyr Cymreig, felly rwy'n ymwybodol ein bod eisoes wedi cael dadl ar wasanaethau bysiau yng Nghymru, a bydd llawer o'r materion, fel y dywedais, yn gyffredin i'r ddwy ddadl, ond maent yn werth eu hailadrodd. Nid yw hynny'n tanseilio pwysigrwydd y ddadl mewn unrhyw ffordd. Hoffwn ychwanegu fod y cynnig hwn hefyd yn berthnasol iawn i'n gwasanaethau trên lleol.

In tabling our Welsh Conservative amendment, we wanted to recognise that, despite the cuts to the transport service grant, or the bus service operators grant, or regional transport service grant, or indeed the uncertainty surrounding the funding of bus services in Wales, bus operators recognise the need to support young people and are already working on support mechanisms despite no funding allocated to date. I mentioned in the previous debate that many in the bus industry are nervous about the future, with key members of the industry describing bus policy in Wales as one of indecision and hesitation. This certainly directly affects passengers through increasing fares because of the need to plan financially according to the worst-case scenario. We also see operators reducing or withdrawing services due to operators trying to minimise financial exposure and reducing workforces.

Wrth gyflwyno gwelliant Ceidwadwyr Cymru, roeddem am gydnabod, er gwaethaf y toriadau i'r grant gwasanaethau trafnidiaeth, neu'r grant gweithredwyr gwasanaethau bysiau, neu'r grant gwasanaethau trafnidiaeth rhanbarthol, neu yn wir yr ansicrwydd ynghylch sut yr ariennir gwasanaethau bysiau yng Nghymru, bod gweithredwyr bysiau yn cydnabod yr angen i helpu pobl ifanc a'u bod eisoes yn gweithio ar systemau cymorth er gwaethaf y ffaith na ddyrannwyd unrhyw arian ar gyfer hynny hyd yn hyn. Soniais yn ystod y ddadl flaenorol fod sawl un yn y diwydiant bysiau yn nerfus am y dyfodol, gydag aelodau allweddol o'r diwydiant yn disgrifio'r polisi bysiau yng Nghymru fel polisi petrusgar heb unrhyw benderfyniad. Yn sicr, mae hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar deithwyr drwy'r cynnydd mewn prisiau teithio gan fod angen cynllunio'n ariannol gan ystyried y senario achos gwaethaf. Rydym hefyd yn gweld gweithredwyr yn lleihau neu'n diddymu gwasanaethau wrth iddynt geisio lleihau costau ac yn lleihau eu gweithluoedd.

So, I agree with the Liberal Democrats. I also regret that the affordability of public transport acts as a significant barrier for part-time workers and to the post-16 choices of young people. It is something that we must address, but we cannot expect the industry to do it in isolation. The Government really must support it.

Felly, cytunaf â'r Democratiaid Rhyddfrydol. Gresynaf hefyd fod fforddiadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus yn rhwystr sylweddol i weithwyr rhan-amser ac i ddewisiadau ôl-16 pobl ifanc. Mae'n rhywbeth y mae'n rhaid inni ymdrin ag ef, ond ni allwn ddisgwyl i'r diwydiant wneud hynny ar ei ben ei hun. Rhaid i'r Llywodraeth roi cefnogaeth sylweddol iddo.

If I may, I would like to reiterate the two most important points of this motion, namely that the Welsh Government works with bus operators to introduce a national concessionary fare scheme for young people through a new young travellers rate for 16 to 18-year-olds and students. It is something that I have had quite a bit of correspondence on over the past year or so. So, additionally, I would like to see the Government examining the feasibility of a season ticket for part-time workers. We really do need to get Wales moving on this and provide affordable travel for passengers, no matter what their situation financially. So, concessionary fares are important, but, again, I want to remind Members that the actual bus service is essential. We do not want young and senior citizens to end up with concessionary cards but be unable to use them because the bus does not run again.

Os caf, hoffwn ailadrodd dau bwynt pwysicaf y cynnig hwn, sef y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda gweithredwyr bysiau i gyflwyno cynllun teithio rhatach cenedlaethol i bobl ifanc drwy gyfradd teithwyr ifanc newydd ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed a myfyrwyr. Mae'n rhywbeth y cefais gryn dipyn o ohebiaeth yn ei gylch yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Felly, yn ogystal, hoffwn weld y Llywodraeth yn ystyried dichonoldeb tocyn tymor i weithwyr rhan-amser. Mae gwir angen inni weithredu yng Nghymru ar hyn o beth a darparu dulliau teithio fforddiadwy i deithwyr, ni waeth beth fo'u sefyllfa ariannol. Felly, mae tocynnau rhatach yn bwysig, ond, unwaith eto, hoffwn atgoffa'r Aelodau fod y gwasanaeth bws ei hun yn hanfodol. Nid ydym am sefyllfa lle y bydd gan bobl ifanc a phobl hŷn gardiau teithio rhatach ond na allant eu defnyddio am nad oes gwasanaeth bws ar gael.

17:09 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Affordability and accessibility of public transport is especially critical in our rural communities. It is without doubt one of the biggest challenges that faces rural Wales. Not only do people in rural areas face higher fuel costs, but the percentage of younger people aged between 17 and 20 who own a driving licence has fallen in recent years from 43% to some 36%. According to the national transport survey, this fall is largely due to the cost of driving lessons, increasing insurance premiums and the cost of purchasing a car and keeping it on the road. Combined with a sparse public transport system, this often leaves young people in rural areas facing real isolation and exclusion—unable to access opportunities for work or education. It serves to disconnect vulnerable people from vital community services such as healthcare, and even leads to social exclusion if people are unable to travel to visit friends or family.

Mae fforddiadwyedd a hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus yn arbennig o hanfodol yn ein cymunedau gwledig. Yn ddiau, mae'n un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu Cymru wledig. Yn ogystal â'r ffaith bod pobl mewn ardaloedd gwledig yn wynebu costau tanwydd uwch, mae canran y bobl ifancach rhwng 17 ac 20 oed a chanddynt drwydded yrru wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf o 43% i tua 36%. Yn ôl yr arolwg trafnidiaeth cenedlaethol, gellir priodoli'r gostyngiad hwn i raddau helaeth i gost gwersi gyrru, y cynnydd mewn premiymau yswiriant a chost prynu car a'i gadw ar y ffordd. O'i gyfuno â system trafnidiaeth gyhoeddus annigonol, mae hyn yn aml yn golygu bod pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig wedi'u hynysu a'u hallgáu'n sylweddol—yn methu â manteisio ar gyfleoedd gwaith nac addysg. Mae'n datgysylltu pobl sy'n agored i niwed o wasanaethau cymunedol hanfodol megis gofal iechyd, ac hyd yn oed yn arwain at achosion o allgáu cymdeithasol os na all pobl deithio i ymweld â ffrindiau neu deulu.

Demand-led services, such as Bwcabus or Grass Roots in Monmouthshire and Carmarthenshire, are vital in providing affordable and flexible transport options for our rural communities. However, at a time when we should be prioritising access to employment and local services, support for community transport is being reduced. While 10% of the regional transport services grant was previously ring-fenced for community transport, the draft guidance for the new bus services support grant suggests that this may be reduced to some 5%, and this is a matter of concern.

Mae gwasanaethau wedi'u llywio gan alw, megis Bwcabus neu Grass Roots yn Sir Fynwy a Sir Gaerfyrddin, yn hanfodol o ran darparu opsiynau trafnidiaeth fforddiadwy a hyblyg i'n cymunedau gwledig. Fodd bynnag, ar adeg lle y dylid rhoi blaenoriaeth i fynediad i gyflogaeth a gwasanaethau lleol, caiff y cymorth i drafnidiaeth gymunedol ei leihau. Er bod 10% o'r grant gwasanaethau trafnidiaeth rhanbarthol wedi'i neilltuo'n flaenorol ar gyfer trafnidiaeth gymunedol, mae'r canllawiau drafft ar gyfer y grant cymorth newydd i wasanaethau bws yn awgrymu y gellid lleihau hyn i tua 5%, ac mae hyn yn destun pryder.

Sustrans' 'Access Denied' report highlights that community and demand-responsive transport schemes enable local authorities to use resources more effectively where demand is dispersed. It calls for a more secure and longer term funding programme, and for further exploration of informal taxi-bus industry models that offer better coverage and are appropriate for rural areas.

Noda adroddiad Sustrans 'Rhwystro Mynediad' fod cynlluniau trafnidiaeth cymunedol a chynlluniau trafnidiaeth sy'n ymateb i alw yn galluogi i awdurdodau lleol ddefnyddio adnoddau mewn ffordd fwy effeithiol lle mae'r galw ar ffurf wasgaredig. Mae'n galw am raglen ariannu tymor hwy, mwy sicr, ac am ystyriaeth bellach i fodelau anffurfiol rhwng y diwydiant tacsis a'r diwydiant bysiau sy'n cwmpasu ardaloedd daearyddol yn well ac sy'n briodol ar gyfer ardaloedd gwledig.

Our report on a concessionary fares scheme highlights, as has been said, the important role that schemes like Bwcabus play in improving connectivity for young people in our rural areas. We strongly agree with the Sustrans report that these schemes must be protected and expanded.

Fel y dywedwyd, mae ein hadroddiad ar gynllun teithio rhatach yn tynnu sylw at y rôl bwysig sydd gan gynlluniau fel Bwcabus i'w chwarae wrth wella cysylltedd i bobl ifanc yn ein hardaloedd gwledig. Rydym yn cytuno'n gryf ag adroddiad Sustrans bod yn rhaid diogelu ac ehangu'r cynlluniau hyn.

In 2013, the Enterprise and Business Committee report on integrated public transport recommended that the Bwcabus network should be further expanded into other areas of rural Wales, as,

Yn 2013, argymhellodd adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar drafnidiaeth gyhoeddus integredig y dylid ehangu rhwydwaith Bwcabus ymhellach i ardaloedd eraill o fewn Cymru wledig, gan mai,

'the integration of community transport with the wider transport network "is patchy at best at the moment."'

'"tameidiog ar y gorau" yw'r integreiddio rhwng trafnidiaeth gymunedol a'r rhwydwaith trafnidiaeth ehangach ar hyn o bryd'.

That was a direct quote from the committee report.

Dyfyniad uniongyrchol o adroddiad y pwyllgor oedd hwnnw.

However, the Welsh Government only accepted expansion in principle, and suggested that stakeholders visit and learn from the Bwcabus experience. We would further encourage the Welsh Government to commence a roll-out of the Bwcabus network, engaging with local stakeholders to improve rural connectivity. This would not only serve to assist young people accessing key career opportunities but would improve the mobility of people from a range of backgrounds, such as the elderly, to access services and facilities in nearby towns.

Fodd bynnag, dim ond mewn egwyddor y derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad i ehangu, ac awgrymodd y dylai rhanddeiliaid ymweld a dysgu o brofiad Bwcabus. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru ymhellach i ddechrau cyflwyno rhwydwaith Bwcabus, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol i wella cysylltedd gwledig. Yn ogystal â helpu pobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd gyrfa allweddol, byddai hyn hefyd yn gwella symudedd pobl o amrywiaeth o gefndiroedd, megis yr henoed, o ran cael gafael ar wasanaethau a chyfleusterau mewn trefi cyfagos.

We also need to do more to develop a low-carbon network of public transport in Wales. The UK Government's green bus fund, launched by the Liberal Democrat Minister Norman Baker, along with the clean bus technology fund, has been hugely successful in supporting local authorities and bus companies on the English side of the border in investing in new low-carbon buses. The scheme was launched in 2011 with an initial £90 million to help to make bus services greener and more efficient. This is supporting jobs and manufacturing, and is helping the UK to establish itself as a world leader in low-carbon technology.

Mae angen inni wneud mwy hefyd i ddatblygu rhwydwaith carbon-isel o drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Bu cronfa bysiau gwyrdd Llywodraeth y DU, a lansiwyd gan Weinidog y Democratiaid Rhyddfrydol, Norman Baker, ynghyd â'r gronfa technoleg bysiau glân, yn llwyddiant ysgubol o ran helpu awdurdodau lleol a chwmnïau bysiau dros y ffin yn Lloegr i fuddsoddi mewn bysiau carbon isel newydd. Lansiwyd y cynllun yn 2011 gyda £90 miliwn cychwynnol er mwyn helpu i wneud gwasanaethau bysiau yn fwy gwyrdd ac yn fwy effeithlon. Mae hyn yn cefnogi swyddi a'r diwydiant gweithgynhyrchu, ac yn helpu'r DU i ymsefydlu fel arweinydd byd-eang mewn technoleg carbon-isel.

In January, for example, Milton Keynes announced a fleet of eight new electric vehicles that operate via a wireless booster charge that they receive from plates in the road at the start and the end of the route. Scotland, too, has been investing in greener public transport, with some £7.7 million since 2010 to support low-carbon buses. While some local authorities in Wales, such as Cardiff and Newport, have been trialling low-carbon options for buses, cuts to funding have not been balanced by any Welsh Government investment to support green technologies.

Ym mis Ionawr, er enghraifft, cyhoeddodd Milton Keynes fflyd o wyth cerbyd trydan newydd sy'n gweithredu drwy gyflenwad atgyfnerthu diwifr a gânt o blatiau ar y ffordd ar ddechrau a diwedd y daith. Mae'r Alban, hefyd, wedi bod yn buddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus fwy gwyrdd, gyda thua £7.7 miliwn ers 2010 i gefnogi bysiau carbon-isel. Er bod rhai awdurdodau lleol yng Nghymru, fel Caerdydd a Chasnewydd, wedi bod yn treialu opsiynau carbon-isel ar gyfer bysiau, ni chydbwyswyd toriadau ariannol gan unrhyw fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru i gefnogi technolegau gwyrdd.

So, in conclusion, we need to see more ambition and support from the Welsh Government, as Wales is falling behind currently in terms of low-carbon transport.

Felly, i gloi, mae angen i Lywodraeth Cymru ddangos mwy o uchelgais a chefnogaeth, gan fod Cymru ar ei hôl hi ar hyn o bryd o ran trafnidiaeth carbon-isel.

17:14

## Keith Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf innau, hefyd, yn falch i gyfrannu y prynhawn yma. Mae trafnidiaeth i ni yn y fan hon wastad wedi bod yn fwy na dim ond ffordd o gludiant. Mae'r linc rhwng trafnidiaeth a gwaith, addysg a threchu tlodi wastad yn un o'n blaenoriaethau. Croesawaf y ffaith bod adroddiad Silk wedi argymell datganoli pwerau dros reoleiddio bysiau yn unol â thystiolaeth Llywodraeth Cymru i'r comisiwn.

I am also pleased to contribute this afternoon. Transport, to us here, has always been more than just a means of transportation. The link between transport and work, education and tackling poverty is always one of our priorities. I welcome the fact that the Silk report has recommended the devolution of powers over bus regulation in accordance with the evidence of the Welsh Government to the commission.

Yn ôl y cyfrifiad diweddaraf, mae'r canran o gartrefi yn fy etholaeth i, Llanelli, sydd heb geir rhwng 28% a 40%. Yn enwedig yn yr ardaloedd hynny lle mae'r canran yn fwy na 50%, mae trafnidiaeth gyhoeddus yn hanfodol i waith a bywyd pob dydd. Ar y stepen drws yn Llanelli, yn aml caiff bysiau am ddim eu defnyddio gan bensiynwyr—un o ymrwymiadau etholiadol Llafur Cymru i'w gadw. Maent yn disgrifio'r lles y maent yn gwneud i'w gallu i fod yn annibynnol a'r effeithiau cymdeithasol a ddaw o hynny.

According to the latest census, the percentage of households in my constituency, Llanelli, who do not have a car is between 28% and 40%. Particularly in those areas where the percentage is more than 50%, public transport is crucial to work and daily life. On the doorstep in Llanelli, free buses are often used by pensioners—one of Welsh Labour's electoral commitments, which will be retained. They describe the benefit to them in terms of being able to be independent and the social benefits of that.

Wrth gwrs, mae'r rhaglen wastad wedi cynnwys pobl anabl a'u gofalwyr. Cafodd y cynllun ei ehangu i'r lluoedd arfog a chyn-filwyr yn 2011, hyd yn oed yn sgîl toriadau Llywodraeth San Steffan. Rwyf yn falch ein bod ni wedi gallu cadw hyn yng Nghymru. Erbyn hyn, mae dros 700,000 pas bws mewn cylchrediad, sydd yn dangos y llwyddiant.

Of course, the programme has always included disabled people and their carers. The programme was expanded to the armed forces and former soldiers in 2011, even in light of the cuts imposed by the Westminster Government. I am pleased that we have been able to retain this in Wales. Now, over 700,000 bus passes are in circulation, which demonstrates the success.

Fel sydd wedi cael ei ddweud yn barod, mae Bwcabus yn rhaglen arbennig yn y gorllewin gwledig. Mae'n helpu pobl i gael mynediad at waith, hyfforddiant a gwasanaethau allweddol drwy system sy'n ymateb i'r galw. Mae'n enghraifft o gynllun gwahanol a ffurfiwyd yn benodol i ymateb i'r galw lleol i weithredu gwasanaeth o ansawdd mewn ardaloedd gwledig. Mae'n rhoi perchnogaeth i'w ddefnyddwyr, mewn ffordd, oherwydd y gallu i fwcio'r amser a'r daith.

As has been said already, Bwcabus is an excellent programme in rural west Wales. It helps people to access work, training and crucial services through a system that meets demand. It is an example of an alternative scheme drawn up specifically to respond to the local demand to provide a high-quality service in rural areas. It gives its users control, in a sense, in that they can book their own journey.

I fi, gan fod Llanelli yn rhan o ddinas-ranbarth bae Abertawe, cludiant yw un o'r ffactorau mwyaf pwysig i'w ystyried wrth lunio'r model. O'i gymharu â'r dinas-ranbarth yn y dwyrain, bydd un y gorllewin yn fwy dibynnol ar fysiau ac yn gorfod gwneud mwy o ddefnydd ohonynt. Cafodd pwysigrwydd trafnidiaeth ei danlinellu gan gynrychiolwyr yn y gweithdy dinas-ranbarth a gynhaliwyd ym Mharc y Scarlets yn ddiweddar. Siaradodd busnesau lleol am bwysigrwydd trafnidiaeth ar gyfer mynediad i waith a gwasanaethau. Bydd angen ystyriaeth gofalus o seilwaith a chydlyniant rhwng dulliau gwahanol, gyda'r holl beth yn ganolog i anghenion defnyddwyr ac i ddileu rhwystrau. Mae strategaeth adfywio economaidd y ddinas-ranbarth yn pwyntio at yr angen i lunio trafnidiaeth fel y gall ardaloedd mwy difreintiedig fanteisio ar gyfleoedd gwaith a sicrhau nad ydynt wedi eu gwahardd o'r ardaloedd twf oherwydd prinder trafnidiaeth.

To me, as Llanelli is part of the Swansea bay city region, transport is one of the most important factors to consider in drawing up the model. In comparison with the city region in the east, that in the west will be more dependent upon buses, and will have to make greater use of them. The importance of transport was highlighted by representatives in the city region workshop event held in Parc y Scarlets recently. Local businesses talked about the importance of transport for access to work and services. We will need to give careful consideration to infrastructure and co-ordination between different modes, with all of this central to the needs of users and to removing barriers. The economic regeneration strategy of the city region points to the need to shape transport so that more disadvantaged areas can take advantage of job opportunities and to ensure that they are not excluded from growth areas because of a lack of transport.

Nid yn annisgwyl, mae ymchwil yn dangos y gall trafnidiaeth fod yn rhwystr i waith. Mae gwaith Prifysgol Caerhirfryn yn ddiddorol wrth drafod rhwystrau cost ac argaeledd i bobl ifanc di-waith ac yn tynnu ar fudd tocynnau teithio rhatach. Mae pobl ifanc ar draws y Deyrnas Unedig yn enwi cludiant fel rhwystr i waith, gan eu bod nhw ar gyfartaledd yn fwy dibynnol ar gludiant cyhoeddus ac ar incwm is.

It is not unexpected that research has shown that transport can be a barrier to work. The work of Lancaster University is interesting in discussing the barriers of cost and availability for young unemployed people and the benefit of concessionary fares. Young people across the UK name transport as a barrier to work, as, on average, they are more dependent on public transport and on lower wages.

Rwyf yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda chwmnïau bysiau i drafod tocynnau teithio rhatach i bobl ifanc. Rwyf yn gwybod bod hyn wedi digwydd gyda chwmni bws yn ne Cymru, lle rhoddir gostyngiad o 33% i'r rhai sydd rhwng 16 a 18 oed. Rwyf yn gobeithio y gall hyn fod yn fodel sydd yn cael ei weithredu yng ngweddill Cymru. Wedi'r cwbl, mae 'railcards' bobl ifanc 16 a 25 oed wedi bod yn boblogaidd iawn, hyd yn oed ymysg pobl ifanc sydd â mynediad i geir. Maent yn dweud bod y 'railcards' yn cynyddu eu defnydd o drenau. Hoffwn weld y cynllun hwn yn cael ei ehangu i fysiau hefyd.

I am pleased that the Welsh Government has been working with bus companies to discuss concessionary fares for young people. I know that this has happened with a bus company in south Wales, where there is a reduction of 33% for those aged between 16 and 18. I hope that this can be a model that is adopted across Wales. After all, young person's railcards for those aged 16 to 25 have been extremely popular, even among young people who have access to cars. They say that the railcards increase their use of the railways. I would want to see this scheme expanded to buses too.

Mae ymchwil gan Chwarae Teg a Sustrans yn ystyried effaith tocynnau tymor ar weithwyr rhan amser. Yn aml, ni allent fanteisio ar docynnau o'r fath. Petai'r un lefel o ostyngiad ar gael iddynt, byddai rhywun a fyddai'n teithio o Lanelli i Abertawe ar gyfer gwaith rhan amser yn gallu arbed £540 y flwyddyn.

Research by Chwarae Teg and Sustrans looks at the impact of season tickets on part-time workers. Often, they cannot take advantage of such tickets. If the same level of reduction were available to them, someone travelling from Llanelli for part-time work could save £540 per annum.

Roedd gweithred y Gweinidog fis Tachwedd y llynedd i wneud teithio ar drenau yn rhatach i'w groesawu, gyda'r cynnydd ym mhris tocynnau tymor yn cael ei ddal yn is na chwyddiant yng Nghymru. Yn benodol, bydd cyflwyno gostyngiad aml-docyn a fydd o fantais i weithwyr rhan amser yn hollbwysig. Hoffwn weld hyn yn cael ei ehangu hefyd.

The Minister's action in November last year to make train travel cheaper is to be welcomed, with an increase in season ticket prices being held below inflation in Wales. Specifically, the introduction of a multi-ticket reduction that would benefit part-time workers is crucial. I would like to see this expanded too.

17:19

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As well as for young people, our motion notes that the affordability of public transport often acts as a significant barrier for part-time workers. A recent paper by Sustrans and Chwarae Teg has looked at the issue of season tickets for part-time workers using rail services. Just over a quarter—26%—of workers in Wales currently work part time. This is higher than in any other part of the UK. However, the hourly wage is lower, at an average of £7.62, while full-time workers in Wales earn, on average, £11.63 per hour.

Yn ogystal â phobl ifanc, mae ein cynnig yn nodi bod fforddiadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus yn aml yn rhwystr sylweddol i weithwyr rhan-amser. Ystyriodd papur diweddar gan Sustrans a Chwarae Teg docynnau tymor i weithwyr rhan-amser sy'n defnyddio gwasanaethau rheilffordd. Mae ychydig dros chwarter—26%—o weithwyr yng Nghymru yn gweithio'n rhan-amser ar hyn o bryd. Mae hyn yn uwch nag mewn unrhyw ran arall o'r DU. Fodd bynnag, mae'r cyflog fesul awr yn is, ar gyfartaledd o £7.62, tra bod gweithwyr llawn-amser yng Nghymru yn ennill £11.63 yr awr, ar gyfartaledd.

It highlights that, while we have an array of season tickets, such as seven-day tickets, monthly, three-monthly and annual tickets, there is no discount for part-time workers who would not enjoy the benefits of a full seven-day ticket. In fact, they may lose money if they are only working two or three days a week. This means that they end up buying return tickets each day at a peak rate, which means it costs them more to travel to work than it does those who work full time and can enjoy the savings offered by a seven-day or monthly ticket.

Noda'r papur, er bod gennym amrywiaeth o docynnau tymor, megis tocynnau saith diwrnod, tocynnau misol, tocynnau tri mis a thocynnau blynyddol, nad oes unrhyw ddisgownt ar gyfer gweithwyr rhan-amser na fyddai tocyn saith diwrnod llawn o fudd iddynt. Yn wir, efallai y byddent ar eu colled os mai dim ond deuddydd neu dridiau yr wythnos y maent yn gweithio. O ganlyniad, maent yn prynu tocynnau dychwelyd bob dydd ar gyfradd brig, sy'n golygu ei fod yn costio mwy iddynt deithio i'r gwaith na'r rheini sy'n gweithio'n llawn amser ac sy'n gallu manteisio ar yr arbedion a gynigir gan docyn saith diwrnod neu docyn misol.

The Sustrans and Chwarae Teg report highlighted that a part-time season ticket for rail users in Wales could save someone £640 a year if they had the same discount as those who buy a monthly ticket, or £300 compared to a seven-day season ticket. A part-time season ticket for travelling between Llanelli and Swansea, for example, will provide an annual saving of £540.

Amlygodd adroddiad Sustrans a Chwarae Teg y gallai tocyn tymor rhan-amser i ddefnyddwyr rheilffyrdd yng Nghymru arbed £640 y flwyddyn i unigolion pe byddent yn cael yr un disgownt â'r rheini sy'n prynu tocyn misol, neu £300 o gymharu â thocyn tymor saith diwrnod. Bydd tocyn tymor rhan-amser ar gyfer teithio rhwng Llanelli ac Abertawe, er enghraifft, yn arbed £540 y flwyddyn.

At the Lib Dem annual conference last year, Norman Baker MP announced that the UK Government will be trialling a flexible or part-time season ticket in London this year, which is welcome news. The UK Government has recognised the disadvantage that many part-time workers face in being forced to make the choice between buying a season ticket that they cannot make full use of and paying peak-time fares each day to get to work, and the Government is taking steps to address that. That will put money back in the pockets of the lowest-paid workers and will help people to access work and training opportunities. It will also help to support women back into work, as figures show that only 61% of women have a driving licence, compared to 79% of men. So, they are more likely to be reliant on public transport to access work or local services. It will also support women who are looking to balance childcare needs with returning to work by reducing the cost of travel if they return to work on a part-time basis.

Yng nghynhadledd flynyddol y Democratiaid Rhyddfrydol y llynedd, cyhoeddodd Norman Baker AS y bydd Llywodraeth y DU yn treialu tocyn tymor hyblyg neu ran-amser yn Llundain eleni, sy'n newyddion da. Mae Llywodraeth y DU wedi cydnabod yr anfantais y mae llawer o weithwyr rhan-amser yn ei hwynebu wrth gael eu gorfodi i ddewis rhwng prynu tocyn tymor na allant wneud defnydd llawn ohono a thalu prisiau brig bob dydd er mwyn cyrraedd y gwaith, ac mae'r Llywodraeth yn cymryd camau i ymdrin â hynny. Bydd hynny yn dychwelyd arian i bocedi'r gweithwyr sy'n ennill y cyflog lleiaf a bydd yn helpu pobl i fanteisio ar gyfleoedd gwaith a hyfforddiant. Bydd hefyd yn helpu menywod i ddychwelyd i'r gwaith, gan fod ffigurau yn dangos mai dim ond 61% o fenywod sydd â thrwydded yrru, o gymharu â 79% o ddynion. Felly, maent yn fwy tebygol o ddibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus i fynd i'r gwaith neu i ddefnyddio gwasanaethau lleol. Bydd hefyd yn helpu menywod sy'n awyddus i gydbwyso anghenion gofal plant â'u hawydd i ddychwelyd i'r gwaith drwy leihau cost teithio os byddant yn dychwelyd i'r gwaith yn rhan-amser.

I urge the Welsh Government to examine the feasibility of introducing a part-time season ticket for bus and rail services in Wales in order to end the unfair disadvantage that part-time workers currently face in paying for public transport.

Hoffwn annog Llywodraeth Cymru i ystyried dichonoldeb cyflwyno tocyn tymor rhan-amser ar gyfer gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd yng Nghymru er mwyn rhoi terfyn ar yr anfantais annheg y mae gweithwyr rhan-amser yn ei hwynebu ar hyn o bryd wrth dalu am drafnidiaeth gyhoeddus.

A part-time season ticket would not only help those in part-time work or those seeking employment or training, it would also help to sustain our bus services by encouraging more people to use public transport services. While we have yet to see the final guidance on the new bus services support grant, which will be allocated directly to local authorities, draft guidance indicates that funding for the grant will be £25 million in 2014-15, which is a real-terms cut in funding on last year. That will cause difficulties for many bus operators, which may need to withdraw fleets. Introducing a part-time season ticket will help to sustain bus services and ensure that we continue to have an affordable and accessible public transport service across Wales. That is important not just for young people, part-time workers or those in rural areas, but for the many disabled people in Wales.

Byddai tocyn tymor rhan-amser nid yn unig yn helpu'r rhai sydd mewn gwaith rhan-amser neu'r rhai sy'n chwilio am waith neu hyfforddiant, byddai hefyd yn helpu i gynnal ein gwasanaethau bysiau drwy annog mwy o bobl i ddefnyddio gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Er nad ydym wedi gweld y canllawiau terfynol ar y grant cynnal gwasanaethau bysiau newydd eto, a fydd yn cael eu dyrannu'n uniongyrchol i awdurdodau lleol, awgryma'r canllawiau drafft y bydd grant o £25 miliwn yn 2014-15, sy'n doriad yn y cyllid mewn termau real o gymharu â'r llynedd. Bydd hynny'n achosi anawsterau i nifer o weithredwyr bysiau, y bydd angen iddynt dynnu fflydoedd yn ôl o bosibl. Bydd cyflwyno tocyn tymor rhan-amser yn helpu i gynnal gwasanaethau bysiau a sicrhau ein bod yn parhau i gael gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus fforddiadwy a hygyrch ledled Cymru. Mae hynny'n bwysig, nid yn unig i bobl ifanc, gweithwyr rhan-amser neu'r rhai mewn ardaloedd gwledig, ond i'r nifer fawr o bobl anabl yng Nghymru.

The RNIB highlights that there are nearly 100,000 people in Wales living with sight loss, and that this figure will increase over the next 25 years with an ageing population. Blind and partially sighted people rely heavily on public transport for most of their everyday journeys to travel to work or to access local services. It is a critical enabler for their independence.

Mae'r RNIB yn nodi bod bron 100,000 o bobl yng Nghymru sydd wedi colli eu golwg mewn rhyw ffordd, ac y bydd y ffigur hwn yn cynyddu dros y 25 mlynedd nesaf, gyda phoblogaeth sy'n heneiddio. Mae pobl ddall a rhannol ddall yn dibynnu'n fawr ar drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer y rhan fwyaf o'u teithiau bob dydd er mwyn teithio i'r gwaith neu i ddefnyddio gwasanaethau lleol. Mae'n ffordd hanfodol o'u galluogi i fod yn annibynnol.

In a survey conducted by the RNIB, nearly half of blind and partially sighted people said that they feel moderately or completely cut off from people and things around them, and 43% would like to leave their homes more often. However, for this to happen, we need to maintain a reliable public transport service so that, when catching a bus, a blind or partially sighted person can be sure that, when a vehicle arrives, it is a the right one. We also need to roll out on buses and trains announcements when the relevant stop is reached in order to help people in that particular situation.

Mewn arolwg a gynhaliwyd gan yr RNIB, dywedodd bron hanner y bobl ddall a rhannol ddall eu bod yn teimlo eu bod wedi eu datgysylltu oddi wrth bobl a phethau o'u cwmpas yn gyfan gwbl neu i ryw raddau, a byddai 43% yn dymuno gadael eu cartrefi yn amlach. Fodd bynnag, er mwyn i hyn ddigwydd, mae angen inni gynnal gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus dibynadwy er mwyn sicrhau, wrth ddal bws, y gall person dall neu rannol ddall fod yn sicr, pan fydd cerbyd yn cyrraedd, mai'r un cywir ydyw. Mae angen inni hefyd gyflwyno cyhoeddiadau ar fysiau a threnau pan gyrhaeddir yr arhosfan berthnasol er mwyn helpu pobl yn y sefyllfa benodol honno.

Investment in community transport is also key in rural areas to ensure that, where public transport is limited, disabled people still have access to a service that enables them to get into the local community, supporting their wellbeing. Cuts to bus services have wide impacts, and the Welsh Government must consider the need to have a wide range of users in planning services. I hope that our motion today offers some constructive ideas to help to sustain our public transport services, which are so vital to so many people in Wales.

Mae buddsoddi mewn cludiant cymunedol hefyd yn allweddol mewn ardaloedd gwledig er mwyn sicrhau, lle mae trafnidiaeth gyhoeddus yn brin, fod pobl anabl yn parhau i allu defnyddio gwasanaeth sy'n eu galluogi i fod yn rhan o'r gymuned leol, gan gefnogi eu lles. Mae toriadau i wasanaethau bysiau yn cael effeithiau pell-gyrhaeddol, a rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried yr angen i gael ystod eang o ddefnyddwyr yn y gwasanaethau cynllunio. Gobeithio y bydd ein cynnig heddiw yn cyflwyno rhai syniadau adeiladol er mwyn helpu i gynnal ein gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, sydd mor hanfodol i gynifer o bobl yng Nghymru.

17:24 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Fel y gwyddoch chi, nid wyf yn ffan mawr o'r dadleuon hyn ar brynhawn dydd Mercher, ond rwyf wedi mwynhau heddiw oherwydd fy mod wedi cael siarad ddwywaith, yn amlwg, ond hefyd oherwydd ein bod wedi cael cyfres o ddadleuon ar drafnidiaeth. Rwyf yn meddwl bod y dadleuon hyn yn dangos maint y cytundeb sydd ar draws y pleidiau ond hefyd bwysigrwydd cysylltu fel ffordd o fyw, ffordd o gymdeithasu, ffordd o deithio ar gyfer gwaith, ac ar gyfer cysylltiad de-gogledd a dwyrain-gorllewin. Mae'r holl ffordd honno o feddwl am drafnidiaeth yn rhywbeth y mae'n rhaid inni ei fabwysiadu. Mae'n rhaid i unrhyw ffordd felly o feddwl yng Nghymru fod â'r gair 'integredig' ar y top bob amser, oherwydd gwendid y gyfundrefn yr ydym wedi ei hetifeddu ar y rheilffyrdd—a chawn glywed eto yr hyn fydd gan Simon Thomas i'w ddweud am y siwrnai dros raeadr Ceredig, neu beth bynnag yw enw'r lle hwnnw yn Nhregaron; rwyf wedi anghofio—yw bod y cysylltiad rheilffordd yn annigonol oherwydd yr hyn sydd wedi digwydd yn y gorffennol. Mae'n rhaid i unrhyw ddatblygiad trafnidiaeth fod yn ddatblygiad integredig oherwydd hynny.

As you know, I am no great fan of these Wednesday afternoon debates, but have enjoyed today because I have had the opportunity to speak twice, obviously, but also because we have had a series of debates on transport. I do think that these debates demonstrate the consensus on a cross-party basis but also the importance of connectivity as a way of life, a way of socialising, a way of travelling to work, and for the north-south and east-west connections. This whole way of thinking about transport is something that we must adopt. Any such way of thinking about transport in Wales must always concentrate on the word 'integrated', because the weakness of the system that we have inherited in terms of the railways—and we will hear later what Simon Thomas has to say about the journey over Ceredig falls, or whatever the name of that place is in Tregaron; I cannot quite recall—is that rail connection is inadequate because of what has happened in the past. Any transport development has to be integrated development because of that.

Mae hyn yn arbennig o bwysig yn achos pobl ifanc, oherwydd mae eisiau iddynt allu teithio yn ddiogel, a theithio'n ddiogel ar wahanol adegau yn y dydd. Croesawaf yn fawr yr hyn sydd wedi cael ei gynnig heddiw gan y Rhyddfrydwyr Democrataidd. Fodd bynnag, nid yw cyfyngu hynny at fysiau'n unig yn mynd i fod yn effeithiol. Mae gennym enghraifft: rydym ni sy'n ddefnyddwyr hŷn, deiliaid y tocyn teithio rhatach, yn gallu teithio yn rhad ac am ddim ar y rheilffordd o Flaenau Ffestiniog i Landudno ac yn ôl—a beth arall ydych eisiau yn well? Fodd bynnag, rwyf hefyd yn gallu teithio yn yr un modd ar fysiau drwy Gymru. Wrth edrych ar y cynllun pobl ifanc, rwy'n meddwl bod yn rhaid inni edrych ar egwyddor fel honno.

This is particularly important in the case of young people, because they need to travel safely, and travel safely at different times of the day and night. I warmly welcome what has been proposed today by the Liberal Democrats. However, limiting that to buses alone is not going to be effective. We have an example: those of us who are older users, and holders of concessionary tickets, can travel free of charge on the railway from Blaenau Ffestiniog to Llandudno and back—and what else could one desire? However, I can also travel in the same way on buses throughout Wales. In looking at proposals for young people, I think that we should look at a principle such as that.

Carwn wybod gan y Gweinidog lle rydym arni o ran y dechnoleg ar gyfer cardiau Go Cymru a'r holl bethau a ddatblygwyd yn wreiddiol, wrth gwrs, gan y Gweinidog trafnidiaeth enwog hwnnw, Ieuan Wyn Jones, yn Llywodraeth Cymru'n Un.

I would like to hear from the Minister where we are in terms of the Go Cymru card technology and everything that was originally developed, of course, by the that famous Minister for transport, Ieuan Wyn Jones, as part of the One Wales Government.

Rwy'n meddwl hefyd ei bod yn bwysig iawn inni edrych hefyd ar y cysylltiad rhwng unrhyw gynllun teithio rhatach a cheisio creu cyfundrefn a siwrneiau a fydd yn gallu talu yn fasnachol ar adegau o'r dydd. Credaf mai dyma un o'r gwendidau yn y modd y mae'r gyfundrefn yn gweithio ar hyn o bryd. Yn amlwg, gallai tocynnau teithio rhan amser helpu yn y cyfeiriad hwnnw. Rwy'n meddwl hefyd fod yn rhaid inni edrych ymlaen tuag at y fasnachfraint newydd ar gyfer y rheilffyrdd a meddwl am sut y gallai cyfundrefn fasnachfraint debyg yn y meysydd bysiau gydweithio â hi. Os ydym yn cynllunio'r rhain ar wahân, ni chawn fyth gyfundrefn integredig. Dyna yr oeddwn yn ceisio ei awgrymu pan wnes i'r camgymeriad, yn amlwg, yn y ddadl gynharach o gyfeirio at drafnidiaeth yn Llundain. Nid mater o faint oedd yr hyn a oedd gennyf dan sylw, ond y drefn lle mae yna gyfuniad rhwng rheoleiddio trafnidiaeth a masnachfreintiau penodol ar gyfer cwmnïau bysiau ar deithiau penodedig. Rwy'n meddwl unwaith y cawn arwydd y bydd gennym gyfundrefn ddatganoledig ynglŷn â rheolaeth bysiau dylem allu cynllunio ar gyfer hyn ochr yn ochr â chynllunio'r fasnachfraint rheilffyrdd. Canlyniad hynny i gyd fyddai ein bod ni'n creu sefyllfa o reolaeth gyhoeddus a dynodiad gwasanaeth gyda gweithrediad preifat—llawer ohono, gobeithio, gan gwmnïau bychain newydd a fyddai'n gallu cystadlu â'i gilydd, ond ar yr ochr cyflenwad, nid ar ochr darpariaeth ar gyfer y cwsmer.

I also think that it is very important that we also look at the link between any proposal for concessionary travel and an attempt to create a system and journeys that can be commercially viable at certain times of the day. I think that this is one of the weakness in the way in which the transport system currently works. Clearly, concessionary travel cards for those working part time could have a contribution to make there. I think also that we need to look towards the new rail franchise and think about how a similar franchise system for buses could dovetail with it. If we are planning these separately, we will never achieve an integrated system. That is what I was seeking to suggest when I made the mistake, clearly, in the earlier debate of referring to transport in London. It is not a matter of scale, that is not what I was addressing, but the regime where there is a link between transport regulation and specific franchises for bus companies on specific routes. I do think that once we get a signal that we will have a devolved regime in terms of bus regulation we should be able to plan for this alongside planning the rail franchise. The outcome of all that would be that we could create a situation whereby there is public control and designation of services with private operation—much of it, hopefully, by new small companies that could compete with each other, but on the supply side, rather than on the side of provision for passengers.

17:28

## Julie James Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I agree with the last speaker very much that these debates are showing a remarkable amount of consensus across the Chamber, and I want to agree with a number of Members in my first remarks. First, I welcome the Silk commission's proposals for increased devolution and allowing us the possibility of reregulation of at least some bus services in Wales, which would allow us to achieve the kind of integration that we know is absolutely necessary in order to achieve modal shift. People will not leave their car at home or, even better, not buy a car, unless they are absolutely certain that those services will continue to be available and will not suddenly disappear because there is a change in the commercial viability of a route. So, I think that is the first point that it is very important to make, before we even discuss fares.

Cytunaf â'r siaradwr diwethaf yn fawr iawn bod y dadleuon hyn yn esgor ar gonsensws rhyfeddol yn y Siambr, a hoffwn gytuno â nifer o'r Aelodau yn fy sylwadau cyntaf. Yn gyntaf, croesawaf gynigion comisiwn Silk ynglŷn â mwy o ddatganoli a chaniatáu inni'r posibilrwydd o ailreoleiddio o leiaf rai gwasanaethau bysiau yng Nghymru, a fyddai'n ein galluogi i gyflawni'r math o integreiddio y gwyddom ei fod yn gwbl angenrheidiol er mwyn cyflawni newid moddol. Ni fydd pobl yn gadael eu ceir gartref neu hyd yn oed yn well, peidio â phrynu car, oni bai eu bod yn gwbl sicr y bydd y gwasanaethau hynny yn parhau i fod ar gael ac na fyddant yn diflannu yn sydyn am bod newid yn hyfywedd masnachol llwybr. Felly, dyna'r pwynt cyntaf, fe gredaf, y mae'n bwysig iawn ei wneud, cyn inni hyd yn oed drafod prisiau.

I also want to highlight the Chwarae Teg manifesto, which was mentioned by Julie Morgan among many others, and commend that to the Government in terms of it being a good exposition of the issues facing many women and part-time workers in their transport lives and of the enormous economic impact we could have if we implemented some of those proposals.

Hoffwn hefyd dynnu sylw at faniffesto Chwarae Teg, a grybwyllwyd gan Julie Morgan ymhlith llawer, a'i gymeradwyo i'r Llywodraeth am ei fod yn cynnig esboniad da o'r problemau sy'n wynebu llawer o fenywod a gweithwyr rhan-amser yn eu bywydau trafnidiaeth ac o'r effaith economaidd enfawr y gallem ei sicrhau pe baem yn gweithredu rhai o'r cynigion hynny.

Multi-use discounts are another area where there is near consensus across the Chamber. We have to be a little careful with the commercial operators. For example, a season ticket with First Cymru in my area is only £1 cheaper over five days than just buying a ticket every day. It is £9 cheaper if you extend that to seven days, but most workers do not use it for seven days—they only use it for five days, so, in fact, it is only £1 cheaper. That is worth bearing in mind when we are talking about these discounts; I do not think that that would make very much difference to most part-time workers, for example.

Mae gostyngiadau aml-ddefnydd yn faes arall lle mae consensws llwyr bron yn y Siambr. Rhaid inni fod ychydig yn ofalus gyda'r gweithredwyr masnachol. Er enghraifft, mae tocyn tymor gan First Cymru yn fy ardal i ond yn £1 yn rhatach dros gyfnod o bum diwrnod na phrynu tocyn bob dydd. Mae'n £9 yn rhatach os ydych yn estyn hynny i saith diwrnod, ond nid yw'r rhan fwyaf o weithwyr yn ei ddefnyddio am saith diwrnod—maent ond yn ei defnyddio am bum diwrnod, felly, dim ond £1 yn rhatach ydyw mewn gwirionedd. Mae hynny'n werth ei gofio pan soniwn am y gostyngiadau hyn; ni chredaf y byddai hynny'n gwneud rhyw lawer o wahaniaeth i'r rhan fwyaf o weithwyr rhan-amser, er enghraifft.

The issue about youth transport concessions is a very important one, but, again, we need to have some power to make sure that the services on which we have concessionary fares link up with some of the events and schemes that we want young people to go to. There is very little point in having concessionary fares, as you often see in my area—the Minister is very familiar with this—which are for services that are very under-used and do not get you anywhere on time to partake, for example, in a youth festival or play scheme that is starting elsewhere in the city. So, those commercial decisions can undermine the whole purpose of the scheme.

Mae mater prisiau gostyngol i bobl ifanc yn un pwysig iawn, ond, unwaith eto, mae angen inni gael rhywfaint o bŵer i sicrhau bod y gwasanaethau lle y ceir tocynnau rhatach yn cysylltu â rhai o'r digwyddiadau a'r cynlluniau yr ydym am i bobl ifanc fynd iddynt. Nid oes fawr o ddiben mewn prisiau gostyngol, fel y gwelwch yn aml yn fy ardal i—mae'r Gweinidog yn gyfarwydd iawn â hyn—ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu tanddefnyddio ar raddfa fawr ac nad ydynt yn mynd â chi i unrhyw le ar amser i gymryd rhan, er enghraifft, mewn gŵyl ieuenctid neu gynllun chwarae sy'n dechrau mewn man arall yn y ddinas. Felly, gall y penderfyniadau masnachol hynny danseilio holl bwrpas y cynllun.

The last point that I want to make is a new one in the Chamber, namely that we now have a very good Active Travel (Wales) Act 2013 that we are very proud of, and which we worked very hard to achieve as a Chamber. However, we do not have any bus companies that I am aware of that will allow you to take a bike on the bus. Some bus carriers will allow you to take a folding bike on the bus, but when you live in a constituency such as mine—as will be the case in many rural areas of Wales, but mine is a city constituency—the trip away from your home down to the event is a very pleasant one on a bike because it is all downhill. However, the trip home is very unpleasant and extremely steep, therefore people simply do not take their bike. If they were allowed to stick that bike on a bus to go back up the hill, a lot more people would do that, which would be commended. I have not been able to find any bus company in the UK that carries bikes, but the Minister will be aware that enormous numbers of bus companies in continental Europe and in places such as California carry full-size bikes all the time, with bike carriers on the front or back of the bus that you pop your bike onto if you want to travel a slightly further distance, or, indeed, back up Constitution Hill in my constituency. I commend that point in particular to the Minister.

Mae'r pwynt olaf yr wyf am ei wneud yn un newydd yn y Siambr, sef bod Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ar waith gennym erbyn hyn, Mae'n ddeddf dda iawn yr ydym yn falch iawn ohoni, a buom yn gweithio'n galed iawn i'w chyflawni fel Siambr. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gwmnïau bysiau, am wn i, sy'n caniatáu i chi fynd â beic ar y bws. Bydd rhai bysiau yn caniatáu i chi i fynd â beic plygu ar y bws, ond os ydych yn byw mewn etholaeth fel fy un i—fel sy'n wir am lawer o ardaloedd gwledig Cymru, ond etholaeth ddinesig yw fy etholaeth i—mae'r daith o'ch cartref i'r digwyddiad yn un ddymunol iawn ar gefn beic am eich bod yn teithio i lawr rhiw yr holl ffordd. Fodd bynnag, mae'r daith adref yn annymunol iawn ac yn hynod serth, felly, nid yw pobl yn defnyddio eu beiciau. Pe baent yn cael rhoi'r beic hwnnw ar fws er mwyn mynd yn ôl i fyny'r rhiw, byddai llawer mwy o bobl yn gwneud hynny, a fyddai'n rhywbeth i'w gymeradwyo. Nid wyf wedi gallu dod o hyd i unrhyw gwmni bysiau yn y DU sy'n cludo beiciau, ond bydd y Gweinidog yn ymwybodol bod niferoedd mawr o gwmnïau bysiau ar gyfandir Ewrop ac mewn mannau megis California yn cludo beiciau maint llawn drwy'r amser, gyda chludwr beic ar du blaen neu du cefn i'r bws rydych yn gosod eich beic ynddo os ydych am deithio ychydig ymhellach, neu, yn wir, yn ôl i fyny Constitution Hill yn fy etholaeth i. Cymeradwyaf y pwynt hwnnw yn arbennig i'r Gweinidog.

17:32

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I call the Minister, for Economy, Science and Transport, Edwina Hart.

Galwaf ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Edwina Hart.

17:32

## Edwina Hart [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

I now have this vision of Julie James, Peter Black, Byron Davies and all of them all cycling up Constitution Hill after an evening out in Swansea. I think that the leader of the local authority does not live far from there, so perhaps we could encourage regular activity for him as well.

Yn fy meddwl i, gallaf yn awr weld Julie James, Peter Black, Byron Davies a phob un ohonynt yn mynd i fyny Constitution Hill ar gefn beic ar ôl noson allan yn Abertawe. Nid yw arweinydd yr awdurdod lleol yn byw nepell oddi yno, fe gredaf, felly efallai y gallem annog ymarfer corff rheolaidd iddo yntau hefyd.

Our public transport system plays a vital part in supporting the economic competitiveness of Wales by providing good access to jobs and services, including in our more rural communities where community transport also plays a very important role. I totally agree with Lord Dafydd Elis-Thomas that our approach should be to have an integrated system, which is key to all of the discussions on these particular issues. He mentioned the new rail franchise and how that will link to bus routes. In an earlier discussion, we had all the problems highlighted about where the train goes in mid Wales and when there is no bus, because the bus has gone just before the train. So, it is very important that we look at that.

Mae ein system drafnidiaeth gyhoeddus yn chwarae rhan hanfodol i gefnogi cystadleurwydd economaidd Cymru drwy ddarparu mynediad da at swyddi a gwasanaethau, gan gynnwys yn ein cymunedau mwy gwledig lle mae trafnidiaeth gymunedol hefyd yn chwarae rôl bwysig iawn. Cytunaf yn llwyr â'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas y dylem fynd ati i greu system integredig, sy'n allweddol i'r holl drafodaethau ar y materion penodol hyn. Soniodd am y fasnachfraint rheilffyrdd newydd a sut y bydd yn cysylltu â llwybrau bysiau. Mewn trafodaeth gynharach, tynnwyd sylw at yr holl broblemau ynglŷn â lle mae'r trên yn mynd yn y canolbarth a lle nad oes bws, am fod y bws newydd fynd cyn y trên. Felly, mae'n bwysig iawn ein bod yn edrych ar hynny.

The key to this is the commercial viability of services and to encourage greater use of services, so that we do not have to put the level of subsidies in that we currently do to maintain services. It means that we can get a better balance in terms of resources. When Eluned Parrott moved the motion, she said that things have to be cost-effective and that we have to look at how we deal with issues. That is an important caveat in these discussions. We recognise that safe and affordable public transport is the key to enabling young people to access work, education, training and apprenticeships. It is also important for us to recognise that this is a group that really needs help and assistance, particularly in terms of finding employment. Our funding support for bus and community services is likely to be under considerable pressure for the foreseeable future, therefore it needs to be targeted to achieve more of the outcomes that passengers wish to see.

Yr allwedd i hyn yw hyfywedd masnachol y gwasanaethau ac annog mwy o ddefnydd o wasanaethau, fel nad oes rhaid inni roi'r lefel o gymorthdaliadau yr ydym yn ei rhoi ar hyn o bryd er mwyn cynnal gwasanaethau. Mae'n golygu ein bod yn gallu cael gwell cydbwysedd o ran adnoddau. Pan gynigiodd Eluned Parrott y cynnig, dywedodd fod yn rhaid i bethau fod yn gosteffeithiol a bod yn rhaid inni edrych ar y ffordd yr ydym yn ymdrin â materion. Mae hynny'n amod pwysig yn y trafodaethau hyn. Rydym yn cydnabod bod trafnidiaeth gyhoeddus ddiogel a fforddiadwy yn allweddol i alluogi pobl ifanc i gael gwaith, addysg, hyfforddiant a phrentisiaethau. Mae hefyd yn bwysig inni gydnabod bod hwn yn grŵp sydd wir angen help a chymorth arnynt, yn enwedig i ddod o hyd i waith. Mae ein cymorth ariannol ar gyfer gwasanaethau bysiau a chymunedol yn debygol o fod o dan gryn bwysau yn y dyfodol agos, felly mae angen ei dargedu i gyflawni mwy o'r canlyniadau y mae teithwyr yn dymuno eu gweld.

William Powell particularly concentrated on the Green Bus fund. I am aware that the Green Bus fund has supported the introduction of alternative-fuel buses that have been operating in England and Scotland for some time. We have to recognise in the discussion in Wales that the Wales rate of financial support for bus operators is much higher than elsewhere in the UK, so that was the balance that we struck on funding. However, one of the issues that I will want my bus policy advisory group to look at is the issue that you have raised on green buses and how we can deal with that agenda. Within the limits of funding, that is something it will certainly have to focus on.

Canolbwyntiodd William Powell yn benodol ar gronfa'r Bws Gwyrdd. Rwy'n ymwybodol bod cronfa'r Bws Gwyrdd wedi helpu i gyflwyno bysiau sy'n defnyddio tanwydd amgen sydd wedi bod yn gweithredu yn Lloegr a'r Alban ers peth amser. Rhaid inni gydnabod yn y drafodaeth yng Nghymru fod cyfradd Cymru o gymorth ariannol i weithredwyr bysiau yn llawer uwch nag mewn mannau eraill yn y DU, felly dyna oedd y cydbwysedd a gafodd ei daro gennym o ran cyllid. Fodd bynnag, un o'r materion yr wyf am i'm grŵp cynghori ar bolisi bysiau ei ystyried yw'r mater yr ydych wedi'i godi ynglŷn â bysiau gwyrdd a sut y gallwn ddelio â'r agenda honno. O fewn cyfyngiadau'r cyllid, mae hynny'n rhywbeth y bydd yn rhaid iddo ganolbwyntio arno, yn sicr.

In his contribution, Peter Black also looked at some of the issues that I think are particularly important, and notably disability issues. There is an issue of the accessibility of public transport and how people can have another life if they can access public transport if they have disabilities. It raises very interesting points about how things are dealt with currently, not just in terms of bus services but with regard to how the current Arriva franchise runs. I have heard some horror stories about what has happened to people with hearing difficulties and other disabilities on the service and what is happening with the arrangements that we have in the current franchise. We have to explore that.

Yn ei gyfraniad, edrychodd Peter Black hefyd ar rai o'r materion sy'n arbennig o bwysig yn fy marn i, a materion anabledd yn benodol. Cyfyd mater o ran hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus a sut y gall pobl gael bywyd arall os gallant ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus os oes ganddynt anableddau. Mae'n codi pwyntiau diddorol iawn ynghylch sut yr ymdrinnir â phethau ar hyn o bryd, nid yn unig o ran gwasanaethau bysiau, ond o ran sut mae masnachfraint bresennol Arriva yn gweithredu. Rwyf wedi clywed rhai straeon ofnadwy ynglŷn â'r hyn sydd wedi digwydd i bobl ag anawsterau clyw ac anableddau eraill ar y gwasanaeth a'r hyn sy'n digwydd gyda'r trefniadau sydd gennym yn y fasnachfraint bresennol. Rhaid inni edrych ar hynny.

The affordability issue, particularly for part-time workers, was illustrated by Peter Black in the discussion and by the points that Julie James made. They both referred to the Chwarae Teg report. It is really quite important that we recognise that about part-time workers. However, I think that Julie's further point was about the fares mechanisms that exist. If you are going to go for discount arrangements because you are having a pass for more than three or four days, you have got to be able to see that it is a financial benefit. So, these are some of the funding issues that we will have to have a look at. I also have to say that a lot of comment has been made about the Bwcabus by a number of speakers. I think that Keith Davies alluded to it. We have continued our financial support for the Bwcabus services in rural south-west Wales until March 2015. I am particularly keen that local authorities look at the experience around the Bwcabus, because it has had a very positive impact in the areas where it has operated. Another very good example is the Grassroots project in Monmouthshire, which has also been very positive in terms of how it has delivered services. So, there are some good areas and I hope that the bus policy advisory group will look at how we review our policy in all the areas and strands that have been discussed today. It is also got to look at best practice throughout the UK. I was very interested in the comments about what is going on elsewhere in the UK. That is why I think it is very important that some of the projects I am initiating with Ceredigion and the Vale will help to develop integrated transport units and integrated transport solutions in their areas. These trials will include robust evaluation criteria to establish the success and potential for adoption elsewhere in Wales.

Disgrifiwyd mater fforddiadwyedd, yn enwedig i weithwyr rhan-amser, gan Peter Black yn y drafodaeth a chan y pwyntiau a wnaeth Julie James. Cyfeiriodd y ddau at adroddiad Chwarae Teg. Mae'n eithaf pwysig ein bod yn cydnabod hynny ynglŷn â gweithwyr rhan-amser. Fodd bynnag, credaf fod pwynt pellach Julie yn ymwneud â'r dulliau o bennu prisiau sy'n bodoli. Os ydych yn mynd i ddewis trefniadau prisiau gostyngol am eich bod yn prynu tocyn am fwy na thri neu bedwar diwrnod, rhaid ichi fod yn gallu gweld ei fod yn fuddiol yn ariannol. Felly, dyma rai o'r materion cyllid y bydd yn rhaid inni edrych arnynt. Rhaid imi ddweud hefyd fod llawer o siaradwyr wedi sôn am y Bwcabus. Credaf i Keith Davies gyfeirio ato. Rydym wedi parhau â'n cymorth ariannol i wasanaethau Bwcabus yn ardaloedd gwledig y de-orllewin tan fis Mawrth 2015. Rwy'n awyddus iawn bod awdurdodau lleol yn edrych ar brofiad Bwcabus, am ei fod wedi cael effaith gadarnhaol iawn yn yr ardaloedd lle y mae wedi gweithredu. Enghraifft dda iawn arall yw prosiect Grassroots yn Sir Fynwy, sydd hefyd wedi bod yn gadarnhaol iawn o ran sut y mae wedi darparu gwasanaethau. Felly, mae rhai meysydd da a gobeithio y bydd y grŵp cynghori ar bolisi bysiau yn edrych ar y ffordd yr ydym yn adolygu ein polisi ym mhob un o'r meysydd a drafodwyd heddiw. Rhaid iddo hefyd edrych ar arfer gorau ledled y DU. Roedd gennyf ddiddordeb mawr yn y sylwadau am yr hyn sy'n digwydd mewn mannau eraill yn y DU. Dyna pam y credaf ei bod yn bwysig iawn y bydd rhai o'r prosiectau yr wyf yn eu sefydlu â Cheredigion a'r Fro yn helpu i ddatblygu unedau trafnidiaeth integredig ac atebion trafnidiaeth integredig yn eu hardaloedd. Bydd y treialon hyn yn cynnwys meini prawf gwerthuso cadarn er mwyn sefydlu llwyddiant a'r potensial i'w mabwysiadu mewn mannau eraill yng Nghymru.

There is an option to focus on discounted travel for young people and those who are not in education, employment or training. That may well be investigated as part of these pilot schemes. We also need to find improved ways for people to access healthcare, which is a point that was made in the debate, because that is one of the priorities of the work that I jointly commissioned with the Minister for Health and Social Services. So, we need to explore all of these issues.

Gellir canolbwyntio ar deithio am bris gostyngol i bobl ifanc a'r rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae'n ddigon posibl y caiff hynny ei archwilio fel rhan o'r cynlluniau peilot hyn. Mae angen hefyd inni ddod o hyd i ffyrdd gwell o sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar ofal iechyd, sy'n bwynt a wnaethpwyd yn y ddadl, gan fod hynny'n un o flaenoriaethau'r gwaith yr wyf wedi ei gomisiynu ar y cyd â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Felly, mae angen inni edrych ar yr holl faterion hyn.

On young people's concessionary fares, I think that the points have been well made, and I am more than happy for that the Government to support this motion today, because I think that it is important in terms of how we develop this particular agenda. We have to recognise that this is an agenda that we have to get right. I am not saying that this is something that will be undertaken overnight, but we will have the initial work from my group and it can then flesh out the areas it needs to do further work on. If I am able to, I will keep the Assembly apprised to make sure that we have the united response we have at the moment with regard to the essential nature of some of the services that we need to develop.

O ran tocynnau teithio rhatach i bobl ifanc, credaf i bwyntiau da gael eu gwneud, ac rwy'n fwy na pharod i'r Llywodraeth gefnogi'r cynnig hwn heddiw, gan fy mod yn credu ei fod yn bwysig o ran sut rydym yn datblygu'r agenda benodol hon. Rhaid inni gydnabod bod hon yn agenda y mae'n rhaid inni ei chael yn iawn. Nid wyf yn dweud bod hyn yn rhywbeth a fydd yn cael ei wneud dros nos, ond cawn y gwaith cychwynnol gan fy ngrŵp ac yna gall ymhelaethu ar y meysydd y mae angen iddo wneud gwaith pellach arnynt. Os gallaf, byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad er mwyn sicrhau ein bod yn cael yr ymateb unedig fel sydd gennym ar hyn o bryd mewn perthynas â natur hanfodol rhai o'r gwasanaethau y mae angen inni eu datblygu.

At the end of the day, it is important for us all to recognise that this will have to be a partnership. Local government will have to be our partner in this. There must be an understanding that you cannot, because you have problems within your budget, just start to unthinkingly cut services, which then has an impact on lots of other issues, such as people's ability to travel to work, socialise, access education, and so on. You have got to think outside the box and ask, 'If I'm doing this, what other unintended consequences do I have? I might be saving £50,000 or £100,000, but what extra pressure am I putting on other budget areas and on other individuals by taking those decisions?' In addition, the bus operators have looked very innovatively at some of the services that they provide, but I am very keen to get a good mix of bus operators and I need to recognise in particular that, in some rural areas and in some urban deprived areas, there are small operators that also have a part to play and a role and a function—it is not just the big operators. It is important that we have diversity in this agenda, that we have a common understanding and that we understand the financial position that we are in. However, at the end of the day, there is nothing more important than getting people out of their homes if they need to get out of their homes to socialise and especially for economic activity and to support those who are seeking employment who find, currently, that some of the rises in fares are almost unacceptable. However, key to this is to have an integrated approach and I am very pleased that, as a Government, we will be supporting this motion. We have had an excellent discussion on this motion this afternoon and I hope that we can make good progress. I will certainly keep the Chamber updated on the progress of my group, because I think that there is very little that divides us in terms of the outcomes that we all require.

Yn y pen draw, mae'n bwysig inni i gyd gydnabod y bydd yn rhaid i hyn fod yn bartneriaeth. Bydd yn rhaid i lywodraeth leol fod yn bartner inni yn hyn o beth. Rhaid cael dealltwriaeth na allwch, am eich bod yn cael problemau o fewn eich cyllideb, ddechrau torri gwasanaethau'n ddifeddwl, sydd wedyn yn cael effaith ar lawer o faterion eraill, megis gallu pobl i deithio i'r gwaith, cymdeithasu, cael addysg, ac yn y blaen. Rhaid ichi feddwl yn ddychmygus a gofyn, 'Os wyf yn gwneud hyn, pa ganlyniadau anfwriadol eraill fydd? Efallai y byddaf yn arbed £50,000 neu £100,000, ond pa bwysau ychwanegol yr wyf yn eu rhoi ar feysydd eraill o'r gyllideb ac ar unigolion eraill drwy wneud y penderfyniadau hynny? Yn ogystal, mae'r gweithredwyr bysiau wedi edrych ar rai o'r gwasanaethau y maent yn eu darparu mewn ffordd arloesol iawn, ond rwy'n awyddus iawn i gael cymysgedd da o weithredwyr bysiau ac mae angen imi gydnabod yn benodol, mewn rhai ardaloedd gwledig ac mewn rhai ardaloedd trefol difreintiedig, fod gan weithredwyr bach ran i'w chwarae a rôl a swyddogaeth—nid yn unig y gweithredwyr mawr. Mae'n bwysig bod gennym amrywiaeth yn yr agenda hon, bod gennym ddealltwriaeth gyffredin a'n bod yn deall y sefyllfa ariannol a wynebwn. Fodd bynnag, yn y pen draw, nid oes dim byd pwysicach na chael pobl allan o'u cartrefi os oes angen iddynt adael y tŷ i gymdeithasu ac ymgymryd â gweithgarwch economaidd yn enwedig a chefnogi'r rhai sy'n chwilio am waith, y mae'r rhai o'r codiadau yn y prisiau bron yn annerbyniol iddynt. Fodd bynnag, yr allwedd i hyn yw cael ymagwedd integredig ac rwy'n falch iawn y byddwn ni, fel Llywodraeth, yn cefnogi'r cynnig hwn. Rydym wedi cael trafodaeth ragorol ar y cynnig hwn y prynhawn yma a gobeithio y gallwn wneud cynnydd da. Byddaf yn sicr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr ar gynnydd fy ngrŵp, oherwydd credaf nad oes fawr o wahaniaeth barn o ran y canlyniadau yr ydym oll yn gofyn amdanynt.

17:40

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Kirsty Williams to reply to the debate.

Galwaf ar Kirsty Williams i ymateb i'r ddadl.

17:40

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I begin by thanking colleagues across the Chamber for their very positive responses and their contributions to this debate this afternoon. I was particularly glad to hear the contribution from Dafydd Elis-Thomas behind me—

Dechreuaf drwy ddiolch i'm cyd-Aelodau yn y Siambr am eu hymatebion cadarnhaol iawn a'u cyfraniadau i'r ddadl hon y prynhawn yma. Roeddwn yn arbennig o falch o glywed y cyfraniad gan Dafydd Elis-Thomas y tu cefn i mi—

17:40

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am always behind you; do not worry. [Laughter.]

Rwyf bob amser y tu cefn i chi; peidiwch â phoeni. [Chwerthin.]

17:40

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am glad that we have been able to cheer up his Wednesday afternoon. As you know, Deputy Presiding Officer, Lord Elis-Thomas rarely bestows his good opinions on people, therefore, it is particularly valuable when he does so.

Rwy'n falch ein bod wedi llwyddo i godi ei galon ar brynhawn dydd Mercher. Fel y gwyddoch, Ddirprwy Lywydd, anaml iawn y mae'r Arglwydd Elis-Thomas yn canmol pobl, felly, mae'n arbennig o werthfawr pan fydd yn gwneud hynny.

17:41

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

How very helpful. [Laughter.]

Defnyddiol iawn. [Chwerthin.]

17:41 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As for Constitution Hill, well, may I tell the Chamber that, in all of the years that I have known Peter Black, I have never ever seen him on a bicycle? [Laughter.] I would, therefore, be very frightened indeed to see him attempt to go down Constitution Hill on a bicycle, let alone watch him try to climb back up it. It could add to the not insignificant challenges at Morriston accident and emergency department, I suspect. [Laughter.]

O ran Constitution Hill, wel, a gaf ddweud wrth y Siambr, ar hyd yr holl flynyddoedd rwyf wedi adnabod Peter Black, nid wyf erioed wedi ei weld ar gefn beic. [Chwerthin.] Byddwn, felly, yn ofnus iawn yn wir o'i weld yn ceisio mynd i lawr Constitution Hill ar gefn beic, heb sôn am ei wylio yn ceisio dringo i fyny'r rhiw wedyn. Gallai ychwanegu at yr heriau nid ansylweddol yn adran damweiniau ac achosion brys Treforys, mae arnaf ofn. [Chwerthin.]

Could I thank the Minister for her very positive response to the debate? I look forward to being kept informed as the work of her task and finish group—or her review group—goes forward. The Minister, it seems to me, understood the need to develop a green strategy for public transport here in Wales to help her to meet her colleagues' Government goals of making Wales a truly green economy. So, that is very welcome. I think that she was right, Deputy Presiding Officer, to stress the need for good quality, accessible buses.

A gaf ddiolch i'r Gweinidog am ei hymateb cadarnhaol iawn i'r ddadl? Edrychaf ymlaen at gael y diweddaraf wrth i'w grŵp gorchwyl a gorffen—neu ei grŵp adolygu fynd rhagddo. Mae'r Gweinidog, yr ymddengys imi, yn deall yr angen i ddatblygu strategaeth werdd ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus yma yng Nghymru i'w helpu i gyflawni nodau ei chyd-Weinidogion yn y Llywodraeth o wneud Cymru yn economi wirioneddol wyrdd. Felly, mae hynny i'w groesawu'n fawr. Credaf ei bod yn iawn, Ddirprwy Lywydd, i bwysleisio'r angen am fysiau hygyrch o safon dda.

Let us be clear, accessible transport is beneficial to all users, not just to those who have a disability. It is a very positive experience to ensure that people with young children, for instance—. Who has not seen young mothers struggling with buggies, babies and shopping trying to get on to an inaccessible bus? Being able to have clear information on a bus, both in written and audible forms is not just good for those who, perhaps, have a visual or sensory impairment, but it is vital for tourists who want to travel around our country using our public transport.

Gadewch inni fod yn glir, mae trafnidiaeth hygyrch yn fuddiol i bob defnyddiwr, nid yn unig i'r rhai sydd ag anabledd. Mae'n brofiad cadarnhaol iawn i sicrhau bod pobl sydd â phlant ifanc, er enghraifft—. Mae pawb wedi gweld mamau ifanc yn cael trafferth gyda bygis, babanod a siopa yn ceisio disgyn ar fws anhygyrch? Mae'r gallu i gael gwybodaeth glir ar fws, a ffurf ysgrifenedig a chlywadwy nid yn unig yn fuddiol i'r rhai sydd, efallai, â nam ar y golwg neu'r synhwyrau, ond mae'n hanfodol i ymwelwyr sydd am deithio o amgylch ein gwlad gan ddefnyddio ein trafnidiaeth gyhoeddus.

We heard many examples this afternoon of good practice from within Wales. Individual local authorities and community groups are trying to respond to situations in their communities to provide a service. We need to spread that good practice. We are a small enough nation not to have that good practice existing in isolation. We need to do more to spread that across Wales and to ensure that we have a more equitable service. There are parts of Wales that are well serviced. Bwcabus, which was talked about again today, is a very good service, but there is simply not enough of those kinds of services across the rest of Wales. As we heard, and as the Minister acknowledged, we need to look at examples beyond Wales's borders as well to see what we can learn from those and incorporate those into our response.

Clywsom lawer o enghreifftiau y prynhawn yma o arfer da yng Nghymru. Mae awdurdodau lleol unigol a grwpiau cymunedol yn ceisio ymateb i sefyllfaoedd yn eu cymunedau er mwyn darparu gwasanaeth. Mae angen inni ledaenu'r arfer da hwnnw. Rydym yn genedl ddigon bach i sicrhau nad yw arferion da presennol yn bodoli mewn gwacter. Mae angen inni wneud mwy i ledaenu hynny ledled Cymru ac i sicrhau bod gennym wasanaeth tecach. Mae rhannau o Gymru yn cael eu gwasanaethu'n dda. Mae Bwcabus, a grybwyllwyd unwaith eto heddiw, yn wasanaeth da iawn, ond nid oes digon o'r mathau hynny o wasanaethau yng ngweddill Cymru. Fel y clywsom, ac fel y cydnabu'r Gweinidog, mae angen inni edrych ar enghreifftiau y tu hwnt i ffiniau Cymru hefyd i weld beth y gallwn ei ddysgu ganddynt a'u cynnwys yn ein hymateb.

A number of people talked about the inclusion in the Silk part 2 report of the devolution of powers over bus regulation and the opportunities presented by re-regulation. This is something that I feel very, very strongly about. It would give us more powers to ensure that we have the kind of bus routes that Julie James talked about, making sure that they go to the right kinds of places and acknowledge that, perhaps, some communities and user groups are ignored by the market. So, that is very welcome indeed.

Soniodd nifer o bobl am y ffaith bod adroddiad rhan 2 Silk wedi cynnwys datganoli pwerau dros reoleiddio bysiau a'r cyfleoedd a gyflwynir gan ail-reoleiddio. Mae hyn yn rhywbeth rwyf yn teimlo'n gryf iawn yn ei gylch. Byddai'n rhoi mwy o bwerau inni sicrhau bod gennym y math o lwybrau bws y soniodd Julie James amdanynt, gan sicrhau eu bod yn mynd i'r lleoedd cywir a chydnabod, efallai, fod rhai cymunedau a grwpiau defnyddwyr yn cael eu hanwybyddu gan y farchnad. Felly, mae hynny i'w groesawu'n fawr.

We believe very strongly that a young person's concessionary scheme in Wales would bring significant benefits. It would be crucial for those looking to pursue educational opportunities. We know that there is no statutory responsibility on local education authorities to provide transport for education post-16 and many local authorities that currently provide that are looking to scale back on that, and that has a potentially huge impact on those who want to continue their studies post-16, but may be prevented from doing so because of the costs associated with that transport. More and more pupils are going to have to pay for that transport.

Credwn yn gryf iawn y byddai cynllun tocynnau rhatach i bobl ifanc yng Nghymru yn esgor ar fanteision sylweddol. Byddai'n hanfodol i'r rhai sydd am fynd ar drywydd cyfleoedd addysgol. Gwyddom nad oes cyfrifoldeb statudol ar awdurdodau addysg lleol i ddarparu cludiant ar gyfer addysg ôl-16 a bod llawer o'r awdurdodau lleol sy'n ei ddarparu ar hyn o bryd yn ystyried ei gwtogi, a bod hynny'n cael effaith enfawr o bosibl ar y rhai sydd am barhau â'u hastudiaethau ôl-16, ond a all gael eu hatal rhag gwneud hynny oherwydd y costau sy'n gysylltiedig â'r cludiant hwnnw. Bydd mwy a mwy o ddisgyblion yn gorfod talu am y cludiant hwnnw.

It is crucial for people accessing the world of work. It is also crucial in developing the habit of using public transport. Why would we expect young people who have been driven around all their lives suddenly to develop the habit of using public transport later in life? It develops good, sustainable travel habits early on. It is vital for increasing young people's wellbeing and their life skills, developing their independence and allowing them to pursue extracurricular activities—engaging in voluntary sector services, volunteering, as well as many other activities that are equally as important as formal educational qualifications.

Mae'n hanfodol i bobl sy'n gweithio. Mae hefyd yn hanfodol i ddatblygu'r arfer o ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Pam y byddem yn disgwyl i bobl ifanc sydd wedi cael eu gyrru o le i le drwy gydol eu hoes yn sydyn ddatblygu'r arfer o ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn ddiweddarach mewn bywyd? Mae'n datblygu arferion teithio da, cynaliadwy yn gynnar. Mae'n hanfodol o ran cynyddu lles a sgiliau bywyd pobl ifanc, meithrin eu hannibyniaeth a rhoi cyfle iddynt ddilyn gweithgareddau allgyrsiol—cymryd rhan mewn gwasanaethau yn y sector gwirfoddol, gwirfoddoli, yn ogystal â llawer o weithgareddau eraill sydd yr un mor bwysig â chymwysterau addysgol ffurfiol.

I remember how important it was to be able to catch the 110 or the 111 service, which I was pleased to see, when I checked the website today, still exists in my village. It allowed me to travel to Swansea to pursue volunteering opportunities and—I am sure, to some people's regret—it allowed me to travel into Llanelli to attend local Liberal Democrat party meetings. [Laughter.] It has a lot to answer for. However, without that bus service, those opportunities simply would not have been available to me. I had a mother who did not drive and I had a father who worked full time some distance away from home and so simply was not there to be able to be the mum and dad taxi service.

Cofiaf pa mor bwysig oedd fy mod yn gallu dal y gwasanaeth 110 neu 111, ac roeddwn yn falch o weld, pan edrychais ar y wefan heddiw, ei fod yn dal i fodoli yn fy mhentref. Bu'n fodd imi deithio i Abertawe i achub ar gyfleoedd i wirfoddoli ac—er mawr edifeirwch i rai, mae'n siŵr gennyf—imi deithio i Lanelli i fynychu cyfarfodydd plaid y Democratiaid Rhyddfrydol lleol. [Chwerthin.] Mae ganddo lawer i ateb drosto. Fodd bynnag, heb y gwasanaeth bws hwnnw, yn syml, ni fyddai'r cyfleoedd hynny wedi bod ar gael imi. Nid oedd fy mam yn gallu gyrru ac roedd fy nhad yn gweithio'n llawn amser, gryn bellter i ffwrdd o'r cartref ac felly nid oedd ar gael i fod yn wasanaeth tacsi mam a dad.

These opportunities are vital, and that is why we are proposing this particular policy initiative today. I am glad that the Minister will be supporting the motion. I look forward to hearing about progress on work in this area. My only question is: when? When will we be able to move forward on this agenda and give young people the opportunity of accessing good-quality public transport at a rate that they can afford?

Mae'r cyfleoedd hyn yn hanfodol, a dyna pam rydym yn cynnig y fenter bolisi benodol hon heddiw. Rwy'n falch y bydd y Gweinidog yn cefnogi'r cynnig. Edrychaf ymlaen at glywed am hynt y gwaith yn y maes hwn. Fy unig gwestiwn yw: pryd? Pryd y byddwn yn gallu symud ymlaen ar yr agenda hon a rhoi cyfle i bobl ifanc ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus o safon dda am bris y gallant ei fforddio?

17:47

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that the motion be agreed without amendment. Does any Member object? There is objection, therefore I will defer voting on this item until voting time.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio? A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Oes, felly gohiriaf y pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

17:47

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Voting time now follows. Before I conduct the first vote, are the three Members who wish the bell to be rung? There are not.

Bydd y cyfnod pleidleisio yn dilyn yn awr. Cyn imi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

## Cyfnod Pleidleisio

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5448.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 18, Yn erbyn 36, Ymatal 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5448.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 42, Yn erbyn 0, Ymatal 13.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5448.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 42, Yn erbyn 0, Ymatal 13.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5448

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 55, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

Cynnig NDM5448 fel y'i diwygiwyd:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau bysiau i bobl Cymru.

2. Yn cydnabod bod angen Comisiynydd Traffig penodol i Gymru.

3. Yn croesawu argymhelliad y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru i ddatganoli pŵer rheoleiddio dros fysiau i Lywodraeth Cymru

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gydweithio â'r diwydiant bysiau a phartneriaid eraill i sicrhau sefydlogrwydd ar gyfer y diwydiant bysiau a theithwyr.

5. Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i ddiogelu gwasanaethau bysiau yng Nghymru.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5448 fel y'i diwygiwyd.

*Derbyniwyd cynnig NDM5448 fel y'i diwygiwyd: O blaid 42, Yn erbyn 0, Ymatal 13.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5449.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 50, Yn erbyn 5, Ymatal 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5450.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 43, Yn erbyn 12, Ymatal 0.*

## Voting Time

Result of the vote on motion NDM5448.

*Motion not agreed: For 18, Against 36, Abstain 0.*

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5448.

*Amendment agreed: For 42, Against 0, Abstain 13.*

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5448.

*Amendment agreed: For 42, Against 0, Abstain 13.*

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5448.

*Amendment agreed: For 55, Against 0, Abstain 0.*

Motion NDM5448 as amended:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Recognises the importance of bus services to the people of Wales.

2. Recognises the need for a dedicated Traffic Commissioner for Wales.

3. Welcomes the recommendation of the Commission on Devolution in Wales to devolve regulatory power over buses to the Welsh Government.

4. Calls on the Welsh Government to work with the bus industry and other partners to ensure stability for the bus industry and passengers.

5. Further calls on the Welsh Government to protect bus services in Wales.

Result of the vote on motion NDM5448 as amended.

*Motion NDM5448 as amended agreed: For 42, Against 0, Abstain 13.*

Result of the vote on motion NDM5449.

*Motion agreed: For 50, Against 5, Abstain 0.*

Result of the vote on motion NDM5450.

*Motion agreed: For 43, Against 12, Abstain 0.*

17:50 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Will those Members who are leaving the Chamber please do so quickly and quietly? That includes me.

A wnaiff yr Aelodau hynny sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel os gwelwch yn dda? Mae hynny'n fy nghynnwys innau.

*Daeth Peter Black i'r Gadair am 17:50.*

*Peter Black took the Chair at 17:50.*

17:50

## Dadl Fer: Adeiladwch Hi ac Mi Ddôn Nhw?

## Short Debate: Build It and They Will Come?

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

### Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'n dda gennyf gyflwyno'r ddadl ar ailagor y rheilffordd rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth. Hoffwn roi munud o'm hamser i Rebecca Evans, Elin Jones, William Powell a Byron Davies.

I am pleased to open the debate on re-opening the railway between Carmarthen and Aberystwyth. I wish to give a minute of my time to Rebecca Evans, Elin Jones, William Powell and Byron Davies.

Mae'r ddadl heddiw yn amserol iawn. Mae'n dilyn sawl dadl ar drafnidiaeth yn y lle hwn, ond caf ar ddeall ei bod hefyd yn dod ar ôl i'r Gweinidog gwrdd heddiw â nifer o grwpiau yn ymwneud â rheilffyrdd yn y canolbarth, o gwmpas canol Cymru a'r Cambria, i weld yr hyn y gallwn ei wneud i ddatblygu rheilffyrdd yng Nghymru. Dyma'r lein sydd gennym ni ar ôl toriadau Beeching, wrth gwrs, ond heddiw hoffwn weld sut y gellid ailagor yr hon a oedd unwaith yn lein bwysig iawn o Gaerfyrddin i Aberystwyth. Gwnaf hynny gan ei bod yn gyfan gwbl yn fy rhanbarth ond gan ei rhoi, yn ogystal, yn y cyd-destun o welliannau ac ail-greu cysylltiadau a fyddai'n creu ffigwr wyth o reilffyrdd o gwmpas Cymru, gan gynnwys ailagor y rheilffordd o Afonwen i Fangor a gwelliannau o gwmpas lein ardal Abertawe.

Today's debate is very timely. Indeed, it comes after a number of debates on transport in this place, but, from what I understand, it also comes after the Minister met today with a number of groups involved with the railways in mid Wales, around the Heart of Wales and the Cambrian lines, to see what we can do to develop our railways in Wales. This is the line that we have left after the Beeching closures, of course, but I want to look at what we can do to re-open what was once a very important line from Carmarthen to Aberystwyth. I do so because it is entirely within my region, but also by putting it in the context of improvements and re-establishing connections that would create a figure of eight of railways across Wales, including re-opening the Afonwen to Bangor railway and improvements around the line in the Swansea area.

Mae rheilffordd Caerfyrddin i Aberystwyth ar gof o hyd. Fe'i caewyd yn derfynol i nwyddau, sef llaeth, ym 1973, bron union ganrif ar ôl ei chodi. I'r rhai sydd â diddordeb, aeth y cledrau o Gaerfyrddin, drwy Fronwydd a Chynwyl Elfed, i Bencader wedyn drwy dwnnel hir, i Lanybydder a Llanbed, ac wedyn ar hyd dyffryn Teifi drwy Dregaron ac Ystrad Fflur cyn croesi i ddyffryn Ystwyth a Thrawsgoed ac ymlaen i Aberystwyth—hen ffordd y Rhufeiniaid. Erbyn hyn, mae llawer o'r lein o Aberystwyth yn llwybr seiclo—Taith Ystwyth—ac y mae'n hyfryd iawn, er nad wyf wedi cwblhau'r llwybr eto.

The Carmarthen to Aberystwyth line is still in living memory. It was finally closed to freight, namely milk transportation, in 1973, almost a century after it was first opened. For those interested, the track ran from Carmarthen, through Bronwydd and Cynwyl Elfed, to Pencader through a long tunnell, to Llanybydder and Lampeter, and then along the Teifi valley through Tregaron and Strata Florida before crossing to the Ystwyth valley and Trawsgoed and then on to Aberystwyth—following the old Roman way. These days, much of the line from Aberystwyth is the Taith Ystwyth cycle path, which is very pleasant indeed, although I have not cycled its length yet.

Dros y blynyddoedd, bu nifer yn ceisio adfer rhan o'r lein ar gyfer rheilffordd dreftadaeth, ond, ers tua 2000, bu'r galw a'r drafodaeth am ail-greu cledrau rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth yn cynyddu. Yn ddiweddar iawn, sefydlwyd grŵp ymgyrchu Traws Link Cymru i weithio dros adfer y cyswllt hwn, a'r cyswllt atodol i Fangor. Nid peiriannydd sifil mohonof ac nid wyf yn ymddiddori mewn trenau yn arbennig, felly fy unig ddiddordeb i yw adnabod y posibiliad o agor cefn gwlad gorllewin Cymru i drafnidiaeth fodern a gweld datblygiadau cyffrous a all gryfhau'r economi yn sylweddol. Yr un dadleuon, wrth gwrs, a ddefnyddiwyd i ailagor lein Glyn Ebwy a thros Fetro i Gaerdydd a'r Cymoedd.

Over the years, many have tried to restore the line as a heritage railway, but, since 2000, the debate and the call for re-opening the line between Carmarthen and Aberystwyth have intensified. Recently, a campaign group called Traws Link Cymru was established to work for the re-opening of this connection, and the auxiliary connection to Bangor. I am no civil engineer and I take no great interest in trains in particular, so my only interest here is to identify the possibilities of opening rural west Wales to modern transportation and to see exciting developments that could strengthen the economy considerably. The same arguments were made for the re-opening of the Ebbw Vale line and for a Metro service for Cardiff and the Valleys.

Felly, nid wyf am gynnig lein, yn benodol, na'r math o lwybr y gellid ei gymryd, ond mae'n werth trafod yr opsiynau. Mae'r hyrwyddwyr y tu ôl i Traws Link Cymru yn awgrymu defnyddio tipyn o'r hen lein, sydd yno o hyd, gyda darn newydd o Alltwalis i Gaerfyrddin ac ail-leoli pwrpasol mewn lleoedd eraill. Gellid cael gorsafoedd wedyn ar gyfer Llandysul/Pencader, Llanybydder, Llanbed, Tregaron, Llanilar a Llanfarian, a chymudo i mewn i Aberystwyth. Byddai hynny'n golygu taith o ryw awr a hanner rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol gyda'r awr a chwarter a gymerir, i bob pwrpas, mewn car, a'r ddwy awr—fel y gwn yn iawn—ar y bws. Byddai eraill yn ffafrio ailystyried y beirianneg yn llwyr, gan gynnig dull cledrau ysgafn, efallai, o'r math sy'n caniatáu i drenau fynd oddi ar y cledrau i redeg ar olwynion yn hytrach na chledrau traddodiadol. Byddai hynny yn golygu, o bosibl, llai o waith peirianyddol. Yr hyn sydd gennym erbyn hyn, yn siŵr, yw'r dechnoleg a'r beirianneg nad oedd gan y Fictoriaid, ac ni fyddai codi lein o'r fath yn anhawster peirianyddol o gwbl.

Therefore, I will not specify a route that this line should take, but it is worth discussing the options. Those promoting Traws Link Cymru suggest using much of the old line, which is still in place, with a new section from Alltwalis to Carmarthen and purposeful re-location in other areas. We could then have stations for Llandysul/Pencader, Llanybydder, Lampeter, Tregaron, Llanilar and Llanfarian, then commuting into Aberystwyth. That would involve a journey of approximately an hour and a half between Aberystwyth and Carmarthen, which compares favourably with the hour and a quarter that it takes by car, and the two hours—as I well know—by bus. Others would favour re-looking at the engineering in its entirety, proposing a light rail system—the kind that allows trains to go off the tracks and run on wheels rather than on a traditional track. That would possibly mean less engineering work. What we now have, certainly, is the technology and engineering that was not available to the Victorians, therefore, actually opening such a line would not create an engineering problem.

Cwestiwn arall, mae'n wir, yw'r defnydd a'r gost. Rwy'n ffyddiog nad oes amheuaeth y daw pobl i ddefnyddio'r lein hon. Aiff yn gyswllt hanfodol rhwng de a gogledd Cymru, ac o'r gorllewin i Abertawe a Chaerdydd. Mae 55,000 o bobl yn byw ar hyd y llwybr arfaethedig rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth, sy'n cymharu â'r 50,000—sydd ychydig yn llai—sydd yn byw ar hyd y llwybr o Aberystwyth i'r Amwythig. Mae'r lein honno nid yn unig ar agor o hyd, ond mae'n cynyddu o ran ei defnydd. Gyda thwf Caerfyrddin ac Aberystwyth fel canolfannau gwaith ac economaidd—ac mae Plaid Cymru am weld mwy o ffocws ar hynny—nid oes dwywaith na fyddai'r lein yn denu pobl yn eu cannoedd o filoedd. Byddai llawer yn ei defnyddio i gymudo, i ymweld ag ysbytai, i siopa ac fel rhan o'r rhwydwaith o'r de i'r gogledd. Byddai llawer o bobl eraill am ei defnyddio ar gyfer twristiaeth, mae'n siŵr. Byddai hyd yn oed yn gyfle i symud ambell un o lorïau Mansel Davies oddi ar yr hewl ac i'r rheilffordd.

The other question, of course is the usage and the cost. I am in no doubt that people would use this line. It would become a crucial link between north and south Wales, and from west Wales to Swansea and Cardiff. 55,000 people live along the proposed route between Carmarthen and Aberystwyth, which compares with the 50,000—a little less—who live on the route from Aberystwyth to Shrewsbury. Not only is that line still open, but it is increasing in terms of its usage. With the growth of Carmarthen and Aberystwyth as work and economic centres—and Plaid Cymru wants to see more focus on that—there is no doubt that the line would attract people in their hundreds of thousands. Many people would use it to commute, to go to hospitals, to go shopping and as part of the north-south network. Many others would use it for tourism purposes, I am sure. It would even provide an opportunity to move a few Mansel Davies lorries from our roads to our rails.

Byddai'r gost, yn wir, yn her. Adeiladwyd lein newydd ar gyfer ardal y Borders yn yr Alban—yn wir, mae'n cael ei hadeiladu ar hyn o bryd—sy'n 31 milltir o hyd. Bydd yn costio tua £11 miliwn y filltir. Mae hynny'n golygu mai'r gost o adeiladu lein o'r fath o Gaerfyrddin i Aberystwyth fyddai £650 miliwn ar y mwyaf. Mae'n wir fod hynny'n llawer o arian, ond gallai peirianwaith arall ddod â chost y lein i lawr. Os dodwch chi'r mater yng nghyswllt cau'r bwlch rhwng Criccieth a Bangor, gwelliannau ar lein y Cambrian—gwasanaeth pob awr, os gwelwch yn dda, Weinidog—a lein Calon Cymru, ac yng nghyd-destun cysylltiadau bysus, yr hyn a gewch chi yw rhwydwaith cyfan gwbl genedlaethol a fyddai'n cynnig opsiynau go iawn i deithio heb gar drwy'r rhan fwyaf o Gymru. At hynny, bydd gennych gynllun a fyddai'n creu gwaith a sgiliau yn y gorllewin ac mewn un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn economaidd drwy Ewrop. Byddai cyfle am brentisiaethau lleol, cyfle am sgiliau yn y coleg, a chyfle am gaffael lleol i fusnesau am gyfnod hir. Byddai buddsoddiad o dros £0.5 biliwn i gysylltu'r ddwy dref bwysig hon yn gwneud mwy i gadw'r iaith yn fyw yn siroedd Caerfyrddin a Cheredigion na'r un strategaeth iaith na'r un tasglu, waeth ba mor wych ydynt.

The cost, it is true to say, would be a challenge. A new line has been built for the Borders region in Scotland—actually, it is being built at present—which is 31 miles long and will cost something like £11 million per mile. That would mean that the cost of constructing a similar line from Carmarthen to Aberystwyth would be £650 million at most. That is, of course, a significant amount of money, but different engineering proposals could bring the cost down. If you look at this in the context of closing the gap between Cricieth and Bangor, improvements to the Cambrian line—and hourly service, please, Minister—and the Heart of Wales line, and in the context of bus links, what you have is a truly national network that would offer real options to travel without a car across most of Wales. In addition to that, you would have a scheme that will create jobs and skills in west Wales, in one of the most economically disadvantaged areas in Europe. It would provide opportunities for local apprenticeships, skills in colleges and local procurement for businesses over a long period. Therefore, investment of more than £0.5 billion to link these two important towns would do more to keep the Welsh language alive in the counties of Carmarthenshire and Ceredigion than any language strategy or any taskforce, however excellent they may be.

Dylem hefyd frwydro am yr arian hwn. Ar hyn o bryd, ac yn ôl cynlluniau Network Rail, bydd Cymru'n cael 3% o wariant adeiladwaith Network Rail dros y cyfnod nesaf. Mae hynny'n llawer llai na Barnett, hyd yn oed. Pe byddem yn cael 5%, yn unol â Barnett, byddai hynny'n rhoi £135 miliwn y flwyddyn yn ychwanegol inni. Pe byddem yn cael arian canlyniadol Barnett ar gyfer gwariant HS2, byddai hynny'n £1.9 biliwn ychwanegol inni—hen ddigon nid yn unig i adeiladu'r lein hon, ond i gau'r bwlch i Fangor hefyd. Hyd yn oed gyda thrydaneiddio'r llinell i Abertawe a'r Metro, byddem yn dal i wario'n llai na'n cyfran deg o arian rheilffyrdd yng Nghymru. Mae'n hen bryd newid hyn, a pha well cynllun na rheilffordd sy'n agor y gorllewin.

We should also fight for this money. At present, according to Network Rail's projections, Wales will have 3% of Network Rail's infrastructure expenditure over the ensuing period, which is far less than Barnett. If we had 5%, in line with Barnett, that would give us an additional £135 million a year. If we had a Barnett consequential for HS2 expenditure, that would give us an additional £1.9 billion, which would be more than enough to not only build this line, but to address the issue in terms of Bangor. Even with the electrification of the line to Swansea and the Metro, we would still be spending less than our fair share of railway expenditure here in Wales. It is about time that this changed, and what better scheme than a railway that opens up the west of Wales.

What I am looking for is a sense of imagination and vision that west Wales could again have a proper rail service. The first task of any Government that takes public transport seriously must be to ensure that the route between Carmarthen and Aberystwyth is treated as a transport corridor of national importance, with regular coach services. However, for the medium term, it means committing to a proper feasibility study on the reinstatement of a rail link between Aberystwyth and Carmarthen, which is a piece of work that is well suited to the next round of EU structural funds.

Yr hyn yr wyf yn chwilio amdano yw ymdeimlad o ddychymyg a gweledigaeth y gallai'r gorllewin gael gwasanaeth rheilffordd go iawn unwaith eto. Y dasg gyntaf i unrhyw Lywodraeth sy'n cymryd trafnidiaeth gyhoeddus o ddifrif yw sicrhau bod y llwybr rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth yn cael ei drin fel coridor trafnidiaeth o bwys cenedlaethol, sydd â gwasanaethau bysiau rheolaidd. Fodd bynnag, yn y tymor canolig, mae'n golygu ymrwymo i astudiaeth ddichonoldeb briodol o'r posibilrwydd y gellid adfer cyswllt rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin, sef darn o waith sy'n addas iawn i'r rownd nesaf o gronfeydd strwythurol yr UE.

When the line was taken up the Teifi valley and across Cors Caron, or Tregaron bog, it was a kind of echo of the folk stories of the devil pulling down overnight new churches being built. The navies found that they could not get across the bog without their day's work sinking and disappearing. Some bright spark had an idea, inspired perhaps by the landscape around and some considerable native ingenuity. The line was built, resting on tons and tons of sheep fleeces, packed tightly together. It floats, if you will, across the bog. It certainly trod more lightly than any road. It is that kind of ingenuity, vision, character and determination that we will need if we are ever to see a rail link between these two vital Welsh towns again. I believe that we have that vision and capability. I believe that we have the determination to see it through. What we need now is for the Minister to at least take seriously the work on building a feasibility study and case for funding.

Pan aethpwyd â'r lein i fyny drwy ddyffryn Teifi ac ar draws Cors Caron, neu gors Tregaron, roedd yn fath o adlais o'r straeon gwerin am y diafol yn tynnu i lawr dros nos unrhyw eglwysi newydd a adeiladwyd. Canfu'r labrwyr na allent groesi'r gors heb i ffrwyth eu llafur y diwrnod hwnnw suddo a diflannu. Yna cafodd un person peniog syniad, a ysbrydolwyd efallai gan y dirwedd o'i gwmpas a chryn dipyn o ddyfeisgarwch cynhenid. Codwyd y lein, ar ben tunelli ar dunelli o gnuoedd defaid, wedi'u pacio'n dynn at ei gilydd. Mae'n arnofio, os mynnwch, ar draws y gors. Roedd yn sicr yn ysgafnach nag unrhyw ffordd. Dyna'r math o ddyfeisgarwch, gweledigaeth, cymeriad a phenderfyniad sydd eu hangen arnom os ydym am weld cyswllt rheilffordd rhwng y ddwy dref Gymreig bwysig hyn eto. Credaf fod gennym y weledigaeth a'r gallu hynny. Credaf fod gennym y penderfyniad i gyflawni hynny. Yr hyn sydd ei angen arnom yn awr yw i'r Gweinidog o leiaf gymryd y gwaith o ddatblygu astudiaeth ddichonoldeb ac achos dros gyllid o ddifrif.

Speaking against the closure of this line in 1966, Lord Elystan Morgan—who, unlike the line, is thankfully still with us—said that reversing the closure would be

Wrth siarad yn erbyn y cynlluniau i gau'r lein hon yn 1966, dywedodd yr Arglwydd Elystan Morgan—sydd gyda ni o hyd diolch byth, yn wahanol i'r lein—y byddai gwrthdroi'r cynlluniau i gau

'an opportunity to indulge in a bold social, and Socialist experiment'.

yn gyfle i roi cynnig ar arbrawf Sosialaidd a chymdeithasol beiddgar.

I can almost hear his voice in my head now. I am sure that that vision appeals to the present Minister. I am very grateful for the huge amount of support and encouragement that I have had in preparing for this debate. I would like to see this debate lead, in time, to what they have had in Scotland, which would be a national Bill to build a new line between Carmarthen and Aberystwyth. I particularly want to thank Rob Phillips of the Traws Link Cymru group. In less than a week, I have received scores of e-mails, tweets and Facebook messages. All of them have been individual; none have been produced by a computer or bots. I want to end by quoting just one, from Mr Clive Thomas, which, for me, sums up the huge potential of this project:

Gallaf glywed ei lais yn fy mhen nawr bron. Rwy'n siŵr bod y weledigaeth honno'n apelio at y Gweinidog presennol. Rwy'n ddiolchgar iawn am yr holl gefnogaeth ac anogaeth a gefais wrth baratoi ar gyfer y ddadl hon. Hoffwn weld y ddadl hon yn arwain, ymhen amser, at yr hyn y maent wedi'i gael yn yr Alban, sef Bil cenedlaethol i adeiladu lein newydd rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth. Hoffwn ddiolch yn arbennig i Rob Phillips o grŵp Traws Link Cymru. Mewn llai nag wythnos, rwyf wedi derbyn llu o e-byst, negeseuon trydar a negeseuon Facebook. Mae pob un ohonynt wedi bod yn unigol; ni chynhyrchwyd yr un ohonynt gan gyfrifiadur na botiau. Rwyf am orffen drwy ddyfynnu o un ohonynt, gan Mr Clive Thomas, sydd, yn fy marn i, yn crynhoi potensial enfawr y prosiect hwn:

'I fully endorse the campaign to re-open the railway line from Aberystwyth to Carmarthen. My reasons are personal; when they closed the line my dad lost his work and we all had to relocate to England. Luckily I never lost my roots and came home to Wales. I want to see that mistake put right.'

Rwy'n llwyr gefnogi'r ymgyrch i ailagor y rheilffordd o Aberystwyth i Gaerfyrddin. Rhesymau personol sydd gennyf dros wneud hynny; pan wnaethant gau'r lein, collodd fy nhad ei waith a bu'n rhaid inni gyd symud i Loegr. Yn ffodus ni chollais fy ngwreiddiau a deuthum adref i Gymru. Rwyf am weld y camgymeriad hwnnw'n cael ei gywiro.

I say to you, Minister: build it, and they will come home.

Dywedaf wrthych, Weinidog: adeiladwch y lein, a byddant yn dod adref.

18:00

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to Simon Thomas for giving me a minute in his debate today. Like other Members, I have had a deluge of correspondence from constituents expressing enthusiastic support for this proposal and I am keen to reflect at least some of those arguments in this debate. I cannot do them all justice in such a short time, so I have made representations to the UK Government on this, because, ultimately, this is still a matter that is reserved to Westminster.

Rwy'n ddiolchgar i Simon Thomas am roi munud imi yn ei ddadl heddiw. Fel Aelodau eraill, rwyf wedi cael llu o ohebiaeth gan etholwyr yn mynegi cefnogaeth frwd i'r cynnig hwn ac rwy'n awyddus i adlewyrchu o leiaf rai o'r dadleuon hynny yn y ddadl hon. Ni allaf wneud cyfiawnder â'r rhain i gyd mewn cyn lleied o amser, felly rwyf wedi cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ar y mater oherwydd, yn y pen draw, mae wedi'i neilltuo i San Steffan o hyd.

Some of the arguments that have been shared with me include that the line would offer better business and commuter links. It would benefit tourism and promote jobs and growth. It would provide better links to the three university colleges that sit on the line, benefiting students, staff and the universities themselves. It would improve community links and social inclusivity. I have also heard how reopening the line could help to address the limitations of the road network and help to alleviate transport poverty, which I have spoken about many times in this Chamber. Travelling by train remains one of the most green and environmentally friendly ways of getting around.

Mae rhai o'r dadleuon a rannwyd gyda mi yn cynnwys y byddai'r lein yn cynnig gwell cysylltiadau busnes a chymudo. Byddai o fudd i dwristiaeth ac yn hyrwyddo swyddi a thwf. Byddai'n cynnig gwell cysylltiadau i'r tri choleg prifysgol sydd wedi'u lleoli ar y lein, er budd myfyrwyr, staff a'r prifysgolion eu hunain. Byddai'n gwella cysylltiadau cymunedol a chynhwysiant cymdeithasol. Rwyf hefyd wedi clywed sut y gallai ailagor y lein helpu i fynd i'r afael â chyfyngiadau'r rhwydwaith ffyrdd a helpu i leddfu tlodi trafnidiaeth, yr wyf wedi siarad amdano lawer gwaith yn y Siambr hon. Teithio ar y trên yw un o'r ffyrdd mwyaf gwyrdd ac ecogyfeillgar o symud o gwmpas o hyd.

Simon has referred to some examples where lines are being reopened elsewhere in the UK and I know that it is also happening beyond the UK. Communities benefit from that. In this one minute, that was my snapshot of the very passionate support that has been shared with me. I am pleased to be able to make those arguments on their behalf today.

Mae Simon wedi cyfeirio at rai enghreifftiau lle mae leiniau'n cael eu hailagor mewn mannau eraill yn y DU a gwn fod hynny'n digwydd y tu hwnt i'r DU hefyd. Mae cymunedau yn elwa ar hynny. Mewn munud, dyna fy nghiplun i o'r gefnogaeth frwd iawn a rannwyd gyda mi. Rwy'n falch o allu cyflwyno'r dadleuon hynny ar ran y bobl hynny heddiw.

18:01 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch i Simon Thomas am gynnig y ddadl hon y prynhawn yma. Mae'n siŵr mai ysbrydoliaeth y ddadl yw'r gwaith ymgyrchu y mae'r grŵp newydd-sefydledig, Traws Link Cymru, yn ei hyrwyddo i ailagor y gwasanaeth trên rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin a thrwy Lambed. Rwyf wedi bod yn cyfarfod gyda'r grŵp hwnnw ac mae brwdfrydedd yr aelodau yn heintus iawn ac mae wedi cyrraedd y Cynulliad heddiw.

I thank Simon Thomas for proposing this debate this afternoon. I am sure that the inspiration for the debate is the campaign work of the new group, Traws Link Cymru, to reopen the train service between Aberystwyth and Carmarthen and through Lampeter. I have been meeting with that group and the members' enthusiasm is infectious and has reached the Assembly today.

Rhaid cofio fod y rheilffordd hon, o'i datblygu, yn uno tair tref prifysgol. Rydym wedi clywed y prynhawn yma pa mor bwysig yw trafnidiaeth gyhoeddus yng nghyd-destun myfyrwyr a datblygiad prifysgolion. Mae hwn yn gynllun mawr ac mae'n gyffrous hefyd. Mae'n gynllun ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain ar gyfer y gorllewin gwledig. Rydym yn aml yn trafod y cysylltiadau o'r de i'r gogledd yng nghyd-destun y coridor i'r dwyrain o Gymru—rheilffordd neu'r A470. Mae'n bwysig ein bod yn trafod y cysylltiadau o'r gogledd i'r de yng nghyd-destun y gorllewin. Mae'r ddadl hon yn ymwneud â'r syniad realistig hwn fod angen edrych o ddifrif ar ddichonoldeb yr isadeiledd a'r arian ar gyfer y cysylltiad rheilffordd hwn. Rwy'n gefnogol iawn i'r hyn y mae Simon wedi'i gyflwyno y prynhawn yma.

It must be remembered that this railway, if developed, will bring together three university towns. We have heard this afternoon about the importance of public transport in the context of students and university development. It is a big scheme and it is exciting as well. It is a plan for the twenty-first century for the rural west. We often discuss links from south to north Wales in the context of the corridor to the east—by rail or by the A470. It is important that we discuss the links from north to south Wales in the context of west Wales. This debate relates to the realistic idea that we must look seriously at the feasibility of the infrastructure and the funding for this rail link. I am very supportive of what Simon has presented this afternoon.

18:03 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I would like to thank Simon Thomas for bringing forward this important debate today and I endorse what has been said by colleagues around the Chamber. The level of support that we have seen is entirely on a non-partisan basis. There is real enthusiasm for this project and Simon was right to set it in the context of a wider approach to sustainable transport, which also looks at the enhancement of the potential of the Heart of Wales line, along the lines that have previously been discussed in this Chamber. I also agree with the proposal that this should be looked at in the context of potential European structural funding. However, if a feasibility study and a convincing business case can be worked up, particularly given the connectivity between Swansea, Carmarthen and Aberystwyth via Lampeter, we could be looking at something that could attract funding from the European Investment Bank, which is looking for innovative projects of this kind. I would urge that approach and look forward to further meetings with the campaign group on this issue following the petition in 2012, which also enjoyed considerable support across the region.

Hoffwn ddiolch i Simon Thomas am gyflwyno'r ddadl bwysig hon heddiw ac ategaf yr hyn a ddywedwyd gan gyd-Aelodau o amgylch y Siambr. Mae'r gefnogaeth yr ydym wedi'i gweld yn gwbl amhleidiol. Mae brwdfrydedd gwirioneddol i'r prosiect hwn ac roedd Simon yn gywir i'w osod yng nghyd-destun ymagwedd ehangach at drafnidiaeth gynaliadwy, sydd hefyd yn ystyried cynyddu potensial lein Calon Cymru, fel y trafodwyd yn flaenorol yn y Siambr hon. Cytunaf hefyd â'r cynnig y dylid ystyried hyn yng nghyd-destun arian strwythurol Ewropeaidd posibl. Fodd bynnag, os gellir datblygu astudiaeth ddichonoldeb ac achos busnes argyhoeddiadol, yn enwedig o ystyried y cysylltedd rhwng Abertawe, Caerfyrddin ac Aberystwyth trwy Lanbedr Pont Steffan, gallem fod yn edrych ar rywbeth a allai ddenu arian gan Fanc Buddsoddi Ewrop, sy'n chwilio am brosiectau arloesol o'r fath. Byddwn yn annog hynny ac edrychaf ymlaen at gyfarfodydd pellach â'r grŵp ymgyrchu ar y mater hwn yn dilyn y ddeiseb yn 2012, a gafodd gryn gefnogaeth drwy'r rhanbarth hefyd.

18:04 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Simon Thomas, for allowing me a moment. It is a personal contribution: I would like to say that I can remember travelling from the Gower area to the Carmarthenshire-Ceredigion border by train at a very young age. It was easier to get there by public transport then than it is now. This is a serious point and it is a serious debate. It is a real issue and worthy of support. I wish that we could turn the clocks back. There are those that are disadvantaged, in particular the young people of west Wales and mid Wales. I believe that we should have this connection, and it should connect, perhaps one day, to an electrified line west of Swansea, so that young people can travel to Cardiff and Swansea, be involved with the law et cetera, on a daily basis, and get home—without having to leave home. Who knows, we might even see more young people staying in Wales as opposed to crossing the border and never coming back again.

Diolch yn fawr iawn, Simon Thomas, am roi munud imi. Mae'n gyfraniad personol: hoffwn ddweud fy mod yn cofio teithio o ardal Gŵyr i ffin Sir Gaerfyrddin-Ceredigion ar y trên pan oeddwn yn ifanc iawn. Roedd yn haws cyrraedd yno ar drafnidiaeth gyhoeddus bryd hynny nag y mae yn awr. Mae hwn yn bwynt difrifol ac mae'n ddadl ddifrifol. Mae'n fater pwysig sy'n haeddu cefnogaeth. Byddai'n dda gennyf pe allem droi'r cloc yn ôl. Mae pobl dan anfantais, yn enwedig pobl ifanc yn y gorllewin a'r canolbarth. Credaf y dylem gael y cyswllt hwn, a dylai gysylltu, un diwrnod efallai, â rheilffordd wedi'i thrydaneiddio i'r gorllewin o Abertawe, fel y gall pobl ifanc deithio i Gaerdydd ac Abertawe, ymwneud â'r gyfraith ac ati, bob dydd, a mynd adref—heb orfod gadael eu cartref. Pwy a ŵyr, efallai y byddwn hyd yn oed yn gweld mwy o bobl ifanc yn aros yng Nghymru yn hytrach na chroesi'r ffin gan beidio â dychwelyd byth.

18:05 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Economy, Science and Transport to reply to the debate, Edwina Hart.

Galwaf ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i ymateb i'r ddadl, Edwina Hart.

18:05 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

I have certainly had a day of transport discussion. Simon, in his opening remarks, indicated that I was having discussions on the Cambrian main line and the Heart of Wales line today. Earlier today, I did meet the Aberystwyth to Shrewsbury rail liaison group to discuss the next steps about a possibly more frequent train service on the Cambrian main line. I hope very much to be making an announcement on that within the next two weeks. Also, in terms of the Heart of Wales line, we are currently looking at the forum's proposals to improve services. This work will also feed into consideration for the next franchise, which is due to start in 2018, and possibly earlier improvements to that area, if I can look at my transport budget. The only thing that stymies my ambition in terms of what we want to do with the rail network, is the cash. I think that those are relevant issues to this particular discussion. We all recognise that rail provides an important means of connectivity to serve the needs of businesses, people and communities.

Rwy'n sicr wedi cael diwrnod o drafod trafnidiaeth. Dywedodd Simon, yn ei sylwadau agoriadol, fy mod yn cynnal trafodaethau ar brif lein y Cambrian a lein Calon Cymru heddiw. Yn gynharach heddiw, cyfarfûm â grŵp cyswllt rheilffordd Aberystwyth i Amwythig er mwyn trafod y camau nesaf ynghylch gwasanaeth trên mwy rheolaidd o bosibl ar brif lein y Cambrian. Rwy'n mawr obeithio y byddaf yn gwneud cyhoeddiad ar hynny o fewn y pythefnos nesaf. Hefyd, o ran lein Calon Cymru, rydym wrthi'n edrych ar gynigion y fforwm i wella gwasanaethau. Bydd y gwaith hwn hefyd yn bwydo i mewn i'r ystyriaeth a roddir i'r fasnachfraint nesaf, sydd i ddechrau yn 2018, a gwelliannau cynharach posibl i'r maes hwnnw, os gallaf edrych ar fy nghyllideb trafnidiaeth. Yr unig beth sy'n rhwystro fy uchelgais o ran yr hyn yr ydym am ei wneud â'r rhwydwaith rheilffyrdd yw'r arian. Credaf fod y materion hynny'n berthnasol i'r drafodaeth benodol hon. Rydym i gyd yn cydnabod bod rheilffyrdd yn gysylltiadau pwysig er mwyn diwallu anghenion busnesau, pobl a chymunedau.

However, as Rebecca said, management of the rail infrastructure is not devolved to the Welsh Government, and the funding provided for new rail infrastructure is provided by the UK Government, currently. We are committed to continue working with Network Rail and others to investigate opportunities for reopening railway lines in Wales. Like Byron Davies, I am old enough to remember the whole history of the Carmarthen to Aberystwyth line, which was entirely closed to passengers in 1965. There was freight transport, I think, from the creamery, was there not, up to Aberaeron? That ended in about 1970. The Newcastle Emlyn to Carmarthen branch ended in 1973.

Fodd bynnag, fel y dywedodd Rebecca, nid yw rheoli'r seilwaith rheilffyrdd wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sy'n darparu'r arian ar gyfer seilwaith rheilffyrdd newydd ar hyn o bryd. Rydym wedi ymrwymo i barhau i weithio gyda Network Rail ac eraill er mwyn ymchwilio i gyfleoedd i ailagor leiniau rheilffordd yng Nghymru. Fel Byron Davies, rwy'n ddigon hen i gofio holl hanes y lein rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth, a gafodd ei chau i deithwyr yn gyfan gwbl yn 1965. Cludwyd nwyddau arni, yr wyf yn credu, o'r hufenfa hyd at Aberaeron. Daeth hynny i ben tua 1970. Daeth cangen Castellnewydd Emlyn i Gaerfyrddin i ben ym 1973.

In October 2008, an alternative rail route between north-west Wales and the south-central area was considered by Taith, TRAC and Network Rail, and an outline plan was considered at that time. The target delivery was estimated to be 2025, and involved 49 miles of standard-gauge single track to be built between Llanfair and Aberystwyth. In fact, there is a full plan still available on this. However, I have to say that the recent activity between the transport partnership organisations, such as TRAC, has been to maximise the benefits of the existing routes on the Heart of Wales and Cambrian lines. Of course, in October 2013, the National Assembly's Committee for Enterprise and Business made some recommendations on the Wales and Border franchise. It looked at some of the issues around that, because it had evidence about the future of a service like this, and about the restoration then of some 80 miles or 128 km of abandoned infrastructure. It was argued that, if there was expenditure on rail, it would mitigate some expenditure on roads and other transport arrangements. The committee concluded that:

Ym mis Hydref 2008, cafodd llwybr rheilffordd amgen rhwng y gogledd-orllewin a de a chanolbarth Cymru ei ystyried gan Taith, TRAC a Network Rail, a chafod chynllun amlinellol ei ystyried bryd hynny. Amcangyfrifwyd mai'r dyddiad targed ar gyfer gyflawni'r cynllun oedd 2025, ac roedd yn cynnwys adeiladu un trac lled safonol am 49 o filltiroedd rhwng Llanfair ac Aberystwyth. Yn wir, mae cynllun llawn ar gael o hyd. Fodd bynnag, rhaid imi ddweud bod gweithgarwch diweddar cyrff y partneriaethau trafnidiaeth, megis TRAC, wedi canolbwyntio ar wneud y gorau o fuddiannau llwybrau presennol lein Calon Cymru a lein y Cambrian. Wrth gwrs, ym mis Hydref 2013, gwnaeth Pwyllgor Menter a Busnes y Cynulliad Cenedlaethol rai argymhellion ar fasnachfraint Cymru a'r Gororau. Edrychodd ar rai o'r materion yn ymwneud â hynny, oherwydd roedd ganddo dystiolaeth am ddyfodol gwasanaeth fel hwn ac am y gwaith o adfer rhyw 80 milltir neu 128 km o seilwaith gadawedig. Dadleuwyd, pe bai arian yn cael ei wario ar reilffyrdd, y byddai hynny'n lleihau rhywfaint o'r gwariant ar ffyrdd a threfniadau trafnidiaeth eraill. Daeth y pwyllgor i'r casgliad canlynol:

'the Welsh Government's aim should be to secure improvements to the infrastructure across the whole franchise area to encourage further growth and ensure the rail network delivers Welsh aspirations'.

dylai Llywodraeth Cymru anelu at wneud gwelliannau i'r seilwaith ledled ardal y fasnachfraint er mwyn annog twf pellach a sicrhau bod y rhwydwaith rheilffyrdd yn cyflawni dyheadau Cymru.

So, there has been a discussion, particularly on some of these issues. There was an initial look at the site between Carmarthen and Aberystwyth back in 2009, and a significant portion of the track bed has been built on, while other sections are no longer visible at all. For example, the line into Lampeter is now home to a supermarket and a car park, the station site is a business development park, with all trace of its former rail use removed, and in the villages of Pencader and Llanfihangel ar Arth, a number of houses have been constructed directly on the railway foundation. So, there are challenges in terms of the discussion that we are having. The indication is that ensuring that the track bed is suitable for modern railway operations is likely to be expensive, so that is a consideration that we look at in terms of transport.

Felly, bu trafodaeth, yn enwedig ar rai o'r materion hyn. Cynhaliwyd archwiliad cychwynnol o'r safle rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth yn ôl yn 2009, ac mae adeiladau wedi'u codi ar gyfran sylweddol o wely'r trac ac nid yw rhannau eraill i'w gweld o gwbl mwyach. Er enghraifft, mae'r lein i mewn i Lanbedr Pont Steffan bellach yn gartref i archfarchnad a maes parcio, mae safle'r orsaf yn barc datblygu busnes, heb unrhyw olion o'r hen reilffordd, ac ym mhentrefi Pencader a Llanfihangel ar Arth, mae nifer o dai wedi cael eu hadeiladu'n uniongyrchol ar sylfeini'r rheilffordd. Felly, mae heriau yn bodoli o ran y drafodaeth yr ydym yn ei chael. Mae sicrhau bod gwely'r trac yn addas ar gyfer gweithrediadau rheilffordd modern yn debygol o fod yn ddrud, felly mae honno'n ystyriaeth sydd o dan sylw o ran trafnidiaeth.

We have tried to be instrumental in delivering a package of measures to improve transport links around the Aberystwyth and Lampeter to Carmarthen corridor. We have dealt with some issues around bus services. However, I understand the passion that has been expressed today, and I will of course discuss with my officials further whether there is any further work that could be undertaken, or whether any further representations could be made. Of course, people might choose to make appropriate representations to the committee for further discussion of these matters. That could then be referred to me, in Government terms.

Rydym wedi ceisio gweithredu i gyflwyno pecyn o fesurau er mwyn gwella cysylltiadau trafnidiaeth o amgylch coridor Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan i Gaerfyrddin. Rydym wedi delio â rhai materion yn ymwneud â gwasanaethau bysiau. Fodd bynnag, deallaf yr angerdd a fynegwyd heddiw a byddaf, wrth gwrs, yn trafod ymhellach â'm swyddogion a oes unrhyw waith arall y gellid ei wneud, neu unrhyw sylwadau pellach y gellid eu gwneud. Wrth gwrs, efallai y bydd pobl yn dewis gwneud sylwadau priodol i'r pwyllgor er mwyn iddo drafod y materion hyn ymhellach. Yna gellid eu cyfeirio ataf i, o ran y Llywodraeth.

I am very mindful of Lord Elystan Morgan, who is still as alert today as he ever was. It is a real pleasure when you see him in the House of Lords and can still have dealings with somebody who has been so eminent in public life in Wales. However, if only we had the money.

Rwy'n ymwybodol iawn o'r Arglwydd Elystan Morgan, sy'n dal i fod mor effro heddiw ag erioed. Mae'n bleser gwirioneddol ei weld yn Nhŷ'r Arglwyddi a delio o hyd â rhywun sydd wedi chwarae rhan mor amlwg mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, gresyn nad oes gennym yr arian.

18:10 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. That brings today's proceedings to a close.

Diolch, Weinidog. Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:10.*

*The meeting ended at 18:10.*